



## Newid categori iaith Ysgol Bro Caereinion Adroddiad Ymgynghori



Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.  
This document is also available in English.

Os oes angen copi papur o'r ddogfen hon arnoch, neu gopi  
o'r ddogfen mewn fformat gwahanol, cysylltwch â'r Tîm  
Trawsnewid Addysg ar 01686 611553, neu anfonwch e-bost  
at [transforming.education@powys.gov.uk](mailto:transforming.education@powys.gov.uk)

# Ymgynghoriad ar newid categori iaith Ysgol Bro Caereinion, Llanfair Caereinion

## Cynnwys

1. TROSOLWG AR YR YMGYNGHORIAD.....	3
2. FFURFLEN YMATEB I'R YMGYNGHORIAD .....	8
3. YMGYNGHORI Â DISGYBLION .....	12
4. CYFARFODYDD YMGYNGHORI Â STAFF A LLYWODRAETHWYR .....	24
5. ESTYN .....	32
6. MATERION A GODWYD DROS Y CYFNOD YMGYNGHORI.....	36

Os oes angen copi o'r ddogfen hon mewn fformat arall arnoch, cysylltwch â'r Tîm  
Trawsnewid Addysg os gwelwch yn dda drwy ffonio 01686 611553 neu e-bostio  
[transforming.education@powys.gov.uk](mailto:transforming.education@powys.gov.uk).

# Ymgynghoriad ar newid categori iaith Ysgol Bro Caereinion

## 1. TROSOLWG AR YR YMGYNGHORIAD

Ymgynghorodd Cyngor Sir Powys ar gynnig i newid categori iaith Ysgol Bro Caereinion. Roedd y cynnig fel a ganlyn:

- Gwneud newid rheoledig i newid cyfrwng y dysgu yn Ysgol Bro Caereinion i gyfrwng Cymraeg
- Byddai hyn yn cael ei gyflwyno fesul cam, flwyddyn wrth flwyddyn, gan ddechrau gyda Dosbarth Derbyn a Blwyddyn 7 ym mis Medi 2025

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 19 Hydref 2023 a 7 Rhagfyr 2023.

### 1.1 Dulliau ymgynghori

Roedd y dogfennaeth ymgynghori ar gael ar wefan y Cyngor drwy gydol y cyfnod ymgynghori, a chawsant eu dosbarthu i randdeiliaid yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018). Roedd fersiwn ar wahân hefyd ar gael i ddisgyblion ar wefan y Cyngor drwy gydol y cyfnod ymgynghori.

Gwahoddwyd y sawl yr ymgynghorwyd â hwy i ymateb i'r ymgynghoriad naill ai drwy lenwi ffurflen ymgynghori ar-lein, llenwi copi papur o'r ffurflen a'i dychwelyd i'r Tîm Trawsnewid Addysg yn Neuadd y Sir, neu drwy e-bostio / ysgrifennu at y Tîm Trawsnewid Addysg.

Cynhaliwyd cyfarfodydd â'r canlynol:

- Disgyblion Ysgol Bro Caereinion – 22 Tachwedd 2023
- Staff Ysgol Bro Caereinion – 22 Tachwedd 2023
- Llywodraethwyr Ysgol Bro Caereinion – 22 Tachwedd 2023
- Disgyblion Ysgol Rhiw Bechan – 28 Tachwedd 2023
- Staff Ysgol Rhiw Bechan – 28 Tachwedd 2023
- Llywodraethwyr Ysgol Rhiw Bechan – 28 Tachwedd 2023

### 1.2 Ymatebion a dderbyniwyd

Cwblhaodd cyfanswm o 493 o ymatebwyr y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad a oedd wedi'i gynnwys yn y ddogfen ymgynghori. Roedd hyn yn cynnwys copïau papur yn ogystal ag ymatebion a gyflwynwyd gan ddefnyddio'r ffurflen ymateb ar-lein.

Yn ogystal, derbyniwyd 30 o ymatebion ysgrifenedig drwy e-bost neu'r post gan ymatebwyr, yn cynnwys Estyn. Mae'r ymateb a dderbyniwyd gan Estyn wedi'i ddarparu ar dudalen 18, yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion.

Yn ogystal, derbyniwyd 336 o ymatebion ysgrifenedig gan ddisgyblion Ysgol Bro Caereinion.

Yn ogystal ag ymatebion gan rieni, llywodraethwyr, aelodau staff ac aelodau o'r gymuned, derbyniwyd ymatebion gan y sefydliadau canlynol:

Derbyniwyd 205 o gardiau post hefyd yn cynnwys y datganiad canlynol:

*Hoffwn ddatgan fy nghefnogaeth i'r cynnig i newid categori iaith Ysgol Bro Caereinion / I wish to declare my support for the proposal to change the language category of Ysgol Bro Caereinion*

Roedd yr ymatebion ysgrifenedig yn cynnwys canfyddiadau holiadur ar-lein, a oedd yn gofyn i'r ymatebwyr nodi a oeddent yn cytuno â'r datganiad ar y cardiau post ai peidio, a oedd â 301 o ymatebion. Roedd yr ymatebion fel a ganlyn:

Anghytuno – ffrwd ddeuol yn aros / Disagree – dual stream to remain	273 (90.7%)
Cytuno – continwwm cyfrwng Cymraeg arfaethedig / Agree – proposed Welsh Medium continuum	28 (9.3%)

### **1.3 Crynodeb o'r materion a godwyd**

Rhestrir y materion a godwyd yn yr ymateb i'r ymgynghoriad yn fanwl yn adran 6 ar dudalen 36. Mae hyn yn cynnwys ymateb y Cyngor i bob mater. Dyma grynodeb o'r materion a godwyd:

#### **Sylwadau i gefnogi'r cynnig**

- Dylai'r newid fod wedi digwydd cyn hyn
- Bydd y cynnig yn arwain at well darpariaeth yn yr ysgol
- Bydd y cynnig yn arwain at ethos Cymraeg cryfach yn yr ysgol
- Effaith gadarnhaol ar ddisgyblion
  - Byddai disgyblion yn cael gwell cyfleoedd i ddod yn gwbl ddwyieithog
  - Byddai gwell sgiliau Cymraeg yn cael effaith gadarnhaol ar y cyfleoedd fyddai ar gael i ddisgyblion yn y dyfodol
- Bydd y cynnig yn diogelu'r ddarpariaeth uwchradd yn Llanfair Caereinion
- Llanfair Caereinion yw'r lleoliad cywir ar gyfer darpariaeth uwchradd Gymraeg ddynodedig
- Cefnogaeth i'r cynnig gael ei weithredu yn y Dosbarth Derbyn a Blwyddyn 7 ar yr un pryd
- Byddai'r cynnig yn darparu dilyniant i ddisgyblion cyfrwng Cymraeg
- Byddai'r cynnig yn darparu cydraddoldeb i ddisgyblion cyfrwng Cymraeg
- Mae'r cynnig yn adlewyrchu'r cynnydd yn nifer y disgyblion cyfrwng Cymraeg yn yr ardal

- Bydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg yn yr ardal
- Sylwadau am fodolau cyflenwi cyfrwng Cymraeg
  - Pryderon am y model dwy ffrwd
  - Sylwadau cadarnhaol am ysgolion Cymraeg
- Sylwadau am staffio
  - Effaith gadarnhaol ar staff presennol
  - Byddai'n haws denu staff
  - Sylwadau eraill
- Sylwadau am effaith ar y gymuned
- Mae'r cynnig yn cefnogi gweithredu strategaethau amrywiol
- Sylwadau eraill

### **Sylwadau nad ydynt yn cefnogi'r cynnig**

- Sylwadau am yr effaith ar ddisgyblion
  - Effaith ar les disgyblion
  - Effaith ar gyflawniad disgyblion
  - Pryder am yr effaith ar ddisgyblion cyfrwng Saesneg yn ystod y cyfnod pontio
  - Ni fyddai disgyblion yn gallu symud o un ffrwd i'r llall
  - Byddai disgyblion cyfrwng Saesneg yn clywed llai o Gymraeg
  - Mae disgyblion angen sgiliau Saesneg nid sgiliau iaith Gymraeg
  - Pryder am yr effaith ar allu disgyblion i gael mynediad i addysg bellach / uwch
  - Sylwadau eraill
- Sylwadau'n ymwneud â threfniadau gweithredu
  - Pryder am yr amserlen arfaethedig
  - Pryder am y cynnig i newid y ddarpariaeth ym mlwyddyn 7
  - Sylwadau am drefniadau trafndiaeth
  - Pryder am ddarpariaeth Trochi
- Sylwadau am yr effaith ar rieni / teuluoedd
  - Ni fydd rhieni / teuluoedd yn gallu cefnogi eu plant
  - Efallai y bydd gan rieni / teuluoedd blant mewn mwy nag un ysgol
- Sylwadau am staffio
  - Pryder am yr effaith ar staff
  - Pryder am y gallu i recriwtio staff sy'n siarad Cymraeg
  - Pryder am ansawdd staff yn y dyfodol
- Pryder am yr effaith ar y gymuned
  - Bydd y cynnig yn achosi rhaniad yn yr ardal
  - Pryder na fyddai pobl eisiau byw yn yr ardal
  - Ni fyddai ysgol Gymraeg yn adlewyrchu'r gymuned ddwyieithog yn Llanfair Caereinion
  - Pryder am yr effaith ar dimau chwaraeon a digwyddiadau eraill yn yr ardal
  - Sylwadau eraill am effaith ar y gymuned
- Pryder am yr effaith ar niferoedd disgyblion Ysgol Bro Caereinion
- Sylwadau am yr angen am ddewis
- Sylwadau am wahaniaethu / gwahanu
- Pryder am yr effaith ar y Gymraeg

- Nid Llanfair Caereinion yw'r lleoliad cywir ar gyfer ysgol Gymraeg
- Sylwadau eraill

### **Sylwadau eraill**

- Sylwadau am Ysgol Bro Caereinion
  - Sylwadau am y ddarpariaeth bresennol yn yr ysgol
  - Sylwadau am adeiladau a chyfleusterau'r ysgol
  - Mae disgyblion cyfrwng Gymraeg a Saesneg yn cael eu trin yn wahanol
  - Mae disgyblion cyfrwng Saesneg yn yr ysgol yn elwa o glywed mwy o Gymraeg
  - Sylwadau am lywodraethwyr Ysgol Bro Caereinion
- Sylwadau / cwestiynau am ysgolion eraill
  - Ysgol Rhiw Bechan
  - Darparwyr cynradd eraill
  - Darparwyr uwchradd eraill
- Sylwadau am effaith ar staff
- Sylwadau am gefnogaeth ychwanegol y byddai ei hangen i gefnogi'r newid
  - Darpariaeth Trochi
  - Cymorth ychwanegol i ddisgyblion
  - Darpariaeth ADY
  - Cefnogaeth i staff
  - Cefnogaeth i rieni
  - Trefniadau trafndiaeth
  - Hyrwyddo pontio i Ysgol Bro Caereinion ar gyfer disgyblion Cymraeg yn yr ardal
  - Cyllid ychwanegol
  - Buddsoddiad cyfalaf
  - Codi ymwybyddiaeth
  - Sylwadau / ymholiadau eraill
- Ymholiadau ariannol
  - Sylwadau am effaith ariannol y cynnig
  - Sylwadau am sefyllfa ariannol Ysgol Bro Caereinion
  - Sylwadau am drefniadau ariannu'r Cyngor
  - Sylwadau eraill
- Sylwadau am Lywodraeth Cymru
- Opsiynau Eraill
  - Cadw ysgol ddwy ffrwd yn Llanfair Caereinion
  - Cyfnod Derbyn yn unig
  - Newid y llinell amser
  - Gweithredu'r newid yn y cynradd ond nid yr uwchradd
  - Cynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Gymraeg ar gyfer dysgwyr cyfrwng Saesneg yn Ysgol Bro Caereinion
  - Agor ysgol Gymraeg mewn lleoliad arall
  - Cyflwyno darpariaeth Gymraeg mewn manau eraill
  - Adolygu ysgolion eraill
  - Cau'r ysgol
  - Buddsoddi yn yr ysgol

- Datblygu'r ddarpariaeth yn Ysgol Bro Caereinion
- Awgrymiadau eraill
- Beirniadaeth o'r Cyngor
- Sylwadau am y broses ymgynghori
  - Sylwadau am gyfarfodydd / ymgysylltu â'r gymuned
  - Sylwadau am ymgynghori â disgyblion
  - Sylwadau am ymgysylltu anffurfiol
  - Sylwadau am amseru'r cynnig
  - Nid yw'r ymgynghoriad yn gyfreithlon
  - Mae'r ymgynghoriad yn rhagfarnllyd
  - Dylai mwy o wybodaeth fod wedi cael ei rhannu i gefnogi'r ymgynghoriad
  - Sylwadau am gyfathrebu
  - Pryder am bobl o'r tu allan i'r ardal yn dylanwadu ar y penderfyniad
  - Sylwadau eraill
- Sylwadau am y ddogfennaeth ymgynghori
  - Sylwadau cyffredinol am y ddogfennaeth
  - Sylwadau / cwestiynau am rannau penodol o'r ddogfennaeth
  - Sylwadau / cwestiynau am ddata
  - Sylwadau am y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad
  - Ceisiadau am wybodaeth ychwanegol
  - Sylwadau / cwestiynau eraill
- Ceisiadau am wybodaeth ychwanegol
- Sylwadau / cwestiynau eraill

## 2. FFURFLEN YMATEB I'R YMGYNGHORIAD

Cwblhaodd 376 o ymatebwyr y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad Saesneg a oedd ar gael ar-lein, a chwblhaodd 101 o ymatebwyr y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad Cymraeg a oedd ar gael ar-lein.

Yn ogystal, derbyniwyd 16 copi papur o'r ffurflen ymateb trwy e-bost neu drwy'r post.

Crynohir canfyddiadau meintiol yr holiadur isod.

Roedd sylwadau ysgrifenedig hefyd wedi'u cynnwys yn y ffurflenni ymateb i'r ymgynghoriad. Mae'r materion a godwyd yn y sylwadau hyn wedi'u cynnwys yn Adran 6 yr adroddiad hwn.

### Rhan 1 – Amdanoch chi

1. Dywedwch os gwelwch yn dda beth yw eich cysylltiad â'r ysgolion y mae'r ymgynghoriad hwn yn effeithio arnynt:

Ymateb	Nifer	%
Rhiant, gofalwr neu warchodwr	230	39.72
Llywodraethwr	17	2.94
Aelod o'r gymuned	164	28.32
Dim cysylltiad	16	2.76
Darpar riant, gofalwr neu warcheidwad	58	10.02
Aelod o staff	39	6.74
Arall / Sefydliad	55	9.50
<b>Cyfanswm yr ymatebion</b>	<b>579</b>	<b>100%</b>

2. Dywedwch gyda pha ysgol y mae gennych gysylltiad:

Ymateb	Nifer	%
Ysgol Bro Caereinion	334	63.98
Ysgol fwydo / ysgol arall	113	21.65
Dim cysylltiad	67	12.84
Arall	8	1.53
<b>Cyfanswm yr ymatebion</b>	<b>522</b>	<b>100%</b>

3. Rhowch eich cod post os gwelwch yn dda:

Ymateb	Nifer	%
Machynlleth	8	1.64
Abergele	1	0.20
Talybont	1	0.20
Y Trallwng	322	65.85
Bangor	1	0.20



Croesoswallt	4	0.82
Llanbedr Pont Steffan	2	0.41
Y Drenewydd	79	16.16
Caerdydd	6	1.23
Llandrindod	1	0.20
Penrhyndeudraeth	1	0.20
Llanidloes	4	0.82
Llanfair-ym-Muallt	1	0.20
Llanelli	3	0.61
Caerfyrddin	3	0.61
Llundain	1	0.20
Stafford	1	0.20
Trefaldwyn	9	1.84
Llandinam	4	0.82
Llanbryn-mair	2	0.41
Llanfyllin	30	6.13
Amwythig	1	0.20
Heb ateb y cwestiwn	4	0.82
<b>Cyfanswm yr ymatebion</b>	<b>489</b>	<b>99.97%</b>

## Rhan 2 – Amdanoch chi

9. Faint yw eich hoed?

<b>Ymateb</b>	<b>Nifer</b>	<b>%</b>
O dan 16	9	1.84
16-24	20	4.10
25-34	64	13.11
35-44	148	30.33
45-54	127	26.02
55-64	66	13.52
65-74	31	6.35
75-84	6	1.23
85+	3	0.61
Gwell gen i beidio â dweud	14	2.87
<b>Cyfanswm yr ymatebion</b>	<b>488</b>	<b>99.98%</b>

10. Beth yw eich rhywedd?

<b>Ymateb</b>	<b>Nifer</b>	<b>%</b>
Dyn	135	28.24
Menyw	317	66.32
Rhywedd-hyblyg	1	0.21
Anneuaid	1	0.21
Rhywedd-niwtral	1	0.21
Arall	2	0.42
Gwell gen i beidio â dweud	21	4.39
<b>Cyfanswm yr ymatebion</b>	<b>478</b>	<b>100%</b>

11. Ydych chi'n gallu deall, siarad neu ysgrifennu Cymraeg?

<b>Yateb</b>	<b>Nifer</b>	<b>%</b>
Ydw	305	63.67
Nac ydw	117	24.43
Gwell gen i beidio â dweud	57	11.90
<b>Cyfanswm yr Atebion</b>	<b>479</b>	<b>100%</b>

12. Os oes gennych blant oed ysgol, a oes ganddynt hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim?

<b>Ymateb</b>	<b>Nifer</b>	<b>%</b>
Oes	51	11.70
Nag oes	305	69.95
Gwell gen i beidio â dweud	42	9.63
Amherthnasol	38	8.72
<b>Cyfanswm yr ymatebion</b>	<b>436</b>	<b>100%</b>

13. Os oes gennych blant oed ysgol, a oes ganddynt unrhyw anghenion dysgu ychwanegol?

<b>Ymateb</b>	<b>Nifer</b>	<b>%</b>
Oes	46	10.60
Nag oes	300	69.12
Gwell gen i beidio â dweud	43	9.91
Amherthnasol	45	10.37
<b>Cyfanswm yr ymatebion</b>	<b>434</b>	<b>100%</b>

14. A ydych yn ystyried eich hun i fod yn anabl?

<b>Ymateb</b>	<b>Nifer</b>	<b>%</b>
Ydw	12	2.59
Nac ydw	414	89.22
Gwell gen i beidio â dweud	38	8.19
<b>Cyfanswm yr ymatebion</b>	<b>464</b>	<b>100%</b>

18. Beth yw eich tarddiad ethnig?

<b>Ymateb</b>	<b>Nifer</b>	<b>%</b>
Gwyn	436	91.40
Asiaidd	1	0.21
Du, Affricanaidd neu Garibïaidd	1	0.21
Cymysg	2	0.42
Sipsiwn / Teithiwr	1	0.21
Rhywbeth arall	3	0.63
Gwell gen i beidio â dweud	33	6.92

<b>Cyfanswm</b>	<b>477</b>	<b>100%</b>
-----------------	------------	-------------

### 3. YMGYNGHORI Â DISGYBLION

Mae'r sylwadau a dderbyniwyd gan ddisgyblion wedi'u hamlinellu isod. Mae'r rhain yn cynnwys nodiadau'r cyfarfodydd a gynhaliwyd gyda disgyblion Ysgol Bro Caereinion a disgyblion Ysgol Rhiw Bechan, yn ogystal â chrynodeb o'r ymatebion ysgrifenedig a dderbyniwyd gan ddisgyblion.

#### 3.1 Cyfarfodydd ymgynghori gyda disgyblion

##### i) **Cyfarfodydd ymgynghori gyda disgyblion Ysgol Bro Caereinion – 22 Tachwedd 2023**

Fel rhan o gynnis y cyngor i newid categori iaith Ysgol Bro Caereinion, cynhaliwyd cyfarfodydd gyda 4 grŵp o ddisgyblion, er mwyn rhoi cyfle iddynt roi eu barn ar y cynnis i'r Cyngor.

Dechreuodd pob cyfarfod drwy egluro cynnis y cyngor, ac egluro pwrpas y cyfnod ymgynghori, sef casglu barn ar y cynnis.

##### **Cyfarfod 1 – Disgyblion uwchradd cyfrwng Cymraeg – 12.00 – 12.50**

Mynychodd 25 o ddisgyblion o flynyddoedd 7 i 13.

Ar ôl esbonio'r cynnis a'r broses, gofynnwyd i ddisgyblion wneud sylwadau ar y cynnis:

##### **Ydy rhai ohonoch chi'n meddwl bod y cynnis yn beth da? Os felly, pam ydych chi'n meddwl hynny?**

- Mae rhieni yn yr ardal eisoes yn dewis addysg Gymraeg yn hytrach nag addysg Saesneg
- Mae 'na lot o Gymry yn yr ardal ond dim llawer o Saeson
- Mae mwy o alw am addysg Gymraeg
- Mae addysg Gymraeg yn cynyddu mewn lot o ysgolion fel Ysgol Dafydd Llwyd
- Mae angen ysgol Gymraeg yn y sir. Os nad yw'r ysgol yn Llanfair, fe fydd yn digwydd yn rhywle arall, ac fe fydd hynny'n cau Ysgol Llanfair.

##### **Beth am elfennau nad ydynt mor dda o'r cynnis? Pam ydych chi'n meddwl nad yw'n beth da?**

- Mae'r ysgol yn fach beth bynnag – o le mae'r plant yn mynd i ddod?
- O ble mae'r athrawon Cymraeg yn mynd i ddod? Does neb ar gael ar hyn o bryd i ddysgu mathemateg yn Gymraeg – mae'r ysgol eisoes yn ei chael hi'n anodd recriwtio athrawon sy'n gallu addysgu yn y Gymraeg
- Mae ffrwd Gymraeg a Saesneg eisoes yn yr ysgol, pam bod angen tynnu'r ffrwd Saesneg allan? Byddai'n creu rhwyg/gwrthdaro yn y gymuned
- Beth os nad yw pobl yn gallu ymdopi mewn addysg Gymraeg? Beth fyddai'n digwydd iddyn nhw?

- Mae'r dewis o addysg Gymraeg eisoes yma – dwi ddim yn meddwl bod angen tynnu'r ffrwd Saesneg
- Byddai tynnu plant allan yn tynnu arian allan o'r ysgol – pwy sy'n mynd i ddod yma i gymryd lle'r plant sy'n gadael?
- Mae rhieni'n poeni na fyddan nhw'n gallu helpu gyda gwaith cartref ac ati.
- Pryder am yr effaith ar blant ag anghenion arbennig. Oherwydd y model dwy ffrwd, gall disgyblion sydd â rhai anghenion symud i'r ffrwd Saesneg os oes angen, ond pe bai'r newid yn digwydd, byddai angen iddynt symud i ysgol arall.

### **Pa gwestiynau eraill sydd gennych ynglŷn â'r cynnig?**

- A fyddai'n rhaid i bob aelod o staff allu siarad Cymraeg, neu ai dim ond staff addysgu? Beth am staff cegin ac ati?
- A fyddai hyn yn digwydd pe na bai arian yn brin?
- Pa gyfleoedd ychwanegol fyddai disgyblion yn eu cael mewn ysgol Gymraeg i'w gymharu ag ysgol dwy ffrwd?
- A fyddai disgwyl i blant siarad Cymraeg yn ystod amser egwyl ac ati?
- Os na fydd y newid hwn yn digwydd, beth yw dyfodol yr ysgol?
- Lle fyddai plant Saesneg yn mynd oherwydd mae'r rhan fwyaf o ysgolion eraill yr ardal yn llawn.
- Faint fyddai'n ei gostio i dalu am fysiau i ysgolion eraill i blant cyfrwng Saesneg? Pwy fyddai'n talu amdanynt?
- A yw hyn mwy i sicrhau dyfodol yr ysgol neu i dicio bocs gyda'r Llywodraeth?
- Os bydd hyn yn digwydd ac arian ychwanegol yn dod, beth fyddwch chi'n ei wario arno?

### **Sylwadau eraill**

- Rydw i wedi dysgu llawer o'r sgwrs yma heddiw, dwi ddim yn meddwl bod pobl yn y gymuned yn deall
- Ar hyn o bryd mae llawer o blant yn meddwl eu bod nhw'n mynd i gael eu taflu allan o'r ysgol – efallai bod negeseuon anghywir yn mynd o gwmpas y lle.
- Mae rhai o'r bobl sydd wedi rhoi eu plant mewn addysg Gymraeg wedi gwneud hynny am eu bod yn credu y bydd cyfrwng iaith yn newid.
- Dylen ni roi mwy o bwyslais ar gefnogi disgyblion yn y ffrwd Saesneg i allu siarad Cymraeg yn well – mae llawer o ffrindiau yn dweud eu bod nhw'n gallu siarad Sbaeneg yn well na Chymraeg!
- Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, does dim digon o gefnogaeth wedi bod i blant ag anghenion arbennig – does dim arian wedi bod i'w cefnogi. Pe bai digon o gyllid, ni fyddai'n rhaid i rai o'r plant hynny symud i'r cyfrwng Saesneg.

Atgoffwyd y disgyblion fod yr ymgynghoriad yn rhedeg tan 7 Rhagfyr ac y gallant anfon unrhyw sylwadau eraill sydd ganddynt i'r tîm fel y gellir eu hystyried yn yr ymgynghoriad.

## Cyfarfod 2 – Disgyblion cynradd cyfrwng Saesneg – 1.25 – 1.55

Roedd 35 o ddisgyblion yn bresennol sydd ar hyn o bryd yn mynychu dosbarthiadau cyfrwng Saesneg yng nghyfnod cynradd yr ysgol.

Ar ôl esbonio'r cynnig a'r broses, gofynnwyd i'r disgyblion roi eu barn:

### Pam nad yw'r cynnig yn syniad da?

- Dyw e ddim yn deg, mae'n teimlo fel bod y Gymraeg yn cymryd drosodd
- Mae dysgwyr Saesneg eisoes wedi dysgu Saesneg, a dydyn nhw ddim yn gwybod llawer o Gymraeg – fydd yn anodd iddynt ddysgu digon o Gymraeg
- Efallai y bydd rhaid i'r ysgol gau os na fydd llawer o bobl yn dod yma
- Efallai y bydd rhai plant yn symud ysgolion, a allai olygu y byddent yn colli ffrindiau
- Mae pobl wedi bod yma ers amser maith a byddent yn colli'r athrawon
- Pam newid nawr? Mae wedi bod fel hyn ers amser hir
- Mae'n effeithio ar lawer o bobl
- Byddai'n effeithio ar ddysgwyr eraill o ysgolion eraill sy'n dod i gyfnod uwchradd yr ysgol
- Bydd yn effeithio ar addysg pobl, a bydd yn ymyrryd ag addysg disgyblion os ydynt wedi dechrau yn Saesneg
- Bydd yn gwneud dysgu'n anoddach i'r rhai di-Gymraeg
- Bydd pobl Saesneg yn drist am eu bod yn gorfod dysgu Cymraeg
- Bydd yn gwneud pob sesiwn dysgu yn anoddach, a bydd dechreuwyr newydd yn ei chael hi'n anoddach i ddysgu
- Pryder y byddai'n anodd gwneud arholiadau ym mlwyddyn 11 oherwydd y byddent yn y Gymraeg
- Efallai y bydd rhai o'r athrawon Saesneg yn colli eu swyddi
- Efallai y bydd ofn ar ddisgyblion os oes rhaid iddynt symud ysgol
- Pryder am waith cartref – efallai na fydd disgyblion a phobl sy'n siarad Cymraeg gartref i helpu gyda gwaith cartref
- Ddim yn syniad da achos does dim athrawon mathemateg sy'n siarad Cymraeg

### A oes unrhyw un yn meddwl y byddai rhywbeth da am y syniad hwn?

- Gallai pobl ddysgu mwy o ieithoedd
- Byddai'n annog mwy o bobl i ddefnyddio'r Gymraeg

**Eglurodd swyddogion y byddai darpariaeth 'Trochi' ar gael i alluogi disgyblion sy'n cael eu haddysgu yn Saesneg ar hyn o bryd i ddysgu Cymraeg a symud i'r ffrwd Gymraeg. Gwnaed y cwestiynau / sylwadau canlynol am y ddarpariaeth hon:**

- Petae ni'n gwneud darpariaeth Trochi, a fydden ni'n dysgu digon o Gymraeg i fynd i'r ysgol uwchradd yma?
- Oes 'Trochi' i ddisgyblion symud i'r ffrwd Saesneg?

- A ellir gwneud y Trochi ar-lein?
- Byddai'r Trochi yn oriau ysgol
- Pa mor hir mae'n ei gymryd i ddysgu Cymraeg ar Trochi?
- Lle bydd y Trochi?

### **Cwesiynau eraill am y cynnig**

- Ai'r flwyddyn 6 bresennol fyddai'r flwyddyn olaf a allai gael darpariaeth uwchradd cyfrwng Saesneg?
- Pam ddim mynd yn gyfrwng Saesneg i gyd?
- A fyddai disgyblion blwyddyn 8 yn yr uwchradd dal yn gallu cael addysg Saesneg?
- Pam mae'n rhaid iddo fod yn Llanfair?
- A fyddai gwisg newydd?
- A fydd yn rhaid i ni gael merched cinio sy'n siarad Cymraeg?
- A yw'n bleidlais?
- Sut ydych chi'n mynd i gadw'r disgyblion yn y Saesneg fel nad ydyn nhw'n symud ysgolion?
- Pryd fyddwn ni'n gwybod a fydd hyn yn digwydd?

### **Sylwadau eraill**

- Mae'r disgyblion yn poeni am y newid posibl hwn
- Efallai y bydd yn rhaid i rai disgyblion symud i fynd i ysgolion cyfrwng Saesneg
- Efallai y bydd rhai athrawon yn gadael oherwydd nad ydyn nhw'n siarad Cymraeg
- Mae'n dda cael opsiynau i wneud Cymraeg neu Saesneg

Eglurwyd y bydd yr ymgynghoriad yn parhau tan 7 Rhagfyr, anogwyd disgyblion i ysgrifennu unrhyw sylwadau sydd ganddynt i lawr os byddant yn meddwl am unrhyw beth arall a'u rhoi i'w hathrawon a fydd yn sicrhau eu bod yn cael eu hanfon ymlaen.

### **Cyfarfod 3 – Disgyblion cynradd cyfrwng Cymraeg – 2.05 – 2.35**

Roedd 34 o ddisgyblion yn bresennol sy'n mynychu dosbarthiadau cyfrwng Cymraeg yng nghyfnod cynradd yr ysgol.

Ar ôl esbonio'r cynnig a'r broses, gofynnwyd i ddisgyblion roi eu barn:

### **Pam ydych chi'n meddwl y byddai'r cynnig yn syniad da?**

- Byddai pawb yn cael addysg Gymraeg ac yn gallu siarad Cymraeg
- Bydd pobl sydd ond yn siarad Saesneg yn gallu dysgu Cymraeg
- Os na wnawn ni hyn, bydd y Gymraeg yn marw
- Byddai cyfle i gael mwy o blant Cymraeg i ddod yma

- Os oes gennych ffrindiau yn y ffrwd Saesneg, dydych chi ddim yn gallu siarad Cymraeg gyda nhw ar hyn o bryd, ond byddai pawb yn gallu siarad Cymraeg felly mae'n beth da

### **Pam nad yw'r cynnig yn syniad da?**

- Ni fyddai'n deg i'r plant yn y dosbarth Saesneg oherwydd byddai'n rhaid iddynt fynd i ysgol arall
- Byddem yn colli ffrindiau pe baen nhw'n symud ysgol
- Efallai y bydd yr ysgol yn colli llawer o ddisgyblion a byddai'n rhaid i'r ysgol gau
- Ni fyddai'n deg i famau a thadau pe bai brodyr a chwiorydd yn cael eu haddysgu mewn ieithoedd gwahanol / ysgolion gwahanol
- Byddai'n rhaid i blant deithio ymhellach i gael addysg yn Saesneg
- Efallai na fydd digon o blant i wneud tîm chwaraeon os bydd plant Saesneg yn gadael
- Byddai'r plant Saesneg yn cael eu gorfodi i wneud rhywbeth nad ydyn nhw am ei wneud
- Efallai y bydd llawer o athrawon Saesneg yn gadael yr ysgol

### **Cwestiynau / sylwadau eraill**

- Beth fydd yn digwydd i ddosbarthiadau Saesneg?
- I ble fydd yr athrawon Saesneg yn mynd?
- Ai Ysgol Bro Caereinion yn unig sy'n dod yn ysgol Gymraeg?
- A fydd hyn yn effeithio ar blant sydd eisoes yn yr ysgol uwchradd?
- Beth os yw'r plant i gyd yn gadael yr ysgol ac nad oes digon o blant ar ôl?
- Pam ydych chi'n rhoi arian cyn addysg plant?
- A fydd hyn yn effeithio ar blant sydd eisoes yn yr ysgol uwchradd?
- A fydd yn rhaid i bobl sy'n byw yma fynd i'r Trallwng?

Eglurwyd y bydd yr ymgynghoriad yn parhau tan 7 Rhagfyr. Mae disgyblion wedi cael eu hannog i ysgrifennu unrhyw sylwadau eraill y gallant feddwl amdanynt, a'u rhoi i'w hathrawon, a fydd yn sicrhau eu bod yn cael eu hanfon ymlaen.

### **Cyfarfod 4 – Disgyblion Uwchradd cyfrwng Saesneg – 2.35 – 3.25**

Roedd tua 22 o ddisgyblion yn bresennol o bob grŵp blwyddyn.

Ar ôl esbonio'r cynnig a'r broses, gofynnwyd i'r disgyblion am eu barn:

### **Pam nad ydych chi'n meddwl bod hyn yn syniad da?**

- Mae hon yn ardal ddwyieithog, byddai hyn yn rhannu'r ardal
- Byddai'r cynnig yn dileu dewis
- Mae plant eisoes yn ei chael hi'n anodd ymdopi yn Saesneg
- Mae'n annheg i'r disgyblion a'r staff cyfrwng Saesneg
- Pryder y byddai athrawon sydd ddim yn siarad Cymraeg yn colli eu swyddi



- Bydd yn effeithio ar ddysgwyr iau sydd â brodyr a chwiorydd hŷn – efallai y bydd yn rhaid iddynt fynd i wahanol ysgolion
- Byddai brodyr a chwiorydd a ffrindiau yn cael eu gwahanu
- Does gan lawer o ddisgyblion neb sy'n siarad Cymraeg gartref felly byddai'n anoddach iddyn nhw wneud gwaith cartref ac ati
- Byddai'n arwain at raniad mawr yn y gymuned
- Gall fod yn anodd i ddisgyblion wneud ffrindiau os oes rhaid iddynt symud i ysgol wahanol
- O ble'r fydd y staff yn dod? Mae'r ysgol eisoes yn ei chael hi'n anodd cael athro mathemateg Cymraeg
- Mae llawer o rieni'n dewis y ffrwd Gymraeg oherwydd bod y rhwyd ddiogelwch yno i symud i'r ffrwd Saesneg pe bai angen. Fodd bynnag, ni fyddai'r rhwyd ddiogelwch yno mwyach.
- Mae rhai disgyblion yn symud i'r ffrwd Saesneg yn ddiweddarach yn yr ysgol uwchradd i wneud TGAU yn barod ar gyfer y brifysgol ac ati – fydden nhw ddim yn gallu gwneud hyn.
- Mae rhai rhieni yn yr ardal wedi rhoi eu plant yn y ffrwd Gymraeg yn y cynradd gan wybod y gallant symud i gyfrwng Saesneg yn yr uwchradd
- Byddai'n rhaid i'r disgyblion godi'n gynt i gyrraedd yr ysgol
- Mae'r model presennol yn golygu bod disgyblion cyfrwng Cymraeg a Saesneg yn helpu ei gilydd i ddatblygu sgiliau yn y ddwy iaith
- Pryder y bydd yr athrawon i gyd yn gadael, yna ni allai unrhyw ddisgyblion ddod yma, ac yn y pen draw ni fyddai ysgol
- Byddai'n anoddach i ddisgyblion drosglwyddo i'r brifysgol os ydynt wedi bod drwy addysg Gymraeg
- Byddai'n anoddach i ddisgyblion ag anghenion ychwanegol e.e. disgyblion â dyslecsia sydd eisoes yn ei chael hi'n anodd dysgu yn Saesneg
- Pryder y byddai'n rhaid i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol fynd i ysgolion eraill fel Y Trallwng a'r Drenwydd
- Pryder y byddai'n rhaid i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol fynd i wahanol ysgolion i'w brodyr a'u chwiorydd / ffrindiau

### **A oes unrhyw beth yr ydych chi'n meddwl fyddai'n dda am y cynlluniau?**

Ni wnaed unrhyw sylwadau.

### **Cwestiynau eraill**

- Mae disgyblion yn cael eu gwersi yn Gymraeg yn barod, felly beth yw'r broblem?
- Pam ein hysgol ni a nid ysgolion eraill fel Llanfyllin?
- A fyddai'r cynradd yn troi yn Gymraeg hefyd?
- Beth am sefydlu ysgol Gymraeg newydd yn rhywle arall?
- Ai cyllide yw'r unig reswm pam mae hyn wedi digwydd?
- A fydd y Cyngor yn newid y dalgylchoedd?
- Ni all rieni fforddio gyrru eu plant i'r ysgol ddwywaith y dydd.
- Lle byddai'r disgyblion yn mynd?
- A yw'r ddarpariaeth Trochi sy'n cael ei chynnig wedi profi'n effeithiol?

### **Sylwadau eraill**

- Mae llawer o rieni dim ond wedi rhoi eu plant yn y ffrwd Gymraeg oherwydd eu bod yn meddwl y bydd yr iaith yn newid yn y dyfodol
- Efallai y bydd yn rhaid symud rhai plant Cymraeg o'r ysgol os yw eu brodyr a chwiorydd yn symud
- Mae disgyblion eisiau gwneud TGAU yn Saesneg
- Mae disgyblion yn cael eu gwthio / eu gorfodi i'r cyfrwng Cymraeg
- Mae athrawon eisoes yn gadael yr ysgol oherwydd hyn, sy'n amharu ar ddisgyblion presennol sydd mewn blynyddoedd arholiadau
- Mae Llanfair yn gryf ar gyfer Cymraeg ail iaith
- Mae'r disgyblion Cymraeg yn Llanfair yn cael eu trin yn well – mwy o deithiau, cael mynd ar y bws am ddim, cawsant bloc newydd wedi'i adeiladu ar eu cyfer.

Eglurwyd y bydd yr ymgynghoriad yn parhau tan 7 Rhagfyr, anogwyd disgyblion i ysgrifennu unrhyw sylwadau sydd ganddynt i lawr os byddant yn meddwl am unrhyw beth arall a'u rhoi i'w hathrawon a fydd yn sicrhau eu bod yn cael eu hanfon ymlaen.

## ii) **Cyfarfod ymgynghori gyda disgyblion Ysgol Rhiw Bechan – 28ain Tachwedd 2023**

Roedd 16 disgybl o flynyddoedd 4, 5 a 6 yn bresennol o'r ddwy ffrwd.

Cyfarfu swyddogion â disgyblion i drafod yr ymgynghoriad i newid categori iaith Ysgol Bro Caereinion o ddwy ffrwd i gyfrwng Cymraeg fesul cam, gan ddechrau gyda Derbyn a Blwyddyn 7 ym mis Medi 2025.

Eglurodd swyddogion mai syniad yn unig yw'r cynnig ar hyn o bryd, ac mae'r Cyngor yn gofyn i bobl roi gwybod iddynt beth yw eu barn am y cynnig hwn.

Gofynnwyd i'r disgyblion nodi a oeddent yn credu bod hwn yn syniad da, yn syniad drwg neu a oeddent yn ansicr. Nododd bron pob disgybl eu bod yn meddwl ei fod yn syniad gwael.

Yna gofynnwyd i ddisgyblion roi eu barn / sylwadau ar pam ei fod yn syniad drwg neu'n syniad da. Dyma grynodedb o'r sylwadau a wnaed:

### **Pam ydych chi'n meddwl ei fod yn syniad drwg?**

- Byddai'n rhannu teuluoedd – byddai'n rhaid i rai plant fynd i ysgol wahanol i'w brodyr a'u chwiorydd
- Byddai'n rhannu ffrindiau – byddai'n rhaid i ffrindiau fynd i wahanol ysgolion
- Efallai na fydd rhai disgyblion ffrwd Saesneg yn mynd i Fro Caereinion, efallai y byddan nhw'n dewis ysgolion eraill
- Byddai angen mwy o fysiau, a fyddai'n costio mwy, ac a fyddai'n effeithio ar gynhesu byd-eang a newid hinsawdd. Pwy fyddai'n talu am fwy o fysiau petai angen mwy o fysiau?
- Byddai'r plant sydd yn Ysgol Bro Caereinion ar hyn o bryd yn gadael.

- Byddai rhai o'r athrawon yn colli eu swyddi os nad ydyn nhw'n siarad Cymraeg
- Byddai'n anoddach cael athrawon Cymraeg
- Os yw pobl yn ei chael hi'n anodd yn y ffrwd Gymraeg, fydden nhw ddim yn gallu symud i'r ffrwd Saesneg.

### **Oes gan unrhyw un awgrym ynglŷn â pham ei fod yn syniad da?**

Nid oedd unrhyw awgrymiadau.

### **Lle mae disgyblion Ysgol Rhiw Bechan yn mynd i'r ysgol uwchradd nawr?**

- Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mynd i Ysgol Bro Caereinion i'r ysgol uwchradd, bron pob disgybl mewn gwirionedd. Dim ond ambell ddisgybl sy'n mynd i ysgolion eraill, fel Ysgol Uwchradd Y Drenewydd, a hynny yn bennaf os yw'r disgyblion yn byw y tu allan i ddalgylch Ysgol Rhiw Bechan.

### **Gofynnwyd i'r disgyblion a oedd ganddynt unrhyw sylwadau neu gwestiynau eraill:**

- Allwch chi ymestyn y dyddiad fel y gallai'r rhai sydd yn derbyn nawr barhau yn y cyfrwng Saesneg?
- Onid yw ysgol uwchradd i fod i gefnogi ieithoedd gwahanol?
- A fyddai'n anodd symud i'r ffrwd Gymraeg?
- A fydd digon o bobl i'n dysgu ni?
- Beth yw'r siawns y bydd Ysgol Bro Caereinion yn cael ei chau i lawr yn y dyfodol?
- Onid ydych chi'n meddwl ei fod yn annheg i'r ffrwd Saesneg?
- Byddai mwy o fysiau'n effeithio ar yr hinsawdd
- Os oes rhaid i ni gael mwy o fysiau, pwy fyddai'n talu amdanynt?
- Beth fyddai'n digwydd i ysgolion dwy ffrwd eraill?

Atgoffwyd y disgyblion y bydd yr ymgynghoriad yn parhau tan 7 Rhagfyr, ac fe'u hanogwyd i ysgrifennu unrhyw sylwadau sydd ganddynt i lawr os byddant yn meddwl am unrhyw beth arall, a'u rhoi i'w hathrawon a fydd yn sicrhau eu bod yn cael eu hanfon ymlaen.

## **3.2 Sylwadau eraill gan ddisgyblion**

### **i) Uwchradd**

Cafwyd 336 o ymatebion ysgrifenedig gan ddisgyblion uwchradd Ysgol Bro Caereinion.

Dyma grynodedb o'r materion a godwyd yn yr ymatebion hyn:

#### **Sylwadau i gefnogi'r cynnig**

- Byddai pawb yn siarad Cymraeg felly byddai pawb yn deall ei gilydd

- Bydd mwy o Gymraeg yn cael ei siarad achos bydd pawb yn siarad Cymraeg
- Byddai mwy o bobl yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl
- Byddai mwy o blant yn gallu siarad Cymraeg ac yn ddwyieithog
- Byddai'n helpu i gyrraedd y nod o filiwn o siaradwyr Cymraeg
- Byddai mwy o bynciau'n cael eu dysgu yn Gymraeg
- Byddai'n annog mwy o rieni i roi eu plant drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Byddai mwy o Gymry yn dod i'r ysgol
- Byddai mwy o blant yn dod i'r ysgol gan fod plant yn y cynradd yn mynd i addysg Gymraeg yn barod.
- Byddai'n galluogi'r ysgol i ddenu mwy o ddisgyblion
- Hon fyddai'r ysgol uwchradd Gymraeg gyntaf ym Mhowys
- Byddai mynediad i ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg. Gogledd Powys yw'r unig ardal o Gymru sydd heb fynediad i ysgol o'r fath ar hyn o bryd
- Mae Penweddig a Bro Hyddgen yng Nghanolbarth Cymru, ond nid oes ysgol uwchradd Gymraeg yn yr ardal yma.
- Mae'n well cael ysgol uwchradd Gymraeg yma na dim ysgol o gwbl
- Byddai'n golygu y byddai'r ysgol yn aros ar agor
- Byddai'r holl arian yn mynd i ddisgyblion cyfrwng Cymraeg i wella'r addysg Gymraeg sydd ar gael. Mae ysgolion cyfrwng Saesneg eraill ar gael.
- Mae yna ysgolion cyfrwng Saesneg eraill yn yr ardal y byddai pobl yn mynd iddynt ar gyfer addysg cyfrwng Saesneg
- Byddai disgyblion yn gallu cael gwell swyddi pe baent i gyd yn siarad Cymraeg
- Manteision pellach mewn bywyd o fod yn rhugl yn y ddwy iaith.
- Bydd disgyblion yn y ffrwd Saesneg ar hyn o bryd yn gallu cael mynediad at ddarpariaeth Trochi, felly byddant dal yn gallu mynychu'r ysgol.
- Gallai annog pobl yn y gymuned i ddysgu Cymraeg.
- Llai o waith i athrawon gan mai dim ond mewn un iaith y byddai angen iddynt baratoi gwaith.
- Byddai gan yr ysgol fwy o arian a byddai'n gallu rhoi gwell addysg.
- Byddai'r ysgol yn cael mwy o arian gan y llywodraeth.
- Posiblwydd y byddai arian ar gael i foderneiddio'r ysgol, neu efallai y byddai ysgol newydd.

### **Sylwadau nad ydynt yn cefnogi'r cynnig**

- Dim ond am resymau ariannol y mae hyn yn cael ei gynnig.
- Dim ond am arian y mae'n cael ei wneud, nid gyda disgyblion mewn golwg
- Pryder y byddai llai o opsiynau TGAU ar gael pe bai'r pynciau cyfrwng Saesneg yn cael eu colli
- Pryder am allu disgyblion i barhau i addysg uwch gan nad oes llawer o raddau yn y Gymraeg.
- Pryder y byddai mynychu ysgol gwbl Gymraeg yn cyfyngu ar gyfleoedd gyrfa disgyblion yn y dyfodol
- Mae'n wahaniaethu
- Mae'n annheg i ddisgyblion cyfrwng Saesneg
- Byddai'n anodd i ddisgyblion cyfrwng Saesneg symud i flwyddyn 7 a gallai achosi llawer o bryder.
- Pryder nad yw tymor yn ddigon hir i ddysgu iaith.

- Gallai graddau fynd i lawr os bydd disgyblion yn cael trafferth gyda'r Gymraeg
- Pryder na fyddai rhai disgyblion cyfrwng Saesneg ym mlwyddyn 5 yn gallu dod i flwyddyn 7
- Pryder na fyddai disgyblion yn gallu mynd i'r un ysgol â'u brawd neu chwaer
- Pryder y byddai disgyblion yn cael eu gwahanu oddi wrth eu ffrindiau
- Does dim digon o blant Cymraeg yn yr ardal i gadw'r ysgol ar agor
- Byddai angen i'r ysgol gau gan na fyddai digon o ddisgyblion
- Byddai niferoedd disgyblion yn yr ysgol yn haneru
- Llai o arian i'r ysgol os oes llai o ddisgyblion
- Yr ysgol yn dirywio
- Efallai y bydd disgyblion yn dewis mynd i ysgolion gwahanol i gael addysg cyfrwng Saesneg.
- Byddai'r disgyblion yn dewis mynd i ysgolion eraill Saesneg yn yr ardal, a fyddai'n rhoi pwysau ar yr ysgolion hyn.
- Does dim angen y newid – mae'r ysgol eisoes yn gweithredu fel ysgol ddwyieithog.
- Pryder am yr effaith negyddol ar dimau chwaraeon
- Mae mwy o bobl yn siarad Saesneg o gwmpas yr ysgol
- Pryder am yr effaith ar ddisgyblion ag anghenion / anabledau ychwanegol.
- Byddai'n arbennig o anodd i bobl sydd wedi symud i'r ardal o wledydd eraill ddysgu Saesneg.
- Byddai plant sy'n symud i'r ardal yn cael eu cau allan o'r ysgol
- Ni fyddai pobl yn gallu mynychu eu hysgol leol
- Byddai'n sensoriaeth o'r iaith
- Byddai'n troi pobl Saesneg eu hiaith yn erbyn y Gymraeg
- Byddai pobl Saesneg eu hiaith yn colli'r cyfle i ddysgu Cymraeg
- Ar hyn o bryd os yw disgyblion yn y ffrwd Gymraeg yn cael trafferth, gallant symud i'r ffrwd Saesneg. Pe na bai ffrwd Saesneg, byddai'n rhaid iddyn nhw symud i ysgol wahanol.
- Pryder am yr effaith ar sgiliau Saesneg disgyblion
- Mae'n dda bod disgyblion Cymraeg a Saesneg yn cymysgu
- Dylai pobl allu dewis a yw eu plant yn mynd i fynd i'r ffrwd Gymraeg neu Saesneg
- Pryder na fydd y ddarpariaeth 'Trochi' yn addas i bob disgybl.
- Pryder nad yw rhai rhieni'n deall Cymraeg felly ni fyddant yn gallu helpu / cefnogi eu plant.
- Mae gan yr ysgol ddarpariaeth Gymraeg ail iaith gref ac mae'n llwyddiannus yn yr Urdd, felly dylai aros yr un fath.
- Pryder y byddai'n rhannu siaradwyr Cymraeg a siaradwyr Saesneg yn y gymuned
- Pryder y byddai pobl yn symud i ffrwd o'r ardal
- Pryder na fydd pobl yn symud i Lanfair
- Nid yw'n adlewyrchu'r gymuned ddwyieithog yn Llanfair
- Pryder am yr effaith ar staff sydd ddim yn siarad Cymraeg
- Byddai'n anodd dod o hyd i staff sy'n siarad Cymraeg
- Pryder am y teithio ychwanegol fyddai ei angen i ysgolion eraill ar gyfer disgyblion cyfrwng Saesneg.

- Pryder y byddai disgyblion sydd eisiau mynd i ysgolion cyfrwng Saesneg yn gorfod talu am drafnidiaeth.
- Nid Llanfair yw'r lle iawn ar gyfer hyn, beth am rywle fel Y Drenewydd?

### **Sylwadau eraill**

- Dywedodd y disgyblion na fydd unrhyw newidiadau yn effeithio arnyn nhw gan y byddan nhw wedi gadael yr ysgol.
- Gallai weithio pe bai'n digwydd yn raddol dim ond dechrau gyda'r flwyddyn debyn, heb ddechrau gyda blwyddyn 7 hefyd.
- A fydd yr ysgolion cyfagos yn dod yn Gymraeg hefyd?

### **ii) Cynradd**

Cafwyd ymateb i'r ymgynghoriad oedd yn cynnwys sylwadau gan ddisgyblion cynradd Ysgol Bro Caereinion. Dyma grynodedeb o'r materion a godwyd:

### **Sylwadau i gefnogi'r cynnig**

- Dwi'n meddwl ei bod hi'n syniad da i annog pobl i siarad Cymraeg ond dwi ddim yn siŵr sut fydd disgyblion eraill yn teimlo.
- Os na wnawn ni hynny, bydd yr iaith yn marw
- Mae hyn yn beth da i'w wneud a bydd yn golygu y bydd y Gymraeg yn parhau
- Angen i bobl siarad Cymraeg a Saesneg
- Dw i'n hoffi dysgu / siarad Cymraeg

### **Sylwadau nad ydynt yn cefnogi'r cynnig**

- Mae llwyth o ddysgwyr yn ei chael hi'n anodd dysgu Cymraeg
- Ddim yn syniad da achos does dim dewis gan y ddosbarth derbyn ond dechrau yn y dosbarth Cymraeg
- Os yw'n troi'n Gymraeg bydd llai o bobl.
- Os nad yw pobl yn deall Cymraeg a bod pobl yn siarad â nhw yn Gymraeg fyddan nhw ddim yn deall
- Os yw athrawon yn dysgu yn Saesneg efallai y byddant yn colli eu swyddi
- Ddim yn syniad da, rwy'n hoffi pethau fel maen nhw
- Gall effeithio ar lawer o fyfyrwyr. Dim ond 2 athro mathemateg yng Nghymru. Dim digon o athrawon Cymraeg.
- Efallai y bydd rhai pobl yn colli eu ffrindiau
- Bydd yn effeithio ar lwyth o bobl sy'n Saesneg ac sy'n methu siarad Cymraeg
- Ymunais â'r ysgol yn y ffrwd Gymraeg yng nghanol Blwyddyn 1. Doeddwn i ddim yn gallu siarad Cymraeg ac roedd yn anodd iawn ar y dechrau. Bydd yn waeth i blant hŷn gan fod cymaint i'w ddysgu.
- Beth fydd yn digwydd i fy ffrindiau o'r dosbarthiadau Saesneg? Nid yw'n deg bod yn rhaid iddynt newid ysgol
- Mae'n iawn i'r plant Cymraeg ond nid i'r plant Saesneg fydd yn gorfod symud a dydyn nhw ddim eisiau mynd

- Os bydd hyn yn digwydd, bydd y niferoedd yn gostwng a bydd yr ysgol yn cau
- Beth am y teuluoedd gyda phlant mewn dau ffrwd. Dyw hi ddim yn deg bod rhai yn gallu aros yn yr ysgol ac eraill yn gorfod mynd i ysgol arall a bydd rhaid i'r rhieni sortio pethau
- Pam na all y flwyddyn derbyn yn unig newid i'r Gymraeg ac nid Blwyddyn 7? Byddai hynny'n well i bawb
- Mae gen i ofn mynd i ysgol arall oherwydd byddaf yn colli fy ffrindiau
- Byddaf yn colli fy athrawon a fy ffrindiau
- Dwi ddim yn meddwl ei bod hi'n deg achos dyw hi ddim yn gyfartal bod angen mwy o Gymraeg na Saesneg arnyn nhw
- Dydw i ddim yn meddwl ei fod yn deg ar y plant iau oherwydd gall plant blwyddyn 6 barhau i'r ysgol uwchradd ac ni fyddant yn cael cyfle i gario ymlaen
- Does dim digon o blant sy'n siarad Cymraeg neu eisiau mynd trwy gyfrwng y Gymraeg
- Mae llawer o drafnidiaeth i Lanfair ond dim llawer o drafnidiaeth o Lanfair i ysgol arall h.y. Y Trallwng. Nid yw'n deg
- Nid wyf yn credu ei bod yn deg ar y teuluoedd Seisnig sydd newydd symud yma ac efallai y bydd yn rhaid iddynt symud eto
- Os oes rhaid i mi symud ysgolion, ni fyddai fy mam yn gallu mynd â mi i ysgol arall a does dim trafnidiaeth
- Os ydw i'n mynd i Ysgol Uwchradd y Trallwng, byddai'n rhaid i mi fynd ar y bws, ond wn i ddim lle bydd fy chwaer yn mynd
- Dydw i ddim yn hoffi'r syniad oherwydd bydd yn gwneud dysgu'n anoddach i bobl ddi-Gymraeg
- Dwi ddim yn meddwl ei fod yn deg ar y plant sydd wedi symud o ysgol arall
- Mae wedi bod fel hyn ers blynnyddoedd lawer, pam mae angen iddo newid

### **Sylwadau eraill:**

- Beth fyddai'n digwydd petai'n troi'n Gymraeg a dim llawer o blant – a fyddai'n cau?
- Dwi yn y canol – mae'n beth da ac yn beth drwg.
- Pam mae'n digwydd?
- I ba ysgol y byddaf yn mynd iddi os na allaf fynd i'r ysgol uwchradd yma? A fyddaf dal yn gallu mynd ar fws oherwydd does gen i ddim car
- Pryderu'n fawr am yr ysgol yn troi'n Gymraeg gan fy mod i newydd symud yma
- Roedd y bobl roedden ni'n siarad â nhw yn ceisio ein darbwylo y dylai'r ysgol fynd yn Gymraeg. Gwnaeth i ni deimlo fel ein bod yn cael ein bwlio.
- Dwi ddim yn meddwl ei bod hi'n deg ar y merched cinio gan y bydd rhaid iddyn nhw ddysgu Cymraeg hefyd
- Sut mae'r Cymry yn cael cludiant am ddim o'r Drenewydd
- Dwi'n teimlo fel bod y Cymry yn cael mwy o freintiau nag ydyn ni'n ei wneud achos maen nhw'n cael mynd i Gaerdydd i wneud Tekkers ac maen nhw'n mynd i Glan Llyn a dydyn ni ddim yn cael y cyfleoedd yma
- Dwi'n meddwl ei bod hi'n wlad Gymreig, maen nhw'n cael mwy o sylw wrth iddyn nhw siarad yr iaith

## 4. CYFARFODYDD YMGYNGHORI Â STAFF A LLYWODRAETHWYR

Cynhaliwyd cyfarfodydd ymgynghori gyda staff a llywodraethwyr Ysgol Bro Caereinion ac Ysgol Rhiw Bechan. Mae crynodeb o'r materion a godwyd yn y cyfarfodydd hyn isod:

### 4.1 Ysgol Bro Caereinion

#### i) Cyfarfod ymgynghori gyda staff Ysgol Bro Caereinion – 22 Tachwedd 2023

- Pam y cafodd y cyfnod ymgynghori ei ymestyn?
- Pam dewiswyd model gwahanol yma i'r un a ddefnyddiwyd ar gyfer Ysgol Bro Hyddgen, oni fyddai wedi bod yn decach defnyddio'r un model?
- Pryder am drochi, rhifau, sut y bydd yn cael ei staffio a'i ariannu
- Pam mae hyn yn cael ei wthio mor gyflym?
- Pryder am sicrhau bod popeth yn ei le ar gyfer 2025.
- Gan fod yr ysgol eisoes wedi bod drwy gyfnod pontio onid oedd cymal i ddiogelu'r ysgol rhag newidiadau pellach?
- Mae myfyrwyr yn poeni'n fawr, mae athrawon yn poeni am eu lles meddyliol.
- Pryder am rannu brodyr a chwirydd iau gan y byddai'n rhaid iddynt fynd i wahanol ysgolion neu y byddai'n rhaid i rai o'r rhieni symud
- Pryder am staff sydd wedi gadael swyddi eraill i ddod i'r ysgol a allai fod heb swyddi yn y dyfodol agos
- Pryder am les meddyliol staff
- Mae'n creu ansicrwydd i bob aelod o staff, nid athrawon cyfrwng Saesneg yn unig
- Cwestiynau ynghylch sut y byddai Ysgol Bro Caereinion yn cael ei hariannu wrth symud ymlaen
- Sut y bydd diswyddiadau staff yn cael eu hatal os bydd nifer y disgyblion yn gostwng a chyllid yn cael ei gollu?
- Efallai y bydd staff yn cael eu colli yn y tymor byr os bydd niferoedd yn gostwng, a bydd angen recriwtio mwy o staff yn ddiweddarach, ond bydd staff da eisoes wedi'u colli yn ystod y cyfnod pontio.
- A fyddai unrhyw arian ychwanegol ar gael i'r ysgol yn ystod y cyfnod pontio?
- A oes data ar gael i gefnogi'r sylwadau yn y ddogfen ymgynghori bod diffyg darpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg wedi effeithio ar nifer y disgyblion sy'n trosglwyddo i'r ysgol?
- Ydy'r Cyngor yn mynd i wneud rhywbeth i annog disgyblion o ysgolion fel Ysgol Dafydd Llwyd i ddod i Ysgol Bro Caereinion yn hytrach na Llanidloes?
- Pryder nad oes capasiti yn Ysgol Uwchradd Llanidloes i ddisgyblion sy'n dymuno cael mynediad i ddarpariaeth cyfrwng Saesneg yno
- A fyddai cludiant ar gael i ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Saesneg?



- Mae'n wahaniaethol i ddarparu cludiant i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ond nid darpariaeth cyfrwng Saesneg.
- Mae angen cymorth yn ystod y cyfnod pontio, fel darpariaeth trafndiaeth.
- Pa gefnogaeth sydd ar gael ar gyfer lles staff?
- Mae angen i staff wybod bod eu swyddi'n ddiogel - dyna'r cymorth sydd ei angen arnyn nhw.
- A fyddai'r strwythurau, cyfrifoldebau staffio, contractau yn cael eu newid?
- Cwestiynau am recriwtio staff cyfrwng Cymraeg gan fod prinder athrawon cyfrwng Cymraeg.
- Effaith bosibl athrawon cyfrwng Saesneg a chyfrwng Cymraeg yn gadael yr ysgol
- Os na fydd y ddarpariaeth hon yn digwydd yn Ysgol Bro Caereinion beth fyddai dyfodol yr ysgol?
- Os na fydd y cynnig yn mynd yn ei flaen, a fydd angen ailysgrifennu'r CSCA?
- Mae'r rhan fwyaf o'r ysgolion y dalgylch yn darparu addysg yn Gymraeg, mae'r opsiwn hwn eisoes ar gael yma.
- Pryder am safon y Gymraeg a'r Saesneg yn enwedig i blant ag anghenion arbennig na allant ymdopi â dwy iaith
- Roedd nifer y disgyblion yn yr ysgol yn arfer bod yn llawer uwch, fodd bynnag, fe gollwyd disgyblion cyfrwng Saesneg oherwydd newidiadau i'r polisi trafndiaeth.
- Angen cynyddu nifer y disgyblion sy'n dod o ysgolion fel Ysgol Dafydd Llwyd i Ysgol Bro Caereinion
- A fydd newid i addysg cyn-ysgol yn yr ysgol? Ar hyn o bryd dyw ysgolion Powys ddim yn derbyn plant cyn-ysgol.
- Oes cynlluniau i ymestyn yr hawl i drafndiaeth i gynnwys Ysgol Dyffryn Trannon yn Nhrefeglwys sy'n gyfrwng Cymraeg? Fydden nhw'n dod yn rhan o glwstwr Ysgol Bro Caereinion?
- Os yw'r ysgol yn newid categori iaith a does dim ysgol Gymraeg arall gerllaw, ydy hyn yn golygu na fydd yr ysgol yn gallu cau?
- A fydd darpariaeth Trochi ar gael i aelodau staff?
- A fydd mynediad i ddarpariaeth "gloywi iaith" ar gyfer staff? Nid yw'r ddarpariaeth hon ar gael ar hyn o bryd, ond dyma'r math o ddarpariaeth sydd ei hangen ar rai staff.
- A fyddai staff yn cael cyfle i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg yn ystod amser gwaith?

## ii) **Cyfarfod ymgynghori â Llywodraethwyr Ysgol Bro Caereinion - 22 Tachwedd 2023**

- Mae sefydlu Ysgol Bro Caereinion wedi rhoi pwysau ar lywodraethwyr, staff a disgyblion, mae'r broses bresennol wedi rhoi hyd yn oed mwy o bwysau ar y corff llywodraethu.
- Mae angen sicrwydd arnom y bydd cymorth ariannol i'n cael ni drwy'r cyfnod pontio.
- Mae angen i ni ddod â'r rhai sydd ar y ffens gyda ni.

- Mae'r ysgol wedi cael 18 mis anodd, sydd wedi effeithio ar bawb gan gynnwys y disgyblion. Mae hynny'n rhywbeth y mae angen i chi ei ystyried.
- Pryder am yr effaith ar gyllid yr ysgol, yn enwedig os oes gostyngiad yn y niferoedd.
- Sut fydd yr ysgol yn darparu pynciau chweched dosbarth ac yn recriwtio staff sy'n siarad Cymraeg?
- Mae rhieni'n gofyn pam fod dwy ffrwd yn iawn yn Llanfyllin a Llanidloes ond nid Llanfair Caereinion. Mae rhieni sydd eisiau darpariaeth dwy ffrwd yn dweud y byddan nhw'n mynd â'u plant i ysgol wahanol sydd â hyn.
- Mae canfyddiad bod ysgolion dwy ffrwd yn cynnig rhwyd ddiogelwch i'r disgyblion hynny na allant ymdopi yn Gymraeg, gyda'r opsiwn iddyn nhw drosglwyddo i'r ffrwd Saesneg
- Mae angen llawer o wybodaeth i rieni i'w hargyhoeddi dyma'r opsiwn cywir, yn enwedig i chwalu'r mythau, canfyddiadau sydd yn y gymuned
- Dylem fod wedi cael ymgyrch cysylltiadau cyhoeddus / ymgysylltu dros gyfnod amser i gefnogi'r symudiad a'r trawsnewid hwn.
- Mae rhieni'n gofyn am wybodaeth am drochi a phontio, pryd fydd hyn yn digwydd?
- Mae rhai rhieni yn meddwl bod ysgol ddwyieithog yn un lle mae ffrwd Gymraeg a Saesneg ond ddim yn sylweddoli mai'r unig blant dwyieithog yw'r rhai yn y ffrwd Gymraeg.
- Os mai'r ysgol hon yw'r lle ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg, dyma lle dylid darparu cludiant am ddim.
- Os byddwch yn symud ymlaen gyda newid blwyddyn 7 yn 2025, bydd dal yn cymryd 7 mlynedd, mae hynny'n amser hir iawn.
- Mae pobl yn pryderu ac efallai y byddant yn gwneud penderfyniadau fyrbwyll i symud plant o'r ysgol
- Fel corff llywodraethu, mae'n rhaid i ni fod yn meddwl am yr holl ddysgwyr sydd yn yr ysgol hon ar hyn o bryd – byddai'r newidiadau hyn yn effeithio ar rai o'r dysgwyr hyn. Mae rhai o'r dysgwyr yn y ffrwd Saesneg yn eu dagrau oherwydd nad ydyn nhw'n gwybod beth sy'n mynd i ddigwydd
- Mae arnom angen ymrwymiad gan yr awdurdod i ddiogelu'r hyn rydych chi'n ceisio'i sefydlu yma, y bydd arian ychwanegol i'n gweld ni drwy hyn.
- Yn y bôn bydd hon yn ddarpariaeth newydd yma, felly dylid rhoi darpariaeth i'r ysgol o ran ei chyllideb. Fel arall gallai'r ysgol fod mewn sefyllfa o allu cynnig pynciau craidd yn unig gan na fydd yn gallu fforddio'r staff.
- Os na all yr ysgol ddarparu ystod o bynciau ni fyddai disgyblion yn dod yma.
- Mae angen cefnogaeth dros gyfnod o amser, nid dim ond am un neu ddwy flynedd.
- Gallai bod yn ysgol Gymraeg ddenu mwy o athrawon cyfrwng Cymraeg.

- Mae angen staff sydd ddim yn siarad Cymraeg ar hyn o bryd i ddod ar y daith gyda ni.
- Beth yw'r sgôp i ddiwygio'r rhaglen gyfalaf i gyflwyno buddsoddiad yn yr ysgol hon?
- Angen am ffyrdd creadigol o gael pobl i mewn i Bowys fel tyfu staff ein hunain, bwrsariaethau i fyfyrwyr yn y chweched dosbarth i'w cael drwy'r brifysgol gyda chymal y maent yn hyfforddi ac yn dod yn ôl
- Roedd addewidion pan aethom drwy'r broses i sefydlu'r ysgol bob oed y byddai cyllid a chefnogaeth arall, ond yna bu'n eithaf anodd cael cefnogaeth mewn gwirionedd.
- A ellir ystyried staff sy'n siarad Cymraeg fel adnodd ar draws y sir i wneud y defnydd gorau o sgiliau pobl? Os oes gennych athro mathemateg Cymraeg mewn mannau eraill sydd ond yn dysgu yn Gymraeg 60% o'r amser, a fyddai gan y Cyngor yr awdurdod i'w symud yma am weddill eu hamserlen?
- Angen bod yn ddull mwy strategol ar draws y Sir o ran darpariaeth addysg a pheidio ag edrych ar drawsnewid yr ysgol hon i gyfrwng Cymraeg ar wahân i'r hyn sy'n digwydd mewn ysgolion cyfagos
- Pe na bai Caereinion yn dod yn ysgol Gymraeg a fyddai'r sir yn edrych ar symud ysgol uwchradd arall yn yr ardal i fod yn ysgol Gymraeg?
- Pe bai ysgol arall yn dod yn ysgol Gymraeg byddai'r holl ddisgyblion cyfrwng Cymraeg yn mynd o'r ysgol hon
- Mae angen ymgyrch marchnata, brandio i wella dealltwriaeth am y gefnogaeth a fyddai ar gael i unrhyw ddisgyblion a oedd yn ei chael hi'n anodd, neu ddisgyblion ag anghenion ychwanegol.
- Cyfle i wneud yr ysgol yn ysgol flaenllaw i'r Sir
- Mae angen adolygu'r system addysg gyfan ym Mhowys gan nad yw'n gynaliadwy yn economaidd.
- Rhaid i chi gwestiynu a yw ysgolion dwy ffrwd yn gynaliadwy.
- Mae'n debygol y bydd yn rhaid i ysgolion eraill fynd trwy brosesau yn ystod y blynyddoedd nesaf, bydd hyn yn golygu ein bod ni ar y blaen eto. Dyw rhieni ddim yn deall mai dyma ddechrau taith hir i Bowys. Mae angen i'r gymuned wybod hyn – ar hyn o bryd maen nhw'n meddwl y bydd ysgolion eraill yno yn eu ffurfiau presennol am byth, ond efallai na fyddan nhw.
- A fydd gwybodaeth sydd wedi'i rhannu heno yn cael ei rhannu'n ehangach cyn diwedd yr ymgynghoriad?
- A fydd pobl yn gallu gweld yr ymatebion i'r cwestiynau a'r sylwadau a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad ar ddiwedd y cyfnod ymgynghori?
- Dylid darparu astudiaethau achos wrth symud ymlaen fel y gall pobl weld enghreifftiau.
- Efallai y byddai'n fanteisiol pe gallai'r ysgol gynnig y Bacc Rhyngwladol yn Gymraeg.
- Dylai'r ysgol anelu at ddarparu cyrsiau cyfrwng Cymraeg gan nad yw Coleg y Drenewydd / NPTC yn cynnig unrhyw beth trwy gyfrwng y Gymraeg
- Mae cyfraddau gadael 2.5 gwaith yn uwch ar gyfer plant sy'n mynd o gyrsiau galwedigaethol cyfrwng Cymraeg i gyrsiau galwedigaethol di-

Gymraeg. Dyma'r bobl ifanc sy'n aros yn ein cymunedau mewn gwirionedd.

- Pryder na fyddai mor hawdd i ddisgyblion wneud eu TGAU mewn iaith heblaw'r un y maent wedi treulio eu bywyd cyfan yn siarad os ydyn nhw wedi newid ieithoedd yn mynd i flwyddyn 7, felly byddai angen mwy o ymyrraeth.
- Darpariaeth Trochi – pa mor hir mae'n para ac a allai'r ysgol gael aelodau staff yn cysgodi tîm y Cyngor fel y gallant wedyn barhau i gefnogi'r plant?
- Mae gwahaniaeth o 20% yn y rhan fwyaf o bynciau rhwng cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg, ac mae disgyblion cyfrwng Cymraeg yn gwneud yn well yn Saesneg fel pwnc. Mae hyn yn dangos beth mae dwyieithrwydd yn ei wneud i'r ymennydd.
- Mae pobl yn dweud nad ydym yn buddsoddi digon yn y cyfrwng Saesneg.
- Byddai chwaraeon a chyllid ar gyfer chwaraeon a darparu cyfleusterau fel cae newydd, canolfan hamdden yn cynyddu nifer y disgyblion.
- Pryder am gadw staff yn ystod y cyfnod pontio gan y bydd dal angen i ni gynnig darpariaeth cyfrwng Saesneg yn ystod y cyfnod pontio - pryder y bydd staff sydd ddim yn siarad Cymraeg yn chwilio am gyfle i adael.
- Pryder y byddai'n rhaid i'r rhai sydd am barhau mewn cyfrwng Saesneg dalu am drafndiaeth.

## 4.2 Ysgol Rhiw Bechan

### i) Cyfarfod ymgynghori gyda staff Ysgol Rhiw Bechan – 28 Tachwedd 2023

- Pam dewiswyd Medi 2025? Mae Bro Hyddgen hefyd ar gyfnod pontio ond wedi cael cyfnod llawer hirach. Pam?
- Efallai y byddai wedi bod yn well rhoi cyfle i bobl gael y drafodaeth honno yn gyntaf a thrafod llinell amser oherwydd fel ysgol mae wedi bod yn anodd ac mae rhieni'n poeni
- Faint o arian sydd ar gael i Trochi a phwy fydd yn ei ddarparu?
- Mae'r amseru ar gyfer Trochi yn mynd i dorri i mewn i gwricwlwm yr ysgol a gallai hynny fod yn ddinistriol. Hefyd mae pethau a phrosiectau eraill yn digwydd yn yr haf cyn i blant fynd i'r ysgol uwchradd.
- Rydym yn ysgol dwy ffrwd felly mae rhieni eisoes wedi penderfynu dewis cyfrwng Cymraeg neu gyfrwng Saesneg ar gyfer eu plant, byddai'n anodd iawn eu perswadio i gymryd y cam mawr hwnnw o newid o gyfrwng Saesneg i gyfrwng Cymraeg.
- Mae yna blant na fydd yn gallu cael mynediad i Trochi oherwydd bod ganddyn nhw anghenion ychwanegol, maen nhw wedi symud, maen nhw wedi rhoi cynnig ar Gymraeg neu wedi gorfod symud oherwydd anawsterau llythrennedd.

- Cryfder Caereinion yw ei bod hi'n ysgol wledig ac mae plant yn cael eu cysgodi, dyna pam mae rhieni'n anfon eu plant yno, a pham maen nhw'n dod i fyw yn Nhregynon.
- Mae hyn wedi dod gan Lywodraeth Cymru yn y pen draw, ond dydyn nhw ddim yn deall isadeiledd yr ardal a phethau fel staffio
- Mae llawer i'w roi ar waith ac nid oes amser i wneud hyn cyn Medi 2025.
- Beth sy'n digwydd os oes angen Trochi ar 50 neu 60 o blant ac nad yw'r staff ar gael i ddarparu hyn?
- Mae cyfleoedd i sefydlu'r math yma o ddarpariaeth wedi eu colli o'r blaen – fe allai Ysgol Dafydd Llwyd fod wedi bod yn ysgol bob oed.
- Mae'r niferoedd yn dangos bod rhieni'n dod rownd i eisiau i'w plant fod yn ddwyieithog, ond weithiau os ydych chi'n eu gwthio i gornel byddant yn ymladd yn ôl.
- Ydy Bro Caereinion o blaid hyn? Yr argraff a roddwyd yn y cyfarfod gyda rhieni oedd mai penderfyniad Powys oedd hwn.
- A yw'n bosibl gwthio hyn yn ôl i 2027 neu ai pwysau ariannol sy'n gyrru hyn?
- Beth am y seilwaith mwy fel seicolegwyr addysg, lleferydd ac iaith, nyrsys ysgol, ymwelwyr iechyd?
- Byddai'n well gan rai staff Cymraeg fod mewn ysgol cyfrwng Cymraeg nag ysgol dwy ffrwd, ac maen nhw'n chwilio am y ddarpariaeth honno i'w teuluoedd
- Nid yw Bro Caereinion wedi teimlo'n ddiogel, a dyna pam nad yw wedi denu staff i mewn.
- Pe bai ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg yn y Drenewydd byddai oblygiadau enfawr i Ysgol Bro Caereinion.
- A fydd y dalgylch yn cael ei ymestyn i gynnwys ysgolion fel Ysgol Dyffryn Trannon?
- Beth yw'r cynllun ar gyfer ôl 16?
- Beth am ddisgyblion sydd eisiau mynd i rywle fel Caergrawnt neu Rhydychen sy'n meddwl y byddai'n well iddyn nhw wneud rhai pynciau yn Saesneg i'w helpu gyda trosglwyddo i'r brifysgol?
- A fyddai Llywodraeth Cymru yn darparu buddsoddiad sylweddol yn yr adeilad?
- Beth yw'r gwahaniaeth yn y niferoedd rhwng y ffrydiau cyfrwng Cymraeg a Saesneg ym Mro Caereinion?
- Pryder gan rieni os daw Bro Caereinion yn gyfrwng Cymraeg na fyddant yn gallu cynorthwyo eu plant gyda'u gwaith cartref
- Pryder am beth fydd yn digwydd i Ysgol Rhiw Bechan os yw pawb yn dewis darpariaeth Gymraeg. Beth fydd yn digwydd i strwythur Ysgol Rhiw Bechan os daw Bro Caereinion yn ysgol Gymraeg, a beth fydd yn digwydd i swyddi?
- Pryder y byddai'r garfan Saesneg yn teimlo fel pe bai ddim eu heisiau mwyach.

**ii) Cyfarfod ymgynghori â Llywodraethwyr Ysgol Rhiw Bechan – 28 Tachwedd 2023**

- Siom fel corff llywodraethu gyda'r amserlen, a'i fod yn ymddangos fod hyn wedi bod yn cael ei gynllunio ers tro.
- Pryder ei fod wedi cymryd cymaint o amser i drefnu cyfarfod gyda ni.
- A fydd popeth a gyflwynwyd yn cael ei ystyried?
- Beth yw'r rheswm dros beidio â chwrdd â rhieni yn uniongyrchol? Byddai llawer o rieni wedi gwerthfawrogi hyn gan eu bod yn poeni'n fawr.
- I lawer o rieni, mae ymateb yn ysgrifenedig yn eithaf brawychus.
- Mae geiriad y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad yn golygu ei bod yn eithaf anodd ei ateb.
- A ellir rhoi atebion i'r cwestiynau sy'n cael eu gofyn nawr? A oes rhaid i rieni aros tan fis Mawrth y flwyddyn nesaf am atebion?
- Pryder am sut cafodd y wybodaeth ei rhyddhau – dylai'r corff llywodraethu fod wedi cael gwybod.
- Y neges gan gorff llywodraethu Bro Caereinion ydy nad ydyn nhw'n gefnogol i'r cynnig, ydy hynny'n gywir?
- Pam na chafodd ysgolion bwydo eu hysbysu pe bai hyn wedi'i drafod mor bell yn ôl â 2020?
- Mae'r rhieni hynny a all gael plant mewn gwahanol ysgolion yn teimlo eu bod yn gaeth, ac maent mewn sefyllfa anodd o ran beth i'w wneud.
- Nid yw rhai rhieni'n siarad Cymraeg ac ni allant cefnogi eu plant felly byddent wedi dewis rhoi eu plant drwy'r ffrwd Saesneg ym Mro Caereinion gan y byddai'r plant yn ymdopi'n well
- Mae dwy ffrwd yn golygu cael dewis, ac os na fydd pethau'n gweithio allan, gall plant newid ffrydiau
- Mae rhieni'n teimlo bod dewis yn cael ei gymryd oddi arnyh nhw
- Y persbectif ariannol yw'r brif broblem gyda bod Powys mor wledig
- Nid oes gan yr ardal boblogaeth fawr ac mae ar y ffin efo Lloegr
- Wrth edrych ar faint Powys o'i gymharu â siroedd eraill, nid yw cael ysgol Gymraeg yn ymarferol
- Mae llawer o ddisgyblion yn mynd i brifysgolion Lloegr ac nid ydynt yn dychwelyd i Gymru
- Yr unig ffynhonnell cyflogaeth i siaradwyr Cymraeg yw Llywodraeth Cymraeg a'r Awdurdod Lleol
- Mae disgyblion yn y ffrwd Saesneg hefyd yn cael cyfle i ddysgu Cymraeg a dod yn ddwyieithog – byddai hyn yn cael gwared â hynny.
- Pryder am y gallu i recriwtio athrawon Cymraeg eu hiaith
- Diffyg seilwaith i gefnogi niferoedd cynyddol o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol
- Cwestiynau am drefniadau trafniadaeth – dyw'r polisi trafniadaeth ddim yn darparu ar gyfer anghenion disgyblion sydd ddim yn gallu symud i gyfrwng Cymraeg.
- Mae rhai plant eisoes yn symud i ysgolion eraill ac mae rhai pobl yn mynd i symud cartref.
- Mae'r amserlen yn rhy fyr ac yn codi ofn ar rieni i wneud penderfyniadau na ddylent orfod eu gwneud nawr.
- Pryder bod ceisio cael plentyn i fynd trwy Trochi hyd at safon rhywun sydd wedi bod mewn ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yn annealladwy

- Pryder am blant sydd â dyslecsia ac sydd ag anghenion ADY yn mynd trwy Trochi
- Pryder am blant sydd eisoes yn dal i fyny o ganlyniad i'r pandemig yn mynd trwy Trochi, yn enwedig os oedd pandemig arall. Pa mor bell fydden nhw'n disgyn tu ôl?
- Lle mae'r awdurdod yn gweld Ysgol Bro Caereinion ymhen deng mlynedd?
- Pa ddata sydd yna ar rifau disgyblion wrth symud ymlaen?
- A yw rhagamcanion wedi eu seilio ar holl blant Cymraeg y dalgylch yn mynd i Fro Caereinion?
- A wnaiff y Cyngor fynnu bod rhaid i ddisgyblion sydd wedi bod i Ysgol Dafydd Llwyd fynd i Fro Caereinion?
- Mae adeilad Caereinion yn edrych yn eithaf hen.
- Mae'r broses hon wedi achosi llawer o ofid yn y gymuned. Ni fyddem yn dymuno gorfod mynd trwy hyn eto ymhen ychydig flynyddoedd pe bai cynnig i gau'r ysgol.
- Beth yw'r cynllun ar gyfer Ysgol Rhiw Bechan os daw Bro Caereinion yn gyfrwng Cymraeg, beth fydd yn digwydd i'r ysgol hon?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd disgyblion Dafydd Llwyd ac Ysgol Gymraeg Y Trallwng yn dod i Fro Caereinion? Beth fydd yn digwydd i Fro Caereinion wedyn?
- A fydd Bro Caereinion yn cael cefnogaeth ariannol yn ystod y cyfnod pontio?
- Os na fydd hyn yn mynd drwodd, a oes lleoliad arall wedi'i drefnu?
- Pa sicrwydd y gellir ei roi i rieni plant yn y ffrwd Saesneg y gall eu plant orffen eu haddysg ym Mro Caereinion yn Saesneg, yn enwedig os oes llawer o blant yn gadael?
- Pam na ellid cyflwyno hyn yn raddol yn yr un modd â Bro Hyddgen?
- Annheg y gallai rhai plant orfod newid ysgol.

## 5. ESTYN

### **Ymateb Estyn i'r cynnig i newid categori iaith Ysgol Bro Caereinion**

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Arolygwyr Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

O dan delerau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'i Chod cysylltiedig, mae'n ofynnol i gynigwyr anfon dogfennau ymgynghori i Estyn. Fodd bynnag, nid yw Estyn yn gorff y mae'n ofynnol iddo weithredu yn unol â'r Cod acnid yw'r Ddeddf yn gosod unrhyw ofynion statudol ar Estyn o ran materion trefniadaeth ysgolion. Felly, fel corff yr ymgynghorir ag ef, bydd Estyn dim ond yn rhoi eu barn ar rinweddau cyffredinol cynigion trefniadaeth ysgolion.

Mae Estyn wedi ystyried yr agweddau addysgol ar y cynnig ac wedi llunio'r ymateb canlynol i'r wybodaeth a ddarparwyd gan y cynigiwr.

**Y cynnig yw gwneud addasiad a reoleiddir i newid cyfrwng y cyfarwyddyd yn Ysgol Bro Caereinion i gyfrwng Cymraeg. Byddai hyn yn cael ei gyflwyno'n raddol, gan ddechrau â'r dosbarth Derbyn a Blwyddyn 7 ym mis Medi 2025.**

#### **Crynodeb / Casgliad**

Mae Estyn yn ystyried bod y cynnig yn debygol o gynnal safon y ddarpariaeth addysg i lawer o ddisgyblion yn yr ardal, o leiaf. Fodd bynnag, nid yw'r awdurdod lleol wedi rhoi ystyriaeth lawn i'r effaith ar ddisgyblion sy'n dymuno astudio trwy gyfrwng y Saesneg.

#### **Disgrifiad a manteision**

Mae'r awdurdod lleol wedi amlinellu rhesymeg glir ar gyfer ei gynnig. Mae'n amlinellu manteision gwneud addasiad a reoleiddir i newid cyfrwng y cyfarwyddyd yn Ysgol Bro Caereinion i gyfrwng Cymraeg. Mae'r rhesymeg yn cyfeirio'n glir at nodau'r Strategaeth ar gyfer Trawsnewid Addysg ym Mhowys a pherthnasedd y cynnig i'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ar gyfer yr awdurdod lleol.

Mae'r awdurdod lleol yn darparu disgrifiad addas o fanwl o'r cynnig. Mae hyn yn cynnwys cefndir i'r cynnig ac amserlen fras ar gyfer gweithdrefnau statudol. Mae'r cynnig yn amlinellu y byddai'r newid yn cael ei gyflwyno'n raddol, fesul blwyddyn, gan ddechrau â'r dosbarth Derbyn a Blwyddyn 7 ym mis Medi 2025. Yn y pen draw, byddai pob un o'r disgyblion yn yr ysgol yn mynychu darpariaeth cyfrwng Cymraeg, gan helpu sicrhau bod pob un o'r disgyblion yn hyfedr yn Gymraeg ac yn Saesneg.



Mae'r cynigiwr yn nodi'n glir ac yn deg y manteision a'r anfanteision disgwylidig o gymharu â'r sefyllfa bresennol. Fodd bynnag, nid yw'n darparu gwybodaeth ddigon clir am sut bydd yn lliniaru'r holl anfanteision a nodwyd. Er enghraifft, mae'r cynnig yn cyfeirio at y risg nad yw rhai rhieni yn yr ysgol eisiau i'w plant fynychu ysgol cyfrwng Cymraeg, felly maent yn debygol o symud eu plant i ysgolion amgen.

Byddai'r camau hyn yn effeithio ar gyllideb yr ysgol ac yn cynyddu nifer y lleoedd dros ben.

Mae'r awdurdod lleol wedi ystyried tri opsiwn amgen, gan gynnwys cynnal y sefyllfa bresennol. Mae'n rhestru manteision ac anfanteision pob opsiwn yn fanwl, ac mae'n ymddangos bod y rhain yn deg a rhesymol.

Mae'r cynnig yn ystyried ac yn rhoi manylion priodol am effaith y newidiadau ar ddisgyblion sy'n mynychu Ysgol Bro Caereinion ar hyn o bryd. Ar gyfer disgyblion sy'n cael defnyddio darpariaeth gynradd cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Bro Caereinion ar hyn o bryd, ni fyddai unrhyw newid gwirioneddol. Byddai'r effaith fwyaf ar ddisgyblion sy'n mynychu darpariaeth gynradd cyfrwng Saesneg yn yr ysgol o Flwyddyn 5 ymlaen, oherwydd byddai gweithredu'r cynnig yn golygu nad oes unrhyw ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Saesneg ar gael yn yr ysgol ym Mlwyddyn 7 o fis Medi 2025.

Mae'r awdurdod lleol yn rhoi ystyriaeth briodol i'r effaith ar ddisgyblion sy'n mynychu ysgolion cynradd eraill yn nalgylch Ysgol Bro Caereinion. Os bydd y cynnig yn cael ei roi ar waith, byddai disgyblion sy'n cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn parhau i allu manteisio ar y ddarpariaeth uwchradd yn Ysgol Bro Caereinion. Fodd bynnag, mae disgyblion fel y rhai yn y ffrwd Saesneg yn Ysgol Rhiw Bechan yn wynebu'r un materion â'r rhai ym Mro Caereinion. Mae'r cynigiwr hefyd wedi ystyried effaith y newidiadau ar ddisgyblion sy'n mynychu ysgol gynradd ac uwchradd nad ydynt yn nalgylch Ysgol Bro Caereinion.

Mae'r cynigiwr wedi ystyried yr effaith ar staff yn yr ysgol yn rhannol. Er bod nifer sylweddol o staff yn Ysgol Bro Caereinion yn ddwyieithog ac yn addysgu a gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg ar hyn o bryd, mae staff addysgu a staff cymorth ar draws y safleoedd cynradd ac uwchradd sy'n gweithio yn y ffrwd Saesneg yn unig neu'n gweithio trwy gyfrwng y Saesneg yn bennaf. Mae'r cynigiwr yn nodi y byddai tîm adnoddau dynol yr awdurdod lleol ynghlwm wrth gefnogi'r ymgynghoriad gyda phob aelod o staff ac yn cefnogi'r pontio i weithio trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r cynigiwr wedi ystyried effaith y newidiadau ar drefniadau teithio dysgwyr yn rhannol. Ni fyddai unrhyw effaith ar deithiau i'r ysgol nac amseroedd teithio ar gyfer disgyblion a fyddai'n parhau i fynychu Ysgol Bro

Caereinion ar ôl unrhyw newid i gategori iaith yr ysgol. Fodd bynnag, os bydd disgyblion yn dewis mynychu darpariaeth cyfrwng Saesneg mewn lleoliadau eraill, byddai cynnydd mewn teithio ac amseroedd teithio i'r disgyblion hyn, gan gynnwys disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae'r awdurdod lleol wedi nodi na fyddent yn cefnogi teithio ar gyfer y disgyblion hyn i ysgol arall os Ysgol Bro Caereinion yw ysgol eu dalgylch.

Gallai hyn gael effaith negyddol ar ddewis rhieni a chael effaith anghymesur ar deuluoedd o gefndiroedd difreintiedig, oherwydd efallai y byddant yn cael anhawster yn ariannu costau teithio bob dydd i ysgol cyfrwng Saesneg.

Mae'r awdurdod lleol wedi dangos yn ddefnyddiol effaith y cynnig ar leoedd dros ben. Mae'n bosibl y gallai fod rhywfaint o effaith ar niferoedd y disgyblion yn y tymor hirach os bydd disgyblion yn dewis mynychu darpariaeth cyfrwng Saesneg amgen yn hytrach na dewis mynychu Ysgol Bro Caereinion.

Mae'r cynnig yn rhoi ystyriaeth fanwl i effaith y cynnig ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg o fewn yr awdurdod lleol a'r graddau y mae'r cynnig yn cefnogi'r targedau yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) yr awdurdod lleol. Mae newid categori iaith Ysgol Bro Caereinion yn cyd-fynd â CSCA y Cyngor ar gyfer 2022-32 a byddai'n cyfrannu'n sylweddol at weithredu'r targedau a amlinellir yn y CSCA. Mae'r awdurdod lleol wedi darparu Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg fel rhan o'r cynnig.

Mae'r awdurdod lleol wedi rhoi ystyriaeth briodol i oblygiadau ariannol y cynnig. Amcangyfrifir y byddai newid categori iaith yn arwain at arbedion refeniw blynyddol i'r Cyngor o £383k yn y pen draw, pan fydd yr ysgol yn gyfan gwbl un ffrwd.

### **Agweddau addysgol ar y cynnig**

Mae'r cynnig wedi ystyried effaith y cynnig ar ansawdd a safonau mewn addysg. Mae'n cyfeirio at ddeilliannau cadarnhaol posibl ynghylch effaith ar safonau a chynnydd, fel effaith gadarnhaol ar fedrau Cymraeg disgyblion.

Mae'r cynnig yn rhoi manylion am y disgwyliad y gallai cefnogi'r ysgol i symud ar hyd y continwmm iaith arwain at welliannau yn ansawdd yr addysgu yn Ysgol Bro Caereinion, oherwydd y cyfleoedd gwell ar gyfer datblygiad proffesiynol a chydweithio trwy gyfrwng y Gymraeg y gellid eu cynnig i staff.

Er bod yr adrannau ar ddeilliannau a darpariaeth yn ymddangos yn deg a rhesymol, nid yw'r adran ar arweinyddiaeth a rheolaeth yn fanwl ac nid yw'n canolbwyntio'n ddigon da ar oblygiadau'r cynnig i arweinwyr yn yr ysgol, nac

ar gynlluniau i oresgyn rhwystrau, fel recriwtio a phenodi arweinwyr cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol.

Mae'r cynnig yn ystyried yn rhannol effaith y cynnig ar grwpiau bregus, gan gynnwys plant ag ADY. Mae'r awdurdod lleol yn nodi bod Ysgol Bro Caereinion eisoes yn ysgol bob oed, sy'n darparu cyfleoedd estynedig i gynorthwyo disgyblion sy'n perthyn i grwpiau bregus. Byddai hyn yn parhau i fod felly pe bai'r ysgol yn symud ar hyd y continwrm iaith. Mae'r ysgol yn gwbl hygyrch ac yn cydymffurfio'n llawn â Deddf Cydraddoldeb 2010. Fodd bynnag, nid yw'n glir pa gymorth ychwanegol y bydd disgyblion ag ADY yn ei gael i elwa ar addysg trwy gyfrwng y Gymraeg, er enghraifft os byddant yn cael trafferth dysgu'r iaith. Hefyd, nid yw'n glir p'un a fyddai unrhyw gymorth ychwanegol a gaiff y disgyblion hyn yn cael ei effeithio gan y newidiadau.

Mae'r cynnig yn rhoi ystyriaeth fanwl i effaith y cynnig ar y gymuned. Mae hefyd wedi darparu Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned fel rhan o'r cynnig.

## 6. MATERION A GODWYD YN Y CYFNOD YMGYNGHORI

Mae'r tablau canlynol yn rhestru'r materion a godwyd dros y cyfnod ymgynghori ac yn rhoi ymateb yr awdurdod lleol iddynt.

### ADRAN 1 – SYLWADAU I GEFNOGI'R CYNNIG

#### 1.1 Dylai'r newid wedi digwydd cyn hyn

1.1.1	Mae yna ysgolion cyfrwng Cymraeg ym mhob sir arall, mae'n hen bryd i Bowys ddal i fyny gyda gweddill Cymru.	Nodwyd y sylw. Mae'r Cyngor yn cytuno bod diffyg tegwch i ddisgyblion cyfrwng Cymraeg ym Mhowys ar hyn o bryd o'u cymharu â disgyblion cyfrwng Saesneg, a disgyblion cyfrwng Cymraeg mewn mannau eraill yng Nghymru. Nod y cynnig presennol yw mynd i'r afael â hyn.
1.1.2	Mae'r cynnig hwn yn hir-ddisgwylidig. Mae diffyg ym Mhowys yn y ddarpariaeth 11-18 oed i ddisgyblion yng Nghanolbarth Cymru.	Fel uchod.
1.1.3	Mae Powys o leiaf chwarter canrif ar ei hôl hi, mae ein plant yn haeddu ysgol Gymraeg.	Fel uchod.
1.1.4	Mae angen mawr am hyn. Mae'n hen bryd i ni gael darpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg yn yr ardal.	Fel uchod.
1.1.5	Rydym wedi bod yn aros am y datblygiad hwn ers blynyddoedd lawer. Yn anffodus mae llawer o blant yn yr ardal bellach wedi colli cyfle i gael mynediad at y math hwn o ddarpariaeth.	Fel uchod.
1.1.6	Er ei bod yn gadarnhaol fod y Cyngor wedi dangos ymrwymiad i sefydlu ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yn yr ardal, mae diffyg darpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg dynodedig ar hyn o bryd yn atal disgyblion rhag gallu parhau i ddatblygu eu hyder wrth gyfathrebu yn Gymraeg.	Fel uchod.

1.1.7	Mae Cyngor Sir Powys yn disgyn y tu ôl i bob sir arall gyda'r diffyg presennol o ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg. Byddai'r cynnig hwn yn unioni diffyg hanesyddol a welodd genedlaethau o blant yn ardal Llanfair Caereinion yn methu cyfathrebu yn Gymraeg ac yn colli cyfleoedd amrywiol.	Fel uchod.
1.1.8	Mae pobl yr ardal wedi bod yn ymgyrchu dros ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg llawn ers yr 1980au, pan gafodd Ysgol Cyfronydd ei harchwilio. Dros y blynyddoedd, collwyd llawer o gyfleoedd i ddatblygu'r math hwn o ddarpariaeth, ac mae llawer o blant a phobl ifanc wedi colli cyfle i gael mynediad at y math hwn o ddarpariaeth.	Fel uchod.
1.1.9	Mae'n hen bryd i ni gael y math hwn o ddarpariaeth ym Mhowys. Mae pobl wedi bod yn ymgyrchu dros hyn ers blynyddoedd a Phowys yw'r unig Gyngor yng Nghymru sydd heb weithredu.	Fel uchod.
1.1.10	Mae llawer o ymgynghoriadau/trafodaethau wedi bod yn y gorffennol, fodd bynnag rydym yn dal yn yr un sefyllfa - mae angen ysgol uwchradd Gymraeg ym Mhowys.	Fel uchod.
1.1.11	Mae'n hen bryd i hyn ddigwydd - mae cannoedd o ddisgyblion a staff ar eu colled.	Fel uchod.
1.1.12	Dylai'r ysgol fod wedi dod yn ysgol cyfrwng Cymraeg flynyddoedd yn ôl. Mae gormod o blant wedi colli cyfle i dderbyn addysg Gymraeg. Mae'n rhaid i'r newidiadau ddigwydd yn gyflym er lles y disgyblion hynny sydd eisiau derbyn addysg Gymraeg.	Fel uchod.
1.1.13	Mae'n hanfodol bod hyn yn digwydd er mwyn cynnig cyfle cyfartal i'n disgyblion yn y dyfodol. Rwy'n cymeradwyo'r Cyngor am fwrw ymlaen â hyn ac yn eich annog i fod yn ddewr yn eich penderfyniad i alluogi plant a phobl ifanc yn yr ardal i ddod yn oedolion cwbl ddwyieithog. Dim ond drwy ddarparu darpariaeth cyfrwng Cymraeg llawn y gall hyn ddigwydd yn hytrach na darpariaeth dwy ffrwd.	Fel uchod.

1.1.14	Mae Cyngor Sir Powys wedi llusgo'i draed o ran addysg Gymraeg ers blynyddoedd.	Fel uchod.
	Ers blynyddoedd, nid yw disgyblion cyfrwng Cymraeg wedi cael y dewis i gael mynediad at ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg lawn - ethos Cymraeg, pob pwnc yn y Gymraeg, cynyrchiadau Cymraeg ac ati	Fel uchod.
1.1.15	Roedd cadw'r model dwy ffrwd yn dilyn dau ymgynghoriad dros y pymtheg mlynedd diwethaf yn gamgymeriad ofnadwy ac wedi cael effaith negyddol ar yr iaith, wrth i niferoedd cynyddol o deuluoedd sydd wedi symud i'r ardal ddewis i'w plant gael mynediad i addysg cyfrwng Saesneg yn lle addysg Gymraeg yn y cyfnod uwchradd.	Fel uchod.

## 1.2 Bydd y cynnig yn arwain at well darpariaeth yn yr ysgol

1.2.1	Yn y tymor hir, byddai'n arwain at well addysgu a dysgu yn yr ysgol.	Nodwyd y sylw. Mae'r Cyngor yn cytuno, yn y tymor hir, y dylai gweithredu'r cynnig arwain at well darpariaeth yn yr ysgol, gan y byddai'n galluogi'r ysgol i ganolbwyntio ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.
1.2.2	Bydd yn gwella canlyniadau disgyblion wrth i fwy o ymdrech gael ei roi mewn addysg.	Fel uchod.
1.2.3	Byddai'r cynnig yn gyfle i ganolbwyntio ar godi safonau'r ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg.	Fel uchod.
1.2.4	Bydd yn darparu cynnig gwell o addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg.	Fel uchod.
1.2.5	Byddai'n galluogi plant i astudio mwy o bynciau yn y Gymraeg ar lefel uwchradd	Mae'r Cyngor yn cytuno, yn y tymor hir, y dylai gweithredu'r cynnig alluogi plant i astudio mwy o bynciau yn y Gymraeg ar lefel uwchradd.
1.2.6	Byddai'n darparu mwy o opsiynau Cymraeg a mwy o ddewis o bynciau yn Gymraeg, cyhyd â bod athrawon Cymraeg ar gael.	Fel uchod.
1.2.7	Byddai gweithredu'r cynnig yn galluogi'r Cyngor i gynllunio ar gyfer yr ystod ehangaf bosibl o bynciau yn y Gymraeg a'u	Fel uchod.

	darparu, yn unol â gofynion Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009.	
1.2.8	Yn y tymor hir, byddai mwy o gyfleoedd i ddisgyblion, fel mwy o gyrsiau a phynciau yn cael eu cynnig yn Gymraeg.	Fel uchod.
1.2.9	Byddai'n darparu ystod eang a chynhwysfawr o bynciau cyfrwng Cymraeg - yn enwedig i ddisgyblion ôl-16.	Fel uchod.
1.2.10	Mae'r cynnig yn rhoi cyfle i ddatblygu darpariaeth ôl-16 ac ADY cyfrwng Cymraeg yng Ngogledd Powys.	Mae'r Cyngor yn cytuno, yn y tymor hir, y dylai gweithredu'r cynnig alluogi plant i astudio mwy o bynciau yn y Gymraeg ar lefel uwchradd, gan gynnwys ar lefel ôl-16, a byddai hefyd yn rhoi cyfle i gynnig darpariaeth ADY cyfrwng Cymraeg gwell.
1.2.11	Pe bai'n cynorthwyo myfyrwyr presennol y ffrwd Gymraeg drwy sicrhau cyllid ychwanegol, byddai hyn yn gadarnhaol a byddai'n sicrhau eu bod yn cael gwell addysg.	Nodwyd y sylw.

### 1.3 Bydd y cynnig yn arwain at ethos Cymraeg cryfach yn yr ysgol

1.3.1	Cyfle i'r Gymraeg fod yn brif iaith i ddisgyblion - nid yn unig yn yr ystafell ddosbarth.	Byddai gweithredu'r cynnig yn golygu y byddai Ysgol Bro Caereinion (YBC) yn dod yn ysgol Gymraeg, sy'n golygu y byddai pob disgybl yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae'r Cyngor yn cytuno'n llwyr y byddai hyn yn arwain at gynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg yn yr ysgol, ac ethos Cymraeg cryfach.
1.3.2	Byddai'r cynnig yn galluogi'r ysgol i wneud mwy i hyrwyddo gweithgareddau diwylliannol Cymraeg.	Fel uchod.
1.3.3	Byddai mwy o gyfleoedd i ddisgyblion Cymraeg gymdeithasu yn Gymraeg a phrofi bywyd ysgol cwbl Gymraeg, sydd mor bwysig o ran gweld gwerth yr iaith.	Fel uchod.
1.3.4	Bydd yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddefnyddio'r ddwy iaith yn gymdeithasol, yn yr ysgol ac mewn gweithgareddau allgyrsiol.	Fel uchod.

1.3.5	Byddai mwy o gyfleoedd i ddisgyblion gymdeithasu yn Gymraeg heb orfod newid i'r Saesneg pan fyddant yn y coridorau/iard/ffreutur.	Fel uchod.
1.3.6	Byddai cael ysgol lle mae'r addysg a'r gweithgareddau cymdeithasol/chwaraeon, diwylliant ac ati yn Gymraeg yn codi safon y Gymraeg a ddefnyddir a byddai'n sicrhau bod disgyblion yn dod yn fwy hyderus wrth ddefnyddio'r Gymraeg.	Fel uchod.
1.3.7	Mae'n bwysig bod pobl ifanc yn cael cyfle i weld bod y Gymraeg yn cŵl. Mae ysgolion cynradd eisoes yn gwneud hyn - cyfle i ddisgyblion fwynhau bandiau, rhaglenni, chwaraeon, rhaglenni Cymraeg.	Fel uchod.
1.3.8	Bydd hi'n fwy naturiol i ddisgyblion siarad Cymraeg.	Fel uchod.
1.3.9	Ar ôl i ddisgyblion adael yr ysgol, anaml y maent yn defnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r teulu. Efallai y bydd cael yr holl blant yn defnyddio'r Gymraeg drwy'r dydd yn mynd rhywfaint o'r ffordd i fynd i'r afael â hyn.	Fel uchod.

## 1.4 Effaith gadarnhaol ar ddisgyblion

### 1.4.1 Pupils would have better opportunities to become fully bilingual

1.4.1.1	Byddai'n rhoi gwell cyfle i'r rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg fel eu hiaith gyntaf ddysgu'r iaith i lefel rugl a fydd yn cyfoethogi eu bywydau.	Nodwyd y sylw. Byddai gweithredu'r cynnig yn golygu y byddai pob disgybl sy'n mynychu Ysgol Bro Caereinion yn dod yn ddwyieithog, yn rhugl yn Gymraeg a Saesneg, ac y byddent yn elwa ar lefel uwch o drochi yn yr iaith Gymraeg, a fyddai'n eu helpu i ddod yn fwy hyderus wrth ddefnyddio'r Gymraeg.
1.4.1.2	Byddai pawb yn gallu cyfathrebu yn y Gymraeg a fyddai'n cryfhau sgiliau Cymraeg disgyblion a staff.	Fel uchod.
1.4.1.3	Ysgolion cyfrwng Cymraeg yw'r model a ffefrir i sicrhau bod pob disgybl yn rhugl yn y ddwy iaith.	Fel uchod.



1.4.1.4	Byddai'r cynnig yn sicrhau y byddai pob plentyn yn yr ardal yn dod yn gwbl ddwyieithog.	Fel uchod.
1.4.1.5	Byddai ysgol Gymraeg yn rhoi cyfle i bob plentyn yn yr ardal brofi dwyieithrwydd a holl fanteision bywyd dwyieithog.	Fel uchod.
1.4.1.6	Byddai pob plentyn sy'n mynychu'r ysgol yn dod yn siaradwr Cymraeg hyderus (nid yw hyn yn wir ar hyn o bryd).	Fel uchod.
1.4.1.7	Byddai pob plentyn yn cael cyfle i fod yn rhugl yn y ddwy iaith.	Fel uchod.
1.4.1.8	Bydd yn creu dinasyddion cwbl ddwyieithog. Nid yw'r rhai sy'n astudio Cymraeg ail iaith yn ddwyieithog.	Fel uchod.
1.4.1.9	Bydd yn annog mwy o deuluoedd i roi eu plant yn y ffrwd Gymraeg, gan eu galluogi i ddod yn ddwyieithog.	Fel uchod.
1.4.1.10	Bydd disgyblion yn gallu cyfathrebu, darllen ac ysgrifennu yn y ddwy iaith i'r un graddau.	Fel uchod.
1.4.1.11	Bydd yn galluogi disgyblion i ddatblygu eu sgiliau iaith yn well.	Fel uchod.
1.4.1.12	Byddai'r cynnig yn darparu'r trochi sydd ei angen ar lawer o blant o ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg sy'n dod o gartrefi di-Gymraeg, er mwyn sicrhau eu bod yn gallu dod yn amlieithog llawn hyder.	Fel uchod.
1.4.1.13	Mae yna lawer o fanteision o fod yn ddwyieithog, gan gynnwys manteision academaidd a chymdeithasol, yn ogystal â manteision fel dinasyddion rhyngwladol.	Fel uchod.
1.4.1.14	Mae bod yn ddwyieithog yn helpu i ddatblygu sgiliau datrys problemau, y gallu i weithio fel rhan o dîm, empathi a dealltwriaeth o ddiwyllianau a chefnidiroedd eraill, ac yn agor y drws i ddiwylliant unigryw arall yn y Gymraeg.	Mae'r Cyngor yn cydnabod yn llawn bod llawer o fanteision profedig o fod yn ddwyieithog. Byddai gweithredu'r cynnig yn golygu y byddai pob disgybl sy'n mynychu Ysgol Bro Caereinion yn dod yn ddwyieithog, ac y byddai'n gwireddu'r manteision hyn.
1.4.1.15	Amlygwyd manteision addysgol, diwyllianol, cymdeithasol ac economaidd gallu siarad mwy nag un iaith mewn nifer o astudiaethau.	Fel uchod.

1.4.1.16	Mae'n ffaith bod plant dwyieithog ac amlieithog yn perfformio'n well mewn arholiadau ac yn datblygu sgiliau datrys problemau yn gyflymach na phlant sydd dim ond yn siarad un iaith.	Fel uchod.
1.4.1.17	Gall bod yn ddwyieithog arafu dechreuad dementia.	Fel uchod.
1.4.1.18	Mae manteision addysgol a gwybyddol o fod yn ddwyieithog	Fel uchod.
1.4.1.19	Mae bod yn ddwyieithog yn helpu i ddatblygu sgiliau gwybyddol fel datrys problemau a bod â meddwl beirniadol.	Fel uchod.
1.4.1.20	Dangosodd ymchwil gan Cenoz (2003) ei bod yn haws i ddisgyblion amlieithog ddysgu ieithoedd ychwanegol.	Fel uchod.
1.4.1.21	Canfu Tomas and Collier (2001) fod gan ddisgyblion sy'n dilyn rhaglenni dwyieithog lefelau uwch o gyflawniad na'u cyfoedion uniaith (tua 10% yn uwch)	Fel uchod.

#### 1.4.2 Byddai gwell sgiliau Cymraeg yn cael effaith gadarnhaol ar y cyfleoedd sydd ar gael i ddisgyblion yn y dyfodol

1.4.2.1	Mae llawer o swyddi yn lleol ac yn genedlaethol yn datgan bod y gallu i gyfathrebu yn Gymraeg naill ai'n ddymunol neu'n hanfodol.	Mae'r Cyngor yn cytuno y byddai gweithredu'r cynnig yn darparu cyfleoedd ychwanegol i ddisgyblion yn y dyfodol, gan y byddai holl ddisgyblion yr ysgol yn rhugl yn Gymraeg a Saesneg, a byddent yn gallu defnyddio'r ddwy iaith hyn yn eu gyrfaoedd yn y dyfodol.
1.4.2.2	Mae mwy a mwy o swyddi'n cael eu hysbysebu fel rhai lle mae Cymraeg yn hanfodol - mae'r sgil iaith hon yn gaffaeliad i ddisgyblion.	Fel uchod.
1.4.2.3	Byddai pob disgybl yn dod yn hollol ddwyieithog. Bydd yn cynnig llawer mwy o gyfleoedd mewn cyflogaeth yng Nghymru.	Fel uchod.
1.4.2.4	Mwy o hyder mewn dwy iaith a fydd yn gwella eu cyfleoedd gyrfa yn y dyfodol.	Fel uchod.
1.4.2.5	Mae gallu Cymraeg yn sgil ychwanegol gwerthfawr wrth chwilio am waith.	Fel uchod.

1.4.2.6	Bydd dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn darparu cyfoeth o gyfleoedd gyrfa i ddisgyblion ar ôl iddynt adael yr ysgol.	Fel uchod.
1.4.2.7	Bydd rhoi'r cyfle i'r genhedlaeth nesaf gael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn rhoi'r cyfleoedd cyflogaeth gorau iddynt os ydynt yn dewis parhau i fyw a gweithio yng Nghymru.	Fel uchod.
1.4.2.8	Mae sgiliau Cymraeg yn cael eu gwerthfawrogi wrth weithio i'r GIG dros y ffin yn Swydd Amwythig yn ogystal ag yng Nghymru, gan ei fod yn golygu y gellir darparu gwell profiad i gleifion sy'n siarad Cymraeg.	Fel uchod.
1.4.2.9	Mae addysg cyfrwng Cymraeg yn creu cyfleoedd i ddysgu sgiliau newydd ac yn paratoi disgyblion yn well ar gyfer y dyfodol.	Fel uchod.
1.4.2.10	Bydd rhoi'r cyfle i'r genhedlaeth nesaf gael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn rhoi'r cyfleoedd cyflogaeth gorau iddynt os ydynt yn dewis parhau i fyw a gweithio yng Nghymru.	Fel uchod.
1.4.2.11	Mae rhuglder yn y ddwy iaith yn cynnig cyfleoedd gwell wrth chwilio am waith. Mae'n datblygu creadigrwydd, empathi a sgiliau datrys problemau. Bydd derbyn addysg Gymraeg yn golygu y bydd disgyblion yn cael dwywaith cymaint o gyfleoedd.	Fel uchod.
1.4.2.12	Bydd disgyblion yn elwa, nid yn unig yn ystod eu haddysg ond ar ôl eu dyddiau ysgol hefyd gan y bydd mwy o gyfleoedd ar gael iddynt.	Fel uchod.

## 1.5 Bydd y cynnig yn diogelu'r ddarpariaeth uwchradd yn Llanfair Caereinion

1.5.1	Bydd yr ysgol yn cau os na fydd yr ysgol yn dod yn ysgol Gymraeg.	Nodir y sylwadau hyn, ond ar hyn o bryd, nid oes gan y Cyngor unrhyw gynlluniau i gau'r ysgol pe na bai'r cynnig presennol i newid y categori iaith yn cael ei weithredu.
-------	---	---

		<p>Mae'r Cyngor wedi bod dan bwysau i sefydlu darpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg dynodedig i wasanaethu disgyblion dalgylch Caereinion ers blynyddoedd lawer. Pe na bai'r Cyngor yn bwrw ymlaen â'r cynnig presennol mewn cysylltiad ag Ysgol Bro Caereinion, byddai pwysau o hyd i sefydlu darpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg dynodedig i wasanaethu disgyblion yr ardal mewn lleoliad gwahanol. Gallai hyn gael effaith sylweddol ar niferoedd disgyblion uwchradd Ysgol Bro Caereinion pe bai disgyblion yn dewis mynychu unrhyw ddarpariaeth newydd yn lle Ysgol Bro Caereinion, a allai olygu y byddai angen i'r Cyngor adolygu'r ysgol yn y dyfodol.</p> <p>Pe bai'r Cyngor yn dymuno ystyried cau'r ysgol, byddai hyn yn amodol ar y broses statudol fel yr amlinellir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion.</p>
1.5.2	Cefnogwch y cynnig. Os nad yw'n cael ei gwneud yn ysgol Gymraeg, bydd yn cau.	Fel uchod.
1.5.3	Os na fydd hyn yn digwydd, bydd yr ysgol yn cau mewn dim o dro - edrychwch ar yr ystadegau.	Fel uchod.
1.5.4	Rwy'n gyffredinol gefnogol i'r cynigion gan fy mod yn pryderu am ddyfodol yr ysgol o ystyried y sefyllfa ariannol y mae'n ei chael ei hun ynddi.	Fel uchod.
1.5.5	Yn gyffredinol gefnogol ar y sail bod y ddarpariaeth bresennol drwy ysgol dwy ffordd yn ymddangos yn anfforddiadwy, ac nad yw'n gynaliadwy yn y tymor hwy.	Fel uchod.
1.5.6	Mae angen ysgol yn y dref, ei newid i'r Gymraeg yw'r unig ffordd ymlaen	Fel uchod.
1.5.7	Dyma'r dewis gorau i ddiogelu'r ddarpariaeth addysg yn y maes hwn.	Fel uchod.

1.5.8	Dyma'r unig opsiwn i ddiogelu dyfodol yr ysgol	Fel uchod.
1.5.9	Yr unig ddewis arall fyddai cau, a fyddai'n golygu taith hir iawn i ysgolion uwchradd Cymraeg amgen.	Fel uchod.
1.5.10	Pe bai ysgol uwchradd Gymraeg ddynodedig yn agor yn rhywle arall yn y Sir, mae'n anochel y byddai llawer yn gadael y ddarpariaeth yn Llanfair Caereinion, a fyddai'n bygwth y ddarpariaeth uwchradd yn Llanfair Caereinion.	Fel uchod.
1.5.11	Mae angen ysgol gwbl Gymraeg ar Ogledd Powys, ac os nad yw wedi'i lleoli yn Llanfair bydd wedi'i lleoli yn rhywle arall a bydd Llanfair yn cau.	Fel uchod.
1.5.12	Pe na bai ysgol uwchradd Gymraeg yn cael ei sefydlu yn ardal Banwy, mae'n debygol y byddai un yn cael ei sefydlu mewn man arall, a fyddai'n peryglu dyfodol tymor hir darpariaeth uwchradd yn Llanfair Caereinion. Mae cadw darpariaeth uwchradd yn bwysig gan ei fod yn cyfrannu at sawl agwedd ar ddatblygiad cymunedol, economaidd a diwylliannol yn yr ardal.	Fel uchod.
1.5.13	Byddai'r cynnig yn sicrhau dyfodol yr ysgol, a fyddai'n sicrhau cadw swyddi yn yr ardal.	Fel uchod.
1.5.14	Byddai'r cynnig yn ffordd o sicrhau darpariaeth chweched yn yr ysgol, gan sicrhau dilyniant ieithyddol cryf.	Fel uchod.
1.5.15	Mae'r ysgol mewn diffyg ac yn amlwg ni all gynnal addysg dwy ffrwd. Mae angen i'r newid hwn ddigwydd er mwyn cadw'r ysgol yn hyfyw.	Nodwyd y sylw.
1.5.16	Mae'r ysgol mewn diffyg fel un dwy ffrwd, yr unig opsiwn hyfyw yw newid i un ffrwd, Cymraeg yn unig.	Nodwyd y sylw.
1.5.17	Os y dewis yw dod yn ysgol gwbl Gymraeg neu gau, byddwn yn cefnogi ysgol gwbl Gymraeg.	Nodwyd y sylw.
1.5.18	Gallaf weld bod y niferoedd yn y safle uwchradd yng Nghaereinion mewn trafferthion o gymharu â'r ysgolion uwchradd agosaf, felly mae angen i rywbeth newid.	Nodwyd y sylw.

1.5.19	Os daw yn ysgol cyfrwng Cymraeg, bydd cyllid yn cael ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru a fydd yn sicrhau dyfodol yr ysgol	Darperir cyllid refeniw i ysgolion yn seiliedig ar fformiwla ariannu'r Cyngor. Mae'n annhebygol y byddai cyllid refeniw ychwanegol yn cael ei roi gan Lywodraeth Cymru pe bai'r ysgol yn dod yn ysgol cyfrwng Cymraeg, ond mae'n wir y gallai cyllid ychwanegol fod ar gael i gefnogi mentrau fel Trochi, datblygu staff, a byddai'n fwy tebygol o fodloni'r meini prawf ar gyfer buddsoddi cyfalaf.
1.5.20	Darperir cyllid ychwanegol i ysgolion uniaith Gymraeg, a fyddai'n helpu i gadw'r ysgol ar agor ac wrth galon y gymuned.	Fel uchod.

## 1.6 Llanfair Caereinion yw'r lleoliad cywir ar gyfer darpariaeth uwchradd Gymraeg ddynodedig

1.6.1	Ysgol Bro Caereinion yw'r cartref perffaith ar gyfer addysg Gymraeg yng Ngogledd Powys.	Nodwyd y sylw.
1.6.2	Llanfair Caereinion yw'r lleoliad mwyaf addas a naturiol ar gyfer ysgol uwchradd Gymraeg yng Ngogledd Powys.	Nodwyd y sylw.
1.6.3	Llanfair yw'r dewis amlwg ar gyfer ysgol gwbl Gymraeg.	Nodwyd y sylw.
1.6.4	Mae Ysgol Bro Caereinion mewn lleoliad canolog a delfrydol o fewn y Sir	Nodwyd y sylw.
1.6.5	Caereinion yw'r ardal berffaith ar gyfer y math hwn o ysgol.	Nodwyd y sylw.
1.6.6	Mae'n ymddangos ei fod yn gwneud synnwyr i hyn ddigwydd yn Llanfair Caereinion oherwydd y ffaith bod bron pob ysgol sy'n bwydo Ysgol Bro Caereinion yn rhai cyfrwng Cymraeg, ac mae'r niferoedd yn y ffrydiau cyfrwng Saesneg sy'n weddill yn lleihau.	Nodwyd y sylw.
1.6.7	Os nad oes cynlluniau bellach i ddarparu ysgol uwchradd Gymraeg newydd yn yr ardal, dyma'r opsiwn gorau, a bydd hefyd yn sicrhau dyfodol Ysgol Bro Caereinion.	Nodwyd y sylw.
1.6.8	Ar wahân i sefydlu ysgol Gymraeg newydd yn Y Drenewydd, dyma'r opsiwn gorau. Fodd bynnag, o ystyried sefyllfa	Nodwyd y sylw.

	ariannol y Cyngor, mae'n ddealladwy pam mai'r opsiwn hwn sy'n cael ei ddatblygu.	
1.6.9	Y lleoliad delfrydol ar gyfer ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg fyddai yn Nyffryn Hafren gan mai dyma lle mae'r galw cynyddol mwyaf am addysg Gymraeg. Fodd bynnag, mae'n debyg nad yw hyn yn fforddiadwy, o leiaf yn y tymor byr, felly Llanfair Caereinion yw'r lleoliad cywir i sefydlu'r ddarpariaeth hon ar hyn o bryd.	Nodwyd y sylw.

### 1.7 Cefnogaeth i'r cynnig i weithredu ar gyfer Dosbarth Derbyn a Blwyddyn 7 ar yr un pryd

1.7.1	Cefnogi'r cynnig i weithredu'r newid gan ddechrau'n raddol gyda'r disgyblion ieuengaf ym mhob cam.	Nodwyd y sylw.
1.7.2	Mae'n hanfodol bod y newid yn cael ei gyflwyno yn y cyfnod cynradd ac uwchradd ar yr un pryd.	Nodwyd y sylw.
1.7.3	Cefnogi'r cynnig i weithredu o flwyddyn i flwyddyn o'r dosbarth derbyn a blwyddyn 7 fel y gellir cyflwyno'r newid yn raddol, gyda chyfle i'r gefnogaeth sydd ei hangen ymwreiddio. Bydd angen i'r gefnogaeth fod yn hyblyg i ymateb i'r angen bob blwyddyn.	Nodwyd y sylw.
1.7.4	Cefnogi'r cynnig i newid y categori iaith yn y cyfnod cynradd ac uwchradd ar yr un pryd, gan y byddai hyn yn sicrhau mynediad i addysg Gymraeg i fwy o ddisgyblion yn gyflymach.	Nodwyd y sylw.
1.7.5	Deall nad yw dechrau yn y Dosbarth Derbyn a chymryd 14 mlynedd i gwblhau'r cyfnod trawsnewid yn ymarferol, er y bydd yn anodd i'r rhai sydd eisoes yn y ffrwd Saesneg.	Nodwyd y sylw.
1.7.6	Deall yr angen i weithredu fesul cam gyda Dosbarth Derbyn a Blwyddyn 7, fodd bynnag, byddai'n well pe gellid ei gyflwyno'n gyflymach.	Nodwyd y sylw.

### 1.8 Byddai'r cynnig yn darparu dilyniant i ddisgyblion cyfrwng Cymraeg

1.8.1	Ar hyn o bryd mae diffyg parhad i ddisgyblion Cymraeg yn yr ardal - mae'n rhwystredig iawn i ysgolion cynradd lleol weld disgyblion yn mynychu ffrydiau Cymraeg.	Nodwyd y sylw. Mae'r Cyngor yn cytuno bod diffyg tegwch i ddisgyblion cyfrwng Cymraeg ym Mhowys ar hyn o bryd o'u cymharu â disgyblion cyfrwng Saesneg, a disgyblion cyfrwng Cymraeg mewn mannau eraill yng Nghymru, gyda disgyblion yn methu cael mynediad at ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg lawn. Nod y cynnig presennol yw mynd i'r afael â hyn.
1.8.2	Ar hyn o bryd mae 566 o ddisgyblion yn derbyn addysg Gymraeg yn yr ysgolion cynradd sy'n bwydo Caereinion. Rhaid darparu parhad ar gyfer y disgyblion hyn.	Fel uchod.
1.8.3	Dyma'r peth cywir i'w wneud. Mae angen i ddisgyblion Ysgol Dafydd Llwyd allu cael mynediad i ysgol gwbl Gymraeg flaengar, er mwyn parhau i hyrwyddo ac addysgu'r Gymraeg.	Fel uchod.
1.8.4	Mae'r rhan fwyaf o'r ysgolion cynradd sy'n bwydo Ysgol Bro Caereinion yn ysgolion cyfrwng Cymraeg. Mae'n warthus nad yw'r disgyblion hyn yn gallu parhau â'u haddysg mewn ysgol Gymraeg.	Fel uchod.
1.8.5	Ers blynyddoedd, mae rhieni wedi gweld eu plant yn cychwyn mewn addysg Gymraeg, ond yn wynebu problemau yn ddiweddarach yn y system addysg.	Fel uchod.
1.8.6	Mae angen ysgol uwchradd Gymraeg ddynodedig yng Ngogledd Powys i ddarparu ar gyfer y nifer cynyddol o blant sy'n mynychu ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yn yr ardal. Mae ysgol uwchradd Gymraeg ddynodedig yn golygu y byddai mwy o ddisgyblion yn gallu parhau i dderbyn addysg Gymraeg, gan arwain at fwy o ruglder yn y Gymraeg.	Fel uchod.
1.8.7	Byddai'n darparu llwybr cliriach drwy addysg Gymraeg o Gylch Meithrin hyd at uwchradd.	Fel uchod.
1.8.8	Mae hwn yn gam cadarnhaol gan y byddai'n golygu y byddai plant yn cael addysg Gymraeg o'u cam cyntaf i'r Cylch meithrin hyd at y diwrnod maen nhw'n gadael.	Fel uchod.



## 1.9 Byddai'r cynnig yn darparu tegwch i ddisgyblion cyfrwng Cymraeg

1.9.1	Byddai'r cynnig yn darparu cydraddoldeb i ddisgyblion cyfrwng Cymraeg.	Nodwyd y sylw. Mae'r Cyngor yn cytuno bod diffyg tegwch i ddisgyblion cyfrwng Cymraeg ym Mhowys ar hyn o bryd o'u cymharu â disgyblion cyfrwng Saesneg, a disgyblion cyfrwng Cymraeg mewn mannau eraill yng Nghymru. Nod y cynnig presennol yw mynd i'r afael â hyn.
1.9.2	Mae disgyblion y mae eu rhieni wedi dewis addysg Gymraeg gynradd iddynt yn haeddu gallu parhau â'u haddysg a'r ochr gymdeithasol yn Gymraeg.	Fel uchod.
1.9.3	Ar hyn o bryd, does gan rieni ddim mo'r dewis i anfon eu plant i ysgol Gymraeg ym Mhowys.	Fel uchod.
1.9.4	Dylai plant a rhieni ym Mhowys gael y dewis i fynychu ysgol gydag ethos Cymraeg a darpariaeth cyfrwng Cymraeg lawn.	Fel uchod.
1.9.5	Dylai teuluoedd Cymraeg yr ardal gael y dewis i anfon eu plant i ysgol Gymraeg yn lle derbyn mai ysgol dwy ffrwd yw'r unig opsiwn.	Fel uchod.
1.9.6	Bydd disgyblion yr ardal yn gallu dewis cael eu haddysg yn llawn drwy gyfrwng y Gymraeg am y tro cyntaf	Fel uchod.
1.9.7	Bydd yn rhoi cyfle i rieni anfon eu plant i gael eu haddysgu mewn ysgol Gymraeg yn ein hardal leol. Nid yw'r dewis hwn ar gael ar hyn o bryd, ond gall rhieni disgyblion cyfrwng Saesneg ddewis i'w plant fynd i ysgol dwy ffrwd neu ysgol cyfrwng Saesneg. Byddai'r cynnig yn darparu tegwch.	Fel uchod.
1.9.8	Mae digon o opsiynau eraill yn yr ardal leol i'r rhai sy'n dymuno cael mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Saesneg os yw'r cynnig hwn yn mynd yn ei flaen. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw opsiynau i ddisgyblion sy'n dymuno cael mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg lawn.	Fel uchod.

1.9.9	Mae llawer o opsiynau eraill eisoes ar gyfer y rhai sydd eisiau mynediad i addysg cyfrwng Saesneg.	Fel uchod.
1.9.10	Byddai hyn yn sicrhau y byddai plant yr ardal yn cael yr un cyfleoedd â phobl ifanc mewn rhannau eraill o Gymru.	Fel uchod.

### 1.10 Mae'r cynnig yn adlewyrchu'r cynnydd yn nifer y disgyblion cyfrwng Cymraeg yn yr ardal

1.10.1	Mae'r ffaith bod y niferoedd sy'n dechrau yn y ffrwd Saesneg wedi gostwng i bron dim yn dangos mai dyma'r ffordd ymlaen. Mae mor dda gweld hyn yn digwydd mewn ffordd organig, mewn ardal lle mae 'na lawer o deuluoedd nad ydynt yn siarad Cymraeg.	Nodwyd y sylw.
1.10.2	Cefnogi'r newidiadau yn llawn o ystyried cynnydd naturiol y Gymraeg yn yr ardal.	Nodwyd y sylw.
1.10.3	Mae'r cynnig yn adlewyrchu'r dewisiadau a wneir gan rieni, y ddarpariaeth iaith bresennol yn y clwstwr a pholisïau sirol a chenedlaethol.	Nodwyd y sylw.
1.10.4	Mae'r ffaith bod y galw am addysg Gymraeg yn yr ardal mor uchel yn dweud y cyfan.	Nodwyd y sylw.
1.10.5	O edrych ar y niferoedd, rwy'n derbyn bod yna natur anochel i'r penderfyniad gan nad yw'r rhifau'n gwneud synnwyr.	Nodwyd y sylw.

### 1.11 Bydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg yn yr ardal

1.11.1	Byddai hyn yn helpu i sicrhau dyfodol y Gymraeg yn yr ardal.	Byddai gweithredu'r cynnig yn golygu y byddai Ysgol Bro Caereinion yn dod yn ysgol Gymraeg, sy'n golygu y byddai pob disgybl yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae'r Cyngor yn cytuno'n llwyr y byddai hyn yn arwain at gynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg yn yr ardal leol.
1.11.2	Byddai'r cynnig yn cryfhau'r Gymraeg fel iaith fyw yn y gymuned.	Fel uchod.

1.11.3	Byddai'r cynnig yn gwarchod y Gymraeg yn yr ardal.	Fel uchod.
1.11.4	Mae'n gyfle euraidd i ddatblygu a diogelu'r iaith yn yr ardal.	Fel uchod.
1.11.5	Byddai'r cynnig yn rhoi cymorth i'r Gymraeg gryfhau a chael ei hailnormaleiddio yn yr ardal drwy greu mwy o siaradwyr dwyieithog.	Fel uchod.
1.11.6	Mae angen gwirioneddol am ysgol uwchradd Gymraeg yn yr ardal i helpu'r Gymraeg i ddatblygu a ffynnu.	Fel uchod.
1.11.7	Bydd y cynnig yn sicrhau y bydd yr iaith yn cryfhau ac yn tyfu, nid yn unig yn yr ysgol ond hefyd yn yr ardal ehangach.	Fel uchod.
1.11.8	Byddai'n rhoi mwy o statws i'r Gymraeg.	Fel uchod.
1.11.9	Byddai ysgol uwchradd Gymraeg yn rhoi llwyfan i'r iaith yn yr ardal.	Fel uchod.
1.11.10	Byddai'n creu canolbwynt canolog i'r Gymraeg a fyddai'n ganolbwynt iddi ffynnu.	Fel uchod.
1.11.11	Bydd yn cael effaith gadarnhaol ar y defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned a ledled Powys.	Fel uchod.
1.11.12	Byddai'r datblygiad yn cefnogi'r gweithgarwch diwylliannol cyfoethog sy'n digwydd yn ardal Dyffryn Banw.	Fel uchod.
1.11.13	Mewn amser, gobeithio y byddai'n golygu y byddai plant yn defnyddio'r Gymraeg yn naturiol wrth sgwrsio â'i gilydd amser egwyl ac amser cinio, nid yn y dosbarth yn unig. Byddai hyn yn rhoi'r hyder iddyn nhw siarad Cymraeg allan yn y gymuned.	Fel uchod.
1.11.14	Byddai mwy o gyfleoedd i bawb yn y gymuned siarad Cymraeg a byw eu bywydau yn Gymraeg.	Fel uchod.

## 1.12 Sylwadau ynghylch modelau cyflenwi cyfrwng Cymraeg

### 1.12.1 Pryderon ynghylch y model dwy ffrwd

1.12.1.1	Dydy'r model dwy ffrwd ddim yn gweithio - dim Cymraeg yn y coridorau, blaenoriaeth yn cael ei rhoi i'r Saesneg.	<p>Nodwyd y sylw. Mae'r Cyngor yn cydnabod yn llawn fod heriau yn gysylltiedig â'r model dwy ffrwd, a bod gwahaniaeth yn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a gynigir mewn ysgol cyfrwng Cymraeg o'i chymharu ag ysgol dwy ffrwd, yn enwedig o ran ethos yr ysgol a'r iaith a ddefnyddir y tu allan i'r ystafell ddosbarth.</p> <p>Mae rhai o'r heriau sy'n gysylltiedig â'r model dwy ffrwd wedi'u hamlinellu yn 'Gweledigaeth ar gyfer Cynyddu Nifer y Dysgwyr Cwbl Ddwyeithog ym Mhowys', a gymeradwywyd gan y Cabinet ym mis Rhagfyr 2020 ac a ddyfynnir yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y Cyngor ar gyfer 2022-32.</p> <p>Mae'r Cyngor yn cytuno'n llwyr y byddai gweithredu'r cynnig yn arwain at gynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg yn yr ysgol, ac ethos Cymraeg cryfach.</p>
1.12.1.2	Mae'n anodd hybu'r defnydd o'r Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth mewn ysgol dwy ffrwd oherwydd nad yw pawb yn ddwyieithog	Fel uchod.
1.12.1.3	Does gan ysgolion dwy ffrwd ddim ethos Cymraeg	Fel uchod.
1.12.1.4	Mae disgyblion o gartrefi di-Gymraeg sydd wedi mynychu ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg ar eu colled pan fyddant yn symud i ysgol uwchradd dwy ffrwd gan eu bod yn colli'r ethos cwbl Gymraeg oedd ganddynt yn yr ysgol gynradd, gan fod Saesneg bob amser yn gryfach mewn ysgol dwy ffrwd.	Fel uchod.
1.12.1.5	Mewn ysgolion dwy ffrwd, mae diffyg sgiliau Cymraeg disgyblion cyfrwng Saesneg yn golygu nad yw disgyblion yn gallu cymdeithasu yn y Gymraeg gyda'u cyfoedion, sy'n cyfyngu ar faint o Gymraeg sy'n cael ei siarad y tu allan i'r	Fel uchod.

	yستafell ddosbarth, sy'n golygu bod disgyblion nad ydynt yn siarad Cymraeg gartref yn colli eu hyder.	
1.12.1.6	Mae disgyblion o ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg wedi gorfod symud i ysgolion uwchradd dwy ffrwd sy'n cael trafferth cynnal ethos Cymraeg o ran gweithgareddau o ddydd i ddydd yn yr ysgol. Mae'n frwydr i beidio a syrthio i'r fagl o ddefnyddio Saesneg mewn cyfarfodydd boreol ysgol ac ati, hyd yn oed pan fydd mwyafrif disgyblion yr ysgol yn y ffrwd Gymraeg.	Fel uchod.
1.12.1.7	Mewn ysgolion dwy ffrwd, mae disgyblion yn newid o siarad Cymraeg i Saesneg am eu bod yn meddwl ei bod yn fwy cŵl, neu i gadw'r ffrwd Saesneg yn hapus - roeddwn i'n teimlo pwysau i siarad Saesneg yn lle Cymraeg.	Fel uchod.
1.12.1.8	Saesneg yw'r iaith a ffefrir mewn ysgolion dwy ffrwd bob amser.	Fel uchod.
1.12.1.9	Er bod manteision i addysg ddwyieithog, mae'r rhain yn bennaf i fyfyrwyr cyfrwng Saesneg. Mae hyn bob amser er anfantais i fyfyrwyr cyfrwng Cymraeg, gan mai'r iaith ddiodyn ar draws yr ysgol yw Saesneg yn awtomatig.	Fel uchod.
1.12.1.10	Mewn ysgolion dwy ffrwd, nid yw'n bosibl darparu'r trochi Cymraeg sydd ei angen ar ddisgyblion, yn enwedig y rhai o gartrefi di-Gymraeg, yn yr ystafell ddosbarth na'r tu allan iddi.	Fel uchod.
1.12.1.11	Er bod plant wedi gallu derbyn addysg Gymraeg yn Ysgol Bro Caereinion, effeithir ar eu hyder wrth siarad Cymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth.	Fel uchod.
1.12.1.12	Nid oes gan ysgolion dwy ffrwd ethos Cymraeg	Fel uchod.
1.12.1.13	Mewn ysgol dwy ffrwd mae yna ddrwgdeimlad yn aml rhwng y ffrydiau Cymraeg a'r rhai Saesneg am sawl rheswm, ac nid	Fel uchod.

	<p>yw'r Gymraeg yn cael ei pharchu fel y dylai fod yn cael ei pharchu.</p>	<p>Cydnabyddir bod tensiynau yn aml rhwng y ddwy ffrwd mewn ysgolion dwy ffrwd – cefnogir hyn gan sylwadau a dderbyniwyd fel rhan o'r ymgynghoriad hwn am densiynau rhwng y ffrydiau cyfrwng Cymraeg a'r rhai Saesneg yn Ysgol Bro Caereinion, sydd wedi'u hamlinellu yn adran 3.1.3</p>
1.12.1.14	<p>Nid yw'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn hafal i'r ddarpariaeth cyfrwng Saesneg, yn enwedig ôl-14 ac ôl-16. Mewn ysgol dwy ffrwd effeithir ar y gallu i gynnig ystod eang o bynciau o'i chymharu ag ysgol un ffrwd - does dim rhaid i ysgolion un ffrwd ddyblu'r pynciau.</p>	<p>Nodwyd y sylw. Mae'r Cyngor yn cydnabod yn llawn bod heriau yn gysylltiedig â'r model dwy ffrwd, a bod y model yn arwain at heriau wrth sicrhau bod cwricwlwm cynhwysfawr yn cael ei ddarparu yn y ddwy iaith. Mae rhai o'r heriau hyn wedi'u hamlinellu yn 'Gweledigaeth ar gyfer Cynyddu Nifer y Dysgwyr Cwbl Ddwyeithog ym Mhowys,' a gymeradwywyd gan y Cabinet ym mis Rhagfyr 2020 ac a ddyfynnir yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y Cyngor ar gyfer 2022-32.</p> <p>Mae'r Cyngor yn cytuno, yn y tymor hir, y dylai gweithredu'r cynnig alluogi plant i astudio mwy o bynciau yn y Gymraeg ar lefel uwchradd, gan gynnwys ôl-14 ac ôl-16.</p>
1.12.1.15	<p>Nid yw system ddwy ffrwd yn gweithio. Mae plant wedi gorfod sefyll arholiadau drwy'r Saesneg er gwaethaf iddynt ddewis addysg Gymraeg.</p>	<p>Nodwyd y sylw.</p>
1.12.1.16	<p>Mae'r ddarpariaeth bresennol yn llai ffafriol i ddisgyblion cyfrwng Cymraeg.</p>	<p>Nodwyd y sylw.</p>
1.12.1.17	<p>Mae'r ddarpariaeth ddwy ffrwd yn ddrud.</p>	<p>Nodwyd y sylw.</p>
1.12.1.18	<p>Mae'r model dwy ffrwd yn ddrud ac yn anghynladwy.</p>	<p>Nodwyd y sylw.</p>
1.12.1.19	<p>Nid yw cynnal y model presennol o gyflenwi dwy ffrwd yn hyfyw yn ariannol wrth symud ymlaen. Gyda'r niferoedd presennol o ddisgyblion yn yr ysgol, mae 4 dosbarth i bob grŵp blwyddyn ar hyn o bryd oherwydd yr angen i rannu'r</p>	<p>Nodwyd y sylw.</p>

	disgyblion, fodd bynnag, pe bai yna ffrwd un iaith, byddai 3 dosbarth.	
--	--	--

### 1.12.2 Sylwadau cadarnhaol am ysgolion cyfrwng Cymraeg

1.12.2.1	Mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, mae plant yn cael eu trochi yn y Gymraeg ym mhob agwedd ar eu profiad addysgol, sy'n beth da.	<p>Nodwyd y sylw. Mae'r Cyngor yn cydnabod yn llwyr fod manteision yn gysylltiedig â'r model cyfrwng Cymraeg o'i gymharu â'r model dwy ffrwd, a hynny yw'r gwahaniaeth yn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a gynigir mewn ysgol cyfrwng Cymraeg o'i chymharu ag ysgol ddwy ffrwd, yn enwedig o ran ethos yr ysgol a'r iaith a ddefnyddir y tu allan i'r ystafell ddosbarth.</p> <p>Byddai gweithredu'r cynnig i newid categori iaith Ysgol Bro Caereinion yn y pen draw yn golygu y byddai disgyblion yn gallu cael mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg lawn yn y cyfnodau cynradd ac uwchradd. Byddai hyn yn arwain at gynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg yn yr ysgol, ac ethos Cymraeg cryfach, a byddai'n galluogi disgyblion i astudio mwy o bynciau yn y Gymraeg yn y pen draw.</p>
1.12.2.2	Nid oes yr un teimlad o Gymreictod mewn ysgol dwy ffrwd - rhaid i'r ysgol fod yn gwbl Gymraeg i gefnogi ethos cwbl Gymraeg.	Fel uchod.
1.12.2.3	Bydd bod yn ysgol Gymraeg yn cael effaith gadarnhaol ar addysg ac ethos yr ysgol.	Fel uchod.
1.12.2.4	Dim ond mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg y gall disgyblion gael eu trochi'n llawn yn yr iaith Gymraeg, gan sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i ddisgyblion.	Fel uchod.
1.12.2.5	Byddai'r Gymraeg yn dod yn iaith addysgu i bob disgybl a byddai'r dysgwyr yn cael eu trochi yn yr iaith, yn hytrach na	Fel uchod.

	chael y profiad wedi'i wanhau fel sy'n digwydd ar hyn o bryd gan fod y Saesneg yn gryfach.	
1.12.2.6	Ysgol cyfrwng Cymraeg yw'r unig ffordd o sicrhau bod ein disgyblion yn gadael yr ysgol yn siaradwyr Cymraeg hyderus, rhugl.	Fel uchod.
1.12.2.7	Mae ysgolion cyfrwng Cymraeg yn helpu i osgoi'r sefyllfa lle mae disgyblion yn symud o'r ffrwd Gymraeg i'r ffrwd Saesneg.	Cydnabyddir ei bod hi'n anoddach i ddisgyblion symud o addysg cyfrwng Cymraeg i addysg cyfrwng Saesneg mewn ysgol Gymraeg.
1.12.2.8	Mae ysgol ddwyieithog yn un lle mae plant yn rhugl mewn dwy iaith. Nid yw hyn yn wir mewn ysgol dwy ffrwd oherwydd Saesneg yw'r iaith ddiodyn.	Nodwyd y sylw.

### 1.13 Sylwadau ynghylch staffio

#### 1.13.1 Effaith gadarnhaol ar y staff presennol

1.13.1.1	Byddai llwyth gwaith athrawon yn lleihau wrth newid i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn unig, gan na fyddai angen iddynt gyfieithu deunyddiau i addysgu dosbarthiadau cyfrwng Saesneg.	Nodwyd y sylw.
1.13.1.2	Byddai llwyth gwaith staff yn lleihau - ar hyn o bryd mae pob e-bost ac adnodd yn cael eu creu yn Gymraeg ac yn Saesneg.	Nodwyd y sylw.
1.13.1.3	Byddai'n golygu na fyddai'n rhaid i staff addysgu dosbarthiadau dwyieithog - mae hyn yn heriol, ac yn dyblu'r gwaith i athrawon.	Nodwyd y sylw.

#### 1.13.2 Byddai'n haws denu staff



1.13.2.1	Byddai'n creu sefyllfa a fyddai'n galluogi'r ysgol i ddenu staff mwy cymwys, brwdfrydig a thalentog i'r ardal ar draws yr ystod lawn o bynciau.	Nodwyd y sylw. Mae'r Cyngor yn cytuno, er bod recriwtio athrawon sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn her ledled Cymru, dylai newid categori iaith yr ysgol i gyfrwng Cymraeg gael effaith gadarnhaol ar allu'r ysgol i ddenu athrawon yn y tymor hwy.
1.13.2.2	Bydd newid y categori iaith yn rhoi hunaniaeth go iawn i'r ysgol a bydd yn cefnogi recriwtio staff.	Fel uchod.
1.13.2.3	Byddai ysgol Gymraeg yn denu mwy o athrawon i'r ysgol o'r tu allan i Bowys.	Fel uchod.
1.13.2.4	Bydd yn haws denu athrawon da Cymraeg eu hiaith.	Fel uchod.
1.13.2.5	Byddai lleoli addysg Gymraeg mewn un ysgol yn helpu i leddfu'r her o benodi athrawon ar gyfer pynciau penodol.	Fel uchod.
1.13.2.6	Dylai helpu i ddenu staff sy'n siarad Cymraeg, a ddylai ganiatáu cwricwlwm ehangach i blant sy'n cael eu haddysgu yn Gymraeg.	Fel uchod.

### 1.13.3 Sylwadau eraill

1.13.3.1	Mae llawer o athrawon galluog yn yr ysgol eisoes a all sicrhau ei llwyddiant fel ysgol cyfrwng Cymraeg.	Mae'r Cyngor yn cytuno. Mae gan Ysgol Bro Caereinion nifer o staff eisoes sy'n gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg, a fyddai'n darparu sylfaen dda ar gyfer newid categori iaith yr ysgol.
1.13.3.2	Mae'r model presennol ym Mro Caereinion yn ddibynnol ar unigolion. Gall newid Pennaeth neu newid yn y Corff Llywodraethu gael effaith negyddol ar arweinyddiaeth yr ysgol ac ar ei hethos hi. Byddai newid y categori iaith i gyfrwng Cymraeg yn diogelu statws ieithyddol yr ysgol.	Nodwyd y sylw.
1.13.3.3	Mae ysgol Gymraeg yn creu staff sydd wedi ymrwymo nid yn unig i'w gwaith fel athrawon, ond hefyd i'r Gymraeg a'r diwylliant Cymraeg. Mae'n rhoi sicrwydd i gyrff llywodraethu a	Nodwyd y sylw.

	thimau arweinyddiaeth ynglŷn â chyfrwng addysg o'r cychwyn cyntaf, gan osgoi unrhyw risgiau o beidio â gallu penodi staff sy'n siarad Cymraeg i swyddi, ac felly 'gorfod' penodi staff di-Gymraeg, sy'n golygu bod y ddarpariaeth yn newid dros nos.	
--	--	--

#### 1.14 Sylwadau ynghylch effaith ar y gymuned

1.14.1	Byddai hyn yn cael effaith gadarnhaol ar y gymuned gan y byddai'n dod â phawb at ei gilydd yn hytrach na chael ffrydiau Cymraeg a Saesneg ar wahân.	Nodwyd y sylw. Er ei fod yn cydnabod y gallai fod rhai tensiynau yn yr ardal leol i ddechrau, yn y tymor hwy byddai'r Cyngor yn disgwyl i'r rhain lacio, a byddai gweithredu'r cynnig yn golygu y byddai pawb yn y gymuned yn cael eu haddysgu gyda'i gilydd ac y byddai ganddynt yr un sgiliau iaith, a fyddai'n gwella cydlyniant cymunedol.
1.14.2	Bydd y gymuned yn elwa yn y tymor hir, bydd plant yn elwa ar fanteision amlieithrwydd a byddant yn gallu aros a gweithio yn yr ardal.	Fel uchod.
1.14.3	Byddai'n cael effaith gadarnhaol ar y gymuned.	Fel uchod.

#### 1.15 Mae'r cynnig yn cefnogi gweithredu strategaethau amrywiol

1.15.1	Mae'r cynnig yn adlewyrchu'r ymrwymadau a wnaed yn Strategaeth Trawsnewid Addysg y Cyngor a'i Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg i gryfhau darpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg yn y sir.	Nodwyd y sylw.
1.15.2	Mae'r cynnig yn gyfle gwirioneddol i fynd i'r afael ag uchelgeisiau Llywodraeth Cymru ar gyfer miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.	Nodwyd y sylw.
1.15.3	Un o amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw gweld Cymru o Ddiwylliant Bywiog a Chymraeg Ffyniannus. Byddai'r cynnig hwn yn cyrraedd y nod	Nodwyd y sylw.

	hwn gan y byddai'n galluogi pob disgybl yn nalgylch Ysgol Bro Caereinion i ddatblygu eu sgiliau iaith a dod yn siaradwyr rhugl y Gymraeg a'r Saesneg, gan sicrhau eu bod yn dod yn ddinasyddion cwbl ddwyieithog ac yn eu galluogi i ddefnyddio'r ddwy iaith yn hyderus yn eu bywydau personol a phroffesiynol yn y dyfodol.	
--	--	--

## 1.16 Sylwadau eraill

1.16.1	Cefnogi'r datblygiad hir-ddisgwyliedig hwn.	Nodwyd y sylw.
1.16.2	Mae hwn yn gyfle gwych i'r ardal - newid cadarnhaol i sicrhau mynediad i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.	Nodwyd y sylw.
1.16.3	Mae hwn yn gynnig cyffrous iawn i'r ardal	Nodwyd y sylw.
1.16.4	Efallai y bydd y newid yn anodd i ddechrau, ond bydd anawsterau yn cael eu datrys yn y man.	Nodwyd y sylw.
1.16.5	Ni allwch blesio pawb, fodd bynnag, os gwneir penderfyniad i symud ymlaen, bydd pobl yn addasu.	Nodwyd y sylw.
1.16.6	Bydd yn cael effaith gadarnhaol ar wella a chynyddu cyfradd y disgyblion sy'n astudio'r Gymraeg fel iaith gyntaf ar lefel TGAU a Safon Uwch.	Nodwyd y sylw.

## **ADRAN 2 – SYLWADAU NAD YDYNT YN CEFNOGI'R CYNNIG**

### 2.1 Sylwadau ynghylch yr effaith ar ddisgyblion

#### 2.1.1 Effaith ar lesiant disgyblion

2.1.1.1	Pryder am yr effaith ar iechyd meddwl plant yn yr ardal.	Mae'r Cyngor yn cydnabod y bydd unrhyw gynnig ad-drefnu ysgolion yn cael effaith ar ddisgyblion yr effeithir arnynt gan y newid sy'n cael ei gynnig. Mae'r Cyngor
---------	--	---

		<p>yn cynnig newid categori iaith Ysgol Bro Caereinion yn raddol, gan ddechrau gyda'r Dosbarth Derbyn a Blwyddyn 7, sy'n ceisio lleihau'r effaith ar ddisgyblion gan y byddai'n sicrhau y gallai disgyblion barhau i gael mynediad at ddarpariaeth eu hiaith bresennol drwy gydol y cyfnodau cynradd ac uwchradd.</p> <p>Fodd bynnag, cydnabyddir bod y cynnig i gyflwyno'r newid o Flwyddyn 7 yn ogystal â'r dosbarth Derbyn wedi arwain at bryder sylweddol yn yr ardal leol, ac wedi achosi pryder i ddisgyblion yr effeithir arnynt o bosib gan y newid hwn.</p> <p>Bydd angen i'r Cyngor ystyried yr adborth a gafwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori wrth benderfynu a ddylid bwrw ymlaen â gweithredu'r cynnig ai peidio.</p> <p>Pe bai'r Cyngor yn penderfynu bwrw ymlaen, byddai angen gweithio gydag Ysgol Bro Caereinion ac ysgolion eraill yn y dalgylch i sicrhau bod disgyblion yn cael eu cefnogi gyda threfniadau trawsnewid. Byddai hyn yn cynnwys darpariaeth Drochi ar gyfer y rhai sy'n dymuno cael mynediad ati, yn ogystal â chymorth gyda threfniadau trawsnewid i ysgolion amgen i unrhyw ddisgyblion sy'n dymuno trosglwyddo i ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Saesneg mewn ysgolion eraill.</p>
2.1.1.2	Pryder am effaith newid ysgol ar iechyd meddwl a llesiant disgyblion.	Pe bai'r cynnig hwn yn cael ei weithredu, dymuniad y Cyngor yw bod yr holl ddisgyblion yn aros yn Ysgol Bro Caereinion. Byddai darpariaeth Trochi ar gael i helpu disgyblion cynradd i wella eu sgiliau Cymraeg i'w galluogi i ymuno â'r ffrwd Gymraeg ym Mlwyddyn 7, gyda chymorth ychwanegol ar gael unwaith y byddant

		ym Mlwyddyn 7. Fodd bynnag, cydnabyddir bod yna rai teuluoedd / disgyblion na fyddant eisiau cael mynediad i'r ddarpariaeth Trochi neu ymuno â'r ffrwd Gymraeg, ac efallai y byddant yn dewis symud i ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg eraill.
2.1.1.3	Mae'r syniad o symud i ysgol arall yn cael effaith negyddol ar ddisgyblion sydd yn y ffrwd Saesneg ar hyn o bryd.	Fel uchod.
2.1.1.4	Byddai'r cynnig yn cael effaith niweidiol ar grwpiau cyfeillgarwch a grwpiau cymorth, a fydd yn effeithio ar iechyd meddwl disgyblion.	Fel uchod.
2.1.1.5	Pryder y byddai grwpiau cyfeillgarwch yn cael eu chwalu pe bai disgyblion yn symud i wahanol ysgolion, a fyddai'n cael effaith negyddol ar lesiant disgyblion.	Fel uchod.
2.1.1.6	Pryder am yr effaith ar lesiant disgyblion y mae eu haddysg wedi bod yn Saesneg yn bennaf sy'n symud i'r ffrwd Gymraeg.	Fel uchod.
2.1.1.7	Byddai'n cael effaith andwyol ar ddisgyblion presennol gan y byddai'r iaith y maent yn astudio ynddi yn newid ar ran o'r ffordd trwy eu hastudiaethau.	Fel uchod.
2.1.1.8	Pryder am yr effaith ar iechyd meddwl a llesiant plant a fydd o dan bwysau i ddysgu Cymraeg er mwyn mynd i'w hysgol uwchradd leol.	Fel uchod.
2.1.1.9	Mae'r disgyblion eisoes wedi wynebu amhariad gan fod yr ysgol wedi newid i fod yn ysgol bob oed. Yn dilyn y cynnwrf a achoswyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf gan Covid, byddai newid pethau eto fel y byddai'n rhaid i blant fynd i ysgolion gwahanol dim ond yn achosi mwy o gynnwrf a gofid i'r disgyblion hyn.	<p>Nodwyd y sylw. Cydnabyddir bod disgyblion sy'n mynychu Ysgol Bro Caereinion ar hyn o bryd eisoes wedi profi newid, yn dilyn uno Ysgol Gynradd Gymunedol Llanfair Caereinion ac Ysgol Uwchradd Caereinion i sefydlu Ysgol Bro Caereinion, yn ogystal ag effaith Covid.</p> <p>Mae'r Cyngor yn cynnig newid categori iaith Ysgol Bro Caereinion yn raddol, gan ddechrau gyda'r Dosbarth Derbyn a Blwyddyn 7, gyda'r nod o leihau'r effaith ar</p>

		<p>ddisgyblion gan y byddai'n sicrhau y gallai disgyblion barhau i gael mynediad at ddarpariaeth eu hiaith bresennol drwy gydol y cyfnodau cynradd ac uwchradd.</p> <p>Fodd bynnag, cydnabyddir bod y cynnig i gyflwyno'r newid o Flwyddyn 7 yn ogystal â'r Dosbarth Derbyn wedi arwain at bryder sylweddol yn yr ardal leol, ac wedi achosi pryder i ddisgyblion yr effeithir arnynt o bosib gan y newid hwn.</p>
2.1.1.10	<p>Y plant a fydd yn gweld yr effaith fwyaf yw'r rhai ym mlynnyddoedd 1 i 5. Mae'r rhain yn blant sydd eisoes wedi gweld blynnyddoedd o darfu ar eu haddysg o ganlyniad i Covid-19. Yn ogystal â hyn, effeithiwyd yn fawr ar ddisgyblion Ysgol Bro Caereinion y llynedd gan y ddamwain a ddigwyddodd. Er nad oes bai ar neb o ran y ddau beth hyn, ni ellir tanddatgan yr effaith ar iechyd meddwl a llesiant ein plant, yn ogystal â'u haddysg.</p>	<p>Fel uchod.</p>
2.1.1.11	<p>Mae rhai disgyblion eisoes wedi bod drwy brosesau ad-drefnu blaenorol e.e. Banw/Llanerfyl, Castell Caereinion. Pryder am yr effaith ar eu llesiant o orfod mynd trwy newid arall.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r pryder hwn ynghylch yr effaith ar ddisgyblion sydd wedi symud i'r ysgol oherwydd bod eu hysgolion blaenorol wedi cau.</p> <p>Mae'r Cyngor yn cynnig newid categori iaith Ysgol Bro Caereinion yn raddol, gan ddechrau gyda'r Dosbarth Derbyn a Blwyddyn 7, gyda'r nod o leihau'r effaith ar ddisgyblion gan y byddai'n sicrhau y gallai disgyblion barhau i gael mynediad at ddarpariaeth eu hiaith bresennol drwy gydol y cyfnodau cynradd ac uwchradd.</p>
2.1.1.12	<p>Pryder am yr effaith ar blant a symudodd i Lanfair am fod ysgol eu pentref wedi cau, a nawr mae'n rhaid iddyn nhw symud eto oherwydd mai dim ond ffrwd Gymraeg fydd yna.</p>	<p>Fel uchod.</p>

2.1.1.13	Mae'r disgyblion wedi bod yn ofidus, ac wedi bod yn gwneud sylwadau fel 'nid oes croeso i ni yn yr ysgol hon mwyach'. Bydd y penderfyniad hwn yn cael effaith wirioneddol ar ddisgyblion yn yr ardal leol.	Mae'r Cyngor yn cynnig newid categori iaith Ysgol Bro Caereinion yn raddol, gan ddechrau gyda'r Dosbarth Derbyn a Blwyddyn 7, gyda'r nod o leihau'r effaith ar ddisgyblion gan y byddai'n sicrhau y gallai disgyblion barhau i gael mynediad at ddarpariaeth eu hiaith bresennol drwy gydol y cyfnodau cynradd ac uwchradd.  Fodd bynnag, cydnabyddir bod y cynnig i gyflwyno'r newid o Flwyddyn 7 yn ogystal â'r Dosbarth Derbyn wedi arwain at bryder sylweddol yn yr ardal leol, ac wedi achosi pryder i ddisgyblion yr effeithir arnynt o bosib gan y newid hwn.
2.1.1.14	Mae arbenigwyr addysgol blaenllaw yn cydnabod bod hepgor iaith gyntaf plentyn yn fwy niweidiol nag y gellir ei gyfiawnhau erioed i ddatblygiad hunan-barch, hyder a chymeriad y plentyn, sy'n golygu y gall cyfleoedd fod yn gyfyngedig iawn iddynt pan na allant gyfathrebu mewn ffordd y mae pawb arall yn ei deall. Mae hyn yn achosi teimladau o drallod, ofn, unigrwydd, cywilydd a diffyg ac anallu.	Pe bai'r Cyngor yn bwrw ymlaen â gweithredu'r cynnig, byddai pob disgybl yn yr ysgol yn dod yn ddwyieithog, yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg. Ni fyddai Saesneg yn cael ei 'hepgor'.

## 2.1.2 Effaith ar gyflawniad disgyblion

2.1.2.1	Byddai'n niweidiol i gynnydd parhaus disgyblion ac yn debygol o arwain at atchweliad mewn dysgu a chanlyniadau graddau is pe bai'n rhaid iddynt symud i'r ffrwd Gymraeg.	Mae'r Cyngor yn nodi'r pryder hwn. Byddai cynnydd unrhyw ddisgyblion sy'n trosglwyddo i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn cael ei fonitro gan eu hathrawon, a fyddai'n nodi ac yn mynd i'r afael ag unrhyw faterion yn ymwneud â'u cynnydd a'u canlyniadau dysgu.
---------	--	---

		<p>Daeth adolygiad cwmpasu o ymchwil i raglenni trochi hwyr gan Lywodraeth Cymru<sup>1</sup> i'r casgliad nad oedd unrhyw anfantais i ganlyniadau addysgol disgyblion sy'n cymryd rhan mewn ymyraethau trochi hwyr.</p> <p>Bydd y Cyngor yn ystyried yr effaith ar ddisgyblion a fyddai'n cael eu heffeithio'n arbennig gan y cynigion oherwydd eu bod yn mynychu addysg cyfrwng Saesneg yn y dalgylch ar hyn o bryd wrth benderfynu i symud ymlaen efo'r cynigion ai peidio.</p>
2.1.2.2	Pryder am yr effaith ar gyflawniad disgyblion.	Fel uchod.
2.1.2.3	Pryder am yr effaith ar ddysgu pynciau eraill pe bai'n rhaid i ddisgyblion ddechrau ar eu taith yn yr ysgol uwchradd yn gorfod dysgu Cymraeg yn gyflym a hwythau eisoes yn teimlo ar ei hôl hi.	Fel uchod.
2.1.2.4	Mae'r cynigion yn gadael y plant hynny yr effeithir arnynt fwyaf gan y newid (blynyddoedd 1 i 5) mewn perygl o syrthio ar ei hôl hi mewn pynciau craidd eraill.	Fel uchod.
2.1.2.5	Mae'n hanfodol fod plant yn dysgu hyd eithaf eu gallu, ni waeth ym mha iaith y maent yn dysgu ynddi. Dyw'r Gymraeg ddim i bawb – mae rhai wedi cychwyn yn y ffrwd Gymraeg ond wedi cael trafferth, felly maent wedi symud draw i'r ffrwd Saesneg.	<p>Nodwyd y sylw. Fodd bynnag, nod y Cyngor yw bod disgyblion sy'n dechrau mewn addysg Gymraeg yn parhau i wneud hynny drwy gydol eu haddysg cyn belled ag y bo modd. Dyma'r ffordd orau o sicrhau bod disgyblion yn parhau i ddatblygu eu sgiliau dwyieithog, fel eu bod yn ddwyieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg pan fyddant yn gadael yr ysgol.</p> <p>Pe bai'r Cyngor yn bwrw ymlaen â'r cynnig i newid categori iaith yr ysgol, byddai'r ysgol yn elwa ar ethos Cymraeg gwell, a ddylai gael effaith gadarnhaol ar sgiliau Cymraeg disgyblion, sy'n golygu eu bod mewn</p>

<sup>1</sup> <https://www.gov.wales/late-immersion-and-intensive-language-provision-quick-scoping-review>



		<p>sefyllfa well i barhau i gael mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg drwy gydol eu hamser yn yr ysgol. Nod y cynnig yw sicrhau'r cyfleoedd gorau i bob dysgwr, a phe bai'r Cyngor yn bwrw ymlaen â'r cynnig, byddai staff Ysgol Bro Caereinion yn parhau i gefnogi disgyblion i sicrhau eu bod yn cael y cyfle i gyflawni eu potensial.</p> <p>Mae llawer o ddisgyblion ar draws Cymru yn mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg un ffrwd yn y sector cynradd ac uwchradd. Yn yr ysgolion hyn, nid oes ffrwd Saesneg i ddisgyblion symud i mewn iddi. Fodd bynnag, mae gan ddisgyblion/rhieni hawl i wneud cais am le mewn unrhyw ysgol y maent yn ei dewis. Pe bai'r Cyngor yn bwrw ymlaen â'r cynnig i newid categori iaith Ysgol Bro Caereinion, byddai disgyblion/rhieni yn gallu gwneud cais i drosglwyddo i ysgol arall sy'n cynnig darpariaeth cyfrwng Saesneg, pe baen nhw'n dymuno hynny.</p>
2.1.2.6	Mae gorfodi plant i wneud eu TGAU yn Gymraeg yn annheg a bydd yn lleihau eu siawns o gyrraedd eu nodau academaidd.	Ni fydd disgyblion yn cael eu 'gorfodi' i wneud eu TGAU yn y Gymraeg – pe bai'r Cyngor yn bwrw ymlaen â gweithredu'r cynnig, gallai disgyblion naill ai gael mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Bro Caereinion, neu gallent gael mynediad i ddarpariaeth cyfrwng Saesneg mewn ysgol arall. Byddai disgyblion sy'n astudio yn Saesneg yng nghyfnod uwchradd yr ysgol ar hyn o bryd yn gallu parhau i wneud hynny, felly byddent yn sefyll eu TGAU yn Saesneg.
2.1.2.7	Bydd newid iaith astudiaethau disgyblion presennol yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol yn cael effaith andwyol neu'n ei gwneud yn anoddach iddynt yn y cyfnod cyn TGAU.	Pe bai'r Cyngor yn bwrw ymlaen â gweithredu'r cynnig, gallai disgyblion naill ai gael mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Bro Caereinion, neu gallent

		gael mynediad i ddarpariaeth cyfrwng Saesneg mewn ysgol arall. Byddai disgyblion sy'n astudio yn Saesneg yng nghyfnod uwchradd yr ysgol ar hyn o bryd yn gallu parhau i wneud hynny, felly byddent yn sefyll eu TGAU yn Saesneg.
2.1.2.8	Pryder pe bai disgyblion yn dechrau cael trafferth mewn addysg cyfrwng Cymraeg, ni fyddai opsiwn iddynt newid i gyfrwng Saesneg, fel y gallant wneud ar hyn o bryd, a byddai hyn yn effeithio ar eu cyflawniad.	<p>Pe bai'r Cyngor yn bwrw ymlaen â'r cynnig i newid categori iaith yr ysgol, byddai'r ysgol yn elwa ar ethos Cymraeg gwell, a ddylai gael effaith gadarnhaol ar sgiliau Cymraeg disgyblion, sy'n golygu eu bod mewn sefyllfa well i barhau i gael mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg drwy gydol eu hamser yn yr ysgol.</p> <p>Mae llawer o ddisgyblion ar draws Cymru yn mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg un ffrwd yn y sector cynradd ac uwchradd. Yn yr ysgolion hyn, nid oes ffrwd Saesneg i ddisgyblion symud i mewn iddi. Fodd bynnag, mae gan ddisgyblion/rhieni hawl i wneud cais am le mewn unrhyw ysgol y maent yn ei dewis. Pe bai'r Cyngor yn bwrw ymlaen â'r cynnig i newid categori iaith Ysgol Bro Caereinion, byddai disgyblion/rhieni yn gallu gwneud cais i drosglwyddo i ysgol arall sy'n cynnig darpariaeth cyfrwng Saesneg, pe baen nhw'n dymuno hynny.</p>
2.1.2.9	Pryder dros blant sydd eisoes yn dal i fyny yn dilyn y pandemig yn mynd trwy Trochi, yn enwedig pe bai pandemig arall. Byddant yn disgyn ymhellach y tu ôl.	Nodwyd y sylw.

### 2.1.3 Pryder ynghylch yr effaith ar ddisgyblion cyfrwng Saesneg yn ystod y cyfnod trawsnewid

2.1.3.1	Pryder am yr effaith ar ddisgyblion cyfrwng Saesneg Ysgol Bro Caereinion yn ystod y cyfnod trawsnewid – ni fyddant yn flaenoriaeth o ran cyllid a safon yr addysgu.	Pe bai'r Cyngor yn bwrw ymlaen â gweithredu'r cynnig, byddai angen i Ysgol Bro Caereinion sicrhau bod darpariaeth briodol yn cael ei darparu i ddisgyblion
---------	---	--

		cyfrwng Saesneg yn ystod y cyfnod trawsnewid. Byddai Tîm Gwella Ysgolion y Cyngor yn parhau i gefnogi a herio darpariaeth ar draws yr ysgol gyfan yn ystod y cyfnod trawsnewid.
2.1.3.2	Pryder y bydd plant sy'n aros yn ffrwd cyfrwng Saesneg yr ysgol yn ystod y cyfnod trawsnewid yn wynebu amhariadau wrth i athrawon nad ydynt yn siarad Cymraeg adael yr ysgol i gael cyfleoedd addysgu mwy parhaol. Sut ydych chi'n bwriadu mynd i'r afael â hyn a lliniaru'r risgiau hyn?	<p>Fel uchod.</p> <p>Byddai angen i'r ysgol recriwtio athrawon ychwanegol i gymryd lle unrhyw athrawon sy'n gadael yn ystod y cyfnod trawsnewid. Er ei bod yn debygol y byddai'r ysgol yn bwriadu recriwtio athrawon sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, byddai'r athrawon hyn hefyd yn rhugl yn y Saesneg, ac yn gallu addysgu trwy gyfrwng y Saesneg yn ystod y cyfnod trawsnewid, pe bai angen hynny.</p>

#### 2.1.4 Ni fyddai disgyblion yn gallu symud o un ffrwd i'r llall

2.1.4.1	Ar hyn o bryd os yw plant yn cael trafferth dysgu yn y Gymraeg wrth iddynt symud trwy eu haddysg, gallant newid i'r ffrwd arall. Byddai'r cynnig yn dileu'r dewis hwn a'r rhwyd ddiogelwch.	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau hyn ynghylch symud disgyblion o'r ffrwd Gymraeg i'r ffrwd Saesneg yn ystod eu hamser yn Ysgol Bro Caereinion.</p> <p>Nod y Cyngor yw bod disgyblion sy'n dechrau mewn addysg Gymraeg yn parhau i wneud hynny drwy gydol eu haddysg cyn belled ag y bo modd. Dyma'r ffordd orau o sicrhau bod disgyblion yn parhau i ddatblygu eu sgiliau dwyieithog, fel eu bod yn ddwyieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg pan fyddant yn gadael yr ysgol.</p> <p>Pe bai'r Cyngor yn bwrw ymlaen â'r cynnig i newid categori iaith yr ysgol, byddai'r ysgol yn elwa ar ethos Cymraeg gwell, a ddylai gael effaith gadarnhaol ar sgiliau Cymraeg disgyblion, sy'n golygu eu bod mewn</p>
---------	---	---

		<p>sefyllfa well i barhau i gael mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg drwy gydol eu hamser yn yr ysgol. Nod y cynnig yw sicrhau'r cyfleoedd gorau i bob dysgwr, a phe bai'r Cyngor yn bwrw ymlaen â'r cynnig, byddai staff Ysgol Bro Caereinion yn parhau i gefnogi disgyblion i sicrhau eu bod yn cael y cyfle i gyflawni eu potensial.</p> <p>Mae llawer o ddisgyblion ar draws Cymru yn mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg un ffrwd yn y sector cynradd ac uwchradd. Yn yr ysgolion hyn, nid oes ffrwd Saesneg i ddisgyblion symud i mewn iddi. Fodd bynnag, mae gan ddisgyblion/rhieni hawl i wneud cais am le mewn unrhyw ysgol y maent yn ei dewis. Pe bai'r Cyngor yn bwrw ymlaen â'r cynnig i newid categori iaith Ysgol Bro Caereinion, byddai disgyblion/rhieni yn gallu gwneud cais i drosglwyddo i ysgol arall sy'n cynnig darpariaeth cyfrwng Saesneg, pe baen nhw'n dymuno hynny.</p>
2.1.4.2	Bydd y cynnig yn golygu na fydd disgyblion yn dechrau mewn addysg Gymraeg gan na fydd ganddyn nhw'r opsiwn i newid i addysg cyfrwng Saesneg yn Ysgol Bro Caereinion os ydyn nhw'n dymuno gwneud hynny ar gyfer eu harholiadau TGAU.	Fel uchod.
2.1.4.3	Mae'r model dwy ffrwd presennol yn golygu bod disgyblion yn gallu newid o'r ffrwd Gymraeg i'r ffrwd Saesneg os ydyn nhw'n cael trafferth wrth iddyn nhw agosáu at eu TGAU – ni fyddai hyn yn bosib mewn ysgol cyfrwng Cymraeg.	Fel uchod.
2.1.4.4	Byddai rhai disgyblion sy'n cael addysg Gymraeg ar hyn o bryd yn hoffi symud i'r ffrwd Saesneg yn yr ysgol uwchradd, ond byddai hyn yn golygu na fyddai hyn yn bosib - mae hyn yn annheg.	Fel uchod.

2.1.4.5	Bydd symud i fwrdd o'r model dwy ffrwd yn golygu na fyddai 'rhwyd ddiogelwch' y ffrwd cyfrwng Saesneg ar gael mwyach, a allai arwain at ostyngiad yn nifer y disgyblion sy'n dewis addysg cyfrwng Cymraeg.	Fel uchod.  Mae'r Cyngor yn cydnabod y gallai gweithredu'r cynnig arwain at ostyngiad yn nifer y disgyblion yn yr ysgol pe bai disgyblion yn dewis cael mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Saesneg mewn ysgolion eraill yn hytrach na chael mynediad i'r ddarpariaeth yn Ysgol Bro Caereinion, ond mae hefyd yn bosibl y gallai gweithredu'r cynnig arwain at gynnydd yn nifer y disgyblion cyfrwng Cymraeg yn yr ysgol yn y tymor hwy.
2.1.4.6	Yn ôl gwefan StatsCymru, mae 40% o ddisgyblion mewn addysg gynradd cyfrwng Cymraeg yn newid i addysg uwchradd cyfrwng Saesneg rhwng blwyddyn 6 a 7.	Nid yw'r Cyngor yn gallu dod o hyd i unrhyw ddata ar wefan StatsCymru sy'n cefnogi'r datganiad hwn.

### 2.1.5 Byddai llai o gyfle i ddisgyblion cyfrwng Saesneg gael eu hamlygu i'r Gymraeg

2.1.5.1	Byddai'r rhai yn y ffrwd Saesneg ar eu colled o ran cyfleoedd i ddod i gysylltiad â'r Gymraeg, felly bydd hyn yn cael effaith negyddol yn gyffredinol.	Wrth nodi'r pryderon hyn y byddai disgyblion cyfrwng Saesneg yn cael llai o gysylltiad â'r Gymraeg, mae'n ofynnol i bob ysgol yng Nghymru ddysgu Cymraeg fel ail iaith a chynnig cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Pe bai disgyblion yn dewis mynychu darpariaeth cyfrwng Saesneg mewn gwahanol ysgolion yn hytrach na mynychu Ysgol Bro Caereinion, byddent yn parhau i gael cyfleoedd i ddysgu Cymraeg ail iaith.  Er y gallai fod yn wir fod disgyblion cyfrwng Saesneg sy'n mynychu ysgol dwy ffrwd yn clywed mwy o Gymraeg na disgyblion mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, nid yw'r mwyafrif helaeth o ddisgyblion sy'n cael mynediad i ddarpariaeth cyfrwng Saesneg yn dod yn rhugl yn y Gymraeg - fel arfer, dim ond disgyblion
---------	--	---

		sy'n cael mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg sy'n dod yn rhugl yn y Gymraeg. Byddai gweithredu'r cynnig yn golygu y byddai pob disgybl sy'n mynychu Ysgol Bro Caereinion yn dod yn ddwyieithog, yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg yn y dyfodol.
2.1.5.2	Byddai dysgwyr sy'n symud i ysgolion cyfrwng Saesneg ar eu colled o ran defnyddio'r Gymraeg yn naturiol mewn gwersi, yn y coridor ac mewn gweithgareddau egwyl a chinio.	Fel uchod.
2.1.5.3	Ni fydd disgyblion cyfrwng Saesneg yn cael y fantais o glywed y Gymraeg yn ddyddiol yn yr ysgol.	Fel uchod.
2.1.5.4	Byddai disgyblion cyfrwng Saesneg yn cael llai o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.	Fel uchod.
2.1.5.5	Mae ysgolion dwy ffrwd yn caniatáu i blant cyfrwng Saesneg glywed y Gymraeg yn naturiol yn ddyddiol a gwelir bod yr iaith yn cael ei defnyddio bron yn naturiol ymhlith disgyblion Cymraeg ail iaith. Bydd hyn yn cael ei golli.	Fel uchod.
2.1.5.6	Mae gan y rhai yn y ffrwd Saesneg fwy o gysylltiad â'r iaith mewn ysgol ddwyieithog nag y bydden nhw mewn ysgol cyfrwng Saesneg - mae hyn yn cryfhau'r iaith yn y gymuned.	Fel uchod.
2.1.5.7	Byddai newid y categori iaith yn golygu bod llai o ddisgyblion yn defnyddio'r Gymraeg gan fod gan lawer o ddisgyblion ffrwd Saesneg Ysgol Bro Caereinion ddealltwriaeth dda iawn o'r Gymraeg ar hyn o bryd, fodd bynnag, byddai hyn yn dod i ben.	Fel uchod.
2.1.5.8	Byddai'n rhaid i ddisgyblion cyfrwng Saesneg fynd i ysgolion cyfrwng Saesneg, felly byddent yn cael llai o gyfle i ddysgu Cymraeg drwy integreiddio â phlant y ffrwd Gymraeg.	Fel uchod.
2.1.5.9	O fewn y system ddwy ffrwd, mae plant ffrwd Saesneg yn mynychu cyfarfodydd boreol a digwyddiadau sy'n cael eu cynnal yn y Gymraeg a'r Saesneg, byddant yn colli'r profiad trochi a'r profiad diwylliannol hwn o'r Gymraeg.	Fel uchod.

2.1.5.10	Mae disgyblion ffrwd Saesneg mewn ysgol dwy ffrwd yn cael eu trochi'n sylweddol yn yr iaith trwy wrando ar sgysiau, gweld arwyddion ysgol a chyfathrebu ac ati. Mae'n rhan o'u bywyd bob dydd felly mae disgyblion Saesneg mewn ysgol dwy ffrwd yn fwy tebygol o siarad a deall y Gymraeg na'r rhai mewn ysgol cyfrwng Saesneg.	Fel uchod.
2.1.5.11	Mae Cymraeg ail iaith Bro Caereinion yn rhagorol ar hyn o bryd. Pe bai'r newid yn digwydd, ni fyddai disgyblion cyfrwng Saesneg yn cael cyfle i gael mynediad i'r ddarpariaeth hon. Byddai hyn yn effeithio ar eu cyfle i ddatblygu diddordeb yn yr iaith.	Nodwyd y sylw, fodd bynnag, byddai disgyblion sy'n dewis cael mynediad i ddarpariaeth cyfrwng Saesneg mewn ysgolion eraill yn dal i ddysgu Cymraeg ail iaith. Fel arall, gallent gael mynediad i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Bro Caereinion a fyddai'n eu galluogi i ddod yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg. Yn gyffredinol, nid yw disgyblion sy'n astudio'r Gymraeg fel Ail iaith yn dod yn rhugl yn y Gymraeg.
2.1.5.12	Yn Ysgol Bro Caereinion ac Ysgol Uwchradd Caereinion yn flaenorol, o ran disgyblion a oedd yn astudio Cymraeg ail iaith, yn 2021/2022, enillodd 85% o ddisgyblion raddau A* - C ac yn 2022/2023, enillodd 82% o ddisgyblion raddau A* - C. Wrth gymharu hyn ag ysgolion cyfagos lle yn 2021/2022 roedd cyfraddau pasio mor isel â 58%, ac yn 2022/2023, enillodd 47% o ddisgyblion raddau A* - C. Onid yw'r data hwn yn dangos yr effaith gadarnhaol y mae Ysgol Bro Caereinion yn ei chael ar siaradwyr Cymraeg ail iaith? Os bydd disgyblion yn penderfynu symud i ysgolion cyfagos yn hytrach na newid i addysg cyfrwng Cymraeg, mae safon siaradwyr ail iaith yn lleol yn debygol o ddisgyn ar sail y data hwn.	Fel uchod.
2.1.5.13	Bydd disgyblion cyfrwng Saesneg yn colli'r cyfle i gystadlu yn yr Urdd.	Mae pob ysgol yn gallu cystadlu yn yr Urdd, ni waeth beth fo iaith eu haddysg.
2.1.5.14	Byddai mynediad i weithgareddau'r Urdd yn lleihau i ddisgyblion cyfrwng Saesneg.	Fel uchod.

## 2.1.6 Mae disgyblion angen sgiliau Saesneg nid sgiliau Cymraeg

2.1.6.1	Saesneg yw'r ail iaith a siaredir fwyaf yn y byd felly mae ei hangen ar gyfer bywyd bob dydd y tu allan i Gymru ac mewn gwledydd eraill.	Mae'r Cyngor yn cydnabod yn llawn yr angen i ddisgyblion allu cyfathrebu'n effeithiol yn Saesneg.  Nod addysg cyfrwng Cymraeg yw sicrhau bod disgyblion yn dod yn ddwyieithog, a'u bod yn gallu cyfathrebu'n effeithiol yn y Gymraeg a'r Saesneg. Pe bai'r Cyngor yn bwrw ymlaen â'r cynnig i newid categori iaith yr ysgol, byddai pob disgybl yn parhau i astudio Saesneg i lefel TGAU, yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu yn Saesneg yn ogystal â Chymraeg, a byddai'n gallu defnyddio'r ddwy iaith yn y dyfodol.
2.1.6.2	Saesneg yw iaith busnes a masnach, rhaid rhoi'r iaith hon yn gyfartal â'r Gymraeg i sicrhau bod gan ddisgyblion gyfleoedd gyrfa dilyffethair	Fel uchod.
2.1.6.3	Mae angen darpariaeth cyfrwng Saesneg ar ddisgyblion os ydynt am fynd i'r byd mawr a gwaith.	Fel uchod.
2.1.6.4	Mae angen dysgu pynciau STEM yn Saesneg os yw plant am fynd allan i'r byd a gweithio - fyddan nhw ddim yn cael gwaith yn UDA, y Dwyrain Canol, y Dwyrain Pell, Ewrop ac ati os dim ond mewn Cymraeg y maen nhw'n gymwys.	Fel uchod.
2.1.6.5	Mae mwy o gyfleoedd i ddefnyddio'r Saesneg na'r Gymraeg yn y byd go iawn	Fel uchod.
2.1.6.6	Saesneg yw un o'r ieithoedd a ddefnyddir fwyaf yn y byd.	Fel uchod.
2.1.6.7	Mae Saesneg yn iaith fyd-eang, nid felly'r Gymraeg.	Fel uchod.
2.1.6.7	Bydd y gallu i siarad Cymraeg yn unig yn llyffetheirio disgyblion yn eu bywyd yn barhaol.	Fel uchod.
2.1.6.8	Ni fydd dysgu yn Gymraeg yn unig yn rhoi'r opsiynau gorau i'n plant gael swyddi yn y dyfodol - beth am eu Saesneg?	Fel uchod.



2.1.6.9	Nid yw'r rhan fwyaf o gyflogwyr yn gwerthfawrogi'r lefel hon o Gymraeg, dim ond Cymraeg sylfaenol sydd ei angen arnynt os o gwbl.	Fel uchod.
2.1.6.10	Ychydig iawn o swyddi sydd angen sgiliau Cymraeg rhugl y tu allan i'r sector cyhoeddus.	Fel uchod.
2.1.6.11	Byddai disgyblion dan anfantais - nid oes gan lawer o swyddi sgiliau Cymraeg fel y prif feini prawf.	Fel uchod.
2.1.6.12	Ni ellir byth drin y Gymraeg yn gyfartal â'r Saesneg. Dylid ei hannog a'i addysgu mewn ysgolion, ond nid ar draul dysgu Saesneg yn gywir ac yn ramadegol.	Fel uchod.
2.1.6.13	Sut bydd addysgu pob pwnc yn Gymraeg yn golygu bod disgyblion yn gwbl ddwyieithog yn Gymraeg a Saesneg? Siawns na fyddai eu Saesneg yn dioddef o ganlyniad i bopeth yn cael ei ddysgu yn Gymraeg yn unig?	Fel uchod.
2.1.6.14	Bydd plant sy'n cael eu gorfodi i ddysgu pynciau eraill yn y Gymraeg o dan anfantais fawr pan fyddant yn gadael yr ysgol ac yn gorfod gweithredu mewn amgylchedd Saesneg ei iaith.	Fel uchod.
2.1.6.15	Byddai plant sy'n cael eu gorfodi i wneud eu harholiadau yn Gymraeg ar lefel TGAU ac uwch yn llai abl i ddod yn rhan o gyfleoedd di-Gymraeg yn y dyfodol.	Fel uchod.

## 2.1.7 Pryder ynghylch yr effaith ar allu disgyblion i gael mynediad i addysg bellach/uwch

2.1.7.1	Lle byddai'r plant yn mynd ar ôl ysgol uwchradd? Does dim colegau Cymraeg eu hiaith yn lleol a dim prifysgolion cwbl Gymraeg. Byddent yn cael eu cyfyngu o ran lle y gallent fynd i gael addysg bellach.	Nid yw'r Cyngor yn cytuno y byddai newid categori iaith yr ysgol i gyfrwng Cymraeg yn cyfyngu ar gyfleoedd disgyblion yn y dyfodol. Mae llawer o genedlaethau o fyfyrwyr o ysgolion cyfrwng Cymraeg ledled Cymru wedi mynychu addysg bellach/uwch yn llwyddiannus yn Lloegr ac ymhellach i ffwrdd, yn ogystal â phrifysgolion yng Nghymru.
---------	--	--

2.1.7.2	Oni bai fod plant yn mynd i wneud cais i brifysgolion Aberystwyth neu Fangor, bydd yn lleihau eu siawns o fynd i brifysgolion gorau Lloegr.	Fel uchod.
2.1.7.3	Mae cael eu haddysgu yn Gymraeg yn golygu mai dim ond ychydig dros 500 o gyrsiau sydd ar gael i fyfyrwyr ddewis ohonynt mewn 9 prifysgol, yn hytrach na miloedd o gyrsiau mewn 166 o brifysgolion ar draws y DU yn Saesneg.	Fel uchod.
2.1.7.4	Bydd yn rhoi myfyrwyr sydd eisiau mynd i brifysgolion Lloegr i astudio Meddygaeth, Gwyddorau Iechyd a chyrсияu eraill yn Saesneg dan anfantais.	Fel uchod.
2.1.7.5	Bydd addysg gwbl Gymraeg yn lleihau'r cyfleoedd ar gyfer addysg bellach yn Saesneg, a bydd yn rhoi'r rhai sy'n dymuno mynd ymhellach i ffwrdd i brifysgol dan anfantais.	Fel uchod.
2.1.7.6	Mae cyrsiau prifysgol yn Saesneg yn bennaf, felly byddai'n rhaid iddynt drosglwyddo iaith.	Fel uchod.
2.1.7.7	Byddai'n rhaid i ddisgyblion aiddysgu popeth yn Saesneg pan fyddant yn mynd i'r brifysgol.	Fel uchod.
2.1.7.8	Saesneg yw'r iaith gyffredinol, byddai myfyrwyr sy'n symud ymlaen i'r brifysgol o dan anfantais oherwydd na fyddant yn gyfarwydd â therminoleg benodol pwnc.	Fel uchod.
2.1.7.9	Dylai disgyblion allu dysgu mewn iaith na fydd yn eu rhoi dan anfantais pe baent yn dewis mynd i brifysgol Saesneg ei hiaith.	Fel uchod.
2.1.7.10	Mae llawer o ddisgyblion yn dewis colegau, addysg chweched dosbarth, addysg prifysgol drwy gyfrwng y Saesneg. Mae myfyrwyr cyfrwng Cymraeg yn gweld y cyrsiau hyn yn heriol oherwydd gwahaniaethau mewn terminoleg.	Fel uchod.
2.1.7.11	Byddai disgyblion sy'n mynd ymlaen i addysg bellach yn Saesneg o dan anfantais os nad oes ganddynt eirfa Saesneg helaeth.	Fel uchod.
2.1.7.12	Mae pobl gafodd eu haddysgu yn Gymraeg wedi cael trafferth yn y brifysgol wrth orfod newid i astudio yn Saesneg.	Fel uchod.

2.1.7.13	Roedd rhai a aeth drwy'r ffrwd Gymraeg yn cael trafferth yn y brifysgol gan nad oedden nhw'n gallu ysgrifennu eu traethodau yn Saesneg - roedd yn rhaid iddyn nhw eu hysgrifennu yn Gymraeg a'u cyfieithu.	Fel uchod.
2.1.7.14	Mae plant a addysgwyd yn Gymraeg naill ai wedi gorfod ailsefyll arholiadau Safon Uwch neu eu blwyddyn gyntaf yn y brifysgol gan nad oeddent yn deall y Saesneg.	Fel uchod.

### 2.1.8 Sylwadau eraill

2.1.8.1	Nid yw'r cynnig hwn er budd gorau disgyblion sydd ar hyn o bryd yn y ffrwd cyfrwng Saesneg yn Ysgol Bro Caereinion	<p>Mae'r Cyngor yn cydnabod y bydd unrhyw gynnis ad-drefnu ysgolion yn cael effaith ar ddisgyblion yr effeithir arnynt gan y newid sy'n cael ei gynnis. Mae'r Cyngor yn cynnis newid categori iaith Ysgol Bro Caereinion yn raddol, gan ddechrau gyda'r Dosbarth Derbyn a Blwyddyn 7, sy'n ceisio lleihau'r effaith ar ddisgyblion gan y byddai'n sicrhau y gallai disgyblion barhau i gael mynediad at ddarpariaeth eu hiaith bresennol drwy gydol y cyfnodau cynradd ac uwchradd, fodd bynnag, cydnabyddir y byddai'r cynnis hwn yn effeithio ar ddisgyblion sy'n cael mynediad at ddarpariaeth gynradd cyfrwng Saesneg yn Ysgol Bro Caereinion yn arbennig.</p> <p>Cydnabyddir bod y cynnis i gyflwyno'r newid o Flwyddyn 7 yn ogystal â'r Dosbarth Derbyn wedi arwain at bryder sylweddol yn yr ardal leol, ac wedi achosi pryder i ddisgyblion y gallai'r newid hwn effeithio arnynt, yn enwedig y rhai sy'n cael mynediad at ddarpariaeth gynradd cyfrwng Saesneg yn yr ysgol ar hyn o bryd.</p>
---------	--	--

		Bydd angen i'r Cyngor ystyried yr adborth a gafwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori wrth benderfynu a ddylid bwrw ymlaen â gweithredu'r cynnig ai peidio.
2.1.8.2	Nid yw'r Cyngor wedi meddwl am yr effaith ar blant yn y ffrwd Saesneg yr effeithir yn fawr arnynt gan hyn.	Fel uchod.
2.1.8.3	Rwy'n drist bod yr effaith ar blant y mae'r penderfyniad yn effeithio arnynt, sydd eisoes wedi gweld llawer o amharu, yn cael ei hystyried yn effaith fechan neu gyfyngedig.	Fel uchod.
2.1.8.4	Nid yw gallu siarad Cymraeg yn cynnig mwy o gyfleoedd ym mywyd oedolyn. Mae'n bwysicach bod plant yn cael profiad da yn ystod eu cyfnod mewn addysg.	<p>Mae'r Cyngor yn cytuno ei bod yn bwysig bod plant yn cael profiad da yn ystod eu cyfnod mewn addysg, ond nid oes rheswm i gredu y byddai gweithredu'r cynnig i newid categori iaith yr ysgol yn golygu na fyddai disgyblion yn cael profiad da yn ystod eu cyfnod mewn addysg.</p> <p>Nid yw'r Cyngor yn cytuno â'r gosodiad 'nid yw gallu siarad Cymraeg yn cynnig mwy o gyfleoedd ym mywyd oedolyn'. Mae nifer o sefydliadau yng Nghymru yn chwilio am dwy o staff dwyieithog er mwyn gallu darparu gwasanaethau yn y ddwy iaith.</p>
2.1.8.5	Byddai llai o opsiynau TGAU ar gael yn yr ysgol pe bai pynciau cyfrwng Saesneg yn cael eu colli.	Os bydd y Cyngor yn bwrw ymlaen i weithredu'r cynnig, ni fyddai angen i'r ysgol ddyblygu pynciau. Mae'n bosibl y byddai modd cynnig mwy o bynciau. Fodd bynnag, mae'r diffiniad o 'Ysgol Gymraeg' yn caniatáu i rai pynciau gael eu dysgu yn Saesneg, felly mae'n bosibl y byddai modd cynnig rhai pynciau yn Saesneg er mwyn sicrhau'r cynnig mwyaf i ddisgyblion, pe na bai modd cynnig y rhain yn Gymraeg.

## 2.2 Sylwadau'n ymwneud â threfniadau gweithredu

## 2.2.1 Pryder ynghylch yr amserlen arfaethedig

2.2.1	Does dim digon o rybudd yn cael ei roi er mwyn i bobl gael amser i benderfynu - mae 2025 yn llawer rhy fuan.	<p>Y cynnig yw gweithredu'r newid fesul cam, gan ddechrau gyda'r Dosbarth Derbyn a Blwyddyn 7 ym mis Medi 2025. Byddai disgyblion sy'n mynychu darpariaeth uwchradd yn yr ysgol ar hyn o bryd yn gallu parhau i gael mynediad at y ddarpariaeth hon drwy gydol eu hamser yn yr ysgol.</p> <p>Fodd bynnag, cydnabyddir y byddai'r dyddiad gweithredu arfaethedig yn effeithio ar ddisgyblion sy'n mynychu darpariaeth cyfrwng Saesneg ym mlwyddyn 5 ar hyn o bryd, gan na fyddai darpariaeth uwchradd cyfrwng Saesneg ar gael ym mlwyddyn 7 yn Ysgol Bro Caereinion pan fyddant yn trosglwyddo i ddarpariaeth uwchradd.</p> <p>Cydnabyddir bod y cynnig i gyflwyno'r newid o Flwyddyn 7 yn ogystal â'r Dosbarth Derbyn wedi arwain at bryder sylweddol yn yr ardal leol, ac wedi achosi pryder i ddisgyblion y gallai'r newid hwn effeithio arnyn nhw. Bydd angen i'r Cyngor ystyried hyn wrth benderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'i weithredu ai peidio.</p>
2.2.2	Mae'n annheg bod y newid hwn yn cael ei gynnig gyda dim ond 2 flynedd o rybudd.	Fel uchod.
2.2.3	Mae'r amserlen yn gwbl afrealistig ac nid yw'n rhoi amser i rieni feddwl am ddewisiadau eraill ar gyfer addysg eu plentyn.	Fel uchod.
2.2.4	Mae'r amserlen yn ymddangos yn frysiog iawn ac nid yw'n caniatáu i ddisgyblion yng ngham uwch yr ysgol gynradd gael yr amser i ddod yn ddigon hyderus yn Gymraeg.	Fel uchod.

2.2.5	Mae'r amserlenni arfaethedig yn ofnadwy o annheg, yn enwedig i rieni disgyblion ym mlwyddyn 6.	Fel uchod.  Ni fyddai'r newid yn effeithio ar ddisgyblion blwyddyn 6 ar hyn o bryd - y cynnig yw cyflwyno'r newid o flwyddyn 7 ym mis Medi 2025, felly byddai'r ddarpariaeth cyfrwng Saesneg yn parhau i fod ar gael yn Ysgol Bro Caereinion pan fydd disgyblion ym Mlwyddyn 6 ar hyn o bryd yn trosglwyddo i ddarpariaeth uwchradd ym mis Medi 2024.
2.2.6	Mae disgwyl i benderfyniad gael ei wneud yn gynnar yn 2024, ond mae ceisiadau ysgolion cynradd yn cau 5.1.24 a cheisiadau uwchradd yn cau ymhell cyn hynny ar 10.11.23.	Fel uchod.
2.2.7	Dylai rhieni sydd â phlant yn y ffrwd Saesneg fod wedi cael gwybod yn gynt.	Nodwyd y sylw.
2.2.8	Mae'r amserlen a gyflwynwyd yn rhy gyflym yn enwedig o'i chymharu â'r hyn sydd wedi digwydd ym Mro Hyddgen.	Cydnabyddir bod y cynnig mewn cysylltiad ag Ysgol Bro Caereinion yn wahanol i'r cynnig a gyflwynwyd mewn cysylltiad ag Ysgol Bro Hyddgen. Y rheswm am hyn yw bod y Cyngor dan bwysau i ddarparu mynediad i ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg yn yr ardal a wasanaethir gan Ysgol Bro Caereinion. Pe bai'r Cyngor wedi cynnig cyflwyno'r newid yn y categori iaith yn raddol o'r Dosbarth Derbyn yn unig, byddai hyn wedi cymryd blynyddoedd lawer i'w weithredu ar draws yr ysgol gyfan.
2.2.9	Mae'r llywodraethwyr wedi cynnig dull graddol o newid categori iaith yr ysgol dros gyfnod hirach wrth i gymuned yr ysgol ddiodeff llawer o newidiadau yn ystod y blynyddoedd diwethaf.	Fel uchod. Mae'n gywir bod corff llywodraethol Ysgol Bro Caereinion wedi cyflwyno gweledigaeth i symud yn raddol gydag amser hirach cyn dechrau cyflwyno'r newid ym mlwyddyn 7.
2.2.10	Mae'n digwydd yn rhy gyflym sy'n peri gofid i rieni. Pe bai mwy o amser yn cael ei roi i ddisgyblion orffen eu haddysg yn yr iaith y dechreuon nhw eu haddysg ynddi, efallai y byddai'n llai pryderus i rieni.	Fel uchod.

## 2.2.2 Pryder ynghylch y cynnig i newid y ddarpariaeth ym mlwyddyn 7

2.2.2.1	Mae'n annheg dechrau hyn ym mlwyddyn 7, bydd hyn yn ei gwneud hi'n anodd iawn i blant sydd eisoes yn y ffrwd Saesneg yn yr ysgol gynradd.	<p>Y cynnig yw gweithredu'r newid fesul cam, gan ddechrau gyda'r Dosbarth Derbyn a Blwyddyn 7 ym mis Medi 2025. Byddai disgyblion sy'n mynychu darpariaeth uwchradd yn yr ysgol ar hyn o bryd yn gallu parhau i gael mynediad at y ddarpariaeth hon drwy gydol eu hamser yn yr ysgol.</p> <p>Fodd bynnag, cydnabyddir y byddai'r dyddiad gweithredu arfaethedig yn effeithio ar ddisgyblion sy'n mynychu darpariaeth cyfrwng Saesneg ym mlwyddyn 5 ar hyn o bryd, gan na fyddai darpariaeth uwchradd cyfrwng Saesneg ar gael ym mlwyddyn 7 yn Ysgol Bro Caereinion pan fyddant yn trosglwyddo i ddarpariaeth uwchradd.</p> <p>Cydnabyddir bod y cynnig i gyflwyno'r newid o Flwyddyn 7 yn ogystal â'r Dosbarth Derbyn wedi arwain at bryder sylweddol yn yr ardal leol, ac wedi achosi pryder i ddisgyblion y gallai'r newid hwn effeithio arnynt. Bydd angen i'r Cyngor ystyried hyn wrth benderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'i weithredu ai peidio.</p>
2.2.2.2	Mae'n gam mawr a heriol i ystyried newid o flwyddyn 7, gan ei bod yn anodd dysgu iaith wrth i chi fynd yn hŷn.	Fel uchod.
2.2.2.3	Pryder y byddai'r newid arfaethedig i'r ddarpariaeth ym mlwyddyn 7 yn golygu y byddai disgyblion sydd ar hyn o bryd yn y cyfnod cynradd yn yr ysgol yn cael eu gorfodi i adael eu hysgol a'u ffrindiau sy'n siarad Cymraeg.	Fel uchod.

2.2.2.4	Mae dechrau'r newid ym mlwyddyn 7 wedi achosi llawer o bryderon i ddisgyblion, gyda brodyr a chwiorydd yn cael eu gorfodi i fynychu ysgolion gwahanol.	Fel uchod.
2.2.2.5	Mae'n mynd i fod yn anodd i'r rhai sydd eisoes mewn ffrydiau Saesneg drosi i'r Gymraeg neu newid ysgolion.	Fel uchod.
2.2.2.6	Mae'n annheg i fyfyrwyr cyfrwng Saesneg sy'n mynychu'r ysgol gynradd ar hyn o bryd a fyddai'n gorfod dechrau mewn ysgol uwchradd wahanol.	Fel uchod.
2.2.2.7	Dylai pob rhiant a disgybl wybod pan fyddant yn dechrau addysg yn y Dosbarth Derbyn lle bydd y ddarpariaeth iaith cyfrwng eu haddysg, ac ni ddylid newid hyn ar fyr rybudd.	Mae'r cynnig presennol i newid categori iaith yr ysgol yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion, sy'n caniatáu gwneud newidiadau i'r ddarpariaeth mewn ysgol yn ystod cyfnod disgybl yn yr ysgol honno.
2.2.2.8	Gwnaeth disgyblion presennol Ysgol Bro Caereinion y penderfyniad i fynychu'r ysgol flynyddoedd yn ôl ar y sail y byddai'n ysgol dwy ffrwd, a nawr gorfodir y newid arfaethedig arnynt.	Fel uchod.
2.2.2.9	Pan ymrestrodd plant sy'n mynychu'r ysgol ar hyn o bryd, nid oedd sôn am y cynigion hyn. Mae'n annheg na fydd disgyblion yn gallu cael yr addysg a addawyd yn Saesneg drwy gydol eu hamser yn yr ysgol.	Fel uchod.
2.2.2.10	Gwnaethpwyd addewid i'r disgyblion wrth fynd i mewn i'r ysgol, fel y manylwyd yn y llythyrau derbyn, y byddai plant a ddewisodd gael eu haddysgu yn y ffrwd Saesneg yn parhau i gael hynny tan iddynt adael yr ysgol.	Fel uchod.
2.2.2.11	Dim ond yn 2022 y daeth Ysgol Bro Caereinion yn ysgol bob oed. Mae'n ymddangos yn annheg nawr i beidio â chaniatáu i'r disgyblion hynny sy'n mynychu'r ysgol ar hyn o bryd gyflawni eu haddysg yno.	Fel uchod.

### 2.2.3 Sylwadau ynghylch trefniadau cludiant



2.2.3.1	Pryder, o dan y polisi cludiant presennol, na fyddai cludiant yn cael ei ddarparu i'w hysgol cyfrwng Saesneg agosaf.	<p>Fel y nodwyd yn y Ddogfen Ymgynghori a gyhoeddwyd mewn cysylltiad â'r cynnig hwn:</p> <p><i>'Mae Polisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol y Cyngor yn datgan, os yw disgyblion yn gymwys i gael cludiant o'r cartref i'r ysgol am ddim, y bydd y Cyngor yn darparu hyn i'w hysgol agosaf neu ysgol eu ddalgylch. Os yw disgyblion yn byw yn agosach at Ysgol Bro Caereinion ond yn dewis ysgolion eraill yn lle honno, yna ni fyddant yn gallu cael cludiant am ddim i'r ysgol a byddai angen iddynt wneud eu trefniadau cludiant eu hunain.'</i></p> <p>Yn seiliedig ar y polisi hwn, ni fyddai cludiant ar gael i ddisgyblion sy'n dymuno cael mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Saesneg amgen yn hytrach na chael mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Bro Caereinion.</p> <p>Fodd bynnag, cydnabyddir bod y trefniadau cludiant arfaethedig mewn cysylltiad â'r cynnig hwn, a'r diffyg cludiant i ddarpariaeth cyfrwng Saesneg amgen, wedi achosi pryder yn y gymuned leol. Bydd angen i'r Cyngor ystyried hyn wrth benderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'i weithredu ai peidio.</p>
2.2.3.2	Pryder na fyddai gan rieni sydd eisiau darpariaeth cyfrwng Saesneg hawl i gludiant wedi'i ariannu i'r ysgol addas agosaf.	Fel uchod.
2.2.3.3	Ni fydd rhieni sy'n gweithio'n llawn amser yn gallu mynd â'u plant i ysgolion eraill, ond ni ddarperir cludiant.	Fel uchod.
2.2.3.4	Bydd yn rhaid i ddisgyblion/rhieni deithio mwy o bellter i gael mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Saesneg, a fydd yn	Fel uchod.

	effeithio ar eu gwaith ac a fydd yn achosi anawsterau wrth gludo plant i'r ysgol.	
2.2.3.5	Sut bydd disgyblion cyfrwng Saesneg o deuluoedd nad ydynt yn gyrru yn gallu cael mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Saesneg?	Fel uchod.
2.2.3.6	Nid oes unrhyw wybodaeth wedi'i darparu ynglŷn â'r polisi cludiant.	Fel uchod.
2.2.3.7	A fydd bysiau am ddim yn cael eu darparu i fynd â disgyblion i Ysgolion Uwchradd Llanfyllin neu'r Trallwng?	Fel uchod.
2.2.3.8	A fyddai cludiant yn cael ei ddarparu i ddisgyblion fynd i ysgolion eraill gan nad oes croeso iddynt bellach yn Ysgol Bro Caereinion? Nid eu dewis nhw yw mynychu ysgol wahanol, felly ni ddylid disgwyl iddynt dalu am gludiant.	Fel uchod.
2.2.3.9	Dylai darpariaeth ar gyfer cludiant am ddim fod ar gael o fis Medi 2024.	Fel uchod.
2.2.3.10	Dylai disgyblion sydd eisoes yn yr ysgol gael cludiant i'w hysgol uwchradd cyfrwng Saesneg agosaf pan fyddant yn gadael blwyddyn 6.	Fel uchod.
2.2.3.11	Mae symud ymlaen gyda'r cynnig heb ddarparu cludiant i leoliad cyfrwng Saesneg i'r rhai sydd ei eisiau yn teimlo fel trapio pobl i addysgu eu plant yn Gymraeg.	Fel uchod.
2.2.3.12	Mae llawer o ddryswch ynghylch trefniadau cludiant. A fyddai plant rydych chi'n dweud "nad effeithir arnynt" yn cael yr opsiwn i gael cludiant i ysgol cyfrwng Saesneg?	Fel uchod.
2.2.3.13	Nid yw disgyblion cyfrwng Saesneg yn gymwys i gael cludiant i'w hysgol cyfrwng Saesneg agosaf, ac eto mae disgyblion cyfrwng Cymraeg wedi cael eu cludo ar draws y sir i gael mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg ers blynnyddoedd. Anghydraddoldeb yw hyn!	Fel uchod.  Mae polisi cludiant y Cyngor yn unol â Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru), a'i nod yw hyrwyddo mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.
2.2.3.14	Trwy beidio â darparu cludiant i blant o'r ffrwd Saesneg i ysgol uwchradd heblaw Caereinion, bydd Cyngor Sir Powys	Fel uchod.

	yn gwahaniaethu yn erbyn plant sydd wedi dewis cael eu haddysgu yn Saesneg.	
2.2.3.15	Amlinellwch pam na fydd cludiant yn cael ei ddarparu i blant na fydd ganddynt y gallu i drosglwyddo i'r ffrwd Gymraeg, oherwydd unwaith eto mae hyn yn fath o wahaniaethu ac mae'n torri'r ddeddf cydraddoldeb.	Fel uchod.
2.2.3.16	Mae peidio â thalu am gludiant er mwyn i fyfyrwyr Cymraeg ail iaith gael eu dysgu yn Saesneg yn hiliol.	Fel uchod.
2.2.3.17	Mae'n rhagfarnlyd y telir am gludiant i blant os ydyn nhw eisiau dysgu yn Gymraeg ond nid felly os ydyn nhw eisiau dysgu yn Saesneg.	Fel uchod.
2.2.3.18	Os yw disgybl yn cael ei orfodi i dalu am gludiant i ysgol Saesneg o'i ddewis, tra bod disgybl sy'n dewis Cymraeg yn cael cludiant i'r ysgol am ddim, gallai hyn arwain at hawliad cyfreithiol o aflonyddu gan ei fod yn annhegwch clir fel y nodwyd ac sydd eisoes wedi'i sefydlu mewn cyfraith achosion fel hiliaeth ieithyddol.	Fel uchod.
2.2.3.19	Ni fydd y polisi cludiant i ddarparu cludiant am ddim i'r ysgol agosaf neu'r ysgol ddalgylch agosaf yn gwneud synnwyr os bydd Ysgol Bro Caereinion yn dod yn ysgol gwbl Gymraeg. Ni fyddai Ysgol Bro Caereinion yn ysgol addas i ddisgyblion cyfrwng Saesneg. Bydd eich polisi yn cael ei ystyried yn ffordd o orfodi'r Gymraeg ar bobl, a fydd yn achosi drwgdeimlad tuag at yr iaith.	Fel uchod.
2.2.3.20	Byddai cludo myfyrwyr cyfrwng Saesneg i fannau eraill yn achosi amhariadau ac yn ddrud.	Nid yw polisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol presennol y Cyngor yn darparu cludiant i ddisgyblion sy'n dymuno cael mynediad i ddarpariaeth cyfrwng Saesneg os yw eu darpariaeth agosaf yn gyfrwng Cymraeg.  Fodd bynnag, cydnabyddir y gallai rhai disgyblion ddewis trosglwyddo i ddarpariaeth cyfrwng Saesneg amgen yn hytrach na chael mynediad i ddarpariaeth

		<p>cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Bro Caereinion, a byddai effaith cost, amser ac amgylcheddol i hyn.</p> <p>Cydnabyddir hefyd bod y trefniadau cludiant arfaethedig mewn cysylltiad â'r cynnig hwn, a'r diffyg cludiant i ddarpariaeth cyfrwng Saesneg amgen, wedi achosi pryder yn y gymuned leol. Bydd angen i'r Cyngor ystyried hyn wrth benderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'i weithredu ai peidio.</p>
2.2.3.21	Bydd myfyrwyr nad ydynt yn siarad Cymraeg dan anfantais drwy orfod teithio pellteroedd maith ar gyfer yr hawl sylfaenol i gael addysg.	Fel uchod.
2.2.3.22	Saesneg yw iaith y rhan fwyaf o drigolion y dref, felly byddai angen llawer o drafnidiaeth i gludo disgyblion i'r Trallwng neu'r Drenwydd.	Fel uchod.
2.2.3.23	Pryder am effaith amgylcheddol teithio ychwanegol i ddisgyblion cyfrwng Saesneg.	Fel uchod.
2.2.3.24	Pryder y byddai'r teithio ychwanegol yn golygu y byddai mwy o gerbydau ar ffyrdd bach	Fel uchod.
2.2.3.25	Bydd plant sy'n byw mewn rhai rhannau o'r dalgylch (fel Y Foel) yn gorfod teithio cryn bellter i gael mynediad i ysgol cyfrwng Saesneg.	Fel uchod.
2.2.3.26	Pryder y byddai'n rhaid i ddisgyblion adael y tŷ yn gynharach ac y byddent yn cyrraedd adref yn hwyrach.	Fel uchod.
2.2.3.27	Os yw disgyblion cyfrwng Saesneg yn teithio o Lanfair Caereinion i ysgolion eraill, a disgyblion cyfrwng Cymraeg yn teithio o drefi eraill i Lanfair Caereinion, byddai gorgyffwrdd cludiant, a byddai'n dyblu faint o gludiant sydd ei angen ac yn cael effaith amgylcheddol.	Nodwyd y sylw.

#### 2.2.4 Pryder ynghylch darpariaeth Drochi

2.2.4.1	Ni fydd y syniad o wersi trochi Cymraeg i bobl ddi-Gymraeg yn gweithio - bydd yn rhoi pwysau afrealistig ar y di-Gymraeg.	<p>Er bod hwn fod yn gysyniad eithaf newydd ym Mhowys, mae pwyntiau mynediad hwyr i addysg Gymraeg wedi bodoli mewn ardaloedd eraill o Gymru ers nifer o flynyddoedd, ac mae nifer o ganolfannau trochi hwyr ledled Cymru sy'n cynnig rhaglen caffael iaith ddwys ar gyfer hwyrdyffodiaid i'r Gymraeg.</p> <p>Ystyrir trochi cynnar fel arfer y dull mwyaf ffafriol ar gyfer dysgu ail iaith, fodd bynnag, mae llawer o ddisgyblion wedi llwyddo i ddilyn cwrs trochi hwyr, gan eu galluogi i ymuno â dosbarth cyfrwng Cymraeg.</p> <p>Mae llawer o fanteision o fod yn ddwyieithog a daeth adolygiad cwmpasu o ymchwil i raglenni trochi hwyr i'r casgliad nad oedd unrhyw anfantais i ganlyniadau addysgol disgyblion yn cymryd rhan mewn ymyraethau trochi hwyr.</p>
2.2.4.2	Mae'r syniad y byddai plentyn yn dysgu iaith gyfan mewn 12 wythnos yn wallgof ac nid yw'n mynd i ddigwydd.	Fel uchod.
2.2.4.3	Afrealistig i feddwl, ar ôl 6 blynedd o addysg ffrwd Saesneg, y gall plant newid ffrydiau ac na fydd hyn yn cael effaith niweidiol ar eu dysgu.	Fel uchod.
2.2.4.4	Cynnig gwag yn unig yw'r cynnig trawsnewid drwy'r rhaglen Drochi - nid yw cwrs byr yn mynd i'w wneud yn hawdd iawn, mae'n afrealistig.	Fel uchod.
2.2.4.5	Mae'r syniad o gael mynediad i ddarpariaeth Drochi a symud i'r ffrwd Gymraeg yn rhy aruthrol i rieni di-Gymraeg ei ddeall.	Fel uchod.
2.2.4.6	Pryder y byddai'n rhaid i ddisgyblion ddysgu Cymraeg mewn cyfnod byr iawn ac y byddai'n rhaid iddynt hepgor pynciau eraill a dysgu arall wrth wneud hyn.	Byddai disgyblion yn cael mynediad at ddarpariaeth 'Drochi' am gyfnod byr o 10-12 wythnos. Er mai'r ffocws yw gwella sgiliau iaith Gymraeg disgyblion i'w galluogi i drosglwyddo i addysg Gymraeg, mae'r amserlen yn ymgorffori gwahanol agweddau o'r cwricwlwm.

		Mae llawer o fanteision o fod yn ddwyieithog a daeth adolygiad cwmpasu o ymchwil i raglenni trochi hwyr i'r casgliad nad oedd unrhyw anfantais i ganlyniadau addysgol disgyblion yn cymryd rhan mewn ymyraethau trochi hwyr.
2.2.4.7	Ble bydd dysgwyr sy'n mynychu'r ddarpariaeth drochi ar gyfer 10-12 oed yn cael cyfle i gael y 10-12 wythnos honno o'r cwricwlwm yn ôl?	Fel uchod.
2.2.4.8	Pryder pe bai pob un o'r 50 dysgwr cyfrwng Saesneg o Ysgol Bro Caereinion yn dewis darpariaeth Drochi byddai anhawster cyflogi staff i'w gweithredu. Nid yw'r ffigur hwn yn cynnwys dysgwyr o Ysgol Rhiw Bechan.	Fel uchod.

## 2.3 Sylwadau ynghylch yr effaith ar rieni/teuluoedd

### 2.3.1 Ni fydd rhieni/teuluoedd yn gallu cefnogi eu plant

2.3.1.1	Byddai teuluoedd yn ei chael hi'n anodd cefnogi eu plant gyda gwaith cartref ac ati os nad oes neb yn siarad Cymraeg gartref	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r pryderon hyn am allu rhieni nad ydynt yn siarad Cymraeg i gefnogi eu plant ac i helpu gyda gwaith cartref.</p> <p>Ledled Cymru, mae ysgolion cyfrwng Cymraeg wedi cyflwyno llawer o strategaethau i helpu rhieni i gefnogi eu plant gyda gwaith cartref, gan sicrhau nad yw disgyblion sydd heb rieni sy'n siarad Cymraeg dan anfantais.</p> <p>Yn ogystal, dangoswyd ei fod o fudd i blant allu trafod eu gwaith cartref yn Saesneg gyda'u rhieni oherwydd</p>
---------	--	---

		<p>bod dwyieithrwydd yn cynorthwyo datblygiad cysyniadol.</p> <p>Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai'r Cyngor yn gweithio gyda'r ysgol i sicrhau bod trefniadau priodol yn cael eu rhoi ar waith i gefnogi disgyblion a'u teuluoedd.</p>
2.3.1.2	Ni fyddai rhieni nad ydynt yn gallu siarad Cymraeg yn gallu cefnogi addysg eu plentyn gan na fyddant yn ei deall.	Fel uchod.
2.3.1.3	Ni fyddai brodyr a chwiorydd hŷn a gwblhaodd eu haddysg yn Saesneg yn gallu helpu eu brodyr a chwiorydd iau pe baen nhw'n gorfod gorffen eu haddysg yn Gymraeg.	Fel uchod.
2.3.1.4	Pryder bod cynrychiolwyr y Cyngor yn cyfleu neges na fyddai angen i rieni wneud unrhyw beth i gefnogi eu plant, ac y byddai trochi yn y Gymraeg yn digwydd yn yr ysgol yn unig. Nid oes yr un plentyn yn cyflawni ei botensial heb gefnogaeth rhieni, ni waeth beth fo'r iaith.	Nid yw cynrychiolwyr y cyngor yn 'cyfleu neges na fyddai angen i rieni wneud unrhyw beth i gefnogi eu plant...'
2.3.1.5	Byddai digwyddiadau ysgol yn gwneud hyd yn oed mwy o ddefnydd o'r Gymraeg, sy'n golygu na fydd rhieni nad ydynt yn siarad Cymraeg yn teimlo eu bod wedi'u cynnwys yn llawn yn addysg eu plentyn.	Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion sy'n cael mynediad i addysg Gymraeg yn dod o gartrefi lle nad oes unrhyw Gymraeg yn cael ei siarad. Er y byddai mwy o weithgareddau ar gyfer disgyblion yn digwydd yn Gymraeg, byddai digwyddiadau ysgol yn parhau i gael eu cynnal yn ddwyieithog i sicrhau y byddai rhieni yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys, gan gynnwys y rhai nad ydynt yn gallu siarad Cymraeg.
2.3.1.6	Mae rhieni'n hoffi'r model dwy ffrwd gan eu bod yn gallu eu symud i'r ffrwd Saesneg yn yr ysgol uwchradd fel y gallant eu cefnogi gartref gyda gwaith cartref/gwaith cwrs/arholiadau	Nodwyd y sylw.

### 2.3.2 Gallai rhieni/teuluoedd fod â phlant mewn mwy nag un ysgol

2.3.2.1	Byddai'n gorfodi llawer o deuluoedd i fod â phlant mewn ysgolion gwahanol.	<p>Y cynnig yw gweithredu'r newid fesul cam, gan ddechrau gyda'r Dosbarth Derbyn a Blwyddyn 7 ym mis Medi 2025, gyda chymorth 'Trochi' dwys yn cael ei ddarparu i alluogi disgyblion sy'n cael mynediad at ddarpariaeth gynradd cyfrwng Saesneg yn yr ardal ar hyn o bryd i drosglwyddo i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.</p> <p>Fodd bynnag, cydnabyddir y gall rhai disgyblion ddewis trosglwyddo i ysgolion eraill sy'n darparu addysg drwy gyfrwng y Saesneg yn hytrach na chael mynediad i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Bro Caereinion, ac y gallai hyn effeithio ar deuluoedd pe bai hyn yn golygu bod eu plant yn mynychu ysgolion gwahanol.</p>
2.3.2.2	Byddai'n rhaid i frodyr a chwiorydd fynychu ysgolion gwahanol.	Fel uchod.
2.3.2.3	Gallai disgyblion gael eu gorfodi i fynychu ysgol wahanol i frodyr a chwiorydd neu ffrindiau	Fel uchod.
2.3.2.4	Bydd gan rieni blant mewn ysgolion uwchradd gwahanol - bydd hyn yn eithriadol o anodd ac yn ofidus i deuluoedd, a bydd yr elfennau ymarferol yn cael effaith enfawr.	Fel uchod.
2.3.2.5	Mae'r model dwy ffrwd presennol yn golygu, pan fo un brawd neu chwaer yn y ffrwd Gymraeg ac un arall yn y ffrwd Saesneg, y gallant barhau i fynychu'r un ysgol.	Nodwyd y sylw.
2.3.2.6	Efallai y bydd brodyr a chwiorydd yn cael eu tynnu allan o addysg cyfrwng Cymraeg fel eu bod yn mynychu'r un ysgol cyfrwng Saesneg â'u brodyr a chwiorydd i'w gwneud hi'n haws i'w rhieni.	Nodwyd y sylw.

### 2.3.3 Sylwadau eraill



2.3.3.1	Pryder am gost gwisgoedd pe bai'n rhaid i ddisgyblion drosglwyddo i ysgolion eraill.	Mae'r Cyngor yn nodi'r pryder hwn am effaith prynu gwisgoedd ysgol newydd pe bai disgyblion yn dewis trosglwyddo i ysgolion eraill.
---------	--	---

## 2.4 Sylwadau ynghylch staffio

### 2.4.1 Pryder ynghylch yr effaith ar staff

2.4.1.1	Beth fydd yn digwydd i'r staff nad ydynt yn siarad Cymraeg?	<p>Fel y nodwyd yn y ddogfen ymgynghori:</p> <p><i>'Mae nifer sylweddol o staff yn Ysgol Bro Caereinion sy'n ddwyieithog ac ar hyn o bryd yn addysgu ac yn gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Fodd bynnag, mae nifer o staff addysgu a chymorth ar draws y safleoedd cynradd ac uwchradd sydd ar hyn o bryd yn gweithio yn y ffrwd Saesneg yn unig neu'n gweithio'n bennaf trwy gyfrwng y Saesneg.</i></p> <p><i>Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai gwaith archwilio yn cael ei wneud gyda'r holl staff i ddeall eu lefelau iaith Gymraeg presennol ac i flaenoriaethu staff i gael eu cefnogi i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg.</i></p> <p><i>Mae'r cynnig i gyflwyno'r newid fesul cam yn rhoi amser i staff fynychu cyrsiau priodol i gefnogi eu datblygiad yn y maes hwn. Byddai Adnoddau Dynol yn cymryd rhan i gefnogi'r gwaith o ymgynghori â phob aelod o staff ac i gefnogi'r broses drawsnewid i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg. Lle nad yw hyn yn bosibl, byddai'r broses o reoli newid yn cefnogi staff i chwilio am gyfleoedd cyflogaeth eraill neu i adleoli.'</i></p>
---------	---	--

2.4.1.2	Faint o aelodau staff y rhagwelir y byddant yn colli eu swyddi o ganlyniad i'r cynnig hwn?	Y cynnig yw gweithredu'r newid fesul cam dros nifer o flynyddoedd, felly byddai angen i'r ysgol fonitro a rheoli lefelau staffio wrth i'r gofynion staffio newid yn ystod y cyfnod trawsnewid. Mae Cyngor Sir Powys yn parhau i fod wedi'i ymrwymo i gymryd pob cam rhesymol i osgoi gwneud unrhyw ddiswyddiadau gorfodol.
2.4.1.3	Mae staff nad ydynt yn siarad Cymraeg yn yr ysgol yn teimlo eu bod yn destun gwahaniaethu.	Nodwyd y sylw. Nid y bwriad yw i wahaniaethu yn erbyn unrhyw aelod staff – mae'r rhesymau am y newidiadau arfaethedig wedi'u hamlinellu yn y ddogfen ymgynghori.
2.4.1.4	Mae staff nad ydynt yn siarad Cymraeg yn teimlo nad ydyn nhw'n ddigon da.	Nodwyd y sylw. Gweler isod yn 2.4.1.3. Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai staff sy'n dymuno gwella eu sgiliau iaith Gymraeg yn cael eu cefnogi i wneud hynny.
2.4.1.5	Effeithir yn negyddol ar staff sy'n siarad Saesneg.	Nodwyd y sylw. Gweler y sylwadau uchod.
2.4.1.6	Ni chyflwynwyd ystyriaeth na chyfleoedd i staff sy'n dymuno gwella lefel eu Cymraeg, er bod awydd ac ymrwymiad yno. Mae staff cyfrwng Saesneg yn cael eu hanwybyddu yn eu ceisiadau i gofleidio'r Gymraeg.	Mae cyfleoedd i gymryd rhwn yn y cynllun sabothol Cymraeg ar gael i staff trwy'r amser, ac mae rhai staff yn Ysgol Bro Caereinion eisoes wedi mynegi diddordeb mewn cael mynediad i ddarpariaeth o'r fath. Fodd bynnag, cydnabyddir bod y cynllun sabothol presennol wedi bod yn llai hygyrch i staff sy'n addysgu yn y sector uwchradd yn arbennig. Mae cyrsiau Cymraeg ar gael trwy Gymraeg i Oedolion hefyd.  Os bydd y Cyngor yn symud ymlaen i weithredu'r cynnig, byddai'n gweithio gyda'r ysgol i baratoi cynllun i sicrhau bod cyfleoedd priodol ar gael i alluogi i staff ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg.
2.4.1.7	Ni fydd staff nad ydynt yn siarad Cymraeg yn aros yn yr ysgol pe bai'n dod yn un cyfrwng Cymraeg gan na fyddai unrhyw obeithion ar gyfer datblygu gyrfa.	Cydnabyddir bod unrhyw broses ad-drefnu ysgolion yn achosi cyfnod o ansicrwydd i'r rhai yr effeithir arnynt, gan gynnwys staff, ac yn yr achos hwn, mae posibilrwydd y byddai staff di-Gymraeg yn ceisio

		cyflogaeth arall pe bai'r Cyngor yn bwrw ymlaen â'r cynnig i newid categori iaith Ysgol Bro Caereinion. Bydd cefnogaeth yn cael ei gynnis i staff a effeithir trwy'r broses Rheoli Newid.
2.4.1.8	Bydd athrawon Saesneg da sydd yn yr ysgol nawr yn gadael, felly byddai plant yn cael addysgu islaw'r safon.	Fel uchod.
2.4.1.9	Bydd rhai aelodau staff yn ystyried y newidiadau arfaethedig fel sbardun i edrych mewn mannau eraill ar ddewisiadau amgen, felly gall cadw staff yn ystod y cyfnod trawsnewid fod yn her.	Fel uchod.
2.4.1.10	Mae staff sy'n siarad Saesneg yn gadael yn barod, cyn cael eu gwthio - mae'r cynigion eisoes yn cael effaith ar fyfyrwyr presennol.	Fel uchod.
2.4.1.11	Mae'r ysgol eisoes yn colli staff oherwydd y cynnig hwn.	Fel uchod.
2.4.1.12	Pryder am yr effaith ar staff y bydd disgwyl iddyn nhw ddysgu Cymraeg.	Fel uchod.
2.4.1.13	Pryder am yr effaith ar staff cyfrwng Saesneg hŷn fydd yn ei chael hi'n anodd dysgu Cymraeg yn yr amser sydd ar gael neu i ddod o hyd i swyddi eraill - sut fydd y Cyngor yn gwarchod y staff yma?	Fel uchod.
2.4.1.14	Mae'r staff eisoes wedi bod trwy lawer o newidiadau diweddar gyda sefydlu'r ysgol newydd ym mis Medi 2022 – a yw llesiant meddyliol staff wedi cael ei ystyried?	<p>Mae'r Cyngor yn cydnabod yn llwyr fod yr ysgol eisoes wedi cael newidiadau yn ddiweddar yn dilyn uno Ysgol Gynradd Gymunedol Llanfair Caereinion ac Ysgol Uwchradd Caereinion a digwyddiadau eraill sydd wedi effeithio ar yr ysgol.</p> <p>Mae rhaglen cymorth gweithwyr y Cyngor 'Vivup' ar gael i gefnogi staff. Mae lles yr holl staff yn parhau i fod yn flaenoriaeth yn ystod y broses hon, y mae'r Cyngor yn cydnabod ei fod yn broses anodd i bawb a effeithir.</p>
2.4.1.15	Ni roddwyd ystyriaeth i lesiant staff Ysgol Bro Caereinion (cyfrwng Cymraeg neu Saesneg).	Fel uchod.

2.4.1.16	Mae'r cynnig wedi creu ansicrwydd eto i staff, yn dilyn cyfnod o newid sy'n gysylltiedig â chreu'r ysgol bob oed, a'r digwyddiadau a'r materion eraill a wynebwyd yn ddiweddar. Mae hyn wedi effeithio ar staff a disgyblion.	Fel uchod.
2.4.1.17	Mae staff yr ysgol eisoes angen llawer o gefnogaeth wedi'r trawsnewidiad diweddar, y ddamwain bws a chymaint o golledion trasig o fewn y tîm staff.	Fel uchod.
2.4.1.18	Pryder nad oes cyswllt wedi'i wneud gydag aelodau unigol o staff yr effeithir arnynt gan y cynnig i ofyn a ydyn nhw'n iawn. Bu'n rhaid i staff fynd i chwilio am atebion a gwybodaeth, gofyn am gyfarfodydd gydag AD. Beth sydd wedi'i wneud i gefnogi iechyd a llesiant y staff yn y broses hon?	<p>Cydnabyddir bod unrhyw broses ad-drefnu ysgolion yn achosi cyfnod o ansicrwydd i'r rhai yr effeithir arnynt, gan gynnwys staff.</p> <p>Yr unig benderfyniad a wnaed hyd yma oedd penderfyniad i gynnal ymgynghoriad ar gynnig i newid categori iaith yr ysgol fesul cam. Roedd staff yn gallu mynegi eu barn i'r Cyngor ynghylch y cynnig fel rhan o'r broses hon. Yn ogystal, cynhaliwyd cyfarfod ymgynghori gyda staff, a oedd yn rhoi cyfle pellach i staff fynegi eu barn i'r Cyngor.</p> <p>Mae AD wedi cyfarfod ag aelodau staff, ac mae cymorth hefyd ar gael drwy Raglen Cymorth i Weithwyr y Cyngor, 'Vivup'.</p> <p>Pe bai'r Cyngor yn bwrw ymlaen â'r broses, byddai cyfleoedd i drafodaethau unigol gydag aelodau staff ynghylch unrhyw effaith arnynt fel rhan o unrhyw brosesau Rheoli Newid, pe bai angen y prosesau hyn.</p>
2.4.1.19	Pa gymorth sydd wedi cael ei gynnig i staff i fynd i'r afael â'r effaith ar eu llesiant?	Fel uchod.
2.4.1.19	Pryder y bydd staff presennol yn gweld effaith ar eu llesiant o ganlyniad i straen yr ymgynghoriad a newidiadau posibl i swyddi.	Nodwyd y sylw.

2.4.1.20	Mae morâl ymhlith staff eisoes ar ei lefel isaf erioed.	Nodwyd y sylw.
----------	---	----------------

## 2.4.2 Pryder ynghylch y gallu i recriwtio staff sy'n siarad Cymraeg

2.4.2.1	Does dim digon o siaradwyr Cymraeg nawr - mae'r ysgol eisoes yn ei chael hi'n anodd recriwtio athro mathemateg sy'n siarad Cymraeg	<p>Mae'r Cyngor yn cydnabod yn llawn bod heriau o ran recriwtio athrawon Cymraeg eu hiaith. Er bod hwn yn her ym Mhowys, mae'n fater cenedlaethol, ac mae Llywodraeth Cymru yn gweithio i fynd i'r afael â hyn. Hefyd, mae'r Cyngor wedi sefydlu gweithgor i ddatblygu ei strategaeth ei hun i hyfforddi athrawon sy'n siarad Cymraeg.</p> <p>Mae'n bosib hefyd y byddai newid categori iaith yr ysgol i gyfrwng Cymraeg yn cael effaith gadarnhaol ar allu'r ysgol i recriwtio athrawon Cymraeg, gan y gallai'r model cyfrwng Cymraeg fod yn fwy apelgar iddynt na model y ddwy ffrwd.</p>
2.4.2.2	Pryder am y gallu i recriwtio cyflenwad llawn o staff sy'n siarad Cymraeg, yn enwedig mewn pynciau fel mathemateg a ffiseg lle mae prinder beth bynnag.	Fel uchod.
2.4.2.3	Pryder y bydd opsiynau Safon Uwch yn cael eu colli gan fod y cyfnod uwchradd eisoes yn ei chael hi'n anodd recriwtio athrawon Safon Uwch sy'n siarad Cymraeg.	Fel uchod.
2.4.2.4	Mae'r ysgol eisoes yn brin o athrawon Cymraeg - maen nhw wedi hysbysebu ar gyfer staff sy'n siarad Cymraeg, ond maen nhw'n dal i addysgu pynciau yn y ffrwd Gymraeg yn Saesneg.	Fel uchod.
2.4.2.5	Mae rhai pynciau eisoes yn cael eu haddysgu yn Saesneg i ddisgyblion cyfrwng Cymraeg gan na fu'n bosib recriwtio staff Cymraeg eu hiaith.	Fel uchod.
2.4.2.6	Mae diffyg athrawon Cymraeg eisoes yn yr ysgol. Nid yw adroddiad cylch gwaith diweddar Estyn ar hyfforddiant	Fel uchod.

	athrawon yn awgrymu y bydd hyn yn gwella yn y tymor byr i'r tymor canolig.	
2.4.2.7	Oes digon o athrawon Cymraeg yn yr ardal? Beth fydd yn eu hannog i ddod i'r ysgol? Sut fyddan nhw'n cael eu cadw? A fydd angen iddynt ddysgu nifer o bynciau?	Fel uchod.
2.4.2.8	Ar hyn o bryd mae diffyg athrawon ysgol uwchradd sy'n siarad Cymraeg. Sut ydych chi'n bwriadu cyflenwi'r staff ar gyfer yr ysgol?	Fel uchod.
2.4.2.9	Adroddir yn gynhwysfawr am anhawster cael athrawon Cymraeg o safon uchel ( <a href="https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-politics-65639738">https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-politics-65639738</a> , <a href="https://senedd.cymru/senedd-nawr/newyddion/targed-miliwn-o-siaradwyr-cymraeg-mewn-perygl-oherwydd-prinder-athrawon">https://senedd.cymru/senedd-nawr/newyddion/targed-miliwn-o-siaradwyr-cymraeg-mewn-perygl-oherwydd-prinder-athrawon</a> ), a gall wneud cyflwyno'r cwricwlwm yn anodd	Fel uchod.
2.4.2.10	Mae prinder athrawon Cymraeg ar draws Cymru. Sut ymdrinnir â hyn?	Fel uchod.
2.4.2.11	Faint o athrawon sy'n siarad Cymraeg mewn gwahanol bynciau sydd ar gael mewn gwirionedd?	Fel uchod.
2.4.2.12	Ydych chi wedi gwneud archwiliad o athrawon dan hyfforddiant presennol sy'n cwblhau eu haddysg yn Gymraeg?	Na, nid oes archwiliad o athrawon dan hyfforddiant presennol sy'n cwblhau eu haddysg yn y Gymraeg wedi cael ei gynnal.
2.4.2.13	Mae recriwtio cynorthwywyr addysgu sy'n siarad Cymraeg wedi bod yn her.	Nodwyd y sylw.
2.4.2.14	Pa gymorth arall all gael ei gynnig drwy gyfrwng y Gymraeg? Dim ond 1 Seicolegydd Addysg sy'n siarad Cymraeg, dim Therapydd Lleferydd ac Iaith sy'n siarad Cymraeg, dim therapyddion galwedigaethol na ffisiotherapyddion Cymraeg a bron dim siaradwyr Cymraeg yn yr adran ADY ym Mhowys, felly sut mae modd cefnogi disgyblion yn effeithiol?	Mae'r Cyngor yn cydnabod bod yna heriau yn gysylltiedig efo darparu mynediad i'r gwasanaethau hyn yn y Gymraeg, fodd bynnag nid yw hyn yn unigryw i Bowys – mae yna anawsterau gyda chael mynediad i'r gwasanaethau hyn yn y Gymraeg ar draws Cymru.  Mae'r Cyngor wedi sefydlu gweithgor i ddatblygu ei strategaeth ei hun i hyfforddi staff sy'n siarad

		Cymraeg, a fydd yn cynnwys rolau tebyg i'r rhain i gefnogi ysgolion a disgyblion cyfrwng Cymraeg.
--	--	---

### 2.4.3 Pryder ynghylch safon staff yn y dyfodol

2.4.3.1	A fyddai athrawon yn cael eu cyflogi dim ond oherwydd eu bod yn siarad Cymraeg yn rhugl ni waeth beth fo safon eu haddysgu neu eu profiad o addysgu?	Ni fyddai athrawon yn cael eu cyflogi 'dim ond oherwydd eu bod yn siarad Cymraeg yn rhugl ni waeth beth fo safon eu haddysgu neu eu profiad o addysgu'.
2.4.3.2	Pryder y byddai llawer o athrawon o safon yn cael eu heithrio rhag gwneud cais am swyddi yn yr ysgol am nad ydyn nhw'n gallu siarad Cymraeg.	Byddai angen cynnal prosesau recriwtio o hyd, a byddai angen i ymgeiswyr ddangos eu bod yn bodloni'r fanyleb swydd a'r meini prawf.
2.4.3.3	A fydd yr ymgeiswyr gorau yn gymwys i gael eu hystyried yn y dyfodol, gan y bydd pwysau wedi'i roi ar eu gallu o ran y Gymraeg.	Byddai'r Cyngor yn disgwyl bod ystyriaeth eisoes wedi'i rhoi i sgiliau Cymraeg ymgeiswyr er mwyn gweithio mewn ysgol dwy ffrwd.
2.4.3.4	Bydd yr ysgol yn cael anhawster recriwtio athrawon sydd â Chymraeg digonol ar gyfer meysydd pwnc arbenigol, felly bydd plant yn profi safon is o addysg.	Mae'r Cyngor yn cydnabod yn llawn bod yna heriau wrth recriwtio athrawon sy'n siarad Cymraeg. Fodd bynnag nid yw'r Cyngor yn cytuno y bydd hyn yn golygu y bydd 'plant yn profi safon is o addysg'. Byddai dal angen cynnal prosesau recriwtio, a byddai angen i ymgeiswyr ddangos eu bod yn bodloni'r fanyleb swydd a'r meini prawf.
2.4.3.5	Gall safon athrawon fod yn broblem gan y gallai fod yn anodd recriwtio ar gyfer rhai swyddi gwag Cymraeg, sy'n golygu y gallai safon y staff fod yn is.	Fel uchod.
2.4.3.6	Pryder y bydd plant yn cael addysg annigonol mewn pynciau pwysig fel mathemateg a gwyddoniaeth oherwydd nad oes athrawon sy'n siarad Cymraeg ar gael i'w recriwtio. Byddai hyn yn niweidiol i'r plant, a hefyd i enw da addysg cyfrwng Cymraeg.	Fel uchod.

2.4.3.7	Byddai'n well gan rieni athro Saesneg gwych yn addysgu eu plant nag athro Cymraeg o safon is, a ddewisir oherwydd ei fod yr unig ymgeisydd.	Nodwyd y sylw.
2.4.3.8	Byddai'n well gan blant gael eu haddysgu yn Saesneg i safon dda nag yn y Gymraeg gyda chymysgedd o athrawon cyflenwi/heb gymwysterau gan nad yw wedi bod yn bosibl recriwtio siaradwyr Cymraeg.	Nodwyd y sylw.
2.4.3.9	Yn ôl natur y cynllun, byddai'r holl staff addysgu yn dod o Gymru. A fyddai hyn yn dod ag amrywiaeth eang o brofiad a gwybodaeth i'r ysgol o'i gymharu â gweithlu mwy amrywiol?	Daw staff sy'n siarad Cymraeg o gefndiroedd amrywiol, felly nid oes rheswm i feddwl y byddai ganddynt lai o amrywiaeth o ran profiad a gwybodaeth o'i gymharu â staff presennol yr ysgol.
2.4.3.10	Beth fydd safon yr addysgu yn y dyfodol os yw staff wedi gorfod dysgu Cymraeg ac yna addysgu yn Gymraeg?	Bydd angen i'r ysgol fod yn hyderus bod unrhyw staff sydd ddim yn siarad Cymraeg ar hyn o bryd a fydd yn dysgu Cymraeg yn ddigon rhugl i allu addysgu i'r safon sy'n ofynnol.

## 2.5 Pryder ynghylch yr effaith ar y gymuned

### 2.5.1 Bydd y cynnig yn achosi rhaniad yn yr ardal

2.5.1.1	Bydd yn rhannu nid cryfhau'r gymuned.	<p>Er bod y Cyngor yn cydnabod y gallai'r cynnig achosi rhai tensiynau o fewn y gymuned leol yn y tymor byr, yn y tymor hir byddai'r Cyngor yn gobeithio y byddai'r cynnig yn gwella cydlyniant cymunedol, gan y byddai pob disgybl yn mynychu'r un ddarpariaeth.</p> <p>Fel y nodwyd yn yr Asesiad Effaith Integredig a gyhoeddwyd fel rhan o'r ddogfen ymgynghori:</p> <p><i>"Yn y tymor byr, mae'n bosibl y gallai'r cynnig i newid categori iaith yr ysgol arwain at densiynau ac</i></p>
---------	---------------------------------------	---



		<i>anghytundeb o fewn y gymuned leol, yn enwedig tra bod prosesau ymgynghori yn parhau. Yn y pen draw, fodd bynnag, disgwylir y byddai'r tensiynau hyn yn lleihau, ac yn y tymor hwy wrth i'r newid yn y categori iaith gael ei weithredu, disgwylir y byddai'r cynnig yn helpu i wella cydlyniant cymunedol, gan y byddai holl ddisgyblion yr ardal yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg.'</i>
2.5.1.2	Bydd yn rhannu'r cymunedau Cymraeg a Saesneg, felly ni fydd yn annog cymuned gydlynus.	Fel uchod.
2.5.1.3	Bydd yn creu rhaniad rhwng y plant Cymraeg a Saesneg yn yr ardal.	Fel uchod.
2.5.1.4	Bydd yn achosi rhaniad enfawr mewn cymunedau - mae hyn eisoes yn cael ei weld yn y cyfnod ymgynghori. Mewn ardaloedd gwledig fel ein un ni, mae'n hanfodol bod cymunedau'n cadw at ei gilydd.	Fel uchod.
2.5.1.5	Bydd hyn yn rhannu'r gymuned. Mae'r ddwy gymuned iaith bob amser wedi cymysgu'n dda gyda'i gilydd, ond bydd y cynnig hwn yn ei chwalu.	Fel uchod.
2.5.1.6	Bydd yn achosi mwy o raniad rhwng Cymraeg a Saesneg yn hytrach na dod â phawb at ei gilydd.	Fel uchod.
2.5.1.7	Byddai newid o'r model dwy ffrwd yn rhannu'r gymuned.	Fel uchod.
2.5.1.8	Bydd yn dieithrio siaradwyr Saesneg ac yn achosi rhaniad cymdeithasol.	Fel uchod.
2.5.1.9	Bydd yn achosi rhaniad gwenwynig yn y gymuned.	Fel uchod.
2.5.1.10	Pryder am yr effaith ar y gymuned yn ystod y cyfnod trawsnewid.	Fel uchod.

## 2.5.2 Pryder na fyddai pobl eisiau byw yn yr ardal

2.5.2.1	Bydd yn peri i deuluoedd feddwl dwywaith cyn symud i'r ardal.	<p>Mae'r Cyngor yn anghytuno y bydd yn perswadio pobl i beidio â symud i'r ardal. Nid oes tystiolaeth o hyn mewn ardaloedd eraill yng Nghymru lle mae addysg yn bennaf trwy gyfrwng y Gymraeg.</p> <p>Bydd croeso o hyd i ddisgyblion yn Ysgol Bro Caereinion, ni waeth beth fo'u cefndir, a bydd hwyrddyfodiaid i addysg Gymraeg yn yr ysgol yn cael cymorth datblygu Cymraeg i'w galluogi i drosglwyddo i addysg cyfrwng Cymraeg, er enghraifft trwy raglenni trochi.</p>
2.5.2.2	Ni fydd teuluoedd ifanc eisiau symud i'r ardal, a bydd hyn yn effeithio'n fawr ar y gymuned.	Fel uchod.
2.5.2.3	Ni fydd darparu addysg Gymraeg yn unig yn denu teuluoedd ifanc i'r ardal o rannau eraill o'r DU.	Fel uchod.
2.5.2.4	Ni fydd pobl yn symud i'r ardal os ydyn nhw eisiau addysg Saesneg.	Fel uchod.
2.5.2.5	Mae llawer o deuluoedd yn symud i'r ardal ac yn mynychu'r ffrwd Saesneg. Os nad yw'r ffrwd ar gael bellach, mae perygl na fydd teuluoedd newydd yn symud i'r ardal, gan arwain at boblogaeth fwy oedrannus.	Fel uchod.
2.5.2.6	Bydd pobl newydd yn cael eu hannog i beidio â symud i'r ardal, a bydd hyn yn gostwng prisiau tai.	Fel uchod.
2.5.2.7	Bydd y cynnig yn arwain at ostyngiad ym mhrisiau tai yn yr ardal.	Fel uchod.
	Bydd dileu'r ffrwd Saesneg yn atal pobl rhag symud i'r ardal a bydd yn cael effaith sylweddol ar y gymuned/busnesau.	Fel uchod.
2.5.2.8	Gallai'r cynnig wneud i rai teuluoedd symud o'r ardal	Fel uchod.

### 2.5.3 Ni fyddai ysgol Gymraeg yn adlewyrchu'r gymuned ddwyieithog yn Llanfair Caereinion

2.5.3.1	Mae ysgol yno i wasanaethu ei chymuned. Mae'r gymuned yn ddwyieithog, felly nid yw ysgol Gymraeg yn addas ar gyfer y gymuned hon.	Mae'r Cyngor yn cydnabod yn llwyr nad yw pawb yn ardal Llanfair Caereinion yn siarad Cymraeg. Er bod addysg cyfrwng Cymraeg a Saesneg ar gael ar hyn o bryd yn Ysgol Bro Caereinion, mewn gwirionedd dim ond y disgyblion hynny sy'n cael mynediad at y cyfrwng Cymraeg sy'n dod yn ddwyieithog, yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg.  Nod y cynnig yw sicrhau, yn y pen draw, y byddai pob disgybl sy'n mynychu Ysgol Bro Caereinion yn gwbl ddwyieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg, ac y byddent yn gallu defnyddio'r ddwy iaith, yn y gymuned a thu hwnt. Y bwriad yw, yn y tymor hir, y byddai hyn yn gwella cydlyniant cymunedol.
2.5.3.2	Rydym yn gymuned sydd â phethau ar gael yn y ddwy iaith	Fel uchod.
2.5.3.3	Nid yw'r cynnig yn cefnogi'r gymuned sy'n siarad Saesneg yn ogystal â'r Gymraeg.	Fel uchod.
2.5.3.4	Cymuned ddwyieithog yw Llanfair Caereinion. Mae'r niferoedd presennol yn yr ysgolion (292 cyfrwng Cymraeg, 257 cyfrwng Saesneg) yn adlewyrchu hyn. Mae'r model presennol yn golygu y gall plant gerdded i'w hysgol gymunedol leol gyda'i gilydd, ni waeth beth fo eu dewis iaith. Ar hyn o bryd, mae'r ysgol yn adlewyrchu'r gymuned wledig ddwyieithog yn gywir.	Fel uchod.
2.5.3.5	Rydym yn byw mewn cymuned ddwyieithog a dylai ein plant gael mynediad i ysgol uwchradd ddwyieithog.	Fel uchod.
2.5.3.6	Nid yw darparu addysgu Cymraeg yn unig yn addas i ddemograffeg yr ardal.	Fel uchod.
2.5.3.7	Mae cyfleusterau eraill yn y gymuned yn ddwyieithog ac yn gwasanaethu'r rhai sy'n siarad Cymraeg a'r rhai nad ydynt yn ei siarad e.e. caffi cymunedol, tafarndai, siopau, clybiau chwaraeon ac ati.	Fel uchod.

2.5.3.8	Mae'r rhan fwyaf o blant yn ddwyieithog, felly dylem gael mynediad i ysgol ddwyieithog.	Fel uchod.
2.5.3.9	Dylai fod yn ysgol ddwyieithog ar gyfer byd dwyieithog	Fel uchod.
2.5.3.10	Mae'r ffaith bod yr ysgol yn un dwy ffrwd ar hyn o bryd yn cyd-fynd â'r oes fodern, mae'n dangos bod yr ysgol yn hyblyg ac yn darparu ar gyfer siaradwyr y ddwy iaith.	Fel uchod.
2.5.3.11	Bydd y cynnig yn atal Ysgol Bro Caereinion rhag bod yn ysgol uwchradd gymunedol sy'n gwasanaethu'r holl ddisgyblion sy'n byw yn yr ardal, a bydd yn achosi rhaniad a theimlad gwael yn y gymuned.	Er y cydnabyddir y gallai rhai disgyblion ddewis trosglwyddo i ysgolion eraill yn y tymor byr yn hytrach na chael mynediad i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Bro Caereinion; yn y tymor hwy, y disgwyliad yw y byddai pob disgybl yn Llanfair Caereinion yn cael mynediad i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn yr ysgol, felly byddai'r ysgol yn parhau i wasanaethu pob disgybl sy'n byw yn yr ardal.
2.5.3.12	Pryder y byddai'r cynnig yn newid natur yr ysgol - yn hytrach na bod yn ysgol gymunedol, byddai'n ysgol yn bennaf i blant o ardaloedd pellach i ffwrdd, a fyddai'n cael eu cludo i mewn ac allan o'r gymuned.	Fel uchod.  Mae Ysgol Bro Caereinion eisoes yn gwasanaethu dalgylch mawr, ac wedi bod yn brif ddarparwr darpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion o'r Drenewydd a'r Trallwng ers nifer o flynyddoedd.

#### 2.5.4 Pryder ynghylch yr effaith ar dimau chwaraeon a digwyddiadau eraill yn yr ardal

2.5.4.1	Gallai disgyblion sy'n dewis cael mynediad i ddarpariaeth cyfrwng Saesneg mewn ysgolion eraill ymuno â thimau chwaraeon ac ati yn yr ardaloedd hyn yn hytrach nag ymuno â'r timau lleol.	Nodwyd y sylw.
2.5.4.2	Bydd clybiau chwaraeon yn yr ardal yn dioddef gan y bydd yn gwahanu'r gymuned.	Nodwyd y sylw.
2.5.4.3	Bydd unrhyw blant sy'n dewis addysg cyfrwng Saesneg mewn mannau eraill yn ymgysylltu llai â'r gymuned.	Nodwyd y sylw.

## 2.5.5 Sylwadau eraill ynghylch effaith ar y gymuned

2.5.5.1	Pryder am yr effaith ar fusnesau lleol os oes llai o bobl yn dod i'r ardal.	Nid yw'r Cyngor yn cytuno y byddai gweithredu'r cynnig yn effeithio ar fusnesau lleol. Y cynnig yw newid categori iaith yr ysgol fesul cam, fodd bynnag, byddai'r ddarpariaeth gynradd ac uwchradd yn parhau i fod ar gael yn Llanfair Caereinion.
2.5.5.2	Mae'n debygol y bydd yn arwain at gau'r ysgol, a fydd yn cael effaith sylweddol ar fusnesau lleol.	<p>Nid yw'r Cyngor yn cytuno y byddai gweithredu'r cynnig yn effeithio ar fusnesau lleol. Pe bai'r Cyngor yn bwrw ymlaen â'r cynnig i newid categori iaith yr ysgol, byddai'r ysgol yn dod yn brif ddarparwr darpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg yn yr ardal. Er y gallai fod effaith ar nifer y disgyblion yn Ysgol Bro Caereinion yn y tymor byr, mae'n bosib hefyd y byddai mwy o ddisgyblion yn dewis cael mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn yr ysgol yn y dyfodol.</p> <p>Pe bai niferoedd disgyblion yn yr ysgol yn gostwng i lefel pryd y byddai angen i'r Cyngor adolygu dyfodol yr ysgol, byddai unrhyw gynnig i gau'r ysgol yn amodol ar y broses statudol fel yr amlinellir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion, a byddai'r effaith ar y gymuned, i gynnwys yr effaith ar fusnesau lleol, yn cael ei hystyried ar yr adeg honno.</p>
2.5.5.3	Mae'r effaith ar y gymuned wedi cael ei thanamcangyfrif. Mae cryfder y teimladau ynghylch y mater wedi bod mor sylweddol fel ei fod wedi cael effaith sylweddol ac eang.	<p>Mae'r Cyngor yn cydnabod yn llawn fod y broses ymgynghori wedi bod yn heriol i'r gymuned leol.</p> <p>Cafodd asesiad effaith cymunedol drafft ei baratoi a'i gyhoeddi fel rhan o'r dogfennau ymgynghori. Bydd hwn yn cael ei ddiweddarau i adlewyrchu'r adborth a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori, a bydd y Cabinet yn ystyried fersiwn wedi'i diweddarau pan</p>

		fyddant yn ystyried a ddylid bwrw ymlaen â'r cynnig ai peidio.
2.5.5.4	Byddai'n rhwygo'r galon allan o'r gymuned	Nid yw'r Cyngor yn cytuno y byddai gweithredu'r cynnig yn 'rhwygo'r galon allan o'r gymuned'. Byddai ysgol bob-oed yn dal i fod yn Llanfair Caereinion.

## 2.6 Pryder ynghylch yr effaith ar niferoedd disgyblion Ysgol Bro Caereinion

2.6.1	Pryder y byddai'r ysgol yn colli llawer o ddisgyblion.	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r pryderon hyn ynghylch effaith bosibl newid categori iaith Ysgol Bro Caereinion ar niferoedd disgyblion yn yr ysgol yn y dyfodol. Y cynnig yw gweithredu'r newid fesul cam, a fyddai'n sicrhau y gallai disgyblion barhau i gael mynediad at ddarpariaeth yn eu hiaith bresennol drwy gydol y cyfnod cynradd neu uwchradd. Er mai bwriad y Cyngor fyddai i'r mwyafrif o ddisgyblion barhau i fynychu Ysgol Bro Caereinion, cydnabyddir y gallai rhai ddewis cael mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Saesneg mewn ysgolion eraill a fyddai'n effeithio ar niferoedd disgyblion Ysgol Bro Caereinion.</p> <p>Fodd bynnag, mae hefyd yn bosibl y gallai gweithredu'r cynnig arwain at gynnydd yn nifer y disgyblion yn y tymor hwy. Fel y nodwyd yn y ddogfen ymgynghori:</p> <p>"Mae'n bosibl hefyd y gallai newid categori iaith yr ysgol arwain at gynnydd yn nifer y disgyblion yn y tymor hwy, yn enwedig yn y sector uwchradd, gan mai'r ysgol fyddai'r unig ddarparwr yn yr ardal sy'n cynnig darpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg lawn, gan gynnig llwybr cynnydd clir o ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg i ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg. Yr ysgol</p>
-------	--	---

		hefyd fyddai ysgol uwchradd Gymraeg ddynodedig gyntaf yr ardal a allai ddenu mwy o ddisgyblion o ardal ddaearyddol ehangach.'
2.6.2	Bydd rhieni'n dewis rhoi eu plant yn y ffrwd Saesneg mewn ysgolion eraill, a fydd yn arwain at ostyngiad mewn niferoedd a chyllid.	Fel uchod.
2.6.3	Byddai rhieni'n dewis ysgolion eraill gan na fyddai 'rhwyd ddiogelwch' y ffrwd Saesneg yno mwyach.	Fel uchod.
2.6.4	Pryder nad oes digon o alw am addysg Gymraeg yng Nghaereinion i wneud yr ysgol yn hyfyw.	Fel uchod.
2.6.5	Bydd niferoedd disgyblion yn gostwng, a fydd yn effeithio ar ddewis pynciau ar lefel TGAU.	Fel uchod.
2.6.6	Bydd gweithgareddau chwaraeon/chwaraeon tîm yn dod i ben oherwydd niferoedd isel.	Fel uchod.
2.6.7	Mae'r amcanestyniadau niferoedd disgyblion yn dangos erbyn 2028 yr amcangyfrifir y bydd y cyfnod cynradd yn gweld gostyngiad sylweddol yn nifer eu disgyblion i tua 80 o ddisgyblion/41% o'r capasiti. Tan y llynedd, roedd gan y model dwy ffrwd yn Ysgol Gynradd Llanfair Caereinion dros 160 o ddisgyblion, felly bydd y cynnig a gyflwynwyd gan y Cyngor yn arwain at ostyngiad o 2-3 dosbarth, a bydd yn disgyn i'r categori ysgolion bach. Yn ogystal â goblygiadau sy'n gysylltiedig ag incwm, byddai hyn hefyd yn cael effaith enfawr ar y gweithgareddau diwylliannol, chwaraeon a llesiant allgyrsiol y mae'r cyfnod cynradd yn eu cynnig.	Fel uchod. Mae'r rhagamcanion disgyblion a amcangyfrif sydd wedi'u cynnwys yn y Ddogfen Ymgynghori yn dangos bod 156 o ddisgyblion cynradd yn yr ysgol yn Ionawr 2022, a disgwylir gostyngiad i 114 erbyn Ionawr 2027 yn seiliedig ar y model dwy ffrwd presennol. Mae rhagamcanion wedi'u diweddarau yn seiliedig ar ddata PLASC 2023 yn amcangyfrif y gallai bod 113 o ddisgyblion erbyn Ionawr 2028.  Mae Llywodraeth Cymru yn diffinio ysgol fach fel ysgol gyda 91 disgybl neu llai.
2.6.8	Bydd niferoedd y disgyblion yn sicr o ostwng. A yw hon yn ffordd hir o gau'r ysgol?	Fel uchod.  Nid yw'r Cyngor yn bwriadu cau'r ysgol. Fodd bynnag, pe bai niferoedd disgyblion yn yr ysgol yn gostwng i lefel pryd y byddai angen i'r Cyngor adolygu dyfodol yr ysgol, byddai unrhyw gynnig i gau'r ysgol yn amodol ar

		y broses statudol fel yr amlinellir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion.
2.6.9	Pryder mai'r nod hirdymor yw cau'r ysgol.	Fel uchod.
2.6.10	Gallai hyn arwain at ostyngiad yn nifer y disgyblion yn yr ysgol a fyddai, yn y pen draw, yn arwain at gau	Fel uchod.
2.6.11	Does dim digon o ddisgyblion Cymraeg, felly bydd yr ysgol yn cau yn y pen draw.	Fel uchod.
2.6.12	Bydd disgyblion cyfrwng Saesneg yn cael eu gorfodi i fynd i fannau eraill, a bydd y diffyg niferoedd yn torri'r ysgol.	Fel uchod.
2.6.13	Pryder y byddai'r gostyngiad yn nifer y disgyblion yn arwain at gau'r ysgol, a fyddai'n cael hyd yn oed fwy o effaith ar staff, y gymuned a disgyblion yr ardal.	Fel uchod.
2.6.14	Pryder y bydd yr ysgol hyd yn oed yn llai cynaliadwy os bydd y cynnig yn mynd yn ei flaen.	Fel uchod.
2.6.15	Ni fyddai'r ysgol yn ymdopi petai nifer y disgyblion yn haneru - ni fyddai'r ysgol yn hyfyw yn ariannol.	Fel uchod.
2.6.16	Bydd y cynnig yn lleihau'r niferoedd disgwylidig o ddisgyblion a fyddai'n gwneud yr ysgol yn anhyfyw a byddai'n golygu na fyddai darpariaeth addysgol ar gael i blant yn Llanfair Caereinion.	Fel uchod.
2.6.17	Yn y gorffennol roedd nifer y disgyblion yn yr ysgol uwchradd tua 900, mae bellach wedi lleihau i tua 500-600. Bydd troi'r ysgol i un gwbl Gymraeg yn cael effaith fwy fyth ar y niferoedd hyn.	Fel uchod.
2.6.18	Erbyn 2030 rhagwelir mai dim ond 409 o ddisgyblion rhwng 4 ac 18 oed fydd gan yr ysgol, sef 41% o'i chapasiti. A fydd y cynnig yn hyfyw ar gyfer y niferoedd isel hyn, ac a fydd cwricwlwm o safon yn cael ei ddarparu ar gyfer pob cyfnod allweddol? Byddai'r cynnig a gyflwynwyd yn arwain at warged o 59% o gapasiti'r ysgol.	Fel uchod.
2.6.19	Bydd nifer y disgyblion yn yr ysgol yn gostwng gan fod lleoliad Llanfair yn broblem – nid yw plant o'r Drenewydd eisiau mynd	Tra bod rhai disgyblion o Ysgol Dafydd Llwyd ac Ysgol Gymraeg Y Trallwng yn trosglwyddo i Ysgol Bro



	i Lanfair oherwydd y daith, y ffyrdd a natur hen ffasiwn y safle, nid oherwydd nad yw'n ddigon Cymraeg.	Caereinion ar hyn o bryd ar gyfer eu darpariaeth uwchradd, mae llawer yn dewis trosglwyddo i ysgolion eraill. Mae yna lawer o resymau am hyn.  Os bydd y Cyngor yn bwrw ymlaen â gweithredu'r cynnig, bydd angen i'r ysgol weithio gydag ysgolion bwydo i ddatblygu cysylltiadau i hyrwyddo trawsnewid i Ysgol Bro Caereinion. Hefyd, bydd angen sicrhau bod trefniadau eraill ar waith i hyrwyddo Ysgol Bro Caereinion, fel trefniadau cludiant a buddsoddiad cyfalaf.
2.6.20	Does dim sicrwydd y byddai plant mewn ysgolion bwydo Cymraeg yn dod i Ysgol Bro Caereinion ar gyfer eu haddysg uwchradd - ar hyn o bryd maen nhw'n dewis mynd i rywle arall.	Fel uchod.
2.6.21	Ni fyddai pob plentyn Cymraeg yn y dalgylch eisiau dod i Ysgol Bro Caereinion - rydych chi'n tybio hyn, ond dyw e ddim yn mynd i ddigwydd.	Fel uchod.
2.6.22	Ansicr iawn faint o blant fydd yn dod o Ysgol Gymraeg y Trallwng ac Ysgol Dafydd Llwyd i Ysgol Bro Caereinion yn y dyfodol gan nad oes niferoedd mawr yn gwneud y dewis hwnnw ar hyn o bryd.	Fel uchod.
2.6.23	Ym mis Medi 2023, dim ond 79% o'r disgyblion posibl o'r ysgolion cynradd bwydo a ymunodd â cham uwchradd Ysgol Bro Caereinion, aeth 1 o bob 5 disgybl i rywle arall. Mae'n amhosibl disgwyl i 100% o'r disgyblion drosglwyddo yma.	Fel uchod.
2.6.24	Mae plant Blwyddyn 6 ffrwd Saesneg Ysgol Rhiw Bechan wedi dewis Ysgol Uwchradd Y Drenewydd dros Fro Caereinion ar gyfer y derbyniad ym mis Medi 2024, nid yw hyn wedi digwydd o'r blaen.	Nodwyd y sylw.

## 2.7 Sylwadau ynghylch yr angen am ddewis

2.7.1	Ni fydd plant lleol yn cael y dewis	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau hyn am yr angen am ddewis darpariaeth cyfrwng Cymraeg neu ddarpariaeth cyfrwng Saesneg. Mae'r rhan fwyaf o bobl dalgylch Caereinion yn dewis darpariaeth cyfrwng Cymraeg, mae hyn yn arbennig o wir o ran disgyblion oed cynradd. Mae'r cynnig i newid categori iaith Ysgol Bro Caereinion i gyfrwng Cymraeg yn adlewyrchu'r dewis hwn.</p> <p>Mae gan rieni/disgyblion hawl i wneud cais am le mewn unrhyw ysgol y maent yn ei dewis. Pe bai'r Cyngor yn bwrw ymlaen â'r cynnig i newid categori iaith Ysgol Bro Caereinion, byddai disgyblion/rhieni yn gallu gwneud cais am le mewn ysgol arall sy'n cynnig darpariaeth cyfrwng Saesneg, pe baen nhw'n dymuno hynny.</p>
2.7.2	Mae'r cynnig yn amddifadu rhieni a disgyblion o ddewis yn y dref a'r dalgylch.	Fel uchod.
2.7.3	Mae'r cynnig yn dileu'r dewis i rieni a phlant o ran pa gyfrwng y maent yn parhau â'u haddysg ynddo.	Fel uchod.
2.7.4	Ar hyn o bryd mae gennym y gorau o'r ddau fyd gan fod gan ddisgyblion y dewis o gael eu haddysgu yn Gymraeg neu yn Saesneg.	Fel uchod.
2.7.5	Dylai pobl gael dewis ym mha iaith yr hoffent ddysgu ynddi.	Fel uchod.
2.7.6	Rhaid i blant gael dewis pa un a fyddant yn cael eu haddysgu yn Gymraeg neu yn Saesneg.	Fel uchod.
2.7.7	Mae'r cynnig yn amddifadu rhieni o ddewis o ran addysg – bydd disgyblion naill ai'n cael eu gorfodi i newid ffrydiau iaith neu i wneud cais i ysgolion llai dymunol.	Fel uchod.
2.7.8	Mae cael gwared ar ddewis yn gorfodi rhieni i wneud penderfyniadau i symud eu plant i ysgolion eraill.	Fel uchod.

2.7.9	Mae hawl rhieni i gael y rhyddid i ddewis ac i benderfynu beth sydd orau i'w plant yn cael ei ddileu.	Fel uchod.
2.7.10	Mae'r Gymraeg yn cael ei gorfodi ar y plant hyn ac mae'r dewis yn cael ei ddileu.	Fel uchod.
2.7.11	Ni fydd gan deuluoedd lleol yr opsiwn i anfon eu plant i'w hysgol leol.	Fel uchod.
2.7.12	Bydd teuluoedd sy'n siarad Saesneg yn cael eu gwahardd rhag cael addysg leol	Fel uchod.
2.7.13	Mae addysg dwy ffrwd yn cynnig dewis i rieni. Bydd hyn yn cael effaith sylweddol ar ddewisiadau'r rhieni hynny nad oes ganddynt y modd ariannol i gludo eu plant i ysgol sy'n gallu diwallu eu hanghenion.	Fel uchod.
2.7.14	Er mwyn annog siaradwyr Saesneg i ddefnyddio'r iaith, mae angen dewis.	Fel uchod.
2.7.15	Mae'r model dwy ffrwd yn golygu bod gan ddysgwyr y dewis.	Fel uchod.
2.7.16	Oni bai bod dewis, bydd effaith y newid gorfodol yn un negyddol.	Fel uchod.
2.7.17	Mae'n annheg cael gwared ar ddewisiadau y mae rhieni eisoes wedi'u gwneud ar gyfer eu plant (sydd bellach yn 10 oed neu'n hŷn).	Fel uchod.
2.7.18	Dylai fod gennym yr hawl i ddewis y cyfrwng addysg ar gyfer ein plant. Rhaid i awdurdodau lleol sicrhau bod digon o ysgolion yn darparu addysg gynradd ac uwchradd ar gyfer eu hardal. Mae'r cynnig hwn wedi amlygu nad yw hyn yn wir am addysg cyfrwng Saesneg, gan nad oes gan yr ysgolion cynradd eraill ddigon o gapasiti i ateb y galw presennol a'r galw a ragwelir.	Fel uchod.
2.7.19	Mae angen rhyddid i ddewis, ac i ddisgyblion gael addysg yn yr iaith o'u dewis a sicrhau bod eu barn yn cael ei hystyried, yn unol â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.	Fel uchod.

2.7.20	Pryder na fydd gan ddisgyblion sydd o oedran cyn-ysgol ar hyn o bryd ddewis yn y dyfodol, a allai effeithio ar eu hopsiynau yn y dyfodol.	Fel uchod.
--------	---	------------

## 2.8 Sylwadau ynghylch gwahaniaethu/gwahanu

2.8.1	Mae'r cynnig yn gwahaniaethu yn erbyn disgyblion sy'n dymuno dysgu drwy gyfrwng Saesneg.	<p>Nid yw'r Cyngor yn cytuno ei fod yn gwahaniaethu yn erbyn siaradwyr Saesneg/y rhai sy'n dymuno dysgu trwy gyfrwng y Saesneg. Pe bai'r Cyngor yn bwrw ymlaen â'r cynnig, y bwriad yw y byddai'r newid yn cael ei gyflwyno'n raddol, o'r Dosbarth Derbyn a Blwyddyn 7 i fyny. Byddai hyn yn golygu y byddai disgyblion sy'n cael mynediad at ddarpariaeth gynradd cyfrwng Saesneg yn yr ysgol ar hyn o bryd yn gallu parhau i wneud hynny tan ddiwedd y cyfnod cynradd, fodd bynnag, cydnabyddir y byddai angen iddynt drosglwyddo i ysgolion eraill er mwyn parhau i gael mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Saesneg yn y cyfnod uwchradd.</p> <p>Mae gan rieni/disgyblion hawl i wneud cais am le mewn unrhyw ysgol y maent yn ei dewis. Pe bai'r Cyngor yn bwrw ymlaen â'r cynnig i newid categori iaith Ysgol Bro Caereinion, byddai disgyblion/rhieni yn gallu gwneud cais am le mewn ysgol arall sy'n cynnig darpariaeth cyfrwng Saesneg, pe baen nhw'n dymuno hynny.</p>
2.8.2	Mae hyn yn gwahaniaethu yn erbyn siaradwyr Saesneg. A yw hyn yn gyfreithiol?	Fel uchod.
2.8.3	Gwahaniaethu yw dweud nad ydych yn derbyn pobl ddi-Gymraeg i ysgol yn yr oes sydd ohoni.	Fel uchod.
2.8.4	O dan y Ddeddf Cydraddoldeb mae'r gyfraith yn amddiffyn rhag gwahaniaethu. Amlinellwch pam nad yw'r	Fel uchod.

	penderyniadau hyn yn gwahaniaethu yn erbyn myfyrwyr o Loegr.	
2.8.5	Mae hwn yn rhywbeth hiliol yn erbyn siaradwyr Saesneg.	Fel uchod.
2.8.6	Mae'r newid hwn yn ymddangos fel pe bai'n hiliol - os ydych yn Sais a ddim eisiau mynd trwy'r cyfrwng Cymraeg yna does dim croeso i chi. Ni fydddech yn gallu gwneud y newidiadau hyn yn achos grwpiau ethnig Du, Affricanaidd neu Garibiaidd na grwpiau Asiaidd, felly pam mae hyn yn dderbyniol yn erbyn y ffrwd Saesneg?	Fel uchod.
2.8.7	Mae'r driniaeth a roir i blant cyfrwng Saesneg yn nalgylch Caereinion yn debyg i apartheid yn Ne Affrica.	Fel uchod.
2.8.8	Mae dod yn gwbl Gymraeg yn llai cynhwysol.	Fel uchod.
2.8.9	Mae'r newid hwn yn senoffobig iawn.	Fel uchod.
2.8.10	Cadwch yr ysgol yn ddwyieithog a rhoi'r gorau i wahanu disgyblion. Nid ydym yn byw yn Ne Affrica cyn cyfnod Nelson Mandela.	Fel uchod.
2.8.11	Nid yw gwahanu disgyblion Cymraeg a di-Gymraeg yn syniad da yn yr 21ain ganrif.	Fel uchod.
2.8.12	Heb os mae darparu darpariaeth Gymraeg yn unig a pheidio â darparu opsiynau eraill yn mynd yn groes i'r ddeddf cydraddoldeb.	Fel uchod.
2.8.13	Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn dweud na ddylid gwahaniaethu yn erbyn pobl yn annheg oherwydd cenedligrwydd. Er hynny, mae disgyblion Cymraeg eu hiaith yn cael eu trin yn wahanol - maen nhw'n derbyn mwy o gyllid gan y llywodraeth ac yn mynychu mwy o deithiau ysgol na disgyblion ffrwd Saesneg. Dylai'r ddarpariaeth ariannu fod yn gyfartal. Gwahaniaethu yw hyn.	Fel uchod.
2.8.14	Nid yw iaith yn nodwedd warchodedig yn Neddf Cydraddoldeb 2010, fodd bynnag, mae ei defnyddio fel arf gwahanu a gwahaniaethu yn glir ac yn ddiamwys yn torri Deddf Cydraddoldeb 2010.	Fel uchod.

2.8.15	Mae hyn yn hollol groes i ymgyrch y llywodraeth i sicrhau mwy o gynhwysiant.	Fel uchod.
2.8.16	Mae'r model dwy ffrwd yn fwy cynhwysol.	Fel uchod.
2.8.17	Mae'r dull o ymdrin â'r polisi cludiant yn enghraifft o wahaniaethu. Er nad yw iaith ei hun yn nodwedd warchoddedig rhestredig, cafwyd honiadau llwyddiannus o wahaniaethu anuniongyrchol o dan y categori hil o ran gwahaniaethu ar sail iaith. Mae hyn yn golygu bod y rhai sy'n dewis parhau mewn addysg Saesneg (o ystyried bod eu plant eisoes rhywfaint i mewn i'w haddysg cyfnod cynradd) dan anfantais annheg. Oherwydd eu hiaith nhw mae'n bosibl na fyddant yn perfformio cystal ac yn dioddef straen addysgol ac emosiynol dim ond oherwydd eu bod yn methu â sicrhau ffordd o gludo eu plant i rywle arall.	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau hyn am bolisi cludo'r Cyngor. Mae'r polisi yn unol â Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru), a'i nod yw hyrwyddo mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg. Fodd bynnag, cydnabyddir bod y trefniadau cludiant arfaethedig mewn cysylltiad â'r cynnig hwn, a'r diffyg cludiant i ddarpariaeth cyfrwng Saesneg amgen, wedi achosi pryder yn y gymuned leol. Bydd angen i'r Cyngor ystyried hyn wrth benderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'i weithredu ai peidio.
2.8.18	Mae torri cludiant ysgol am ddim yn gwahaniaethu yn erbyn siaradwyr Saesneg.	Fel uchod.
2.8.19	Pryder am wahaniaethu yn erbyn teuluoedd incwm isel gan nad oes cludiant yn cael ei ddarparu.	Fel uchod.
2.8.20	Mae Polisi Cyfle Cyfartal Ysgol Bro Caereinion yn datgan yn ei nodau a'i hamcanion: 'Nid yw Ysgol Bro Caereinion yn gwahaniaethu'n gyfreithlon yn erbyn unrhyw un, boed yn rhiant, staff neu ymwelydd sy'n dysgu, ar sail neu'n gysylltiedig ag unrhyw un o'r nodweddion gwarchoddedig a nodir uchod.' Eto i gyd, mae'r ysgol a Cyngor Sir Powys yn bwriadu cael gwared ar ddarpariaeth ddysgu ar gyfer disgyblion cyfrwng Saesneg, onid yw hynny'n gwahaniaethu yn erbyn y rhai sy'n dymuno cael eu haddysg yn Saesneg? Mae'r newid yn erbyn Saeson. Mae'r polisi hefyd yn dweud y bydd 'Yr ysgol yn ymdrechu i ddileu pob math o hiliaeth a gwahaniaethu hiliol', fodd bynnag mae'r un ysgol yn cefnogi cynnig i ddileu dysgu drwy'r Saesneg - mae'n mynd yn groes i bopeth ym mholisi'r ysgol.	Mae'r broses o newid categori iaith yr ysgol yn cael ei chynnal gan y Cyngor, nid yr ysgol. Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai croeso o hyd i ddisgyblion o bob cefndir yn Ysgol Bro Caereinion, gan gynnwys y rhai o gartrefi lle nad yw Cymraeg yn cael ei siarad.

## 2.9 Pryder ynghylch yr effaith ar grwpiau nodweddion gwarchoddedig

2.9.1	Pryder am yr effaith ar ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol	<p>Ar draws Cymru mae yna blant ag AAA/ADY sy'n cael eu haddysgu'n llwyddiannus mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, pa un a ydynt yn dod o gartrefi Cymraeg, cartrefi Saesneg eu hiaith neu gartrefi lle siaredir ieithoedd eraill. Gall Ysgol Bro Caereinion, ynghyd ag ysgolion eraill, elwa ar ddysgu o arfer gorau sydd eisoes yn bodoli mewn ysgolion eraill.</p> <p>Mae strategaeth AAA/ADY Powys, y cytunwyd arni gan y Cabinet ym mis Tachwedd 2021, wedi ymrwmo i wella'r ddarpariaeth ar gyfer pob disgybl ag AAA/ADY, beth bynnag fo'u hiaith gyntaf. Mae hyn yn cynnwys disgyblion y gellir eu haddysgu mewn dosbarthiadau prif ffrwd yn ogystal â disgyblion sydd angen darpariaeth arbenigol. Fel rhan o'r strategaeth, mae'r awdurdod lleol yn datblygu ac yn gwella ei ystod o ddarpariaeth arbenigol, gan gynnwys canolfannau arbenigol a safleoedd lloeren ysgolion arbennig, er mwyn sicrhau y gellir diwallu anghenion pob disgybl ym Mhowys yn effeithiol.</p> <p>Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn adolygu'r strategaeth i gryfhau'r meysydd hynny sydd â'r angen mwyaf.</p> <p>Ni fyddai'r ysgol yn newid o gyfrwng Saesneg i gyfrwng Cymraeg dros nos. Byddai cyfnod o drosglwyddo i'r disgyblion hynny sydd yn yr ysgol yn barod. Yn ystod y</p>
-------	---	--

		<p>cyfnod trosglwyddo hyn, bydd disgyblion ag AAA/ADY sy'n mynychu darpariaeth gynradd cyfrwng Saesneg yn nalgylch Bro Caereinion ar hyn o bryd yn gallu parhau i fynychu'r ddarpariaeth hon trwy'r cyfnod cynradd. Os bydd y Cyngor yn bwrw mlaen efo gweithredu'r cynnig, byddant yn gallu cael mynediad i ddarpariaeth Trochi, gyda'r nod o drosglwyddo i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, neu byddant yn gallu cael mynediad i ddarpariaeth cyfrwng Saesneg mewn ysgol arall.</p> <p>Er mai nod y Cyngor yw y bydd y rhan fwyaf o'r disgyblion yn parhau i fynychu Ysgol Bro Caereinion, cydnabyddir efallai na fydd rhai disgyblion sy'n mynychu darpariaeth cyfrwng Saesneg ar hyn o bryd eisiau trosglwyddo i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, ac efallai mai dyma fydd y sefyllfa ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn arbennig.</p> <p>Os aiff y cynnig yn ei flaen, bydd disgyblion ag AAA/ADY yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Rhan allweddol o'r strategaeth yw bod gan ddisgyblion ag AAA/ADY yr hawl i gael eu haddysgu mewn ysgolion prif ffrwd ochr yn ochr â'u cyfoedion.</p> <p>O dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, bydd gan ddisgyblion ag ADY gynlluniau datblygu unigol (CDU) a fydd yn nodi eu hanghenion a'r cymorth y byddant yn ei dderbyn. Gallai hyn gynnwys cefnogaeth gan staff yr ysgol yn ogystal â chymorth arbenigol gan yr awdurdod</p>
--	--	--



		lleol. Lle bo'n briodol, gellir cynnal ymyraethau trwy gyfrwng y Saesneg. Bydd hyn yn cael ei bennu yn unol ag anghenion y disgybl unigol. Yn yr un modd, os bydd disgybl yn cyrraedd yr ysgol heb unrhyw Saesneg, gellir darparu lefel o gefnogaeth yn ei iaith ei hun.
2.9.2	Mae disgyblion ag anghenion ychwanegol wedi symud o'r ffrwd Gymraeg i'r ffrwd Saesneg gan eu bod wedi cael trafferth. Pe na bai'r ysgol yn un ddwy ffrwd, ni fyddai hyn yn bosibl.	Fel uchod.
2.9.3	Byddai disgyblion ag ADY yn ei chael hi'n haws astudio yn Saesneg os nad Cymraeg yw eu mamiaith.	Fel uchod.
2.9.4	Pryder y byddai hyn yn cael effaith negyddol ar ddysgu disgyblion ag ADY ac y bydd yn achosi pryder.	Fel uchod.
2.9.5	Pryder na fyddai plant ag anghenion ychwanegol yn ymdopi â Throchi a derbyn eu haddysg yn Gymraeg	Fel uchod.
2.9.6	Pryder y gallai disgyblion ag anghenion ychwanegol gael eu gorfodi i deithio milltiroedd i'w hysgol Saesneg agosaf.	Fel uchod.
2.9.7	Pryder y byddai llai o ddewis ar gyfer dysgwyr ag anghenion ychwanegol.	Fel uchod.
2.9.8	Byddai disgyblion ag anghenion ychwanegol yn cael eu gorfodi i newid ysgolion neu byddent yn ei chael hi'n anodd cadw i fyny â disgyblion sy'n siarad Cymraeg.	Fel uchod.
2.9.9	Bydd dysgwyr anfoddog, y rhai sydd â chyflyrau fel syndrom Asperger, ADHD, Dyslecsia, hunan-barch isel ac ati mewn perygl o fethu.	Fel uchod.
2.9.10	Children with additional needs would be segregated from those they have attended school with so far, from their siblings already in the school and would be required to travel further for their educational needs to be met.	Fel uchod.
2.9.11	Pryder am ddisgyblion ADY ar hyn o bryd yn y ffrydiau Saesneg yn Ysgol Bro Caereinion ac Ysgol Rhiw Bechan.	Nodwyd y sylw. Cydnabyddir efallai na fydd y ddarpariaeth Trochi yn addas ar gyfer rhai disgyblion.

	Mae'r nod y byddant yn gallu cael mynediad i addysg mewn ail iaith pan fyddant yn 9 oed yn uchelgeisiol iawn, a bydd yn amhosibl i rai, gan eu bod eisoes yn cael trafferth siarad, darllen ac ysgrifennu yn eu hiaith gyntaf (Saesneg).	Byddai disgyblion sydd ddim eisiau cael mynediad i'r ddarpariaeth hon i'w galluogi i symud i'r ffrwd Gymraeg dal yn gallu mynychu darpariaeth uwchradd cyfrwng Saesneg mewn ysgol arall, pe baent yn dymuno hynny.
2.9.12	Ni fyddai cwrs iaith 10 wythnos yn ddigonol i blant ADY - maen nhw fel arfer yn cael trafferth gydag un iaith.	Fel uchod.
2.9.13	Nid yw disgyblion ag ADY wedi cael eu hystyried yn y cynnig hwn.	Mae disgyblion ag ADY wedi'u hystyried fel rhan o'r cynnig, yn cynnwys yn yr asesiad effaith ar gydraddoldebau drafft a baratowyd fel rhan o'r ddogfennaeth ymgynghori. Caiff yr asesiad hwn ei ddiweddarau i adlewyrchu adborth a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori, a chaiff ei ystyried gan Cabinet wrth benderfynu i barhau ai peidio.
2.9.14	Mae plant sy'n cael trafferth dysgu yn dysgu orau yn eu hiaith eu hunain. I'r mwyafrif yn Llanfair, Saesneg yw honno, felly bydd gorfodi plant i ddysgu yn Gymraeg neu deithio ymhellach yn effeithio ar blant sydd â nodweddion gwarchoddedig yn fwy na'r rhai heb anabledau.	Mae effaith y cynnig ar ddisgyblion sy'n perthyn i'r grwpiau nodweddion gwarchoddedig wedi'i ystyried yn yr asesiad effaith ar gydraddoldebau drafft a gafodd ei baratoi fel rhan o'r ddogfennaeth ymgynghori. Caiff yr asesiad hwn ei ddiweddarau i adlewyrchu adborth a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori, a chaiff ei ystyried gan Cabinet wrth benderfynu i barhau ai peidio.
2.9.15	Pa gymorth ychwanegol fydd ar gael i gefnogi disgyblion ag anghenion ychwanegol? A fydd cynorthwyrwyr addysgu ychwanegol yn cael eu cyflogi i gefnogi disgyblion?	Byddai angen i'r ysgol ystyried anghenion ei disgyblion a sicrhau bod lefelau staffio priodol yn cael eu darparu, o fewn y gyllideb a ddyrannwyd. Mae'r Cyngor wedi diwygio ei fformwla ariannu ar gyfer ysgolion yn ddiweddar, i sicrhau bod mwy o gyllid yn cael ei ddirwyo i ysgolion yn uniongyrchol i gefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.
2.9.16	Mae gan fwyafrif y disgyblion yn y ffrwd Gymraeg yn y cyfnod cynradd anghenion dysgu ychwanegol, felly byddai'n risg sylweddol i weithredu'r cynnig. Sut ymdrinnir â hyn a beth fydd yr adnoddau?	Byddai angen i'r ysgol ystyried anghenion ei disgyblion a sicrhau bod lefelau staffio priodol yn cael eu darparu, o fewn y gyllideb a ddyrannwyd. Mae'r Cyngor wedi diwygio ei fformwla ariannu ar gyfer ysgolion yn ddiweddar, i sicrhau bod mwy o gyllid yn cael ei ddirwyo

		<p>i ysgolion yn uniongyrchol i gefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.</p> <p>Bydd y Cyngor yn ystyried yr effaith ar ddisgyblion a fyddai'n cael eu heffeithio'n arbennig gan y cynigion ga neu bod ar hyn o bryd yn mynychu darpariaeth cyfrwng Saesneg yn y dalgylch wrth benderfynu os ydynt am barhau efo'r cynigion ai peidio.</p>
2.9.17	Byddai'r cynnig yn effeithio ar bobl o lawer o wahanol ddiwylliannau yn ein cymuned, gan gynnwys Wcreinaidd, Pwylaidd, Bwlgaraidd.	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r pryder hwn. Y bwriad yw y bydd darpariaeth Trochi ar gael i unrhyw ddisgybl, hyd yn oed os ydynt yn siarad mwy nag un iaith yn barod. Mae yna nifer o enghreifftiau ar draws Cymru o blant sydd heb Saesneg fel iaith gyntaf yn dod yn hollol ddwyieithog.</p> <p>Cafodd asesiad effaith ar gydraddoldebau drafft a gafodd ei baratoi fel rhan o'r ddogfennaeth ymgynghori. Caiff yr asesiad hwn ei ddiweddarau i adlewyrchu adborth a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori, a chaiff ei ystyried gan Cabinet wrth benderfynu i barhau ai peidio.</p>
2.9.18	Mae pobl o wahanol hil a disgyblion Saesneg fel iaith ychwanegol (EAL) wedi bod yn y ffrwd Saesneg yn bennaf - byddai'r cynnig yn effeithio arnyn nhw.	Fel uchod.
2.9.19	Pryder am yr effaith ar ddisgyblion EAL/disgyblion o gartrefi lle siaredir ieithoedd eraill.	Fel uchod.
2.9.20	Pryder am yr effaith ar geiswyr lloches yn yr ardal y byddai angen iddynt ddysgu dwy iaith newydd	Fel uchod.
2.9.21	Pryder am ffoaduriaid sydd wedi cael eu hailgartrefu yn yr ardal.	Fel uchod.
2.9.22	Mae llawer llai o siaradwyr Cymraeg ymhlith cefndiroedd nad ydynt yn wyn, nad ydynt yn rhai Prydeinig na Christnogol.	Fel uchod.

	Bydd tynnu'r ffrwd Saesneg yn niweidiol i'r grwpiau hyn yn lleol, ac yn y tymor hir bydd yn atal y grwpiau hynny rhag ymuno â'r boblogaeth sy'n siarad Cymraeg. Nid yw'r cynllun yn gynhwysol ac nid yw'n mynd yn ddigon pell o ran integreiddio'r grwpiau hyn.	
2.9.23	Pryder am yr effaith ar deuluoedd incwm isel fyddai'n gorfod talu am gludiant i ysgolion eraill.	Fel uchod.

## 2.10 Pryder ynghylch yr effaith ar y Gymraeg

2.10.1	Bydd yn annog pobl i beidio â dysgu Cymraeg	<p>Nid yw'r Cyngor yn cytuno â'r sylwadau hyn. Byddai gweithredu'r cynnig yn golygu y byddai pob disgybl sy'n mynychu Ysgol Bro Caereinion, yn y dyfodol, yn dod yn rhugl yn Gymraeg a Saesneg. Disgwyliad y Cyngor yw y byddai hyn yn arwain at fwy o ddefnydd o'r iaith o fewn yr ysgol ac yn y gymuned ehangach.</p> <p>Pe bai disgyblion yn dewis mynychu ysgolion eraill yn hytrach na chael mynediad i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Bro Caereinion, byddent yn parhau i astudio'r Gymraeg fel Ail Iaith hyd at lefel TGAU.</p> <p>Disgwylir i bob ysgol ddarparu cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu sgiliau Cymraeg, p'un a ddarperir addysg cyfrwng Cymraeg ai peidio.</p>
2.10.2	Nid gorfodaeth yw'r ffordd i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg	Fel uchod.
2.10.3	Mae'r cynnig yn gwneud i bobl deimlo bod y Gymraeg yn cael ei gorfodi ar eu plant. Mae hyn yn achosi drwgdeimlad yn y gymuned tuag at y Gymraeg, gan achosi effaith negyddol.	Fel uchod.

2.10.4	Bydd teuluoedd Saesneg eu hiaith yn mynd i rywle arall am eu haddysg, a chollir y cyfle i gyflwyno'r Gymraeg i'r teuluoedd hyn.	Fel uchod.
2.10.5	Bydd llai o blant sy'n siarad Saesneg yn dysgu Cymraeg gan y byddan nhw'n cael eu gorfodi i fynd i ysgolion eraill, ysgolion cwbl Saesneg mae'n debyg.	Fel uchod.
2.10.6	Ni fydd siaradwyr Saesneg yn mynd i Ysgol Bro Caereinion, felly ni fyddant yn cael cyfle i glywed a dysgu'r iaith trwy fod yn y gymuned ddwyieithog.	Fel uchod.
2.10.7	Pryder am yr effaith ar y Gymraeg yn Llanfyllin a'r ardal gyfagos.	Nid yw'r Cyngor yn cynnig unrhyw newidiadau i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn ardal Llanfyllin.

## 2.11 Nid Llanfair Caereinion yw'r lleoliad cywir ar gyfer ysgol uwchradd Gymraeg

2.11.1	Dylid sefydlu'r arlwy cyfrwng Cymraeg yn y Drenewydd lle mae trwch y boblogaeth. Mae Llanfair Caereinion yn rhy bell i rai disgyblion sy'n mynychu Ysgol Dafydd Llwyd ar hyn o bryd.	Cydnabyddir y byddai darpariaeth uwchradd yn Y Drenewydd yn fwy cyfleus i ddisgyblion sy'n mynychu Ysgol Dafydd Llwyd ar hyn o bryd. Fodd bynnag, er y rhoddwyd ystyriaeth flaenorol i sefydlu darpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg dynodedig, nid yw hyn yn cael ei ystyried ar hyn o bryd, yn bennaf oherwydd fforddiadwyedd oherwydd y costau cyfalaf sy'n gysylltiedig ag adeiladu ysgol newydd, a hefyd y costau refeniw sy'n gysylltiedig ag ychwanegu darparwr uwchradd ychwanegol.
2.11.2	Mae'n annheg bod y nifer uchel o ddisgyblion yn Ysgol Dafydd Llwyd yn cael eu gorfodi i deithio i drefi eraill pan mai'r Drenewydd yw'r dref fwyaf ym Mhowys.	Fel uchod.
2.11.3	Os nad oes addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg yn y Drenewydd, mae plant sy'n mynychu Ysgol Dafydd Llwyd yn debygol iawn o beidio parhau â'u haddysg yn Gymraeg yn yr ysgol uwchradd.	Fel uchod.

2.11.4	Bydd disgyblion sy'n byw yn y Drenewydd yn dal i orfod teithio tua 25 milltir y dydd.	Fel uchod.
2.11.5	Nid yw hyn yn ateb i'r angen am addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg hygyrch i blant yn Nyffryn Hafren neu Ogledd Ddwyrain Sir Drefaldwyn.	Fel uchod.
2.11.6	Nid yw lleoliad yr ysgol yn gwasanaethu disgyblion Cymraeg ehangach yr ardal.	Cydnabyddir y byddai darpariaeth uwchradd mewn lleoliad gwahanol yn fwy cyfleus i ddisgyblion sy'n mynychu Ysgol Dafydd Llwyd ar hyn o bryd, Ysgol Gymraeg Y Trallwng a rhai darparwyr cynradd Cymraeg eraill yn yr ardal. Fodd bynnag, er y rhoddwyd ystyriaeth flaenorol i sefydlu darpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg dynodedig, nid yw hyn yn cael ei ystyried ar hyn o bryd, yn bennaf oherwydd fforddiadwyedd oherwydd y costau cyfalaf sy'n gysylltiedig ag adeiladu ysgol newydd, a hefyd y costau refeniw sy'n gysylltiedig ag ychwanegu darparwr uwchradd ychwanegol.
2.11.7	Bydd yn anodd argyhoeddi'r rhai sydd yn rhai o'r ysgolion bwydo bod y lleoliad hwn yn iawn.	Nodwyd y sylw. Os bydd y Cyngor yn bwrw ymlaen â gweithredu'r cynnig, bydd angen i'r ysgol weithio gydag ysgolion bwydo i ddatblygu cysylltiadau i hyrwyddo'r trawsnewid i Ysgol Bro Caereinion.
2.11.8	Nid wyf yn gwrthwynebu ysgolion cyfrwng Cymraeg mewn ardaloedd Cymraeg eu hiaith yng Nghymru, fodd bynnag, nid dyma'r ardal gywir gan ei bod yn rhy agos at Loegr.	Dydy'r Cyngor ddim yn cytuno bod Llanfair Caereinion yn rhy agos i Loegr i ddod yn ysgol Gymraeg. Mae ardal Llanfair Caereinion yn un o'r ardaloedd sydd â'r lefelau uchaf o siaradwyr Cymraeg ym Mhowys.
2.11.9	Rydyn ni'n rhy agos at y ffin â Lloegr ar gyfer ysgol Gymraeg.	Fel uchod.

## 2.12 Sylwadau eraill

2.12.1	Mae'r asesiadau PISA newydd gael eu cyhoeddi. Maen nhw'n dangos bod Cymru wedi gostwng i'w lefel isaf erioed mewn mathemateg, darllen a gwyddoniaeth. Mae hyn yn warthus.	Nid yw'r Cyngor yn cytuno y bydd 'troi Ysgol Bro Caereinion yn ysgol gwbl Gymraeg dim ond yn cyfrannu at ostwng safonau yn y pynciau hyn'.
--------	---	--

	Bydd troi Ysgol Bro Caereinion yn ysgol gwbl Gymraeg dim ond yn cyfrannu at ostwng safonau yn y pynciau hyn.	
2.12.2	Mae llawer o rieni sy'n siarad Saesneg yn cefnogi'r ysgol ar hyn o bryd, ond bydd hyn yn cael ei golli	Nodwyd y sylw. Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai'r Cyngor yn gobeithio y byddai disgyblion sy'n byw yn yr ardal yn parhau i fynychu Ysgol Bro Caereinion, gan gynnwys y rhai o gartrefi lle na chaiff unrhyw Gymraeg ei siarad.
2.12.3	Dim ond 35 yw'r gwahaniaeth mewn dysgwyr Cymraeg/Saesneg. Nid yw hyn yn dangos nad oes angen ffrwd Saesneg yn lleol.	<p>Fel y nodwyd yn yr wybodaeth am niferoedd disgyblion sydd wedi'i chynnwys yn y ddogfen ymgynghori, mae'n gywir fod 292 o ddisgyblion yn Ysgol Bro Caereinion yn cael mynediad i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ym mis Medi 2023 a 257 o ddisgyblion yn cael mynediad i ddarpariaeth cyfrwng Saesneg yn yr ysgol, sy'n wahaniaeth o 35.</p> <p>Fodd bynnag, roedd niferoedd disgyblion yng nghyfnod cynradd yr ysgol fel a ganlyn:</p> <p>Cyfrwng Cymraeg: 74 Cyfrwng Saesneg: 50</p> <p>Hefyd, mae'r wybodaeth am niferoedd disgyblion yng ngweddill dalgylch Ysgol Bro Caereinion a ddarparwyd ar dudalen 13 o'r ddogfen ymgynghori yn dangos bod gwahaniaeth sylweddol rhwng niferoedd disgyblion cyfrwng Cymraeg a Saesneg yn y cyfnod cynradd; mae 566 o ddisgyblion yn cael mynediad i ddarpariaeth gynradd cyfrwng Cymraeg yn nalgylch Bro Caereinion, a 105 o ddisgyblion yn cael mynediad i ddarpariaeth gynradd cyfrwng Saesneg.</p>
2.12.4	Nifer y disgyblion cyfrwng Saesneg yn fwy na'r Gymraeg	Mae hyn yn anghywir. Gweler uchod.

2.12.5	Nid yw nifer y plant mewn dosbarthiadau derbyn cyfrwng Cymraeg yn adlewyrchiad cywir o'r galw gan fod nifer yn bwriadu symud eu plant draw i'r ffrwd Saesneg yn y cyfnod uwchradd. Bydd gan rai anghenion dysgu ychwanegol ac ni fyddant yn gallu symud ymlaen yn y ffrwd Gymraeg, ac roedd nifer yn teimlo dan bwysau i roi eu plant mewn dosbarthiadau cyfrwng Cymraeg er mwyn iddynt fod gyda'u cyfoedion.	Nodwyd y sylw. Mae gan rieni/disgyblion hawl i wneud cais am le mewn unrhyw ysgol y maent yn ei dewis. Pe bai'r Cyngor yn bwrw ymlaen â'r cynnig i newid categori iaith Ysgol Bro Caereinion, byddai disgyblion/rhieni yn gallu gwneud cais am le mewn ysgol amgen sy'n cynnig darpariaeth cyfrwng Saesneg, pe bai hynny'n ddewis iddynt.
2.12.6	Mae'r cynnig yn gwrth-ddweud yn llwyr bwrpas Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).	Mae effaith y cynnig ar Nodau Llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn cael ei hystyried yn y ddogfen asesu effaith a gyhoeddwyd fel rhan o'r dogfennau ymgynghori.
2.12.7	Mae mwyafrif yr ysgolion yn y dalgylch yn darparu addysg Gymraeg, mae'r opsiwn hwn ar gael yn barod, felly nid oes angen y newid yma.	Er bod mynediad i ddarpariaeth gynradd cyfrwng Cymraeg mewn nifer o ysgolion yn y dalgylch, a mynediad i ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg mewn nifer o ysgolion dwy ffrwd yn yr ardal, nid oes mynediad i ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg dynodedig, lle gall ddisgyblion gael mynediad i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg gyflawn.

### **ADRAN 3 – SYLWADAU ERAILL**

#### **3.1 Sylwadau ynghylch Ysgol Bro Caereinion**

##### **3.1.1 Sylwadau ynghylch y ddarpariaeth bresennol yn yr ysgol**

3.1.1.1	Mae ein profiad ym Mro Caereinion wedi bod yn llawer mwy cadarnhaol nag mewn ysgolion lleol eraill, mae'n ysgol uwchradd wych gyda staff gwych, byddai'n gymaint o drueni newid pethau.	Nodwyd y sylw.
3.1.1.2	Yr ysgol hon yw'r unig ysgol leol yr hoffwn anfon fy mhlentyn iddi gan mai dyma'r unig un sy'n ddiogel.	Nodwyd y sylw, fodd bynnag, nid yw'r Cyngor yn cytuno bod ysgolion eraill yn yr ardal yn 'anniogel'.



3.1.1.3	Mae'r ddarpariaeth Cymraeg ail iaith yn Ysgol Bro Caereinion yn well nag yw yn ysgolion eraill yr ardal.	Nodwyd y sylw.
3.1.1.4	Mae safonau addysgol a niferoedd disgyblion wedi bod yn gostwng yn gyson yn Ysgol Bro Caereinion.	Nodwyd y sylw.
3.1.1.5	Mae gen i bryderon am safon yr addysgu y bydd fy mhlentyn yn ei dderbyn nawr pe bawn i'n dewis Ysgol Bro Caereinion.	Nodwyd y sylw.
3.1.1.6	Pryder am safon bresennol yr addysgu yn yr ysgol, yn enwedig gan fod yr ysgol eisoes yn cael trafferth llenwi swyddi.	Nodwyd y sylw.
3.1.1.7	Yn aml mae athrawon cymorth yn rhoi gwersi mathemateg, ac yn cynnig ychydig iawn o gefnogaeth ac nid ydynt yn siarad Cymraeg.	Nodwyd y sylw. Mae'r Cyngor yn ymwybodol bod heriau wedi bod wrth recriwtio athro mathemateg Cymraeg yn yr ysgol.
3.1.1.8	Mae safon yr addysgu yn yr ysgol yn amheus - mae llawer o staff yn cael swyddi dim ond oherwydd eu bod yn gallu siarad Cymraeg.	Nid yw'r Cyngor yn cytuno â'r datganiad bod 'llawer o staff yn cael swyddi dim ond oherwydd eu bod yn gallu siarad Cymraeg'.
3.1.1.9	Mae opsiynau chweched dosbarth yn wael i ddisgyblion sy'n dysgu yn Saesneg	Nodwyd y sylw. Mae'r Cyngor yn cytuno bod yr angen i ddyblygu'r ddarpariaeth yn yr ysgol yn golygu ei bod yn anoddach darparu ystod eang o ddarpariaeth i ddisgyblion sy'n astudio yn y naill iaith neu'r llall.
3.1.1.10	Mae'r cynnig chweched dosbarth yn eithaf gwael, felly mae nifer o ddisgyblion yn mynd i'r Amwythig lle nad yw'r Gymraeg yn opsiwn.	Fel uchod.
3.1.1.11	Mae'r ysgol wedi dioddef yn ystod y 5 mlynedd diwethaf o ddiffyg darpariaeth ac E-Ysgol a Trisgol nad ydynt yn darparu addysg o safon ddigonol, sy'n golygu bod disgyblion wedi dioddef diffyg opsiynau a darpariaeth wael o addysg mewn rhai pynciau.	Fel uchod.
3.1.1.12	Ar hyn o bryd mae'r ysgol yn darparu dewis gwael ar gyfer disgyblion cyfrwng Cymraeg ôl-14 ac ôl-16.	Fel uchod.
3.1.1.13	Yn y 3 blynedd diwethaf, faint o opsiynau TGAU sydd wedi cael eu cynnig i ddisgyblion Caereinion? Mewn cymhariaeth,	Mae'r wybodaeth a gedwir gan y Cyngor yn dangos bod y pynciau opsiynau sy'n cael eu hastudio ar hyn o bryd gan ddisgyblion cyfrwng Cymraeg a Saesneg ym

	faint o opsiynau sydd wedi eu cynnig yn Ysgolion Uwchradd Llanfyllin, Y Trallwng a'r Drenewydd?	<p>mlynyddoedd 10 ac 11 yn Ysgol Bro Caereinion yn cynnwys y canlynol:</p> <p>Amaethyddiaeth, Celf a Dylunio, Busnes, Dylunio a Thechnoleg, Ffrangeg, Daearyddiaeth, Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Hanes, Cerddoriaeth, Addysg Gorfforol, Sbaeneg, Llenyddiaeth Gymraeg, Lletygarwch ac Arlwyo</p> <p>Mae hyn yn gyfanswm o 13 o bynciau.</p> <p>Mae'r wybodaeth a gedwir gan yr awdurdod yn dangos bod nifer y pynciau opsiynau sy'n cael eu hastudio ar hyn o bryd gan ddisgyblion ym mlynyddoedd 10 ac 11 yn Ysgol Llanfyllin, Ysgol Uwchradd y Trallwng ac Ysgol Uwchradd y Drenewydd fel a ganlyn:</p> <p>Ysgol Llanfyllin: 19 subjects Ysgol Uwchradd y Trallwng: 17 pwnc Ysgol Uwchradd Y Drenewydd: 15 pwnc</p>
3.1.1.14	Mae bylchau yn y cyrsiau Cymraeg a gynigir ar hyn o bryd (e.e. dim athro mathemateg Cymraeg).	Mae'r Cyngor yn ymwybodol bod rhai pynciau yn cael eu haddysgu yn Saesneg i ddisgyblion cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd.
3.1.1.15	Ar hyn o bryd mae disgyblion cyfrwng Cymraeg yn cael eu haddysgu yn Saesneg ar gyfer rhai pynciau	Fel uchod.
3.1.1.16	Mae rhai plant yn cael eu gwyddoniaeth dyfarniad triphlyg yn y ddwy iaith ar yr un pryd - byddwn yn cadw llygad barcud ar sut mae hyn yn effeithio ar eu graddau.	Fel uchod.
3.1.1.17	Pryd mae'r arolygiad nesaf wedi'i gynllunio ar gyfer Ysgol Bro Caereinion?	Disgwylir y bydd Ysgol Bro Caereinion yn cael ei harolygu cyn diwedd y cylch arolygu presennol
3.1.1.18	Pa bynciau ychwanegol fyddai'n cael eu cynnig drwy gyfrwng y Gymraeg o gymharu â'r arlwy presennol?	Bydd y pynciau a gynigir yn cael eu pennu gan yr ysgol.

3.1.1.3	Cryfder Caereinion yw ei bod yn ysgol wledig ac mae plant yn cael eu cysgodi. Dyma'r rheswm pam fod rhieni yn anfon eu plant yna, a pham eu bod yn dod i fyd yn Nhregynon.	Nodwyd y sylw.
---------	--	----------------

### 3.1.2 Sylwadau ynghylch adeiladau a chyfleusterau yn yr ysgol

3.1.2.1	Nid yw adeilad yr ysgol yn addas i'r diben ac mae'n siomi'r staff, y disgyblion a'r gymuned.	Mae'r Cyngor yn nodi'r pryderon hyn am gyflwr adeiladau Ysgol Bro Caereinion a'r diffyg buddsoddiad yn yr adeilad dros y blynyddoedd diwethaf.
3.1.2.2	Mae adeilad yr ysgol mewn cyflwr gwael ac mae'n oer, ac nid oes llawer o gyfleusterau modern.	Fel uchod.
3.1.2.3	Mae'r adeiladau presennol mewn cyflwr gwael ac maent yn hen.	Fel uchod.
3.1.2.4	Nid yw adeilad Bro Caereinion wedi ei gynnal a'i gadw yn iawn ers blynyddoedd. Mae'n warthus.	Fel uchod.
3.1.2.5	Mae angen enfawr am fuddsoddiad ar y ddau safle i wella'r adeilad a'r adnoddau sydd ar gael i'n plant. Maent yn haeddu'r buddsoddiad hwn.	Fel uchod.
3.1.2.6	Nid yw'r ffenestri ar flaen yr ysgol wedi cael eu newid ers i'r ysgol gael ei hadeiladu ym 1953.	Fel uchod.
3.1.2.7	Mae cyflwr yr adeilad a'r cyfleusterau chwaraeon yn yr ysgol yn warthus.	Fel uchod.
3.1.2.8	Mae angen mawr i fuddsoddi yn adeiledd yr ysgol a'i seilwaith ategol, fel cyfleusterau chwaraeon.	Fel uchod.
3.1.2.9	Mae angen buddsoddiad sylweddol yng nghyfleusterau campws uwchradd Ysgol Bro Caereinion er mwyn gallu gweithredu'r cwricwlwm newydd a darparu gofod cyffrous a chyfforddus i blant ddysgu ac i athrawon addysgu.	Fel uchod.
3.1.2.10	Mae angen buddsoddiad i ddenu mwy o rieni a disgyblion i'r ysgol.	Fel uchod.

3.2.2.11	Mae myfyrwyr a staff yn teimlo'n siomedig gyda'r adeilad sy'n eu hwynebu nhw pan fyddant yn mynd i mewn i'r system addysg uwchradd yn Ysgol Bro Caereinion - yn enwedig disgyblion o'r Drenewydd a'r Trallwng a gafodd gyfle i fynd i'r ysgol gynradd mewn adeiladau newydd sbon.	Fel uchod.
3.2.2.12	Mewn noson agored ddiweddar, gwnaeth llawer o rieni sylwadau ar gyflwr yr adeilad a'i addasrwydd i ddisgyblion. Mae hyn yn effeithio ar p'un a yw rhieni'n penderfynu anfon disgyblion i Ysgol Bro Caereinion ai peidio.	Fel uchod.
3.2.2.13	Mae Ysgol Bro Caereinion y tu ôl i weddill ysgolion y sir o ran adeiladau. Gall hyd yn oed y disgyblion weld hyn pan fyddant yn mynychu ysgolion eraill ar gyfer chwaraeon ac ati.	Fel uchod.
3.2.2.14	Mae'n dorcalonnus gweld pa mor bell y tu ôl y mae'n hysgol ni o ran buddsoddi.	Fel uchod.
3.2.2.15	Mae ysgolion eraill yn yr ardal fel Llanfyllin wedi cael buddsoddiad ar gyfer chweched dosbarth newydd, dylem ni gael yr un peth yn Llanfair.	Fel uchod.

### 3.1.3 Mae disgyblion cyfrwng Cymraeg a Saesneg yn cael eu trin yn wahanol

3.1.3.1	Mae'r ysgol yn tueddu o blaid disgyblion cyfrwng Cymraeg.	Nodir y sylwadau hyn am y driniaeth wahanol canfyddedig y mae disgyblion yn ffrydiau cyfrwng Cymraeg a Saesneg Ysgol Bro Caereinion yn ei derbyn. Un o'r anawsterau sy'n gysylltiedig ag ysgolion dwy ffrwd yw bod tensiynau yn aml rhwng y ddwy ffrwd.
3.1.3.2	Mae tueddiad i wgu ar y ffrwd Saesneg ac maent yn cael llai o gyfleoedd na phlant sy'n mynychu'r ffrwd Gymraeg.	Fel uchod.
3.1.3.3	Bu tensiwn cyson rhwng y ffrydiau Cymraeg a Saesneg yn yr ysgol.	Fel uchod.

3.1.3.4	Mae athrawon yn gleniach i ddisgyblion Cymraeg – nid yw athrawon sy'n gofyn i ddisgyblion y ffrwd Gymraeg sut maen nhw'n gwneud ac yn cynnig llawer o gymorth iddynt yn ymdrechgu lawer gyda disgyblion y ffrwd Saesneg.	Fel uchod.
3.1.3.5	Mae gan y ffrwd Gymraeg fwy o gyfleoedd o'i chymharu â'r ffrwd Saesneg, fel mwy o deithiau a phrofiadau dysgu.	Fel uchod.
3.1.3.6	Dydy'r ffrwd Saesneg ddim yn cael cynnig yr un teithiau na gweithgareddau hwyliog â'r ffrwd Gymraeg.	Fel uchod.
3.1.3.7	Mae gan y ffrwd Gymraeg fwy o gyfleoedd i fynd ar deithiau.	Fel uchod.
3.1.3.8	Mae'r ffrwd Gymraeg yn mynd ar fwy o deithiau ysgol na'r ffrwd Saesneg. Mae hyn yn achosi drwgdeimlad ymhlith disgyblion a rhieni tuag at y Gymraeg. Beth am gynnwys disgyblion ffrwd Saesneg ar deithiau sy'n ehangu eu gwybodaeth a'u diddordeb yng Nghymru, yr iaith Gymraeg, ei hanes, ei diwylliant a'i threftadaeth?	Fel uchod.
3.1.3.9	Mae gan y ffrwd Gymraeg ystafelloedd dosbarth gwell.	Fel uchod.
3.1.3.10	Gwaherddir disgyblion Saesneg ei hiaith o'r bloc Cymraeg newydd a adeiladwyd yn yr ysgol yn y 90au. Cafodd disgyblion cyfrwng Cymraeg eu haddysgu yn yr ystafelloedd dosbarth newydd, tra bod y ffrwd Saesneg yn cael eu haddysgu mewn ystafelloedd sy'n dadfeilio ac mewn cabannau.	Fel uchod.
3.1.3.11	Mae gwahanu eisoes wedi dechrau yng nghyfnod cynradd yr ysgol wrth i grwpiau Cymraeg a Saesneg eu hiaith gael eu cadw ar wahân yn ystod amseroedd egwyl.	Nid yw'r Cyngor yn ymwybodol o'r sefyllfa hon. Byddai trefniadau ar gyfer amseroedd egwyl yn fater i'r ysgol.

### 3.1.4 Mae disgyblion cyfrwng Saesneg yn yr ysgol yn elwa ar fwy o amlygiad i'r Gymraeg

3.1.4.1	Mae'n rhywbeth cadarnhaol i ddisgyblion yn y ffrwd Saesneg yn yr ysgol fod o gwmpas cyfoedion rhugl eu hiaith sy'n gallu eu helpu a'u cefnogi gyda'u Gymraeg.	Byddai gweithredu'r cynnig yn golygu y byddai pob disgybl sy'n mynychu Ysgol Bro Caereinion, yn y dyfodol, yn dod yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg.
---------	---	--

		<p>Dydy hyn ddim yn wir ar hyn o bryd - fel arfer, dim ond disgyblion sy'n cael mynediad i addysg Gymraeg sy'n dod yn rhugl yn y Gymraeg.</p> <p>Pe bai disgyblion yn dewis mynychu ysgolion eraill yn hytrach na chael mynediad i ddarpariaeth cyfrwng Gymraeg yn Ysgol Bro Caereinion, byddent yn parhau i astudio'r Gymraeg fel Ail Iaith hyd at lefel TGAU.</p> <p>Disgwylir i bob ysgol ddarparu cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu sgiliau Cymraeg, p'un a ddarperir addysg cyfrwng Gymraeg ai peidio.</p>
3.1.4.2	Mae disgyblion yn y ffrwd Saesneg yn elwa ar gael eu trochi yn yr iaith a'r diwylliant Cymraeg ac o glywed a defnyddio'r Gymraeg yn eang ymhlith ffrindiau ac athrawon.	Fel uchod.
3.1.4.3	Mae disgyblion yn dysgu llawer o Gymraeg yn ystod egwyl a chinio gan eu ffrindiau yn y ffrwd Gymraeg.	Fel uchod.
3.1.4.4	Mae'r staff sy'n siarad Cymraeg yn rhoi cymorth i ddisgyblion Cymraeg ail iaith ym mhob maes o'r cwricwlwm.	Fel uchod.
3.1.4.5	Mae disgyblion Cymraeg ail iaith yn cael eu gwerthfawrogi yng Nghaereinion ac yn cael llawer o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau Cymraeg.	Fel uchod.
3.1.4.6	Mae'r rhai yn y ffrwd Saesneg yn cael eu hamlygu i'r Gymraeg yn rheolaidd ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol Cymraeg fel yr Urdd.	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau hyn am ddisgyblion yn y ffrwd Saesneg yn Ysgol Bro Caereinion yn gallu cael mynediad at weithgareddau diwylliannol Cymraeg fel yr Urdd. Pe bai'r Cyngor yn bwrw ymlaen â gweithredu'r cynnig, byddai'n gobeithio y byddai unrhyw ddarpariaeth cyfrwng Saesneg amgen y gallai disgyblion ddewis ei mynychu hefyd yn darparu mynediad i weithgareddau diwylliannol Cymraeg fel yr Urdd.

3.1.4.7	Mae Ysgol Bro Caereinion a chyn hynny Ysgol Uwchradd Caereinion ac Ysgol Gynradd Caereinion wedi cael llwyddiant mawr yn yr Urdd gyda'u dysgwyr Cymraeg.	Fel uchod.
3.1.4.8	Yn 2022/23, ymunodd 50 o ddisgyblion ffrwd Saesneg o Ysgol Bro Caereinion â'r Urdd a chystadlu gyda'u ffrindiau cyfrwng Cymraeg mewn gweithgareddau diwylliannol a chymdeithasol Cymraeg.	Fel uchod.
3.1.4.9	Yn hanesyddol mae Caereinion wedi rhagori yng nghystadlaethau'r Eisteddfod gyda disgyblion ail iaith.	Fel uchod.
3.1.4.10	Yn hanesyddol mae Ysgol Bro Caereinion wedi annog pob disgybl i gystadlu yng nghystadlaethau diwylliannol a chwaraeon yr Urdd, ond nid yw hyn yn cael ei gynnig yn eang yn y darpariaethau uwchradd cyfrwng Saesneg amgen.	Fel uchod.

### 3.1.5 Sylwadau ynghylch llywodraethwyr Ysgol Bro Caereinion

3.1.5.1	Mae llywodraethwyr yr ysgol yn amlwg yn awyddus i wthio hyn drwodd heb gefnogaeth y rhieni. Maen nhw yno i gefnogi rhieni, ond yn amlwg dydyn nhw ddim yn gwneud hyn.	Mae'r broses bresennol i newid categori iaith yr ysgol yn cael ei harwain gan y Cyngor, nid gan lywodraethwyr yr ysgol.
3.1.5.2	Nid yw'r llywodraethwyr wedi dangos empathi tuag at y plant yn yr ysgol, gan gynnwys y plant cyfrwng Cymraeg a allai fod â brodyr a chwirydd yn y ffrwd Saesneg ac a fydd yn debygol o orfod cael eu haddysgu mewn ysgolion gwahanol.	Nid yw'r Cyngor yn cytuno 'nad yw'r llywodraethwyr wedi dangos empathi tuag at y plant yn yr ysgol...' Mae'r cynnig i newid categori iaith yr ysgol yn cael ei ddatblygu gan y Cyngor, nid llywodraethwyr yr ysgol.
3.1.5.3	Mae llywodraethwyr yr ysgol yn tueddu o blaid y ffrwd Gymraeg ac nid ydynt yn cynrychioli barn a diddordebau'r disgyblion cyfrwng Saesneg fel y dylent.	Cynhaliwyd cyfarfod gyda chorff llywodraethu'r ysgol fel rhan o'r broses, pan fynegodd y llywodraethwyr lawer o bryderon am y cynnig, a oedd yn cynnwys pryder am ei effaith ar ddisgyblion cyfrwng Saesneg sy'n mynychu'r ysgol ar hyn o bryd.
3.1.5.4	A oes cynrychiolwyr o ddisgyblion a rhieni cyfrwng Saesneg ar y corff llywodraethu? Os nad oes, yna nid yw hyn yn gymesur ac nid yw'r teuluoedd hynny'n cael eu cynrychioli.	Mae rhiant-lywodraethwyr yn cael eu hethol i'r corff llywodraethu yn dilyn proses bleidleisio. Gallai unrhyw rieni cyfrwng Saesneg sy'n dymuno bod yn aelod o'r

		corff llywodraethu fod wedi cyflwyno enwebiad i ddod yn rhiant-lywodraethwr.
3.1.5.5	Mae nifer o lywodraethwyr di-Gymraeg yn Ysgol Bro Caereinion, a fyddan nhw'n cael eu tynnu oddi ar y corff llywodraethu o 2025?	Ni fyddai llywodraethwyr di-Gymraeg yn cael eu tynnu oddi ar y corff llywodraethu pe bai'r Cyngor yn bwrw ymlaen â gweithredu'r cynnig. Ar draws Powys a Chymru, mae llawer o lywodraethwyr ysgolion cyfrwng Cymraeg nad ydynt yn siarad Cymraeg eu hunain.

### 3.1.6 Sylwadau eraill

3.1.6.1	Os bydd y cynnig yn mynd yn ei flaen, a fydd yr ysgol yn ymrwymo i gefnogi pob disgybl yn y ffrwd Saesneg ac yn parhau i gynnig opsiynau TGAU/Safon Uwch yn Saesneg hyd nes y bydd y ddarpariaeth yn cael ei diddymu'n llawn?	Bydd, bydd angen i'r ysgol barhau i sicrhau bod darpariaeth briodol ar gael i fyfyrwyr cyfrwng Saesneg yn ystod y cyfnod trawsnewid.
3.1.6.2	Yn y 5 mlynedd diwethaf, faint o ddisgyblion blwyddyn 11 Ysgol Uwchradd Caereinion sydd wedi parhau â'u haddysg ôl-16 y tu allan i Gymru?	Nid yw'r Cyngor yn cadw data cyrchfan ar gyfer disgyblion blwyddyn 11 felly nid yw'n bosibl darparu'r wybodaeth hon. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn gwbl ymwybodol bod nifer sylweddol o ddisgyblion o ysgolion Powys yn trosglwyddo i golegau yn Lloegr i gael mynediad i addysg ôl-16.
3.1.6.3	Beth yw sgiliau Cymraeg athrawon a staff presennol yr ysgol?	Yn seiliedig ar Gyfrifiad Blynyddol diweddaraf y Gweithlu Ysgolion o fis Tachwedd 2023, roedd sgiliau Cymraeg athrawon a staff yr ysgol fel a ganlyn:  <b><u>Athrawon</u></b> Dim sgiliau Cymraeg: 10 Lefel mynediad: 1 Lefel Sylfaen: 3 Lefel Ganolradd: 0 Lefel Uwch: 1 Lefel Hyfedr: 31 <b>Cyfanswm: 46</b>



		<p><b><u>Pob aelod o staff</u></b>  Dim sgiliau Cymraeg: 12  Lefel mynediad: 8  Lefel Sylfaen: 6  Lefel Ganolradd: 2  Lefel Uwch: 2  Lefel Hyfedr: 38  <b>Cyfanswm: 68</b></p>
3.1.6.4	Mae caniatâd cynllunio amlinellol ar gyfer 40+ o dai yn ardal Caereinion a fyddai'n cynyddu nifer y disgyblion yn y dyfodol.	Mae digon o le yn Ysgol Bro Caereinion i ddarparu ar gyfer unrhyw gynnydd yn nifer y disgyblion yn yr ardal yn y dyfodol.
3.1.6.5	Roedd dosbarthiadau pontio yn llwyddiannus yn yr ysgol flynyddoedd yn ôl cyn iddynt ddod i ben, yn fwyaf tebygol oherwydd nad oedd cyllid ar gael.	Nodwyd y sylw.
3.1.6.6	Roedd niferoedd disgyblion yn Ysgol Uwchradd Caereinion yn arfer bod llawer yn uwch, fodd bynnag collwyd disgyblion cyfrwng Saesneg oherwydd newidiadau i'r polisi cludiant.	Nodwyd y sylw.

### 3.2 Sylwadau / ymholiadau ynghylch ysgolion eraill

#### 3.2.1 Ysgol Rhiw Bechan

3.2.1.1	Beth yw'r cynllun tymor hir ar gyfer Ysgol Rhiw Bechan? A oes bwriad i newid honno i addysg Gymraeg yn unig hefyd?	Nid oes cynllun ar hyn o bryd i newid categori iaith Ysgol Rhiw Bechan, ond mae dyletswydd ar y Cyngor i fonitro ei ddarpariaeth ysgol a gwneud newidiadau lle bo angen.
3.2.1.2	Yn seiliedig ar yr wybodaeth yn y Ddogfen Ymgynghori, dim ond 55 o 144 o ddisgyblion Ysgol Rhiw Bechan sydd yn y ffrwd Saesneg, felly dylid newid categori iaith yr ysgol honno i gyfrwng Cymraeg hefyd.	Fel uchod.

3.2.1.3	<p>A fydd hyn yn effeithio ar ysgolion eraill? Mae Ysgol Rhiw Bechan yn ddwyieithog ond ni fydd disgyblion Saesneg eu hiaith yn gallu dewis Ysgol Bro Caereinion fel eu hysgol uwchradd mwyach, felly gall y disgyblion hyn yn y dyfodol fynd i ysgolion cynradd eraill gan y bydd yn rhaid iddynt fynychu ysgolion uwchradd eraill. Yn y dyfodol a fydd hyn yn effeithio ar Ysgol Rhiw Bechan o ran newid y categori iaith hefyd?</p>	<p>Fel uchod.</p> <p>Er ei bod yn bosibl y byddai unrhyw newid i gategori iaith Ysgol Bro Caereinion yn cynyddu ymhellach nifer y disgyblion yn Ysgol Rhiw Bechan sy'n dewis cael mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, mae hefyd yn bosibl y byddai'r newid arfaethedig i ddarpariaeth gynradd yn Ysgol Bro Caereinion yn golygu y bydd disgyblion yn mynychu darpariaeth cyfrwng Saesneg yn Ysgol Rhiw Bechan.</p>
3.2.1.4	<p>Trwy newid Ysgol Bro Caereinion i fod yn ysgol cyfrwng Gymraeg, byddai'n rhesymol disgwyl i Ysgol Rhiw Bechan hefyd symud ar hyd y continwum i fod yn ysgol cyfrwng Cymraeg. Byddai'n anoddach i ddisgyblion Cymraeg o Ysgol Rhiw Bechan drosglwyddo i ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg o ysgol gynradd dwy ffrwd.</p>	<p>Nid oes cynlluniau ar hyn o bryd i newid categori iaith Ysgol Rhiw Bechan, ond mae dyletswydd ar y Cyngor i fonitro ei ddarpariaeth ysgol a gwneud newidiadau angenrheidiol. Er ei fod yn cydnabod mai Ysgol Rhiw Bechan fyddai'r unig ddarparwr dwy ffrwd yn y dalgylch, nid oes rheswm pam na fyddent yn gallu mynychu darpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg dynodedig. Mae hyn yn wir ar hyn o bryd yn Ysgol Gynradd Pontsenni, ysgol gynradd dwy ffrwd wedi'i lleoli yn ne Powys, lle mae nifer o ddisgyblion cyfrwng Cymraeg yn trosglwyddo i Ysgol Ystalyfera Bro Dur, ysgol cyfrwng Cymraeg, i gael mynediad at ddarpariaeth uwchradd.</p>
3.2.1.5	<p>Pa gefnogaeth fydd ar gael i staff Saesneg eu hiaith yn Rhiw Bechan os bydd nifer y disgyblion yn gostwng ac nad oes ffrwd Saesneg hyfyw yn yr ysgol bellach?</p>	<p>Mae'n ofynnol i ysgolion dwy ffrwd sicrhau trefniadau staffio priodol i adlewyrchu proffil disgyblion o fewn y ddwy ffrwd. Mewn llawer o achosion, mae ysgolion dwy ffrwd yn ystyried sgiliau Cymraeg wrth benodi i bob swydd, er mwyn sicrhau bod ganddynt yr hyblygrwydd i ymateb i newidiadau yn nifer y disgyblion o fewn y ffrydiau.</p> <p>Mae staff ym mhob ysgol yn cael eu hannog i ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg, a byddai'r Cyngor yn disgwyl i</p>

		<p>staff Ysgol Rhiw Bechan nad ydynt yn siarad Cymraeg eisoes gael cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg.</p> <p>Pe bai nifer y disgyblion yn y ffrwd cyfrwng Saesneg yn gostwng i bwynt lle roedd angen adolygu categori iaith yr ysgol, byddai angen cynnal proses statudol, a byddai ystyriaeth yn cael ei rhoi i gefnogi staff bryd hynny.</p>
3.2.1.6	<p>Mae cynlluniau trawsnewid Powys yn dweud mai dim ond un cynllun trawsnewid all ysgolion ei gynnal. Os felly, ni all yr ysgol gael dwy ysgol uwchradd wahanol ar gyfer ei disgyblion, felly yn ôl cynlluniau Powys ei hun mae angen i gategori'r ysgol newid ac uned Drochi fawr iawn i'w chynnwys yn Rhiw Bechan i symud disgyblion i gyfrwng Gymraeg ymhell cyn blwyddyn 6.</p>	<p>Er mai'r dewis fyddai ysgolion cynradd yn bwydo un ysgol uwchradd, mae yna sefyllfaoedd ym Mhowys lle mae ysgolion yn bwydo mwy nag un ysgol uwchradd.</p>
3.2.1.7	<p>Mae rhieni Ysgol Rhiw Bechan eisoes wedi dewis naill ai cyfrwng Cymraeg neu gyfrwng Saesneg. Byddai'n anodd iawn perswadio rhieni i wneud y cam o gyfrwng Saesneg i gyfrwng Cymraeg, ga neu bod eisoes wedi dewis cyfrwng Saesneg.</p>	<p>Nodwyd y sylw. Gallai disgyblion / rhieni sydd ddim eisiau symud o ddarpariaeth cyfrwng Saesneg i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg gael mynediad i ddarpariaeth cyfrwng Saesneg mewn ysgolion eraill.</p>

### 3.2.2 Darparwyr cynradd eraill

3.2.2.1	<p>O'r tair prif ddarpariaeth eraill a enwir yn y ddogfen ymgynghori, mae Ysgol Rhiw Bechan yn llawn ac yn annog unrhyw ddisgyblion cyfrwng Saesneg i beidio â chroesi ei throthwy, mae Aberriw bron yn llawn a bu'n rhaid iddi droi 5 teulu Ysgol Bro Caereinion i ffrwd yn ystod wythnos gyntaf lansiad yr ymgynghoriad ac felly mae hynny'n gadael Meifod yn unig.</p>	<p>Gan mai'r bwriad yw cyflwyno'r newid arfaethedig fesul cam, byddai darpariaeth gynradd cyfrwng Saesneg yn parhau i fod ar gael yn Ysgol Bro Caereinion ar gyfer disgyblion sy'n mynychu'r ddarpariaeth hon ar hyn o bryd, felly ni fyddai angen i ddisgyblion sy'n cael mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Saesneg yn yr ysgol ar hyn o bryd drosglwyddo i ysgolion eraill.</p> <p>Yn y dyfodol, byddai'r Cyngor yn gobeithio y byddai disgyblion newydd yn Llanfair Caereinion yn cael mynediad i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Bro</p>
---------	---	---

		Caereinion, fodd bynnag, byddai unrhyw ddisgyblion sy'n dymuno cael mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Saesneg mewn ysgolion eraill yn yr ardal yn gallu gwneud cais am lleoedd mewn ysgolion eraill, a byddai'r rhain yn cael eu trin yn unol â Pholisi Derbyn y Cyngor.
3.2.2.2	Rydych chi'n dweud bod lleoedd ar gael mewn ysgolion eraill, fodd bynnag nid yw hyn yn wir - mae Aberriw wedi dweud nad ydyn nhw'n gallu derbyn mwy o blant gan eu bod wedi'u cyfyngu i 15 o blant fesul carfan. Er y gall fod yna rai lleoedd ar gael, byddech yn lwcus i gael lle i'ch plant.	Fel uchod.
3.2.2.3	Nid oes gan ddwy o'r tair ysgol gynradd arall a awgrymir ar gyfer plant cyfrwng Saesneg ddigon o le. Beth fydd polisi Cyngor Sir Powys ar gyfer cynnig lleoedd cyfrwng Saesneg i blant dalgylch Caereinion?	Fel uchod.
3.2.2.4	A fydd yr ysgolion bwydo fel Ysgol Dafydd Llwyd yn cael eu gorfodi i ddod i Fro Caereinion i hybu'r niferoedd?	Ni fydd ysgolion bwydo yn cael eu 'gorfodi' i ddod i Fro Caereinion. Mae gan rieni hawl i wneud cais am le mewn unrhyw ysgol y maent yn ei dewis. Fodd bynnag, os bydd y Cyngor yn bwrw ymlaen â gweithredu'r cynnig, bydd angen i'r ysgol weithio gydag ysgolion bwydo i ddatblygu cysylltiadau i hybu'r trawsnewidiad i Ysgol Bro Caereinion. Yn ogystal, bydd angen sicrhau bod trefniadau eraill ar waith i hyrwyddo Ysgol Bro Caereinion, fel trefniadau cludo a buddsoddiad cyfalaf.
3.2.2.5	A fydd disgyblion Ysgol Dafydd Llwyd yn dal i gael dewis parhau â'u haddysg Gymraeg yn Ysgol Uwchradd Llanidloes os ydyn nhw'n dewis gwneud hynny yn lle Ysgol Bro Caereinion?	Mae gan rieni hawl i wneud cais am le mewn unrhyw ysgol o'u dewis, a byddent yn dal i allu gwneud cais am le yn Ysgol Uwchradd Llanidloes pe baen nhw'n dymuno hynny.
3.2.2.6	Mae plant sy'n byw yn Y Drenewydd a fynychodd Ysgol Dafydd Llwyd wedi cael y dewis i dalu am gludiant i Ysgol Uwchradd Llanidloes, sydd wedi ei gordanysgrifio, er mai Bro Caereinion yw eu hysgol ffrwd Gymraeg agosaf. Mae hyn	Nodwyd y sylw.

	wedi effeithio ar y niferoedd sy'n mynychu Ysgol Bro Caereinion.	
3.2.2.7	Yn ystod y 5 mlynedd diwethaf, beth oedd y data ynghylch y rhai a oedd yn gadael Ysgol Dafydd Llwyd ac Ysgol Gymraeg Y Trallwng a faint o'r rheiny aeth i Ysgol Uwchradd Caereinion/Bro Caereinion ar gyfer eu haddysg uwchradd?	<p>Mae gwybodaeth am gyfran y disgyblion a addysgir yn y Gymraeg ym Mlwyddyn 6 yn ystod 2020-21 ac sy'n parhau i gael eu haddysgu yn y Gymraeg ym Mlwyddyn 7 yn ystod 2021-22 wedi'i chynnwys yn WESP y Cyngor ar gyfer 2022-32. Mae hyn yn dangos, rhwng blwyddyn academaidd 2020/21 a blwyddyn academaidd 2021/22, bod 20 o'r 23 disgybl ym Mlwyddyn 6 yn Ysgol Dafydd Llwyd wedi trosglwyddo i ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg, sef 87%, tra mai dim ond 2 o'r 9 disgybl ym Mlwyddyn 6 yn Ysgol Gymraeg y Trallwng a drosglwyddwyd i ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg, sef 22%. Fodd bynnag, byddai hyn yn cynnwys disgyblion sy'n trosglwyddo i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Uwchradd Llanidloes ac Ysgol Llanfyllin ac unrhyw ddarparwyr cyfrwng Cymraeg eraill yn ogystal ag Ysgol Bro Caereinion.</p> <p>Ym mis Medi 2023, trosglwyddodd 12 o'r 17 disgybl ym Mlwyddyn 6 yn Dafydd Llwyd i ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg, sef 70.5%. Trosglwyddwyd saith o'r rhain i Ysgol Bro Caereinion, gyda 5 yn trosglwyddo i Ysgol Uwchradd Llanidloes. Trosglwyddodd saith o'r 11 disgybl ym Mlwyddyn 6 yn Ysgol Gymraeg y Trallwng i ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg, sef 63.3%. Trosglwyddodd y saith i Ysgol Bro Caereinion.</p>

### 3.2.3 Darparwyr uwchradd eraill

3.2.3.1	A oes gan Ysgolion Uwchradd y Trallwng a Llanfyllin y capasiti a'r adnoddau ar gyfer cymaint o ddisgyblion ychwanegol?	Mae gan Ysgol Uwchradd y Trallwng ac Ysgol Llanfyllin y capasiti i ddarparu ar gyfer unrhyw ddisgyblion ychwanegol sydd eisiau cael mynediad i'r ysgolion hyn. Fodd bynnag, byddai disgyblion sy'n defnyddio darpariaeth uwchradd cyfrwng Saesneg yn Ysgol Bro Caereinion ar hyn o bryd yn gallu parhau i gael mynediad at y ddarpariaeth hon drwy gydol eu hamser yn yr ysgol, ac mae nifer y disgyblion sy'n cael mynediad at ddarpariaeth gynradd cyfrwng Saesneg yn y dalgylch ar hyn o bryd yn gymharol isel, felly dylai nifer y disgyblion ychwanegol fod yn isel.
3.2.3.2	Sut ydych chi'n sicrhau y bydd yr ysgolion uwchradd eraill yn ymdopi â'r holl ymgeiswyr ychwanegol oherwydd y newid hwn?	Fel uchod.
3.2.3.3	Ein hysgol Saesneg agosaf fyddai Ysgol Uwchradd y Drenewydd. Nid wyf eisiau anfon fy mhlant yno. Rydw i eisiau i'm plant fod yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel.	Nodwyd y sylw. Gall rhieni wneud cais am le i'w plant mewn unrhyw ysgol y maent yn ei dewis. Pe bai'r Cyngor yn bwrw ymlaen â gweithredu'r cynnig i newid categori iaith Ysgol Bro Caereinion, gallai disgyblion gael mynediad i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Bro Caereinion, neu gallent wneud cais am le mewn ysgol arall sy'n cynnig darpariaeth cyfrwng Saesneg, naill ai Ysgol Uwchradd Y Drenewydd neu ysgol wahanol.
3.2.3.4	Nid yw'r darpariaethau eraill ar gyfer addysg cyfrwng Saesneg yn yr ardal leol yn cael eu hystyried yn uchel eu gwerth gan Estyn. Mae'r Cyngor eisiau anfon disgyblion cyfrwng Saesneg i ysgol is ei gwerth heb unrhyw gludiant yn cael ei ddarparu.	Mae'r datganiad hwn yn anghywir.  Ar ôl agor ers mis Medi 2022 yn unig, nid yw Ysgol Bro Caereinion wedi cael ei harolygu gan Estyn. Fodd bynnag, cyn i'r ysgol newydd agor, pan gafodd Ysgol Uwchradd Caereinion ei harolygu ddiwethaf gan Estyn yn 2017, cafodd ei gosod mewn angen Gwelliant Sylweddol.

		<p>Cafodd Ysgol Uwchradd Y Drenewydd ei harolygu gan Estyn yn 2023 ac nid yw mewn unrhyw gategori dilynol ffurfiol.</p> <p>Cafodd Ysgol Uwchradd Llanidloes ei harolygu ym mis Chwefror 2024 ac er nad yw'r adroddiad ffurfiol wedi'i ryddhau eto, does dim pryderon am safon yr addysg yn yr ysgol.</p> <p>Cafodd Ysgol Uwchradd y Trallwng ei harolygu ddiwethaf gan Estyn yn 2017. Dyfarnwyd bod yr ysgol yn dda ar gyfer safonau ac nid oedd angen unrhyw fath o weithgaredd arolygu dilynol.</p> <p>Nid yw Ysgol Llanfyllin wedi cael ei harolygu ers iddynt ddod yn ysgol drwodd.</p> <p>Felly, yn seiliedig ar yr arolygiadau diwethaf yn yr ysgolion uwchradd lleol, byddai disgyblion yn trosglwyddo i well darpariaeth a safonau na'r arolygiad diwethaf yn Ysgol Uwchradd Caereinion.</p>
3.2.3.5	Os nad yw ysgolion dwy ffrwd yn llwyddiannus yng Nghaereinion, pam nad ydyn nhw'n cael eu diddymu'n raddol yn Llanfyllin a Llanidloes?	Nid yw'r Cyngor wedi dweud 'nad yw ysgolion dwy ffrwd yn llwyddiannus'. Fodd bynnag, mae'n ffaith, yn wahanol i ardaloedd eraill yng Nghymru, nad yw disgyblion Powys yn gallu cael mynediad i ysgol uwchradd Gymraeg ddynodedig ar hyn o bryd. Nod y cynnig presennol i newid categori iaith Ysgol Bro Caereinion yw mynd i'r afael â'r sefyllfa hon.
3.2.3.6	Ydy'r un cynigion yn cael eu hystyried ar gyfer ysgolion dwy ffrwd eraill fel Llanfyllin? Mae'n siŵr bod yr holl resymau dros newid categori iaith Ysgol Bro Caereinion a amlinellir yn yr	Does dim cynlluniau ar hyn o bryd i newid y ddarpariaeth Gymraeg yn Llanfyllin.

3.5.4.2	Os gwelwch yn dda a wnewch chi rannu copi o'r dadansoddiad cost a budd ar gyfer y cynnig hwn.	Nid oes 'dadansoddiad cost a budd' wedi'i gynnal ar gyfer y cynnig hwn. Datblygwyd y ddogfennaeth yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion, sef nad oes angen paratoi 'dadansoddiad cost a budd'.
3.5.4.3	Wedi clywed y bydd arian yn cael ei daflu at yr ysgol os bydd yn newid i gyfrwng Cymraeg gan gynghorwyr. Mae hyn yn peri gofid mawr - dylai arian gael ei 'daflu' at bob plentyn o bob gallu, ni waeth os yw yn Gymraeg neu Saesneg.	Bydd yr ysgol yn cael ei hariannu yn unol â'r fformiwla ariannu sydd ar waith.

### 3.6 Sylwadau ynghylch Llywodraeth Cymru

3.6.1	Mae hyn yn cael ei wthio drwodd i fodloni cynlluniau Llywodraeth Cymru ac nid i sicrhau dyfodol yr ysgol.	Mae'r rhesymau dros y cynnig wedi'u rhestru yn y ddogfen ymgynghori. Nid yw bodloni Llywodraeth Cymru yn un o'r rhesymau.
3.6.2	Mae angen i Lywodraeth Cymru sylweddoli bod pobl leol eisiau i'w plant gael eu haddysgu yn Gymraeg neu Saesneg.	Nodwyd y sylw. Pe bai'r Cyngor yn bwrw ymlaen â gweithredu'r cynnig, byddai rhieni'n dal i allu gwneud cais am le i'w plentyn mewn ysgol arall sy'n darparu

		addysg cyfrwng Saesneg, pe baen nhw'n dymuno hynny.
3.6.3	Dywedodd Dawn Bowden, Dirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth ym mis Awst 2023: <i>'Rydyn ni eisiau i ddiwylliant yng Nghymru fod ar gyfer pawb ac ynghylch pawb. Rydyn ni'n gwybod bod diwylliant yn llunio ein hunaniaeth ac yn dylanwadu ar ein hymddygiad. Mae Cymru yn wlad amrywiol; Mae ein hanes cyfoethog yn llawn straeon a diwylliannau cymunedau ac unigolion o bob cwr o'r byd sydd wedi ymgartrefu yma yng Nghymru. A yw'r penderfyniad hwn i newid iaith yr ysgol yn dathlu amrywiaeth Cymru ac yn gwneud ardal leol Caereinion yn lle i bawb ac am bawb?</i>	Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai croeso i ddisgyblion o bob cefndir yn Ysgol Bro Caereinion.
3.6.4	Nid oes gan y cynigion lawer i'w wneud â safon yr addysg a ddarperir, mae mwy i'w wneud â chyrraedd targed Llywodraeth Cymru ar gyfer nifer y siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.	Nodwyd y sylw.
3.6.5	Mae'r targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 yn ffantasi o ystyried ffigurau'r cyfrifiad yn ddiweddar. Gyda 27 mlynedd yn weddill, mae angen 15,000 o siaradwyr ychwanegol bob blwyddyn i gyrraedd y targed ffantasi.	Nodwyd y sylw.
3.6.6	Mae angen i Lywodraeth Cymru gydnabod y dylid dathlu ychydig o Gymraeg a siaredir gan fwy o bobl ac y byddai'n fwy cyraeddadwy na 1 miliwn o siaradwyr Cymraeg rhugl erbyn 2050.	Nodwyd y sylw.
3.6.7	Mae targed 2050 i gael 1 miliwn o siaradwyr Cymraeg yn ceisio gorfodi poblogaeth Cymru i gael addysg drwy'r Gymraeg yn hytrach nag yn meithrin yr iaith a darparu'r fframwaith cymorth er mwyn iddi ffynnu.	Nodwyd y sylw.
3.6.8	Mae nifer y siaradwyr Cymraeg yn Sir Drefaldwyn yn gostwng yn flynyddol. Rhaid i'r cynnig hwn ddigwydd i gefnogi targed Llywodraeth Cymru i gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.	Nodwyd y sylw.

3.6.9	Byddai'r cynnig yn cyfrannu at uchelgais Llywodraeth Cymru i gael miliwn o siaradwyr Cymraeg.	Nodwyd y sylw.
3.6.10	Byddai hyn yn gam cadarnhaol ymlaen tuag at gyflawni'r nod cenedlaethol o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.	Nodwyd y sylw.

### 3.7 Opsiynau eraill

#### 3.7.1 Cadw ysgol dwy ffrwd yn Llanfair Caereinion

3.7.1	Dileu'r cynnig	Roedd y 'Status Quo' yn un o'r opsiynau a ystyriwyd wrth ddatblygu'r cynnig hwn, ond diystyrwyd yr opsiwn hwn gan na fyddai'n mynd i'r afael â'r heriau a nodwyd.
3.7.2	Mae'n gweithio'n dda fel y mae, felly nid oes angen newid.	Fel uchod.
3.7.3	Gadwch ef fel y mae – os nad yw wedi torri, peidiwch â'i drwsio.	Fel uchod.
3.7.4	Cadwch ef fel y mae a chanolbwyntiwch ar ddarparu addysg dda i bob disgybl yn y cymunedau sy'n defnyddio'r ysgol.	Fel uchod.
3.7.5	Cadwch y ddwy ffrwd a chanolbwyntiwch ar gael mwy o ddisgyblion i fynychu.	Fel uchod.
3.7.6	Cadwch y ddwy ffrwd a chanolbwyntiwch ar recriwtio athrawon sy'n siarad Cymraeg i bob swydd wag bresennol.	Fel uchod.

#### 3.7.2 Cyflwyno'n raddol o Ddosbarth Derbyn yn unig

3.7.2.1	Os oes angen newid i gyfrwng Cymraeg yn unig, dylai hyn ddechrau gyda phlant Dosbarth Derbyn yn unig.	Gweithredu'r newid yn y ddarpariaeth iaith fesul cam, flwyddyn ar ôl blwyddyn, gan ddechrau gyda Dosbarth Derbyn yn unig oedd un o'r opsiynau gweithredu a ystyriwyd wrth ddatblygu'r cynnig presennol, fodd bynnag, nid hwn oedd yr opsiwn a ffefrir gan na fyddai'n mynd i'r afael â'r materion o ran darpariaeth
---------	---	---

		<p>uwchradd cyfrwng Cymraeg yn yr ardal am nifer o flynyddoedd.</p> <p>Fodd bynnag, cydnabyddir bod y cynnig i gyflwyno'r newid o Flwyddyn 7 yn ogystal â'r Dosbarth Derbyn wedi arwain at bryder sylweddol yn yr ardal leol, ac wedi achosi pryder i ddisgyblion yr effeithir arnynt o bosib gan y newid hwn. Bydd angen i'r Cyngor ystyried hyn wrth benderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'i weithredu ai peidio.</p>
3.7.2.2	Dechreuwch y newid gyda'r Dosbarth Derbyn yn unig a byddai mwy o bobl yn cefnogi'r newid.	Fel uchod.
3.7.2.3	Cyflwynwch yn raddol o oedran Derbyn yn unig - peidiwch â chynnwys Blwyddyn 7. Byddai hyn yn rhoi cyfle i rieni feddwl am ddyfodol eu plentyn.	Fel uchod.
3.7.2.4	Cyflwynwch yn raddol o oedran Derbyn fel y gall rhieni benderfynu ym mha iaith y bydd eu plant yn dysgu ynddi yn seiliedig ar y wybodaeth mai'r bwriad yn y dyfodol yw i'r ysgol ddod yn un cwbl Gymraeg.	Fel uchod.
3.7.2.5	Dechrau'r cyfnod trawsnewid o fis Medi 2025 o oedran Derbyn yn unig,	Fel uchod.
3.7.2.6	Dechreuwch yn y Dosbarth Derbyn yn unig o 2025. Bydd hyn yn rhoi amser i bobl benderfynu, a'r cyfle i wneud eu dewisiadau.	Fel uchod.
3.7.2.7	Gwnewch hyn yn raddol drwy'r grwpiau blwyddyn o'r Dosbarth Derbyn, fel yn Ysgol Bro Hyddgen.	Fel uchod.
3.7.2.8	Byddai'n decach gweithredu yn Ysgol Bro Caereinion gan ddechrau gyda'r Dosbarth Derbyn yn unig, fel yn Ysgol Bro Hyddgen.	Fel uchod.
3.7.2.9	Byddai newid yn raddol o'r Cyfnod Sylfaen i fyny yn newid naturiol a fyddai'n dod â'r gymuned gyda chi.	Fel uchod.

3.7.2.10	Gweithredu dros 14 mlynedd yn hytrach na 7 mlynedd.	Fel uchod.
----------	---	------------

### 3.7.3 Newid y llinell amser

3.7.3.1	Os oes rhaid iddo ddigwydd, yna mae'n rhaid ei arafu - rhowch amser i bobl wneud dewisiadau priodol ar sail gwybodaeth wrth ddewis lleoedd ysgol eu plentyn yn 3 oed.	Cydnabyddir bod y cynnig i gyflwyno'r newid o Flwyddyn 7 yn ogystal â'r Dosbarth Derbyn o fis Medi 2025 wedi arwain at bryder sylweddol yn yr ardal leol, ac wedi achosi pryder i ddisgyblion y gallai'r newid hwn effeithio arnynt. Bydd angen i'r Cyngor ystyried hyn wrth benderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'i weithredu ai peidio.
3.7.3.2	Mae angen cyfnod trawsnewid hirach.	Fel uchod.
3.7.3.3	Efallai bod 2025 ychydig yn rhy fuan – gallai ymestyn y llinell amser fod yn decach i'r plant hynny sydd eisoes ar eu taith addysgol.	Fel uchod.
3.7.3.4	Oedwch y dyddiad i roi mwy o rybudd i rieni	Fel uchod.
3.7.3.5	Gadewch hi am flwyddyn arall – mae'n teimlo fel pe bai'n cael ei ruthro.	Fel uchod.
3.7.3.6	Gadewch i ni gael blwyddyn o ras – dechreuwch garfan blwyddyn 7 fel un cyfrwng Cymraeg yn unig yn 2026.	Fel uchod.
3.7.3.7	Cyflwyno'n raddol i'r safle uwchradd o 2028.	Fel uchod.
3.7.3.8	A ellir symud y dyddiad yn ôl i 2027?	Fel uchod.
3.7.3.9	Gadewch i blant yn y ffrwd cyfrwng Saesneg hyd at flwyddyn 4 ar hyn o bryd offen eu haddysg yn Ysgol Bro Caereinion.	Fel uchod.

### 3.7.4 Gweithredu'r newid yn y cyfnod cynradd ond nid yn y cyfnod uwch

3.7.4.1	Gweithredu'r newid i gyfrwng Cymraeg yn y cyfnod cynradd ond nid yn yr ysgol uwchradd.	Newid darpariaeth gynradd yr ysgol i gyfrwng Cymraeg yn unig oedd un o'r opsiynau a ystyriwyd wrth ddatblygu'r cynnig hwn, fodd bynnag, diystyrwyd hwn
---------	--	--

		gan na fyddai'n mynd i'r afael â'r materion o ran mynediad at ddarpariaeth Gymraeg gynhwysfawr yn yr ardal.
3.7.4.2	Gallai'r cyfnod cynradd fod yn gwbl Gymraeg ond nid felly y cyfnod uwchradd.	Fel uchod.
3.7.4.3	Dylai'r pwyslais fod ar gael ysgolion cynradd yn rhai Cymraeg eu hiaith a phawb yn dysgu gyda'i gilydd, ond dylai'r rhan fwyaf o'r gwersi fod ar gael yn Saesneg yn yr ysgol uwchradd.	Fel uchod.
3.7.4.4	Ystyriwch yr opsiwn lle mae'r cyfnod cynradd yn Gymraeg yn unig ac yna cynnig dwy ffrwd ar gyfer yr ysgol uwchradd.	Fel uchod.
3.7.4.5	Cael y campws cynradd yn un cyfrwng Cymraeg, ond cadwch ddarpariaeth dwy ffrwd ar y campws uwchradd i roi dewis ar lefel uwchradd.	Fel uchod.
3.7.4.6	Cyfaddawd fyddai darparu addysg cyfrwng Cymraeg yn unig yn y cyfnod cynradd (Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 6) ond cadw'r dewis o ffrwd cyfrwng Saesneg ar y campws uwchradd (Blynyddoedd 7 i 11)	Fel uchod.

### 3.7.5 Cynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer dysgwyr cyfrwng Saesneg yn Ysgol Bro Caereinion

3.7.5.1	Gwneud cwricwlwm gwell i ddisgyblion Cymraeg ail iaith fel eu bod yn dysgu'r Gymraeg yn rhugl erbyn diwedd yr ysgol gynradd.	Nid yw astudio'r Gymraeg fel ail iaith yn galluogi dysgwyr i ddod yn gwbl ddwyieithog.
3.7.5.2	Gwella'r ddarpariaeth Gymraeg i alluogi disgyblion yn y ffrwd Saesneg i wella eu Cymraeg.	Fel uchod
3.7.5.3	Annog o leiaf 25% o Gymraeg i'w defnyddio yn y ffrwd Saesneg yn y cyfnod uwchradd	Fel uchod
3.7.5.4	Lleihau gwersi mewn ieithoedd tramor a chynyddu dysgu Cymraeg ail iaith fel y gall myfyrwyr ail iaith ddod yn rhugl.	Fel uchod
3.7.5.5	Edrychwch ar integreiddio'r ffrydiau Cymraeg a Saesneg ar gyfer un neu ddau o ddosbarthiadau yr wythnos fel y gallant	Fel uchod.

	ganolbwyntio ar y Gymraeg drwy ddysgu a chymryd rhan mewn gweithgareddau gyda'i gilydd.	Er y gallai'r opsiwn hwn gael effaith gadarnhaol ar sgiliau Cymraeg disgyblion cyfrwng Saesneg, byddai'n cael effaith negyddol ar y trochi a ddarperir i ddisgyblion cyfrwng Cymraeg.
--	---	---

### 3.7.6 Agor ysgol Gymraeg mewn man arall

3.7.6.1	Adeiladu ysgol newydd sydd wedi'i dynodi'n Gymraeg yn unig yn hytrach na newid un sydd wedi gweithio'n dda iawn ers blynyddoedd.	Er y rhoddwyd ystyriaeth flaenorol i sefydlu darpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg dynodedig mewn lleoliad gwahanol, nid yw hyn yn cael ei ystyried ar hyn o bryd, yn bennaf oherwydd fforddiadwyedd oherwydd y costau cyfalaf sy'n gysylltiedig ag adeiladu ysgol newydd, a hefyd y costau refeniw sy'n gysylltiedig ag ychwanegu darparwr uwchradd ychwanegol.
3.7.6.2	Adeiladu ysgol Gymraeg newydd sbon, ond nid yn Llanfair.	Fel uchod.
3.7.6.3	Adeiladu ysgol newydd sbon ond nid yn Llanfair Caereinion a gadewch lonydd i Gaereinion.	Fel uchod.
3.7.6.4	Dewiswch ardal wahanol ar gyfer ysgol Gymraeg ddynodedig.	Fel uchod.
3.7.6.5	Ystyriwch agor ysgol Gymraeg newydd yn rhywle arall lle na fydd yn rhannu'r gymuned e.e. y Trallwng neu'r Drenewydd lle mae yna eisoes ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg sy'n fwy o faint.	Fel uchod.
3.7.6.6	Dylai'r ysgol cyfrwng Cymraeg fod mewn tref sy'n gallu cefnogi ysgol Saesneg debyg.	Fel uchod.
3.7.6.8	Dylid ystyried y Drenewydd yn hytrach.	Fel uchod.
3.7.6.9	Ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg newydd sbon yn Nyffryn Hafren.	Fel uchod.
3.7.6.10	Ysgol cyfrwng Cymraeg bwrpasol newydd yn Nyffryn Hafren. Yn y tymor hir mae'n debyg y byddai'r arbedion mewn costau cludiant yn talu am adeiladu ysgol newydd.	Fel uchod.

3.7.6.11	O ystyried y gostyngiad a welwyd yn nifer y disgyblion yn Ysgol Uwchradd Caereinion a'r cynnydd yn nifer y disgyblion cyfrwng Cymraeg yn Nyffryn Hafren, yr opsiwn gorau fyddai cau Ysgol Uwchradd Caereinion ac agor ysgol uwchradd Gymraeg ddynodedig yn Nyffryn Hafren sy'n bodloni dyheadau Llywodraeth Cymru ar gyfer cyfleusterau'r 21ain ganrif – cyffrous, Ysbrydoli ysgolion i gefnogi twf yn y rhan fwyaf poblog o'r sir.	Fel uchod.
3.7.6.12	Mae'r cynnig yn opsiwn hawdd - mae'r Cyngor yn colli'r cyfle i greu ysgol cyfrwng Cymraeg newydd yng ngogledd Powys.	Fel uchod.
3.7.6.13	Os nad yw'r Cyngor yn newid categori iaith Ysgol Bro Caereinion, bydd yn rhaid iddo ystyried agor ysgol Gymraeg mewn rhan arall o'r sir, e.e. Y Trallwng.	Fel uchod.
3.7.6.14	Os oes wir angen ysgol gwbl Gymraeg, edrychwch ar ysgolion eraill lle mae canran y siaradwyr Cymraeg yn uwch na Llanfair. Byddai gan ysgolion sydd â chanran uwch o fyfyrwyr sy'n siarad Cymraeg fwy o adnoddau gan y byddai ganddynt fwy o athrawon Cymraeg eisoes yn eu swyddi.	Fel uchod.
3.7.6.15	Os yw ysgol gwbl Gymraeg yn angenrheidiol dylai fod mewn ardal lle mae'r rhan fwyaf o'r gymuned yn siarad Cymraeg, fel Machynlleth.	Mae'r Cyngor eisoes wedi cynnal y broses statudol i newid categori iaith Ysgol Bro Hyddgen ym Machynlleth o ddwy ffrwd i gyfrwng Cymraeg fesul cam. Ar hyn o bryd mae'r ysgol ychydig flynyddoedd i mewn i'r cyfnod trawsnewid hwn.

### 3.7.7 Cyflwyno darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn ardaloedd eraill

3.7.7.1	Cynyddu'r ddarpariaeth dwy ffrwd mewn ardaloedd lle nad oes darpariaeth o gwbl ar hyn o bryd.	Mae Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y Cyngor ar gyfer 2022-23 yn cynnwys dyhead i gyflwyno darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn ardaloedd ym Mhowys lle nad oes darpariaeth ar hyn o bryd, ond mae hyn yn ymwneud yn bennaf â darpariaeth gynradd. Yn yr achosion hyn, gall cyflwyno darpariaeth dwy ffrwd
---------	---	--



		<p>newydd alluogi cyflwyno darpariaeth mewn ardaloedd lle nad yw ar gael ar hyn o bryd.</p> <p>Fodd bynnag, nid cynyddu darpariaeth dwy ffrwd yw dull dewisol y Cyngor, yn enwedig o ran darpariaeth uwchradd.</p>
3.7.7.2	Dylai fod mwy o ysgolion sy'n cynnig addysg dwy ffrwd.	Fel uchod.
3.7.7.3	Nodir yn y ddogfen ymgynghori ar dudalen 7 nad oes darpariaeth Gymraeg yn ardaloedd Llanandras, Crughywel na Gwernyfed. Oni fyddai'n gwneud mwy o synnwyr cyflwyno darpariaeth Gymraeg yn yr ardaloedd hyn lle nad oes dim? Mae hyn yn fwy tebygol o gynyddu nifer y dysgwyr cyfrwng Cymraeg ym Mhowys.	Mae CSGA'r Cyngor ar gyfer 2022-23 yn cynnwys dyhead i gyflwyno darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn ardaloedd ym Mhowys lle nad oes darpariaeth ar hyn o bryd, gan gynnwys ardaloedd Llanandras, Crughywel a Gwernyfed, ond mae hyn yn ymwneud yn bennaf â darpariaeth gynradd. Ni fyddai cyflwyno darpariaeth cyfrwng Cymraeg newydd yn yr ardaloedd hyn yn mynd i'r afael â'r diffyg mynediad i ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg llawn yng Ngogledd-ddwyrain Powys.
3.7.7.4	Cynnig ysgol dwy ffrwd yn y Drenewydd hefyd i wella mynediad ac annog mwy o blant i barhau i gael mynediad i addysg Gymraeg.	Does gan y Cyngor ddim cynlluniau i gyflwyno unrhyw ffrydiau Cymraeg ychwanegol yn y sector uwchradd.

### 3.7.8 Adolygu ysgolion eraill

3.7.8.1	Caewch ysgolion cynradd bach eraill yn yr ardal gyfagos yn lle'r cynnig hwn ar gyfer yr ysgol uwchradd.	Nid oes gan y Cyngor unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i wneud newidiadau i unrhyw un o ysgolion bwydo Ysgol Bro Caereinion, ond mae dyletswydd ar y Cyngor i adolygu ei seilwaith ysgolion yn rheolaidd. Pe bai unrhyw newidiadau'n cael eu cynnig, byddai angen i'r Cyngor ymgymryd â'r broses statudol er mwyn eu gweithredu, a fyddai'n rhoi cyfle i'r holl randdeiliaid roi gwybod i'r Cyngor beth yw eu barn.
3.7.8.2	Cau rhai o'r ysgolion cynradd llai a chludo disgyblion i Ysgol Bro Caereinion	Fel uchod.

3.7.8.3	Dylai ysgolion llai yn yr ardal gau a dylai Bro Caereinion ddod yn ysgol Gymraeg ragorol.	Fel uchod.
3.7.8.4	Adolygiad ar draws y dalgylch, gan gau pob ysgol gynradd fach i wneud Ysgol Bro Caereinion yn fwy cynaliadwy.	Fel uchod.
3.7.8.5	Byddwn yn cwestiynu angenrheidrwydd Ysgol Cwm Banwy ac Ysgol Pontrobert os yw Caereinion am ddod yn ysgol cyfrwng Cymraeg pob oed. A ellid cau'r ysgolion hyn i gynyddu nifer y myfyrwyr Cymraeg yn Ysgol Bro Caereinion?	Fel uchod.
3.7.8.6	Dylai Ysgol Cwm Banwy, Pontrobert ac ysgolion lleol bach eraill gau ac uno â Bro Caereinion fel y gellir darparu cyfleusterau cyfoes, adnoddau ac ati i Bro Caereinion fel sydd gan Ysgol Dafydd Llwyd ac Ysgol Gymraeg Y Trallwng.	Fel uchod.
3.7.8.7	Byddai uno cyfnod cynradd Ysgol Bro Caereinion, Cwm Banwy a Phontrobert yn creu ysgol gynradd o tua 200 o ddisgyblion.	Fel uchod.
3.7.8.8	Newid categori iaith Ysgol Rhiw Bechan hefyd	Nid oes cynllun ar hyn o bryd i newid categori iaith Ysgol Rhiw Bechan, ond mae dyletswydd ar y Cyngor i fonitro ei ddarpariaeth ysgol a gwneud newidiadau lle bo angen.
3.7.8.9	Dim ond 55 o'r 144 disgybl yn Ysgol Rhiw Bechan sydd yn y ffrwd Saesneg, felly mae'n rhesymol ac yn bosib newid categori iaith Ysgol Rhiw Bechan.	Fel uchod.

### 3.7.9 Cau'r ysgol

3.7.9.1	Byddai'n well pe bai'r ysgol yn cau, yna byddai o leiaf pawb yn Llanfair Caereinion yn yr un sefyllfa	Nodwyd y sylw.
3.7.9.2	Caewch y ddarpariaeth uwchradd yn Llanfair Caereinion a chlundwch yr holl ddisgyblion uwchradd i'w hysgol uwchradd agosaf yn ôl eu dewis iaith.	Nodwyd y sylw.

3.7.9.3	Os nad oes digon o ddisgyblion i'r ysgol gynnal addysg o safon uchel yn y lleoliad hwn, dyma'r hyn y dylid edrych arno.	Nodwyd y sylw.
---------	---	----------------

### 3.7.10 Buddsoddiad yn yr ysgol

3.7.10.1	Adeilad newydd i'r ysgol cyfrwng Cymraeg bob oed	<p>Fel y nodwyd yn y ddogfen ymgynghori:</p> <p><i>'Nid yw'r cynlluniau presennol mewn cysylltiad â chategori iaith Ysgol Bro Caereinion yn rhan o Raglen Fuddsoddi Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu yr awdurdod lleol. Fodd bynnag, cydnabyddir yr angen am fuddsoddiad yn adeiladau Ysgol Bro Caereinion, yn enwedig i gefnogi rôl strategol yr ysgol fel darparwr darpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg. Bydd hyn yn cael ei adlewyrchu yn Rhaglen Amlinellol Strategol (RhAS) ddiwygiedig y Cyngor ar gyfer y Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu, a fydd yn cael ei datblygu yn 2023/24.'</i></p> <p>Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn gweithio ar ei RhAS ddiwygiedig. Mae disgwyl i hyn gael ei ystyried gan y Cabinet a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru cyn diwedd mis Mawrth 2024.</p>
3.7.10.2	Byddai adeilad newydd yn Ysgol Bro Caereinion yn anfon neges glir at ddysgwyr a rhieni/gwarcheidwaid ynghylch uchelgeisiau'r Cyngor i ddarparu cyfleusterau modern a helpu i ddarparu profiad addysg boddhaus i bawb. Byddai hefyd yn helpu i hwyluso uchelgeisiau ac ethos ysgol bob oed i'n dysgwyr a'n staff addysgu, yn ogystal ag ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.	Fel uchod.

3.7.10.3	Os yr ysgol fydd prif ddarparwr addysg cyfrwng Cymraeg yng Ngogledd Powys, yna mae angen iddi edrych yn ddeniadol er mwyn denu rhieni a'u perswadio i anfon eu plant i'r ysgol.	Fel uchod.
3.7.10.4	Rhaid datblygu campws yr ysgol - bydd hyn wedyn yn denu mwy o ddisgyblion i'r ysgol ac yn cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn yr ardal.	Fel uchod.
3.7.10.5	Bu diffyg buddsoddiad yn Ysgol Bro Caereinion yn y blynyddoedd diwethaf o'i chymharu ag ysgolion eraill e.e. cae 3g yn Llanfyllin.	Fel uchod.
3.7.10.6	Gwella cyfleusterau chwaraeon yn Llanfair Caereinion - ar hyn o bryd maen nhw'n wael iawn o'u cymharu ag ysgolion uwchradd eraill Powys.	Yn ddiweddar, bu buddsoddiad o £150,000 yn y cae redgra yn yr ysgol fel rhan o Grant Cyfalaf Ysgolion Bro.
3.7.10.7	Gwella cyfleusterau chwaraeon yn yr ysgol	Fel uchod.
3.7.10.8	Gallai ymrwymiad i fuddsoddi mewn cyfleusterau chwaraeon helpu rhai yn y gymuned i ddod ar y daith a chefnogi'r cynnig.	Fel uchod.

### 3.7.11 Datblygu'r ddarpariaeth yn Ysgol Bro Caereinion

3.7.11.1	Gwnewch yr ysgol yn ganolfan ragoriaeth ar gyfer pwnc penodol (nid Cymraeg) i annog disgyblion i ddod yma.	Ni fyddai hyn yn mynd i'r afael â'r heriau a nodwyd yn y Ddogfen Ymgynghori, ac ni fyddai'n darparu mynediad at ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg llawn.
3.7.11.2	Gwella darpariaeth i ddisgyblion ADY drwy sefydlu uned yn yr ysgol, yn debyg i'r un yn Ysgol Glantaf.	Mae'r Cyngor yn cytuno y byddai bwrw ymlaen â'r cynnig i newid categori iaith yr ysgol yn rhoi cyfle hefyd i ddatblygu'r ddarpariaeth ADY ar gyfer disgyblion cyfrwng Cymraeg.
3.7.11.3	Gallai Ysgol Bro Caereinion ddod yn ganolfan ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion ag ADY.	Fel uchod.
3.7.11.4	Ysgol Bro Caereinion i fod yn ganolfan dysgu Cymraeg o safon a'r ffocws ar gyfer dysgu Cymraeg chweched dosbarth ar draws gogledd Powys, ar gyfer cyrsiau traddodiadol a	Mae'r Cyngor yn cytuno y byddai bwrw ymlaen â'r cynnig i newid categori iaith yr ysgol yn rhoi cyfle hefyd i ddatblygu darpariaeth ôl-16 ar gyfer disgyblion cyfrwng Cymraeg.

	hefyd dysgu galwedigaethol, efallai mewn partneriaeth â cholegau addysg bellach ac uwch.	
3.7.11.5	Dylai'r ysgol fod yn anelu i ddarparu cyrsiau galwedigaethol trwy gyfrwng y Gymraeg oherwydd nid yw Coleg y Drenewydd / NPTC yn cynnig prin dim yn y Gymraeg.	Nodwyd y sylw.
3.7.11.6	Rhannu staff o fewn cwmpas 30 milltir o Lanfair Caereinion a mwy o ddefnydd o wasanaethau ar-lein.	Mae'r Cyngor yn cytuno y byddai rhannu staff a defnyddio addysgu ar-lein yn rhoi cyfle i gynyddu'r ddarpariaeth pwnc a mynd i'r afael â materion o ran recriwtio athrawon sy'n gallu addysgu yn Gymraeg. Byddai hyn yn berthnasol ni waeth a yw'r Cyngor yn bwrw ymlaen â'r cynnig presennol i newid categori iaith yr ysgol ai peidio.
3.7.11.7	Athrawon Cymraeg arbenigol sy'n gallu teithio rhwng ysgolion dwy ffrwd. E-Ysgol yn CA4. Addysgu modiwlaid yn CA4 a CA5.	Fel uchod.
3.7.11.8	A ellir ystyried staff sy'n siarad Cymraeg fel adnodd ar draws y sir i wneud y defnydd gorau posibl o sgiliau pobl? Os oes gennych chi athro/awes mathemateg sy'n siarad Cymraeg mewn ysgol arall sydd dim ond yn dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg am 60% o'r amser, a fyddai gan y Cyngor yr awdurdod i'w symud yma am weddill eu hamserlen?	Fel uchod.

### 3.7.12 Awgrymiadau eraill

3.7.12.1	Rhai pynciau i'w dysgu drwy Saesneg hefyd er mwyn cryfhau'r ddwy iaith.	Mae'r categorïau Cymraeg newydd a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru yn caniatáu i rai pynciau gael eu haddysgu yn Saesneg mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, felly byddai'n bosibl i rai pynciau gael eu haddysgu yn Saesneg pe bai'r Cyngor yn bwrw ymlaen â gweithredu'r cynnig i newid categori iaith yr ysgol.
----------	---	---

3.7.12.2	Cynnig y pynciau craidd fel Mathemateg a Gwyddorau yn Saesneg.	Fel uchod.
3.7.12.3	Opsiwn 5D o'r ddogfen ymgynghori, fyddai'n gweld y cyfnod uwchradd yn newid un flwyddyn ar y tro ond trochi yn digwydd yn syth yn y cyfnod cynradd. Byddai hyn yn caniatáu cymaint o amser â phosibl i fyfyrwyr ddod yn hyderus yn y Gymraeg cyn eu TGAU.	Diystyrwyd opsiwn 5D oherwydd yr amhariad ychwanegol a fyddai'n cael ei achosi i ddisgyblion sy'n mynychu darpariaeth gynradd cyfrwng Saesneg yn Ysgol Bro Caereinion ar hyn o bryd nad oeddent eisiau trosglwyddo i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, ond nodir y sylwadau am yr angen i sicrhau digon o amser i ddisgyblion ddod yn hyderus yn y Gymraeg.
3.7.12.4	Mae angen adolygu'r system addysg gyfan ym Mhowys oherwydd nid yw'n gynladwy yn economaidd.	Nodwyd y sylw.

### 3.8 Beirniadaeth o'r Cyngor

3.8.1	Mae hwn yn gynllun gwael. Mae'r ysgol newydd fod drwy newid mawr, a nawr mae cynigion ar gyfer newid arall.	Nodwyd y sylw, fodd bynnag, fe'i gwnaed yn glir yn y ddogfennaeth sy'n ymwneud â sefydlu Ysgol Bro Caereinion y gallai fod angen adolygu categori iaith yr ysgol yn y dyfodol, ac os felly, byddai angen proses statudol arall.
3.8.2	Mae'r Cyngor wedi torri ei addewid o ysgol pob oed sy'n darparu addysg dwy ffrwd - mae hyn yn gywilyddus.	Fel uchod.
3.8.3	Mae'r penderfyniad wedi cael ei ollwng ar yr ysgol a'i hysgolion bwydo heb ystyried sut y bydd yn effeithio ar y bywydau hynny.	Yr unig benderfyniad hyd yma yw penderfyniad i gynnal ymgynghoriad ar gynnig i newid categori iaith Ysgol Bro Caereinion. Mae'r holl randdeiliaid yr effeithir arnynt, gan gynnwys y rhai sy'n gysylltiedig ag ysgolion bwydo, wedi cael cyfle i gyfrannu at yr ymgynghoriad.
3.8.4	Mae'n frawychus bod y Cyngor yn gwneud y cynnig hwn cyn ymgynghori â'r ysgolion bwydo a'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.	Fel uchod.
3.8.5	Pryder nad yw rhieni, disgyblion na'r gymuned wrth wraidd y penderfyniad - mae'r gymuned wedi ei heithrio o'r hyn sy'n ymddangos yn ffordd o geisio plesio pobl uwch i fyny.	Mae rhieni, disgyblion a'r gymuned i gyd wedi cael cyfle i gyfrannu at yr ymarfer ymgynghori hwn.

3.8.6	Gwarthus bod y Cyngor yn ceisio dweud wrthym pa iaith y dylid addysgu ein plant ynddi - dylai rhieni benderfynu hyn.	Gall rhieni wneud cais am le i'w plentyn mewn unrhyw ysgol y maent yn ei dewis. Pe bai'r Cyngor yn bwrw ymlaen â'r cynnig hwn, byddai rhieni'n gallu gwneud cais am le mewn ysgol arall oni bai eu bod yn dymuno iddynt gael mynediad i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Bro Caereinion.
3.8.7	Bu diffyg cefnogaeth amlwg gan yr awdurdod lleol drwy'r digwyddiadau anodd diweddar sydd wedi achosi trallod i staff, disgyblion a'r gymuned.	Nodwyd y sylw. Mae'r broses bresennol i newid categori iaith yr ysgol wedi'i chynnal yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion.
3.8.8	Mae'r ffordd y mae'r Cyngor wedi gwneud hyn yn ofnadwy, diffyg gwybodaeth llwyr a dim cefnogaeth i'r llywodraethwyr.	Mae'r broses wedi'i chynnal yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion.
3.8.9	Mae'r Cyngor wedi newid dalgylchoedd a chau ysgolion i wneud i hyn ddigwydd.	Nid yw'r Cyngor wedi 'newid dalgylchoedd a chau ysgolion i wneud i hyn ddigwydd'. Gofynnodd Ysgol Meifod am symud i ddalgylch Llanfyllin. Cyflwynwyd y cynnig i gau Ysgol Castell Caereinion, yr Eglwys yng Nghymru er mwyn mynd i'r afael â materion yn ymwneud â niferoedd disgyblion yn yr ysgol honno.
3.8.10	Gallai'r gostyngiad yn nifer y disgyblion cyfrwng Saesneg yn y dalgylch yn sgil cau Ysgol Castell Caereinion a Meifod yn symud i ddalgylch arall fod wedi cael ei gynllunio gan Gyngor Sir Powys i fwydo'r naratif bod llai o alw am addysg cyfrwng Saesneg.	Nid yw'r gostyngiad yn nifer y disgyblion cyfrwng Saesneg yn y dalgylch wedi 'cael ei gynllunio gan Gyngor Sir Powys i fwydo'r naratif bod llai o alw am addysg cyfrwng Saesneg.'
3.8.11	Clywodd disgyblion Castell Caereinion fod disgwyl iddynt fynychu ysgol Aberriw pan gaeodd yr ysgol, er eu bod yng nghlwstwr Bro Caereinion. Darparwyd cludiant i Aberriw i gefnogi hyn, er bod cludiant eisoes yn mynd drwy'r pentref i Fro Caereinion. Byddai'r disgyblion hyn wedi rhoi hwb i niferoedd y disgyblion cyfrwng Saesneg yn yr ysgol.	Roedd trefniadau cludiant yn dilyn y penderfyniad i gau Ysgol Castell Caereinion, yr Eglwys yng Nghymru yn unol â Pholisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol y Cyngor ac ymrwymadau a wnaed fel rhan o'r broses o gau'r ysgol.
3.8.12	Mae cynghorwyr lleol yn cael eu bwydo â data anghywir gan y Cynghorydd Sir, sydd ag agenda wahanol i'r rhan fwyaf o'r gymuned.	Nid yw'r Cyngor yn ymwybodol o unrhyw faterion yn ymwneud â'r Cynghorydd Sir lleol.

3.8.13	Pam nad yw'r Cyngor wedi gwneud mwy dros y blynyddoedd i helpu'r ysgol i ddenu mwy o ddisgyblion o Ysgol Dafydd Llwyd?	<p>Yn draddodiadol, mae Ysgol Dafydd Llwyd wedi bod yn ysgol gynradd yn bwydo Ysgol Uwchradd Caereinion. Fodd bynnag, yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae ysgolion eraill wedi mynd ati i hyrwyddo eu darpariaeth i rieni yn ardal Y Drenewydd, ac o ganlyniad, mae llawer o rieni wedi dewis i'w plant fynychu ysgolion eraill. Mae gan rieni hawl i wneud cais am le mewn unrhyw ysgol, ac ymdriniwyd â'r rhain yn unol â'r Polisi Derbyn.</p> <p>Yn ddiweddar, mae'r Cyngor wedi lansio ymgyrch hyrwyddo i amlinellu manteision dwyieithrwydd a darpariaeth cyfrwng Cymraeg, fodd bynnag, nid yw'n gallu ???? un ysgol dwy ffrwd dros ysgol dwy ffrwd arall. Pe bai'r Cyngor yn bwrw ymlaen â'r cynnig i newid categori iaith Ysgol Bro Caereinion, byddai'r sefyllfa'n wahanol.</p>
3.8.14	Mae'r Cyngor wedi camarwain ymgynghoreion trwy ddarparu cerdyn post rhagfarnllyd i bartïon â diddordeb sydd wedi'i ddsbarthu i dderbynwyr er mwyn iddynt anfon ymateb i un cwestiwn.	Ni chyhoeddwyd y cerdyn post gan y Cyngor.
3.8.15	Anfonwyd e-byst gan rieni at y Cyngor yn gofyn cwestiynau am yr ymgynghoriad ond ni chafwyd ymatebion.	Nodwyd yr holl ymatebion ysgrifenedig a gyflwynwyd fel rhan o'r ymgynghoriad a byddant yn cael eu hystyried yn yr adroddiad Ymgynghori a baratowyd i'w ystyried gan y Cabinet.
3.8.16	Nid yw'r cynnig yn fawr mwy nag aberthu dyfodol ein plant ar gyfer agenda wleidyddol.	Nid yw'r Cyngor yn cytuno â'r sylw hwn.
3.8.17	Byddai'n well gwario adnoddau Powys mewn mannau eraill, fel darparu mwy o gymorth ADY i ddysgwyr ag anawsterau. Nid oes angen gwario arian yn ail-frandio/aildrefnu'r ysgol.	Nodwyd y sylw.
3.8.18	Rwy'n siŵr bod y Cyngor wedi torri safonau'r Gymraeg drwy ddod â'r Gymraeg yn ardal Llanfair Caereinion yn destun craffu a cham-drin difrifol.	Nid yw'r Cyngor wedi 'torri safonau'r Gymraeg drwy ddod â'r Gymraeg yn ardal Llanfair Caereinion yn destun craffu a cham-drin difrifol.'



### 3.9 Sylwadau ynghylch y broses ymgynghori

#### 3.9.1 Sylwadau ynghylch cyfarfodydd/ymgysylltiad â'r gymuned

3.9.1	Ni fu unrhyw ymgynghori â rhieni yr effeithir ar eu plant.	<p>Cynhaliwyd yr ymgynghoriad yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion, nad yw'n gofyn cynnal cyfarfodydd cyhoeddus.</p> <p>Fel y nodwyd ar dudalen 26 o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion, <i>'Nid oes gofyniad i gynigwyr gynnal cyfarfodydd ymgynghori er y bydd amgylchiadau lle bydd cynigwyr yn ystyried y bydd cyfarfod â grwpiau penodol o ymgynghoreion yn helpu'n fawr i ledaenu gwybodaeth ac yn darparu llwyfan addas i'r ymgynghoreion leisio eu barn.'</i></p> <p>Yn ystod y cyfnod ymgynghori, cynhaliwyd cyfarfodydd gyda staff, llywodraethwyr a disgyblion Ysgol Bro Caereinion ac Ysgol Rhiw Bechan. Mae cyrff llywodraethu'r ysgolion hyn yn cynnwys cynrychiolwyr cymunedol a chynrychiolwyr rhieni.</p>
3.9.2	Does dim ymgynghori wedi bod â'r gymuned leol y mae eu teuluoedd wedi bod yn yr ardal ers degawdau.	Fel uchod.
3.9.3	Dylai'r Cyngor fod wedi ymgynghori â disgyblion a rhieni cyn gwneud penderfyniad mor fawr.	Fel uchod.
3.9.4	Bu diffyg ymgysylltu llwyr â'r gymuned, llywodraethwyr, rhieni a disgyblion.	Fel uchod.
3.9.5	Dylai ymgynghoriad sydd â goblygiadau mor fawr i ddisgyblion, rhieni, staff a'r gymuned gynnwys rhywfaint o	Fel uchod.

	ymsgysylltu wyneb yn wyneb. Nid yw ymgynghoriad ar-lein yn ymddangos yn ddigon agored a thryloyw.	
3.9.6	Dylai fod cyfleoedd wedi bod ar gyfer cyfarfodydd wyneb yn wyneb a thrafodaeth fwy agored am y cynigion hyn. Heb hyn, mae'r gymuned yn teimlo mai dim ond ymarfer 'ticio blwch' ydyw, a bod y penderfyniad eisoes wedi'i wneud.	Fel uchod.
3.9.7	Byddai ymgynghoriad wyneb yn wyneb cyhoeddus yn her, ond byddai'n benderfyniad dewr.	Fel uchod.
3.9.8	Dylid galw cyfarfod cyhoeddus ar frys.	Fel uchod.
3.9.9	Does dim gwybodaeth wedi'i darparu i'r gymuned, dim rhyngweithio wyneb yn wyneb gan unrhyw un o fewn Cyngor Sir Powys.	Fel uchod.
3.9.10	Mae'r ffordd y cynhaliwyd yr ymgynghoriad yn ofnadwy. Ni chynigiwyd unrhyw gyfarfodydd cyhoeddus, dim ond llythyr a anfonwyd drwy'r ysgol.	Fel uchod.
3.9.11	Mae'r Cyngor yn siomi cymunedau drwy beidio â chymryd rhan mewn cyfarfodydd cyhoeddus.	Fel uchod.
3.9.12	Dylid cynnal cyfarfod cyhoeddus i ganiatáu i bobl gael ateb i unrhyw gwestiynau ac er mwyn iddynt fod yn gwbl ymwybodol o'r ffeithiau fel y gallent ddeall y penderfyniad.	Fel uchod.
3.9.13	Pryder ei fod wedi cymryd cyhyd i drefnu cyfarfod efo llywodraethwyr Ysgol Rhiw Bechan.	Nid oedd modd cynnal y cyfarfod oherwydd nad oedd swyddogion ar gael. Fodd bynnag, cafodd y cyfnod ymgynghori ei ymestyn wythnos i sicrhau bod cyfle i lywodraethwyr fwydo yn ôl i gymuned yr ysgol ar ôl y cyfarfod.

### 3.9.2 Sylwadau ynghylch ymgynghori â disgyblion

3.9.2.1	Sylwadau ynghylch ymgynghori â disgyblion	Nid yw'r Cyngor yn cytuno. Cynhaliwyd 4 cyfarfod gyda disgyblion yn yr ysgol pan gyfarfu swyddogion â bron i 120 o ddisgyblion. Yn ogystal, derbyniwyd nifer fawr o
---------	---	---

		ymatebion ysgrifenedig gan ddisgyblion yn yr ysgol. Adlewyrchir y rhain yn yr adroddiad ymgynghori hwn.
3.9.2.2	Nid yw'r disgyblion wedi cael cyfle priodol i ddweud eu dweud.	Fel uchod.
3.9.2.3	Roedd y bobl a ddaeth i siarad efo'r disgyblion yn trio perswadio disgyblion y dylai'r ysgol symud i gyfrwng Cymraeg, roeddem yn teimlo fel pe baem yn cael ein bwlio.	Nid oedd y swyddogion a ddaeth i'r ysgol i gwrdd â disgyblion yn 'trio perswadio disgyblion y dylai'r ysgol symud i gyfrwng Cymraeg'. Roedd y swyddogion yn ymateb i bryderon a chwestiynau a godwyd gan y disgyblion.

### 3.9.3 Sylwadau ynghylch ymgysylltu anffurfiol

3.9.3.1	Efallai y dylai cyfnod o ymgysylltu anffurfiol fod wedi digwydd yn gyntaf.	Cynhaliwyd yr ymgynghoriad yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion. Nid oes angen cyfnod o 'ymgysylltu anffurfiol'.  Mae'r posibilrwydd o newid categori iaith yr ysgol wedi cael ei drafod droeon dros y blynyddoedd, ac wedi creu tensiynau yn yr ardal leol, fel sydd wedi ei weld yn ystod y cyfnod ymgynghori diweddar. Byddai cyfnod o ymgysylltu anffurfiol wedi ymestyn y cyfnod o ansicrwydd i bawb yr effeithir arnynt.
3.9.3.2	Mae llawer yn yr ardal leol wedi gwylltio mwy am y ffordd y mae'r broses wedi cael ei chynnal na'r cynnig go iawn - gallai ymgysylltu anffurfiol yn gyntaf fod wedi helpu gyda hyn.	Fel uchod.

### 3.9.4 Sylwadau ynghylch amseru'r cynnig

3.9.4.1	Dim ond newydd ei sefydlu mae'r ysgol - rwy'n cwestiynu cyfreithlondeb y cynnig presennol, o gofio mai dim ond newydd ei sefydlu mae'r ysgol.	Nodwyd y sylw, fodd bynnag, fe'i gwnaed yn glir yn y ddogfennaeth sy'n ymwneud â sefydlu Ysgol Bro Caereinion y gallai fod angen adolygu categori iaith yr
---------	---	--

		ysgol yn y dyfodol, ac os felly, byddai angen proses statudol arall.
3.9.4.2	Nid wyf yn credu y dylai newid mor enfawr fod wedi ei osod ar staff a disgyblion Ysgol Bro Caereinion mor fuan ar ôl sefydlu'r ysgol.	Fel uchod.
3.9.4.3	Mae amseru'r broses wedi bod yn warthus gan ei fod ond ychydig cyn i rieni orfod gwneud penderfyniadau ynglŷn â ble i anfon plant blwyddyn 6 y flwyddyn nesaf.	Y cynnig yw newid y categori iaith yn raddol, gan ddechrau gyda disgyblion yn y Dosbarth Derbyn a Blwyddyn 7 o fis Medi 2025. Ni fyddai'n effeithio ar ddisgyblion ym mlwyddyn 6 ar hyn o bryd, gan y bydd darpariaeth cyfrwng Saesneg yn parhau i fod ar gael iddynt ym Mlwyddyn 7 yn Ysgol Bro Caereinion ym mis Medi 2024.

### 3.9.5 Nid yw'r ymgynghoriad yn gyfreithlon

3.9.5.1	Bydd y Cyngor yn wynebu her gyfreithiol bosibl os yw'n bwrw ymlaen â gweithredu'r cynnig.	Cynhaliwyd yr ymgynghoriad yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion.
3.9.5.2	Mae'r ymgynghoriad hwn yn ansoddol ac nid meintiol ac felly mae'n annilys.	Fel uchod.
3.9.5.3	Mae'r Cyngor wedi dechrau ar yr ymgynghoriad gyda meddwl caeedig, felly nid yw'r ymgynghoriad yn gyfreithlon.	Fel uchod.  Nid yw'r Cyngor wedi cychwyn ar yr ymgynghoriad 'gyda meddwl caeedig'.

### 3.9.6 Mae'r ymgynghoriad yn rhagfarnllyd

3.9.6.1	Mae'r cynnig yn gwbl ragfarnllyd.	Paratowyd y ddogfennaeth a gyhoeddwyd fel rhan o'r ymgynghoriad yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion.
3.9.6.2	Dylai'r broses fod wedi cael ei chynnal gan grŵp diduedd, annibynnol o bobl, nid y rhai a gyflogir gan y Cyngor.	Fel uchod.

### 3.9.7 Dylai mwy o wybodaeth fod wedi cael ei rhannu i gefnogi'r ymgynghoriad

3.9.7.1	Dylai'r ymgynghoriad fod wedi cael ei ragflaenu a'i ategu gan wybodaeth gadarn, cysylltiadau cyhoeddus a chynllun ymgysylltu, a fyddai wedi helpu o ran darparu gwybodaeth a manylion i randdeiliaid.	Nodwyd y sylw.
3.9.7.2	Dylai manteision addysg Gymraeg fod wedi cael eu cyfleu mewn ffordd fwy penodol gryn amser cyn y cynnig - mae ewyllys da llawer o bobl i ystyried y cynnig wedi ei golli.	Nodwyd y sylw.
3.9.7.3	Byddai cyfnod o rannu gwybodaeth ac addysgu am fanteision addysg cyfrwng Cymraeg/dwyieithog wedi rhoi mwy o gyfle i gael cefnogaeth y gymuned.	Nodwyd y sylw.
3.9.7.4	Yn siomedig na chynhaliwyd cynllun cyfathrebu ac ymgysylltu ehangach a llawnach cyn ac ochr yn ochr â'r ymgynghoriad. Efallai y byddai hyn wedi helpu i osod y sylfeini er mwyn i gymuned yr ysgol dderbyn cynigion yr ymgynghoriad.	Nodwyd y sylw.
3.9.7.5	Mae angen i'r Cyngor a'r ysgol fod yn fwy rhagweithiol er mwyn mynd â'r gymuned gyda nhw yn y broses hon.	Nodwyd y sylw.

### 3.9.8 Sylwadau ynghylch cyfathrebu

3.9.8.1	Mae'r ffordd y mae'r penderfyniadau wedi cael eu cyfleu wedi bod yn ofnadwy.	Mae cyfathrebu drwy gydol y broses wedi bod yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion.
3.9.8.2	Mae gwybodaeth am y cynnig wedi ei chyfleu'n wael.	Fel uchod.
3.9.8.3	Ni chafodd ysgolion bwydo lleol wybod yn uniongyrchol am y cynnig.	Fel sy'n ofynnol gan y Cod Trefniadaeth Ysgolion, dosbarthwyd gwybodaeth am yr ymgynghoriad i ystod eang o randdeiliaid, gan gynnwys rhieni, staff a llywodraethwyr Ysgol Bro Caereinion, rhieni disgyblion sy'n mynychu ysgolion bwydo, darparwyr blynyddoedd cynnar a chynghorau cymuned.

3.9.8.4	Nid yw Cyngor Sir Powys wedi darparu gwybodaeth ddigonol, ac mae'r gwacter hwn wedi hyrwyddo ofn a drwgdeimlad.	Paratowyd y ddogfennaeth ymgynghori yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion. Mae hyn yn cynnwys ystyried nifer o opsiynau gwahanol, sy'n cynnwys gwahanol opsiynau iaith.
---------	---	--

### 3.9.9 Pryder ynghylch bobl o'r tu allan i'r ardal yn dylanwadu ar y penderfyniad

3.9.9.1	Dim ond Cyngorwyr sy'n gwasanaethu'r cymunedau sy'n bwydo Ysgol Caereinion ddylai fod yn rhan o'r penderfyniad ynghylch ei dyfodol.	Mae'r ymgynghoriad yn ymarfer ymgynghori agored, a gall unrhyw bartion â diddordeb roi gwybod i'r Cyngor am eu barn.
3.9.9.2	Mae hon yn ysgol gymunedol ac ni ddylid ei newid oherwydd barn pobl y tu allan i'n cymuned.	Fel uchod.
3.9.9.3	Mae penderfyniadau wedi'u gwneud gan bobl sydd ag ychydig iawn o syniad.	Nid yw'r Cyngor yn cytuno â'r datganiad hwn.

### 3.9.10 Sylwadau eraill

3.9.10.1	Mae'n gytundeb wedi'i wneud - mae athrawon eisoes wedi dweud wrth blant bod y cynnig yn mynd yn ei flaen beth bynnag.	<p>Ni wnaed unrhyw benderfyniadau i fwrw ymlaen â gweithredu'r cynnig. Mae'r Cyngor wedi cynnal ymgynghoriad yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion. Bydd yr adborth a dderbynnir yn ystod y broses hon yn cael ei ystyried gan y Cabinet a fydd yn penderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r broses ai peidio.</p> <p>Pe bai'r Cabinet yn penderfynu bwrw ymlaen â'r broses, byddai cyfle pellach i randdeiliaid wrthwynebu'r cynnig drwy gyflwyno gwrthwynebiadau ysgrifenedig. Bydd y rhain yn cael eu hystyried gan y Cabinet, a fydd wedyn yn gwneud penderfyniad terfynol ynghylch a ddylid bwrw ymlaen â'r gweithredu ai peidio.</p>
----------	---	---

3.9.10.2	Anghytuno â sut mae'r broses wedi'i chynnal.	Mae'r broses wedi'i chynnal yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion.
3.9.10.3	Mae'r ffordd y mae'r ymgynghoriad wedi cael ei reoli gan Gyngor Sir Powys yn wirioneddol ofnadwy.	Fel uchod.
3.9.10.4	Ni ddarparwyd rhesymeg glir dros y cynnig, nac ychwaith wybodaeth ariannol lawn am hyfywedd gwahanol ddewisiadau iaith yn yr ysgol.	Paratowyd y ddogfennaeth ymgynghori yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion. Mae hyn yn cynnwys ystyried nifer o opsiynau gwahanol, sy'n cynnwys gwahanol opsiynau iaith.
3.9.10.5	Does dim digon o wybodaeth wedi cael ei rhannu gyda rhanddeiliaid - Rydych chi'n gofyn i randdeiliaid roi barn ar syniad heb rannu sut y bydd y syniad hwnnw'n digwydd. Byddwn ond yn darganfod beth yn union fydd yn digwydd ar ôl i'r penderfyniad gael ei wneud.	Fel uchod.
3.9.10.6	Nid yw plant ag anghenion addysgol arbennig wedi cael eu hystyried yn fanwl iawn yn y broses ymgynghori.	Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol wedi cael eu hystyried fel rhan o'r dogfennau ymgynghori, a'r asesiadau effaith a gynhaliwyd.  Bydd yr asesiadau effaith yn cael eu diweddarau i adlewyrchu'r adborth a gafwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori, a byddant yn cael eu hystyried gan y Cabinet wrth benderfynu a ddylid bwrw ymlaen ai peidio.
3.9.10.7	Mae newid iaith yr ysgol i gyfrwng Cymraeg tra bod ysgolion cyfrwng Cymraeg eraill yn agos nad ydynt â thanysgrifiad llawn yn dystiolaeth bod y Cyngor yn ffafrio addysg Gymraeg dros addysg Saesneg. Mae hyn yn dangos hyrwyddo polisi i eithrio siaradwyr Saesneg.	Mae'r cynnig i newid categori iaith yr ysgol yn adlewyrchu'r dewisiadau sy'n cael eu gwneud ar hyn o bryd gan rieni yn yr ardal - ni ddechreuodd yr un disgybl yn y Dosbarth Derbyn yn ffrwd cyfrwng Saesneg yr ysgol ym mis Medi 2023.  Un o nodau'r cynnig yw darparu mynediad i ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg llawn ar gyfer disgyblion yr ardal. Nid yw hyn ar gael ar hyn o bryd, ond mae darpariaeth uwchradd cyfrwng Saesneg

		<p>llawn eisoes ar gael mewn nifer o ysgolion eraill yn yr ardal.</p> <p>Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai croeso o hyd i ddisgyblion o bob cefndir yn Ysgol Bro Caereinion, gan gynnwys y rhai o gartrefi lle nad oes Cymraeg yn cael ei siarad.</p>
3.9.10.8	Pryd ac os bydd y cynnig yn mynd yn ei flaen, dydw i ddim yn meddwl mai gwaith athrawon yw torri'r newyddion i blant gan y bydd hyn yn cynhyrfu llawer o blant.	Nodwyd y sylw.
3.9.10.9	Gofyn i'r broses gael ei chwblhau cyn gynted â phosibl gan y bydd angen sicrhau bod systemau cymorth priodol ar waith cyn i'r newid ddigwydd.	Nodwyd y sylw.
3.9.10.10	Gofynnir am benderfyniad cyn gynted â phosibl fel y gellir darparu llinell amser glir i roi sicrwydd i rieni sydd eisoes â'u plant yn y system addysg yn ogystal ag i ddarpar rieni a fydd yn gwneud penderfyniadau sylweddol am addysg eu plant dros y misoedd nesaf.	Nodwyd y sylw.
3.9.10.11	Pam gafodd y cyfnod ymgynghori ei ymestyn?	Cafodd y cyfnod ymgynghori ei ymestyn wythnos i alluogi i gyfarfodydd ymgynghori gyda staff a llywodraethwyr gael eu cynnal.
3.9.10.12	Mae'r ysgol eisoes wedi bod trwy broses trawsnewid. Oni does cymal i ddiogelu'r ysgol mewn sefyllfaoedd o'r fath?	Nid oes cymal i atal newidiadau rhag cael eu gwneud i ysgolion sydd wedi bod trwy broses ad-drefnu ysgolion yn ddiweddar.
3.9.10.13	Ai pleidlais yw hi?	Na, nid pleidlais yw'r broses ymgynghori.

### 3.10 Sylwadau ynghylch y ddogfennaeth ymgynghori

#### 3.10.1 Sylwadau cyffredinol ynghylch y ddogfennaeth



3.10.1.1	Mae'r ddogfennaeth yn tueddu o blaid y cyfrwng Cymraeg yn unig.	Paratowyd y ddogfennaeth yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion.
3.10.1.2	Mae'n ymddangos bod y ddogfen gyfan yn wrth-Saesneg ac nid yw lles ac addysg y plant yn y ffrwd Saesneg yn cael eu gwarchod.	Fel uchod. Mae'r effaith ar ddisgyblion yn cael ei ystyried yn y ddogfen.
3.10.1.3	Mae'r ddogfen ymgynghori yn creu mwy o gwestiynau nag y mae wedi'u hateb - dylid mynd i'r afael â'r rhain i gyd a dylid archwilio ymhellach y materion a godwyd.	Nodwyd y sylw. Paratowyd y ddogfennaeth yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion. Codwyd llawer o sylwadau ynghylch y ddogfennaeth yn ystod yr ymgynghoriad, rhestrir ac ymatebir iddynt yn yr adroddiad hwn.
3.10.1.4	Ar ôl darllen yr ymgynghoriad a'i ddogfennau cysylltiedig, nid ydynt yn cynnwys digon o wybodaeth a ffeithiau. Mae'r asesiad effaith yn un ochrog yn llwyr ac nid yw'n dangos yr effeithiau ar y disgyblion a staff cyfrwng Saesneg nag ar y gymuned ehangach.	Paratowyd y ddogfennaeth yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion, ac mae'n ystyried yr effaith ar ddisgyblion, staff a'r gymuned ehangach. Codwyd sylwadau am yr effaith ar ddisgyblion, staff a'r gymuned yn ystod yr ymgynghoriad, rhestrir y rhain ac ymatebir iddynt yn yr adroddiad hwn.
3.10.1.5	Nid yw'r ddogfen wedi gallu rhoi sicrwydd i rieni, darpar rieni, a theuluoedd di-Gymraeg gyda disgyblion yn y ffrwd Gymraeg y bydd manteision y cynnig yn cael eu gwireddu.	Paratowyd y ddogfennaeth yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion.
3.10.1.6	Mae diffyg tryloywder yn y ddogfen a diffyg cyfeirnoddi/tystiolaeth neu ddefnydd o astudiaethau achos i ddangos y manteision a'r hyn a ddisgwylir yn dilyn y trawsnewid.	Fel uchod.
3.10.1.7	Nid oes cyfeiriad at enghreifftiau na defnydd ohonynt yn y ddogfen ymgynghori. Credaf fod Bro Myrddin wedi mynd trwy broses debyg, ond nid oes sôn am hyn i ddangos dealltwriaeth o'r broses sydd ei hangen i sicrhau llwyddiant, a'r manteision y gellir eu disgwyl.	Fel uchod.
3.10.1.8	Nid yw'r ddogfen yn tynnu digon o sylw at y rhaglen cymorth/trochi, gydag enghreifftiau o ba mor llwyddiannus y gall fod.	Nodwyd y sylw. Darperir rhywfaint o wybodaeth am y ddarpariaeth drochi arfaethedig yn y ddogfen, ond cydnabyddir y gellid datblygu hyn ymhellach.

3.10.1.9	A yw'r Cyngor wedi cynnal Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb? Os na, pam na gynhaliwyd un a phryd y bydd hwn yn digwydd?	Paratowyd a chyhoeddwyd aseiad o'r effaith ar gydraddoldeb drafft fel rhan o'r ddogfen ymgynghori. Bydd hwn yn cael ei ddiweddarau i adlewyrchu'r adborth a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori, a bydd y Cabinet yn ystyried fersiwn wedi'i diweddarau wrth benderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r cynnig ai peidio.
3.10.1.10	Nid yw'r cynnig yn ystyried yn ddigonol yr effaith ar gymuned Tregynon.	Ni fyddai'r cynnig yn newid y ddarpariaeth yn Nhregynon. Mae rhanddeiliaid yn Nhregynon wedi cael cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad.
3.10.1.11	Nid yw'r awdurdod lleol wedi ystyried yr effaith ar ddisgyblion sydd eisiau astudio trwy gyfrwng y Saesneg yn llawn.	<p>Mae'r effaith ar ddisgyblion sy'n dymuno astudio trwy gyfrwng y Saesneg yn cael ei ystyried yn y Ddogfen Ymgynghori, sy'n nodi 'Byddai angen i ddisgyblion sydd ar hyn o bryd yn mynychu darpariaeth cyfrwng Saesneg...ym mlwyddyn 5 neu is naill ai drosglwyddo i ysgol arall i gael mynediad i ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Saesneg, neu byddai angen iddynt drosglwyddo i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg cyn iddynt gyrraedd y cyfnod uwchradd'.</p> <p>Nod y Cyngor yw y byddai disgyblion sy'n cael mynediad i ddarpariaeth gynradd cyfrwng Saesneg yn y dalgylch yn parhau i fynychu Ysgol Bro Caereinion, fodd bynnag cydnabyddir y gallai rhai disgyblion ddewis mynychu darpariaeth cyfrwng Saesneg mewn ysgolion eraill. Er y gallai hyn olygu teithio ychwanegol i ddisgyblion y mae Ysgol Bro Caereinion yn ddarparwr agosaf iddynt ar hyn o bryd, mae'r teithio ychwanegol fyddai ei angen yn unol â'r pellter y mae disgyblion yn ei deithio i gael mynediad i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.</p>

		<p>Mae'r Cyngor yn fodlon bod yr addysg yn y darparwyr cyfrwng Saesneg eraill yn yr ardal o leiaf yn cyfateb efo'r ddarpariaeth cyfrwng Saesneg a ddarperir yn Ysgol Bro Caereinion ar hyn o bryd; fel y nodir yn y ddogfen ymgynghori, 'Barn y Cyngor yw y byddai disgyblion a fyddai'n trosglwyddo i'r ysgolion hyn i gael mynediad i ddarpariaeth cyfrwng Saesneg yn parhau i dderbyn addysg o ansawdd cyfatebol i'r hyn a ddarperir yn Ysgol Bro Caereinion.'</p> <p>Derbyniwyd nifer o sylwadau yn mynegi pryder a, yr effaith ar ddisgyblion sydd ar hyn o bryd yn cael mynediad i ddarpariaeth cyfrwng Saesneg yn Ysgol Bro Caereinion yn ystod yr ymgynghoriad, rhestrir ac ymatebir i'r rhain yn adran 2.1 y ddogfen hon.</p>
3.10.1.12	Nid yw'r cynigydd yn rhoi gwybodaeth digon clir am sut y bydd yn lliniaru'r holl anfanteision a gafodd eu hadnabod.	Mae'r Cyngor wedi cynnwys adran ar risgiau'r cynnig yn y Ddogfen Ymgynghori ac wedi darparu gweithredoedd lliniaru.
3.10.1.13	Nid yw'r adran ar arweinyddiaeth a rheolaeth yn canolbwyntio'n ddigon da ar goblygiadau'r cynnig ar arweinwyr yn yr ysgol, neu ar gynlluniau i oresgyn heriau, er enghraifft recriwtio a phenodi arweinwyr sy'n siarad Cymraeg yn y dyfodol.	<p>Mae'r Ddogfen Ymgynghori'n nodi y byddai'r cynnig yn cael effaith positif ar arweinyddiaeth a rheolaeth yn Ysgol Bro Caereinion, ac yn y tymor hirach, 'byddai gweithredu fel ysgol un ffrwd yn galluogi'r ysgol i weithredu'n fwy effeithlon, gan ybyddai gan arweinwyr a rheolwyr fwy o amser i ganolbwyntio ar ddatblygu darpariaeth effeithiol ar draws yr ysgol.'</p> <p>Fodd bynnag, cydnabyddir bod y broses ymgynghori diweddar wedi bod yn heriol i arweinwyr yr ysgol, ac y gallai gweithredu'r cynnig bod yn heriol i arweinwyr yr ysgol yn ystod y cyfnod o drawsnewid.</p>

		<p>Codwyd nifer o bryderon yn ymwneud â recriwtio staff sy'n siarad Cymraeg yn ystod y cyfnod ymgynghori, fodd bynnag nid oedd y rhain yn ymwneud yn benodol â gallu'r ysgol i benodi arweinwyr sy'n siarad Cymraeg. Mae'r sylwadau wedi'u hymateb iddynt eisoes yn yr adroddiad hwn, er enghraifft yn adran 2.4.2.</p>
3.10.1.14	<p>Nid yw'n ddigon clir pa gymorth ychwanegol fyddai ar gael i ddisgyblion ag ADY i'w galluogi i fynychu addysg trwy gyfrwng y Gymraeg, er enghraifft os byddant yn cael trafferth i ddysgu'r iaith, ac a fyddai unrhyw gymorth ychwanegol y mae'r disgyblion hyn yn cael mynediad iddo yn cael ei effeithio gan y newidiadau.</p>	<p>Fel y nodir yn y Ddogfen Ymgynghori:</p> <p>'efallai y bydd effaith negyddol ar ddisgyblion ag ADY sydd o deuluoedd lle mae ychydig iawn o Gymraeg yn cael ei siarad, neu lle na siaredir Cymraeg. Byddai hyn yn gofyn i'r ysgol ddarparu lefel uwch o gefnogaeth i'r disgyblion hyn er mwyn cwrdd â'u hanghenion. Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, ni fyddai'r ysgol yn newid i fod yn ysgol cyfrwng Cymraeg dros nos. Byddai gyfnod o drawsnewid i ddisgyblion ag AAA/ADY sydd eisoes yn yr ysgol.'</p> <p>Byddai'r cymorth i'w ddarparu yn dibynnu ar anghenion a sefyllfa disgyblion unigol.</p> <p>Derbyniwyd nifer o bryderon am yr effaith ar ddisgyblion, yn enwedig y rheiny ag ADY, yn ystod y cyfnod ymgynghori. Bydd y Cyngor yn ystyried yr effaith ar ddisgyblion a fyddai'n cael eu heffeithio gan y cynigion, gan eu bod yn mynychu darpariaeth cyfrwng Saesneg yn y dalgylch ar hyn o bryd, wrth benderfynu i symud ymlaen efo'r cynigion ai peidio.</p>

### 3.10.2 Sylwadau / ymholiadau ynghylch rhannau penodol o'r ddogfennaeth

3.10.2.1	Rwy'n gwybod am ddau deulu sy'n bwriadu symud allan o'r ardal oherwydd y newidiadau hyn. Mae angen ychwanegu hyn at yr adran 'risgiau'.	Mae'r adran 'risgiau' eisoes yn cynnwys risg nad yw 'Rhieni eisiau i'w plant fynychu ysgol Gymraeg, felly maent yn dewis eu symud i ysgolion eraill', a fyddai'n cynnwys y sefyllfa a ddisgrifir yma.
3.10.2.2	Adran 12 – tanamcangyfrifir y risgiau ac nid yw'r camau lliniaru a ddisgrifir yn ddigon cadarn.	Nodwyd y sylw. Y risgiau sydd wedi'u cynnwys yn y ddogfen yw'r rhai a nodwyd gan y Cyngor cyn dechrau'r broses bresennol. Mae'r holl risgiau yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.
3.10.2.3	Pryderon am y gwendidau a nodwyd yn Cryfderau , Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau (SWOT) mewn cysylltiad ag opsiwn 1.	Cynhaliwyd asesiadau SWOT yn seiliedig ar farn y Cyngor ar y cynnig, ac maent yn adlewyrchu barn trawstoriad o weithwyr proffesiynol o bob rhan o'r Cyngor, e.e. Gwella Ysgolion, Cyllid, Trawsnewid Addysg.
3.10.2.4	Dywed y ddogfen ymgynghori:- "Pan sefydlwyd Ysgol Bro Caereinion, gwnaed ymrwymiad i symud yr ysgol ar hyd y continwrm iaith yn y dyfodol.." Nid oeddwn yn ymwybodol o hyn. Pe bawn i, ni fyddai fy mhlentyn wedi dechrau ym Mro Caereinion.	Nodwyd y sylw.
3.10.2.5	Mae'r ddogfen ymgynghori yn nodi "Mae'r ysgol wedi cydnabod hyn, ac yn ddiweddar mae wedi cysylltu â'r Cyngor i ofyn am ystyried categori iaith yr ysgol yn y dyfodol". Ydy hyn yn gywir? Mae ffynonellau yn yr ysgol wedi anghytuno â hyn.	Mae hyn yn gywir. Fodd bynnag, cynigiwyd y manylion ynghylch y cynnig a'r dyddiadau gweithredu arfaethedig gan y Cyngor ar ôl cynnal ymarfer arfarnu opsiynau.
3.10.2.6	Mae'r ddogfen ymgynghori yn dweud na fydd y newid yn effeithio ar y plant sydd yn y cyfnod uwchradd yn Ysgol Bro Caereinion ar hyn o bryd, fodd bynnag nid yw hyn yn wir - mae disgyblion ym mlwyddyn 11 eisoes yn bwriadu trosglwyddo i Golegau'r Amwythig yn hytrach nag aros ym Mro Caereinion.	Nodwyd y sylw.
3.10.2.7	Mae tudalen 14 yn datgan 'Mae'r diffyg darpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg ddynodedig yn yr ardal wedi cael effaith nodedig ar niferoedd disgyblion sy'n trosglwyddo	Mae llawer o resymau pam mae rhieni'n gwneud dewisiadau mewn cysylltiad â darpariaeth uwchradd ar

	<p>i ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg yn ystod y blynyddoedd diwethaf.' A ellid darparu'r data am y rhesymau pam nad yw rhieni'n eu hanfon i'r ddarpariaeth Gymraeg bresennol yn Ysgol Bro Caereinion i gefnogi'r sylw hwn?</p>	<p>gyfer eu plant ac nid yw'r Cyngor yn gofyn i rieni pam eu bod wedi gwneud y dewisiadau sydd ganddynt.</p> <p>Yn y gorffennol, trosglwyddodd bron pob disgybl o Ysgol Dafydd Llwyd i Ysgol Uwchradd Caereinion i gael mynediad at ddarpariaeth uwchradd. Fodd bynnag, mae hyn wedi newid yn sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae'r mater hwn wedi cael ei drafod gydag Ysgol Dafydd Llwyd ar sawl achlysur dros y blynyddoedd, mae hyn wedi cynnwys trafodaethau gyda chorff llywodraethol a phennaeth yr ysgol. Er bod y rhesymau a nodwyd yn y trafodaethau hyn yn amrywiol, roedd diffyg llwybr clir drwy addysg Gymraeg yn bryder cyson.</p> <p>Mae pryderon tebyg ynglŷn â'r diffyg dilyniant trwy addysg Gymraeg wedi'u codi mewn sgysiau gyda chorff llywodraethol a phennaeth Ysgol Gymraeg Y Trallwng.</p>
3.10.2.8	<p>Mae pwynt 3.4 yn y ddogfen ymgynghori yn nodi 'Mae'r diffyg darpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg dynodedig yn yr ardal wedi cael effaith nodedig ar niferoedd disgyblion sy'n trosglwyddo i ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg yn ystod y blynyddoedd diwethaf'. Ni fu darpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg dynodedig erioed yn yr ardal felly sut y gall fod yna effaith ar niferoedd disgyblion sy'n trosglwyddo i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg? Fodd bynnag, mae darpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg wedi bod ar gael erioed drwy ysgolion dwy ffrwd fel Ysgol Bro Caereinion, Ysgol Llanfyllin ac Ysgol Uwchradd Llanidloes. Os bu gostyngiad yn nifer y disgyblion cyfrwng Cymraeg mewn addysg uwchradd yn ystod y blynyddoedd diwethaf fel</p>	<p>Fel y nodwyd yn 'Gweledigaeth y Cyngor ar gyfer cynyddu nifer y dysgwyr cwbl ddwyieithog ym Mhowys' a gymeradwywyd gan y Cabinet ym mis Rhagfyr 2020:</p> <p><i>'Ar adeg pan fo addysg ddwyieithog/Cymraeg wedi tyfu ledled Cymru ac yn aml mae'n sector arddangos ar gyfer siroedd eraill, mae Powys wedi bod yn llonydd, ac mewn rhai dangosyddion allweddol mae'r awdurdod lleol wedi bod yn mynd yn ôl... Mae gan Bowys ganran lai o'i phlant yn dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg na chanran y siaradwyr Cymraeg yn y boblogaeth ehangach. Y gred yw mai dyma'r unig awdurdod yng Nghymru lle mae hyn yn wir.'</i></p>

	<p>mae'r ddogfen ymgynghori yn ei nodi, rhaid bod hynny oherwydd bod llai o alw am addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg. Mae'r cyflenwad yno, nid yw'r galw. Lle arall fyddai rhieni yn anfon eu plant os ydyn nhw eisiau i'w plant ddysgu drwy'r cyfrwng Cymraeg? Nid ydynt yn mynd i'w hanfon i ysgol cyfrwng Saesneg ddynodedig. Ni fyddai busnes yn creu cynnyrch nad oes galw amdano.</p>	<p>Un o'r gwahaniaethau sylweddol rhwng y ddarpariaeth Gymraeg ym Mhowys a'r ddarpariaeth mewn mannau eraill yng Nghymru yw nad oes mynediad i ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg llawn. Mae tystiolaeth o fannau eraill yng Nghymru yn cefnogi'r farn bod sefydlu darpariaeth cyfrwng Cymraeg fel arfer yn arwain at gynnydd yn nifer y disgyblion.</p>
3.10.2.9	<p>Mae tudalen 14 yn nodi 'Er yn hanesyddol, mae'r ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg yn Llanfair Caereinion wedi gwasanaethu dalgylch eang, gan gynnwys trefi'r Drenewydd a'r Trallwng yn ogystal â dalgylch traddodiadol Llanfair Caereinion, mae cyfran y disgyblion o Ysgol Dafydd Llwyd yn y Drenewydd ac Ysgol Gymraeg Y Trallwng yn Y Trallwng sy'n trosglwyddo i ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg yn Llanfair Caereinion wedi bod yn gymharol isel yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gyda disgyblion yn dewis trosglwyddo i ysgolion eraill, neu'n dewis trosglwyddo i ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Saesneg.' Os gwelwch yn dda a ellid darparu manylion ynghylch sut mae Cyngor Sir Powys yn bwriadu sicrhau y bydd y disgyblion hyn y soniwyd amdanynt yn dewis Ysgol Bro Caereinion ac nid ysgolion dwy ffrwd eraill neu'n trosglwyddo i gyfrwng Saesneg.</p>	<p>Os bydd y Cyngor yn bwrw ymlaen â gweithredu'r cynnig, bydd angen i'r ysgol weithio gydag ysgolion bwydo i ddatblygu cysylltiadau i hyrwyddo trawsnewid i Ysgol Bro Caereinion. Yn ogystal, bydd angen sicrhau bod trefniadau eraill ar waith i hyrwyddo Ysgol Bro Caereinion, fel trefniadau cludiant a buddsoddiad cyfalaf.</p>
3.10.2.10	<p>Ar dudalen 20, mae'n dweud y bydd '<i>mwy o gyfleoedd yn cael eu cynnig drwy gyfrwng y Gymraeg a mwy o ehangder y cwrwicwlwm</i>'. Beth yw ystyr y term 'mwy o gyfleoedd' ? Beth yw'r 'mwy o gyfleoedd' y gellid eu cynnig?</p>	<p>Byddai'r cyfleoedd cyfrwng Cymraeg ychwanegol yn cynnwys gwell defnydd o'r Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Pe bai'r Cyngor yn bwrw ymlaen â gweithredu'r cynnig, y disgwyl yw y byddai'r mwyafrif helaeth o weithgareddau ysgol yn digwydd yn Gymraeg, gan gynnwys cyfarfodydd boreol, cyngherddau, dramâu, teithiau, gweithgareddau</p>

		chwaraeon a chlybiau allgyrsiol eraill, cyfarfodydd ac yn y blaen.
3.10.2.11	Ar dudalen 20 mae'n dweud ' <i>Cyfle i ddenu mwy o ddisgyblion o ysgolion cynradd Cymraeg yn yr ardal</i> '. Hoffwn weld y data sy'n dweud bod disgyblion yn cael eu hannog i beidio â pharhau â'u haddysg yn Gymraeg oherwydd na fu ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg dynodedig. Yn ail, bydd dwy ffrwd yn parhau yn Llanidloes a Llanfyllin, beth fydd yn cael ei wneud i ddenu disgyblion i ffwrdd o'r ysgolion hyn a sicrhau eu bod yn dod i Ysgol Bro Caereinion?	<p>Fel y nodwyd yn 'Gweledigaeth y Cyngor ar gyfer cynyddu nifer y dysgwyr cwbl ddwyieithog ym Mhowys' a gymeradwywyd gan y Cabinet ym mis Rhagfyr 2020:</p> <p><i>'Ar adeg pan fo addysg ddwyieithog/Cymraeg wedi tyfu ledled Cymru ac sy'n aml yn sector arddangos ar gyfer siroedd eraill, mae Powys wedi bod yn llonydd, ac mewn rhai dangosyddion allweddol mae'r awdurdod lleol wedi bod yn mynd am yn ôl... Mae gan Bowys ganran lai o'i phlant yn dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg na chanran y siaradwyr Cymraeg yn y boblogaeth ehangach. Y gred yw mai dyma'r unig awdurdod yng Nghymru lle mae hyn yn wir.'</i></p> <p>Un o'r gwahaniaethau sylweddol rhwng y ddarpariaeth Gymraeg ym Mhowys a'r ddarpariaeth mewn mannau eraill yng Nghymru yw nad oes mynediad i ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg lawn. Mae tystiolaeth o fannau eraill yng Nghymru yn cefnogi'r farn bod sefydlu darpariaeth cyfrwng Cymraeg fel arfer yn arwain at gynnydd yn nifer y disgyblion.</p>
3.10.2.12	Mae tudalen 20 yn dweud <i>Cyfle i ddenu mwy o ddisgyblion o ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yn yr ardal</i> – mae hyn yn hanfodol, ond nid oes unrhyw ddilysiad na chynllun yn gysylltiedig efo'r pwynt. Pa ddisgyblion yden ni'n gobeithio eu denu sydd ddim eisoes yn bwydo i mewn i'r ysgol?	Byddai hyn yn cynnwys sicrhau bod cyfran mor uchel â phosib o'r disgyblion o'r ysgolion sy'n bwydo Ysgol Bro Caereinion ar hyn o bryd yn trosglwyddo i ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg yn yr ysgol, fodd bynnag byddai potensial hefyd y byddai disgyblion mewn ysgolion eraill sydd ar hyn o bryd yn mynychu ysgolion eraill sy'n cynnig darpariaeth gynradd cyfrwng Cymraeg ond sydd ddim yn cael eu cydnabod fel ysgolion sy'n bwydo'r ysgol yn dymuno



		<p>mynychu'r ysgol i gael mynediad i lefel uwch o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Gallai hyn gynnwys ysgolion sydd yn nalgylch Llanidloes ar hyn o bryd ac ysgolion sydd yn nalgylch Llanfyllin ar hyn o bryd.</p>
3.10.2.13	<p>Mae tudalen 20 yn dweud 'Effaith gyfyngedig ar ddisgyblion sy'n cael mynediad i addysg cyfrwng Saesneg yn yr ysgol ar hyn o bryd - byddai'r disgyblion presennol yn gallu parhau i gael mynediad at y ddarpariaeth hon drwy gydol y cyfnod cynradd neu uwchradd, yn dibynnu ar ba grŵp blwyddyn maen nhw ynddo'. Lle mae'n defnyddio'r term 'effaith gyfyngedig', i rai teuluoedd nad ydynt o bosib yn dymuno i'w plentyn newid i addysg cyfrwng Cymraeg, a ystyriwyd effaith y straen, effaith ariannol, logistaidd ac emosiynol yn sgil newid i ysgol uwchradd wahanol, a sut maen nhw'n cael eu cefnogi?</p>	<p>Nodwyd y sylw. Mae pryderon am effaith y cynnig ar ddisgyblion a'u teuluoedd wedi cael sylw mewn manau eraill yn yr adroddiad hwn.</p> <p>Cydnabyddir bod y cynnig i gyflwyno'r newid o Flwyddyn 7 yn ogystal â'r Dosbarth Derbyn wedi arwain at bryder sylweddol yn yr ardal leol, ac wedi achosi pryder i ddisgyblion y gallai'r newid hwn effeithio arnynt ac ar eu teuluoedd.</p> <p>Bydd angen i'r Cyngor ystyried yr adborth a gafwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori wrth benderfynu a ddylid bwrw ymlaen â gweithredu'r cynnig ai peidio.</p> <p>Pe bai'r Cyngor yn penderfynu bwrw ymlaen, byddai angen gweithio gydag Ysgol Bro Caereinion ac ysgolion eraill yn y dalgylch i sicrhau bod disgyblion a'u teuluoedd yn cael eu cefnogi gyda threfniadau trawsnewid, fodd bynnag, byddai hyn yn dibynnu ar amgylchiadau unigol y disgyblion a'u teuluoedd.</p>
3.10.2.14	<p>Mae'r asesiad y bydd 'effaith gyfyngedig' ar ddisgyblion presennol yn dangos diffyg ystyriaeth lwyr o'r straen emosiynol y mae'r ymgynghoriad wedi'i gael arnynt, heb sôn am unrhyw weithredu yn y dyfodol. Pa gefnogaeth fydd yn cael ei chynnig i blant yng ngoleuni hyn?</p>	<p>Fel uchod.</p>
3.10.2.15	<p>Mae tudalen 20 yn dweud 'Byddai'n caniatáu amser i unrhyw ddatblygiad staff a dysgu proffesiynol angenrheidiol ddigwydd i gefnogi'r newid.' Os gwelwch yn dda a ellir</p>	<p>Os gwneir penderfyniad i fwrw ymlaen â gweithredu'r cynnig, byddai'r Cyngor yn gweithio gyda'r ysgol i ddatblygu rhaglen.</p>

	sicrhau bod gwybodaeth glir ac amserlenni ynghylch sut y bydd hyn yn edrych ar gael i staff?	
3.10.2.16	Tudalen 21 – pwy sydd wedi dyfeisio'r rhestrau o fanteision ac anffanteision? Does dim awdur i'r ddogfen. Pa resymeg sydd wedi cael ei defnyddio i gefnogi'r pwyntiau?	Cynhaliwyd asesiadau SWOT yn seiliedig ar farn y Cyngor ar y cynnig, ac maent yn adlewyrchu barn trawstoriad o weithwyr proffesiynol o bob rhan o'r Cyngor, e.e. Gwella Ysgolion, Cyllid, Trawsnewid Addysg.
3.10.2.17	Ar dudalen 21 rydych yn rhestru mantais 'gellid cynnig mwy o gyfleoedd drwy gyfrwng y Gymraeg'. Sut ydych chi'n bwriadu cyflawni hyn gyda diffyg staff penodol?	Does dim rheswm i gredu y byddai 'diffyg staff'. Byddai lefelau staffio yn unol â'r gyllideb a ddyrannwyd i'r ysgol.
3.10.2.18	Tudalen 24 - Bydd darpariaeth Gymraeg yn fwy cynhwysfawr - dim sôn am safon	Mae'r 'effaith ar ansawdd a safonau mewn addysg' yn cael ei ystyried yn adran 17 o'r Ddogfen Ymgynghori.
3.10.2.19	Tudalen 25 - datganiad - disgyblion o ysgolion dwy ffrwd 'efallai' yn dewis YBC - gan ddarparu lefel uwch o addysg cyfrwng Cymraeg - pa dystiolaeth sydd yna y bydd hyn yn digwydd? Pam nad oes enghraifft o astudiaeth achos yn cael ei defnyddio yma?	Defnyddir y gair 'gall' yma i ddangos ei fod yn bosibilrwydd, ond nid yw wedi'i warantu.  Fel y nodwyd yn 'Gweledigaeth y Cyngor ar gyfer cynyddu nifer y dysgwyr cwbl ddwyieithog ym Mhowys' a gymeradwywyd gan y Cabinet ym mis Rhagfyr 2020:  <i>'Ar adeg pan fo addysg ddwyieithog/Cymraeg wedi tyfu ledled Cymru ac sy'n aml yn sector arddangos ar gyfer siroedd eraill, mae Powys wedi bod yn llonydd, ac mewn rhai dangosyddion allweddol mae'r awdurdod lleol wedi bod yn mynd am yn ôl... Mae gan Bowys ganran lai o'i phlant yn dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg na chanran y siaradwyr Cymraeg yn y boblogaeth ehangach. Y gred yw mai dyma'r unig awdurdod yng Nghymru lle mae hyn yn wir.'</i>  Un o'r gwahaniaethau sylweddol rhwng y ddarpariaeth Gymraeg ym Mhowys a'r ddarpariaeth mewn mannau eraill yng Nghymru yw nad oes mynediad i

		ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg lawn. Mae tystiolaeth o fannau eraill yng Nghymru yn cefnogi'r farn bod sefydlu darpariaeth cyfrwng Cymraeg fel arfer yn arwain at gynnydd yn nifer y disgyblion.
3.10.2.20	Mae tudalen 25 yn dweud "Yn ogystal, gall disgyblion a fyddai'n flaenorol wedi dewis mynediad at ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion dwy ffrwd eraill yn yr ardal, fel Ysgol Uwchradd Llanidloes ac Ysgol Llanfyllin, benderfynu dewis mynychu Ysgol Bro Caereinion gan y byddai'n darparu lefel uwch o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg o'i gymharu â darparwyr dwy ffrwd eraill yn yr ardal". Sut fyddai'r disgyblion posibl hyn yn cyrraedd Ysgol Bro Caereinion os nad ydynt o fewn y dalgylch neu'n byw yn nes at un o'r ysgolion dwy ffrwd eraill? Yn ôl Polisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol y Cyngor, ni fyddent yn gallu cael cludiant am ddim i'r ysgol. Os darperir cludiant am ddim, byddai hyn yn wahaniaethol.	Ni fyddai gan ddisgyblion sy'n byw yn nes at Ysgol Uwchradd Llanidloes ac Ysgol Llanfyllin hawl i gludiant i Ysgol Bro Caereinion yn seiliedig ar Bolisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol presennol y Cyngor. Fodd bynnag, pe bai'r Cyngor yn bwrw ymlaen â gweithredu'r cynnig, byddai angen sicrhau bod trefniadau eraill ar waith i alluogi disgyblion i gael mynediad at ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg lawn, a allai ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor adolygu'r Polisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol.
3.10.2.21	Tudalen 25, mae'r datganiad effaith ar staff yn sôn am staff sy'n siarad Saesneg yn unig. Gyda gostyngiad posibl yn nifer y disgyblion, bydd angen i'r ysgol edrych ar ei strwythur staffio. A fydd angen i staff sy'n siarad Cymraeg mewn pynciau lle mae llawer o staff addysgu pwnc arall? A fyddan nhw'n cael eu diswyddo? Sut bydd eu dyraniad addysgu yn cael ei gyflawni?	Pe bai'r Cyngor yn bwrw ymlaen â gweithredu'r cynnig, byddai angen i'r ysgol benderfynu ar drefniadau staffio, ac maent yn debygol o newid wrth i'r cynnig gael ei gyflwyno'n raddol. Er y gallai fod rhywfaint o effaith ar staff sy'n siarad Cymraeg, mae'n rhesymol disgwyl y byddai'r cynnig yn effeithio fwyaf ar y staff nad ydynt yn siarad Cymraeg.
3.10.2.22	Mae pwynt 19(iii) na fydd unrhyw gostau ychwanegol yn gysylltiedig â newid categori iaith yn frawychus.	Nodwyd y sylw. Mae'r arbedion amcangyfrifedig yn seiliedig ar fformiwla ariannu'r Cyngor ar gyfer ysgolion a'r polisi cludiant presennol o'r cartref i'r ysgol. Bydd y sefyllfa'n cael ei hadolygu pe bai'r Cyngor yn bwrw ymlaen â'r cynnig.
3.10.2.23	Pwynt 22(ii) sef nad oes angen unrhyw waith adeiladu ar gyfer y newid arfaethedig – nid yw hyn yn gywir, nid yw'r	Nodir y pryderon am gyflwr adeilad yr ysgol. Gallai'r newid yng nghategori iaith yr ysgol gael ei gynnal o

	<p>ysgol mewn cyflwr da fel y cytunwch yn Atodiad A – Data Allweddol – Cyflwr yr Adeilad. Mae'r ysgol angen sicrhad ysgrifenedig y bydd buddsoddiad yn yr adeilad.</p>	<p>fewn adeiladau presennol yr ysgol, felly mae'r datganiad yn y Ddogfen Ymgynghori sy'n nodi na fyddai 'dim gwaith adeiladu yn angenrheidiol er mwyn gallu bwrw ymlaen â'r cynnig' yn gywir. Fodd bynnag, mae'r Ddogfen Ymgynghori hefyd yn nodi'r canlynol mewn cysylltiad â buddsoddiad cyfalaf fel rhan o 'Raglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu' y Cyngor:</p> <p><i>'Nid yw'r cynlluniau presennol mewn cysylltiad â chategori iaith Ysgol Bro Caereinion yn rhan o Raglen Fuddsoddi Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu yr awdurdod lleol. Fodd bynnag, cydnabyddir yr angen am fuddsoddiad yn adeiladau Ysgol Bro Caereinion, yn enwedig i gefnogi rôl strategol yr ysgol fel darparwr darpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg. Bydd hyn yn cael ei adlewyrchu yn Rhaglen Amlinellol Strategol ddiwygiedig y Cyngor ar gyfer y Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu, a fydd yn cael ei datblygu yn 2023/24.'</i></p>
3.10.2.24	<p>Mae'r ddogfen ymgynghori yn rhestru Ysgol Uwchradd y Trallwng er enghraifft fel yr ysgol uwchradd agosaf 9.9 milltir i ffwrdd. Dylid nodi yma y bydd y pellter hwn yn fwy i lawer gan fod y dalgylch yn ymestyn nifer o filltiroedd o YBC ei hun.</p>	<p>Nodwyd y sylw.</p>
3.10.2.25	<p>Mae'r ymgynghoriad yn dweud bod cryfder y cyfrwng Cymraeg wedi cael ei gydnabod drwy gydol y cynnig, ym mha ddarpariaeth? Canlyniadau arholiadau? Nifer y disgyblion? Sut mae'n cael ei gydnabod yn gryfach? Os ydych chi'n seilio hyn ar niferoedd sut ydych chi'n ystyried 35 yn gryf? Ac os ydych chi'n seilio hyn ar ganlyniadau arholiadau yna beth yn union ydych chi'n ei wneud i wella'r</p>	<p>Mae 'cryfder y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn yr ysgol' yn seiliedig ar ddarpariaeth pwnc, ethos a nifer y disgyblion yn yr ysgol o'i gymharu â darparwyr eraill darpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg yng Ngogledd Ddwyrain Powys. Nid yw'n gymhariaeth rhwng y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a Saesneg yn yr ysgol.</p>

	cyfrwng Saesneg a chefnogi'r dysgwyr hynny i wella'r canlyniadau sy'n sail i'w dyfodol? Os ydych chi'n credu bod y cyfrwng Saesneg yn wannach, yna sut ydych chi'n bwriadu gwella nid yn unig lefel yr addysgu ond i annog yr athrawon hyn, y byddwn i'n tybio eich bod chi am eu cadw, i ddysgu digon o Gymraeg i allu dysgu eu pwnc yn hyderus er mwyn i'w dysgwyr ennill gradd uwch?	
3.10.2.26	Mae tudalen 40 yn datgan- effaith gyfyngedig ar y gymuned - mae hyn yn danamcangyfrif sylweddol.	Mae asesiad y Cyngor yn seiliedig ar y ffaith y byddai addysg gynradd ac uwchradd yn parhau i fod ar gael yn Llanfair Caereinion. Paratowyd a chyhoeddwyd asesiad effaith drafft fel rhan o'r ddogfen ymgynghori, bydd hwn yn cael ei ddiweddarau i adlewyrchu'r adborth a gafwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori a bydd y Cabinet yn ystyried fersiwn wedi'i diweddarau wrth benderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r cynnig ai peidio.
3.10.2.27	Adran 17 - Pam nad yw'r arfer gorau eisoes yn cael ei ddefnyddio/ei rannu?	Y disgwyl yw ei fod eisoes yn cael ei rannu, ond byddai gweithredu'r cynnig yn gyfle i ddatblygu hyn ymhellach ar draws yr ysgol gan y byddai'r holl staff yn addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.
3.10.2.28	Datganiad - tystiolaeth o safonau a chynnydd gwell - pa dystiolaeth/data sydd yna ar gyfer hyn?	Tîm o weithwyr proffesiynol gan gynnwys gwella ysgolion ac ati mewn ymateb i gais cod trefniadaeth yr ysgol i awdurdodau ystyried 'effaith debygol y cynnig'.
3.10.2.29	Ni nodir unrhyw gostau cylchol ychwanegol - beth am y gefnogaeth i deuluoedd/myfyrwyr a Trochi? Dim costau ychwanegol - beth am y buddsoddiad sydd ei angen mewn cyfleusterau o ystyried addasrwydd a chyflwr yr ysgol a nodir yn y ddogfen.	Nodwyd y sylw. Mae'r arbedion amcangyfrifedig yn seiliedig ar fformiwla ariannu'r Cyngor ar gyfer ysgolion a'r polisi cludiant o'r cartref i'r ysgol presennol. Y disgwyl yw y byddai trochi yn cael ei ariannu gan grant, felly ni fyddai'n gost i'r Cyngor, ond cydnabyddir y gallai fod costau eraill yn gysylltiedig â gweithredu'r cynnig. Bydd y sefyllfa'n cael ei hadolygu pe bai'r Cyngor yn bwrw ymlaen â'r cynnig.
3.10.2.30	Tudalen 34 - 'bu nifer o alwadau am y ddarpariaeth hon' - o ble/gan bwy? A ddaw gan y rhai sydd eisoes yn mynychu	Mae hyn wedi dod o nifer o lefydd, gan gynnwys unigolion yn ardal Llanfair Caereinion ac mewn

	YBC, neu ddisgyblion nad ydynt yn YBC y gellid eu denu yn ogystal?'	mannau eraill yn nalgyloch presennol yr ysgol, ysgolion bwydo a sefydliadau Cymraeg eraill sy'n gweithio yn yr ardal.
3.10.2.31	Defnyddir 'rhagweld' yng nghyd-destun cynnydd mewn ystod o gyrsiau a gynigir yn y cynnig hwn, nid yw hyn yn tawelu meddwl darpar riant - pam na ellir modelu hyn ochr yn ochr â chyllideb i sicrhau tryloywder.	Byddai'r ystod o gyrsiau a gynigir yn fater i'r ysgol, a byddai'n dibynnu ar nifer y disgyblion a'r gyllideb ar y pryd. Fodd bynnag, fel y nodwyd yn y Ddogfen Ymgynghori, 'ni fyddai angen i'r ysgol ddyblygu'r ddarpariaeth mwyach, a ddylai gael effaith gadarnhaol ar y cwricwlwm y gellid ei ddarparu...'
3.10.2.32	Effaith ar ddisgyblion - rydych chi'n dweud 'i ddisgyblion sy'n cael mynediad at ddarpariaeth uwchradd yn Ysgol Bro Caereinion ar hyn o bryd, ni fyddai unrhyw newid - bydden nhw'n parhau i dderbyn yr un ddarpariaeth drwy gydol eu hamser yn yr ysgol'. Sut y gellir gwarantu hyn os bydd staff yn dewis gadael?	Byddai'r disgyblion yn parhau i gael mynediad i'r un ddarpariaeth o ran iaith y ddarpariaeth. Pe bai staff yn dewis gadael yn ystod y cyfnod trawsnewid, byddai angen i'r ysgol wneud trefniadau i ddarparu darpariaeth briodol i ddysgwyr yn ystod y cyfnod trawsnewid.
3.10.2.33	Sut bydd gweithredu fel ysgol un iaith yn galluogi'r ysgol i wella'r broses o olrhain a monitro disgyblion drwy gydol eu gyrfa ysgol?	Byddai cael un continwwm iaith yn caniatáu i'r ysgol ganolbwyntio ar gynnydd pob disgybl drwy'r iaith honno ym mhob pwnc. Mewn ysgol dwy ffrwd byddai'r ysgol wedi gorfod gweithredu systemau olrhain i fonitro cynnydd drwy'r ddwy iaith.
3.10.2.34	Rydych yn rhestru ymgysylltiad â rhieni fel rhan allweddol o'r broses ymgynghori. Lle mae hyn wedi digwydd?	Rhestrir 'ymgysylltiad â rhieni drwy gydol y broses' fel camau lliniaru i fynd i'r afael â'r risg nad yw 'rhieni eisiau i'w plant fynychu ysgol cyfrwng Cymraeg, felly maent yn dewis eu symud i ysgol arall'. Mae'r ymgysylltiad â rhieni wedi cynnwys y broses ymgynghori, a phe bai'r Cyngor yn bwrw ymlaen â'r broses, byddai'n parhau drwy'r Cyfnod Gwrthwynebu, a byddai'n parhau drwy gydol y cyfnod trawsnewid.

### 3.10.3 Sylwadau/ymholiadau ynghylch ddata

3.10.3.1	<p>Os gwelwch yn dda a allwch chi rannu'r dadansoddiad manwl o nifer y disgyblion a ragwelir a ddarperir yn y ddogfen ymgynghori?</p>	<p>Mae'r niferoedd disgyblion a ragwelir ar gyfer disgyblion oed cynradd yn seiliedig ar ddata geni byw sy'n gysylltiedig â chod post a chyfraddau goroesi hanesyddol ar gyfer ysgolion unigol.</p> <p>Mae'r niferoedd disgyblion a ragwelir ar gyfer disgyblion oed uwchradd yn seiliedig ar ddisgyblion ar y gofrestr yn ysgolion Powys eisoes, gan ddefnyddio canran trosglwyddo ar gyfer disgyblion yn symud o flwyddyn 6 flwyddyn 7, sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer rhagamcanion y dyfodol.</p> <p>Cydnabyddir mai 'rhagamcanion' yw'r ffigurau hyn, felly bydd eu cywirdeb yn amrywio. Yn gyffredinol, mae cywirdeb y model taflunio uwchradd wedi bod yn dda iawn, gyda'r rhan fwyaf os nad rhagolygon pob ysgol o fewn +/- 5% o niferoedd gwirioneddol ar y gofrestr yn rheolaidd. Mae cywirdeb ar lefel gynradd yn fwy amrywiol, ac yn llai dibynadwy ar gyfer ysgolion neu ysgolion cyfrwng Cymraeg sydd wedi'u lleoli'n agos at ei gilydd.</p>
3.10.3.2	<p>Mae'r data allweddol sy'n ymwneud â niferoedd disgyblion (wedi'u rannu yn ôl cyfrwng) sy'n mynychu Ysgol Bro Caereinion ar hyn o bryd (a ddangosir ar dudalen 5 y ddogfen ymgynghori) am flwyddyn yn unig. Does dim gwahaniaeth enfawr yn nifer y dysgwyr Cymraeg a Saesneg yn enwedig yn y cyfnod uwchradd - gwahaniaeth o 11 disgybl! Rwy'n deall mai cyfrwng Cymraeg yn unig yw llawer o'r ysgolion bwydo, ond fel y soniwyd uchod, os yw rhieni'n pryderu am addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg i'w plentyn, byddant naill ai'n newid neu'n gosod eu plentyn mewn ysgol gynradd cyfrwng Saesneg neu ysgol uwchradd. Yn syml, ni</p>	<p>Nodir y sylwadau am niferoedd presennol disgyblion Ysgol Bro Caereinion. Mae'r wybodaeth am niferoedd disgyblion yng ngweddill dalgylch Ysgol Bro Caereinion a ddarparwyd ar dudalen 13 y ddogfen ymgynghori yn dangos bod gwahaniaeth sylweddol rhwng niferoedd disgyblion cyfrwng Cymraeg a Saesneg yn y cyfnod cynradd; mae 566 o ddisgyblion yn cael mynediad i ddarpariaeth gynradd cyfrwng Cymraeg yn nalgylch Bro Caereinion, a 105 o ddisgyblion yn cael mynediad i ddarpariaeth gynradd cyfrwng Saesneg. Er ei fod yn cydnabod ei bod yn bosibl y byddai rhai disgyblion sy'n</p>

	allwch seilio'ch amcanestyniadau ar nifer y plant cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion cynradd.	cael mynediad at ddarpariaeth gynradd cyfrwng Cymraeg yn parhau i wneud hynny yn y cyfnod uwchradd, nod y Cyngor yw bod pob disgybl sy'n cael mynediad at ddarpariaeth gynradd cyfrwng Cymraeg yn parhau i wneud hynny.
3.10.3.3	Nid yw'r data'n dangos unrhyw dueddiadau mewn cysylltiad â chynnydd neu ostyngiad yn nifer y dysgwyr cyfrwng Cymraeg neu Saesneg. Siawns na fyddai angen cynnydd <u>sylweddol</u> yn nifer y disgyblion ffrwd Gymraeg i gyfiawnhau'r hyn rydych chi'n ei gynnig. Sut gall Ysgol Bro Caereinion gyfiawnhau aros ar agor gyda hanner nifer y disgyblion? Ar hyn o bryd dim ond 292 o ddysgwyr cyfrwng Cymraeg sydd yn Ysgol Bro Caereinion. O ble'r ydych chi'n credu y bydd cynnydd yn y niferoedd yn dod pe bai'r cynnig yn mynd yn ei flaen o gofio'r trosiant gyda dechreuwyr a rhai sy'n gadael? Byddai llawer o ddisgyblion o'r ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg lleol wedi mynychu Ysgol Bro Caereinion beth bynnag (ac os nad ydynt, mae'n rhaid i chi gwestiynu pam). Felly, o ran cynnydd, nid oes unrhyw enillion sylweddol i'w gwneud yma.	Dydy'r Cyngor ddim yn cynnig y byddai Ysgol Bro Caereinion yn 'aros ar agor gyda hanner nifer y disgyblion'. Y cynnig yw gweithredu'r newid yn raddol, felly byddai disgyblion presennol yn parhau i allu mynychu'r ysgol, o leiaf tan ddiwedd y cyfnod cynradd neu uwchradd.
3.10.3.4	Mae'n ymddangos bod y ffigurau yn y ddogfen ymgynghori yn tybio y bydd pob plentyn oedran ysgol gynradd Gymraeg yn parhau â'u haddysg uwchradd drwy gyfrwng y Gymraeg yn Ysgol Bro Caereinion. Faint o blant sydd wedi newid ffrydiau o'r Gymraeg i'r Saesneg yn hanesyddol (ac i'r gwrthwyneb) yn ystod y cyfnod trawsnewid i'r ysgol uwchradd?	Mae gwybodaeth am gyfran y disgyblion a addysgir yn y Gymraeg ym Mlwyddyn 6 yn ystod 2020-21 ac sy'n parhau i gael eu haddysgu yn y Gymraeg ym Mlwyddyn 7 yn ystod 2021-22 wedi'i chynnwys yn WESP y Cyngor ar gyfer 2022-32. Mae hyn yn dangos, rhwng blwyddyn academaidd 2020/21 a blwyddyn academaidd 2021/22, bod 83% o ddisgyblion wedi parhau i gael addysg cyfrwng Cymraeg yn y cyfnod uwchradd.  Ni chasglwyd gwybodaeth ar gyfer disgyblion ym mlwyddyn 6 yn 2021-22, ond yn 2022-23, cafodd 228 o ddisgyblion eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ym



		<p>mlwyddyn 6, a pharhaodd 191 o'r rhain i gael mynediad i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ym mlwyddyn 7 yn 2023-24.</p> <p>Mae'r Cyngor yn cydnabod yn llawn bod llawer o resymau pam fod disgyblion a'u rhieni yn gwneud y dewisiadau y maent yn eu gwneud o ran dewis pa ysgol uwchradd i drosglwyddo iddi, ac weithiau gall disgyblion sydd wedi cael mynediad at ddarpariaeth gynradd cyfrwng Cymraeg ddewis cael mynediad at ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Saesneg. Mae WESP y Cyngor yn gosod targed y bydd 92% o ddisgyblion sy'n defnyddio darpariaeth cyfrwng Cymraeg ym mlwyddyn 6 ym Mhowys erbyn 2027 yn parhau i gael mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ym mlwyddyn 7.</p>
--	--	--

### 3.10.4 Sylwadau ynghylch y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

3.10.4.1	Pam y mae'r cwestiynau yn yr arolwg yn canolbwyntio ar effaith niweidiol ar y Gymraeg yn hytrach na gofyn am yr effaith ar y ffrwd Gymraeg?	Y cwestiynau sy'n ymwneud ag effaith niweidiol ar y Gymraeg yw'r cwestiynau y mae'n ofynnol i'r Cyngor eu gofyn i fodloni gofynion Safonau'r Gymraeg.
3.10.4.2	Mae rhai o'r cwestiynau yn yr holiadur yn cael eu geirio yn flêr ac yn anodd eu hateb.	Mae llawer o'r cwestiynau a gynhwysir yn yr holiadur yn ymwneud â gofynion Safonau'r Gymraeg. Mae'r geiriad yn adlewyrchu'r geiriad yn y Safonau.
3.10.4.3	Mae angen i chi ddarparu ffurflen fwy hygyrch – byddai ffurflen le neu Na syml er mwyn i rieni gytuno neu anghytuno â'r newidiadau gyda chyfle i ychwanegu eu pwyntiau yn llawer gwell.	Nodwyd y sylw, fodd bynnag, mae llawer o'r cwestiynau a gynhwysir yn yr holiadur yn ymwneud â gofynion Safonau'r Gymraeg. Roedd rhanddeiliaid hefyd yn gallu ymateb i'r ymgynghoriad yn ysgrifenedig drwy e-bost neu lythyr.
3.10.4.4	Mae'r ffurflen bresennol yn rhy gymhleth ac yn peri i bobl beidio â'i llenwi.	Fel uchod.

3.10.4.5	Sylwadau am eiriad y cwestiynau yn yr holiadur.	Fel uchod.
----------	---	------------

### 3.11 Ceisiadau am wybodaeth ychwanegol

3.11.1	Yn y 5 mlynedd diwethaf faint o blant sydd wedi dechrau eu haddysg gynradd yn Gymraeg ond wedi symud i'r ffrwd Saesneg yn Ysgol Rhiw Bechan a chyfnodau cynradd ac uwchradd Ysgol Bro Caereinion?	Ni fyddai gan y Cyngor fynediad i'r data hwn - byddai unrhyw symudiad rhwng ffrydiau yn cael ei drin o fewn yr ysgolion.
3.11.2	Sut ydych chi'n bwriadu denu mwy o ddisgyblion i'r ysgol?	Os bydd y Cyngor yn bwrw ymlaen â gweithredu'r cynnig, bydd angen i'r ysgol weithio gydag ysgolion bwydo i ddatblygu cysylltiadau i hyrwyddo trawsnewid i Ysgol Bro Caereinion. Yn ogystal, bydd angen sicrhau bod trefniadau eraill ar waith i hyrwyddo Ysgol Bro Caereinion, fel trefniadau cludiant a buddsoddiad cyfalaf.
3.11.3	Beth yw'r cynlluniau ar gyfer addysg ôl-16 ym Mhowys? A fydd Cyngor Sir Powys yn dilyn model Ceredigion a gyhoeddwyd yn ddiweddar?	Mae'r Cyngor wedi datblygu model newydd ar gyfer ôl-16 ym Mhowys - Chweched Powys - sydd wedi bod ar waith ers 2 flynedd. Mae hwn yn fodel cydweithredol, lle mae ysgolion yn cynllunio ac yn rhannu darpariaeth, gyda disgyblion yn gallu teithio i ysgolion eraill i astudio pynciau nad ydynt ar gael yn eu hysgol eu hunain. Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn adolygu effeithiolrwydd y model hwn, a bydd canlyniad yr adolygiad yn hysbys yn ddiweddarach eleni.
3.11.4	Pe bai'r ysgol yn newid i gyfrwng Cymraeg a fyddai'n ddiogel rhag cael ei chau, hyd yn oed os yw'r niferoedd yn gostwng?	Mae disgwyl i'r Cyngor ddarparu mynediad i ddarpariaeth Gymraeg gynhwysfawr. Pe bai'r Cyngor yn bwrw ymlaen â'r cynnig i newid categori iaith yr ysgol, yr ysgol fyddai'r unig ddarparwr uwchradd cyfrwng Cymraeg yng Ngogledd Ddwyrain Powys. Byddai'n anodd cyfiawnhau cau'r ysgol oni bai fod ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg arall y gallai disgyblion ei defnyddio yn lle hon.

3.11.5	A wnaed ymchwil i weld faint o rieni fyddai'n parhau ag addysg Gymraeg eu plentyn i'r ysgol uwchradd?	Ni wnaed unrhyw ymchwil i weld faint o rieni fyddai'n parhau ag addysg Gymraeg eu plentyn i'r ysgol uwchradd.
3.11.6	Mae angen arddangos canlyniadau ysgolion eraill sydd wedi bod drwy hyn. Mae pobl angen ffeithiau a ffigurau mewn du a gwyn i brofi iddyn nhw y gall gael effaith gadarnhaol ar addysg eu plant.	Nodwyd y sylw.
3.11.7	Yn y 5 mlynedd diwethaf, faint o ddisgyblion cyfrwng Saesneg yn nalgylch Caereinion sydd wedi ymuno â'r Urdd ac wedi cynrychioli eu hysgolion mewn cystadlaethau?	Does gan y Cyngor ddim mynediad at wybodaeth am faint o ddisgyblion sydd wedi ymuno â'r Urdd.
3.11.8	Pa welliannau mewn arweinyddiaeth a rheolaeth sydd wedi'u cynllunio o ganlyniad i'r cynnig hwn?	Byddai trefniadau arwain a rheoli yn yr ysgol yn fater i'r Pennaeth a'r Corff Llywodraethu, gyda chefnogaeth y Cyngor drwy'r tîm Gwella Ysgolion.
3.11.9	A fydd disgyblion cyfrwng Saesneg yn cael cludiant ysgol am ddim i'w hysgol cyfrwng Saesneg agosaf (gan ddechrau gyda disgyblion yn y Dosbarth Derbyn a Blwyddyn 7 o 2025)?	<p>Fel y nodwyd yn y Ddogfen Ymgynghori a gyhoeddwyd mewn cysylltiad â'r cynnig hwn:</p> <p><i>'Mae Polisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol y Cyngor yn nodi, os yw disgyblion yn gymwys i gael cludiant o'r cartref i'r ysgol am ddim, y bydd y Cyngor yn darparu hyn i'w hysgol agosaf neu eu hysgol ddalgylch. Os yw disgyblion yn byw yn agosach at Ysgol Bro Caereinion ond yn dewis ysgolion eraill, yna ni fyddant yn gallu cael mynediad at gludiant am ddim i'r ysgol a byddai angen iddynt wneud eu trefniadau cludiant eu hunain.'</i></p> <p>Yn seiliedig ar y polisi hwn, ni fyddai cludiant ar gael i ddisgyblion sy'n dymuno cael mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Saesneg arall yn hytrach na chael mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Bro Caereinion.</p>

		Fodd bynnag, cydnabyddir bod y trefniadau cludiant arfaethedig mewn cysylltiad â'r cynnig hwn, a'r diffyg cludiant i ddarpariaeth cyfrwng Saesneg arall, wedi achosi pryder yn y gymuned leol. Bydd angen i'r Cyngor ystyried hyn wrth benderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'i weithredu ai peidio.
3.11.10	Faint o waith dadansoddi sydd wedi'i wneud o'r disgyblion yr effeithir arnynt ar hyn o bryd o ran lle y byddent yn dewis anfon eu plant i weld a oes modd darparu ar gyfer hyn?	Nid oes unrhyw ddadansoddiad wedi'i wneud, oherwydd dim ond yn ymgynghori ar y cynnig i newid categori iaith yr ysgol y mae'r Cyngor ar hyn o bryd.
3.11.11	Pa dystiolaeth sydd yna y bydd plant sy'n ceisio addysg Gymraeg yn teithio ar gyfer mynychu ysgol addysg Gymraeg yn unig o'i chymharu ag ysgol dwy ffrwd? Rwy'n gobeithio y bydd tystiolaeth i gefnogi hyn, yn hytrach na rhagdybiaeth.	<p>Fel y nodwyd yn 'Gweledigaeth y Cyngor ar gyfer cynyddu nifer y dysgwyr cwbl ddwyieithog ym Mhowys' a gymeradwywyd gan y Cabinet ym mis Rhagfyr 2020:</p> <p><i>'Ar adeg pan fo addysg ddwyieithog/Cymraeg wedi tyfu ledled Cymru ac sydd yn aml yn sector arddangos ar gyfer siroedd eraill, mae Powys wedi bod yn llonydd, ac mewn rhai dangosyddion allweddol mae'r awdurdod lleol wedi bod yn mynd am yn ôl... Mae gan Bowys ganran lai o'i phlant yn dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg na chanran y siaradwyr Cymraeg yn y boblogaeth ehangach. Y gred yw mai dyma'r unig awdurdod yng Nghymru lle mae hyn yn wir.'</i></p> <p>Un o'r gwahaniaethau sylweddol rhwng y ddarpariaeth Gymraeg ym Mhowys a'r ddarpariaeth mewn mannau eraill yng Nghymru yw nad oes mynediad i ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg lawn. Mae tystiolaeth o fannau eraill yng Nghymru yn cefnogi'r farn fod sefydlu darpariaeth cyfrwng Cymraeg fel arfer yn arwain at gynnydd yn nifer y disgyblion.</p>

### 3.12 Sylwadau/ymholiadau eraill

3.12.1	Lle bydd disgyblion Ysgol Dyffryn Trannon yn mynd? Mae Bro Hyddgen a Chaereinion ill dau yn rhy bell.	Byddai disgyblion Ysgol Dyffryn Trannon yn gallu gwneud cais am le mewn unrhyw ysgol y maen nhw'n ei dewis, a allai gynnwys Ysgol Bro Hyddgen neu Ysgol Bro Caereinion, ond cydnabyddir y byddai hyn yn bellter sylweddol i rai disgyblion, yn dibynnu ar ble maen nhw'n byw. Fel arall, gallent barhau i fynychu'r ffrwd Gymraeg yn Ysgol Uwchradd Llanidloes. Pe bai'r Cyngor yn bwrw ymlaen â'r cynnig i newid categori iaith Ysgol Bro Caereinion, mae'n annhebygol y byddai digon o ddisgyblion i gefnogi sefydlu rhagor o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg i wasanaethu disgyblion Ysgol Dyffryn Trannon.
3.12.2	A fydd y Cyngor yn darparu cludiant i ddisgyblion Trefeglwys sydd wedi derbyn addysg Gymraeg i'w galluogi i deithio i Ysgol Bro Caereinion? Mae ysgol categori cyfrwng Cymraeg yn wahanol i ysgol categori dwyieithog.	Byddai cludiant i ddisgyblion Trefeglwys yn cael ei ddarparu yn unol â Pholisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol y Cyngor. Nid yw'r polisi hwn ar hyn o bryd yn gwahaniaethu rhwng darpariaeth dwy ffrwd a darpariaeth cyfrwng Cymraeg ddynodedig, felly byddai cludiant i ddisgyblion Trefeglwys yn cael ei ddarparu ar hyn o bryd i'r ffrwd Gymraeg yn Ysgol Uwchradd Llanidloes.  Ond mae'r Cyngor yn cydnabod bod gwahaniaeth rhwng y ddarpariaeth mewn ysgol cyfrwng Cymraeg ac ysgol dwy ffrwd. Bydd angen ystyried hyn pe bai'r Cyngor yn bwrw ymlaen â gweithredu'r cynnig hwn, er mwyn sicrhau bod disgyblion sydd eisiau mynediad at ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg lawn yn gallu gwneud hynny.
3.12.3	Mae angen darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer disgyblion ag ADY - mae teuluoedd wedi gorfod symud am nad oes darpariaeth ADY arbenigol cyfrwng Cymraeg yn y sir.	Mae'r Cyngor yn nodi'r pryderon hyn ynghylch mynediad at gymorth a darpariaeth ar gyfer disgyblion ADY cyfrwng Cymraeg ym Mhowys.

3.12.4	Ar hyn o bryd mae diffyg cefnogaeth a darpariaeth lwyr ar gyfer disgyblion ADY cyfrwng Cymraeg yn y sir, yn y sectorau prif ffrwd ac arbenigol, sy'n enghraifft glir o anghydraddoldeb.	Fel uchod.
3.12.5	Mae mynediad i addysg Gymraeg yn cael ei gyfyngu ar hyn o bryd oherwydd diffyg darpariaeth cyfrwng Cymraeg, arbenigedd o fewn ysgolion prif ffrwd a diffyg hyfforddiant a chefnogaeth cyfrwng Cymraeg i staff.	Mae'r Cyngor yn gwbl ymwybodol o'r pryderon hyn sy'n ymwneud â mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mae Strategaeth y Cyngor ar gyfer Trawsnewid Addysg a'i Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn cynnwys camau a fyddai'n gwella mynediad i addysg Gymraeg ledled Powys, ac a fyddai'n mynd i'r afael â'r pryderon hyn.
3.12.6	O ystyried y capasiti sydd ar gael yn Ysgol Bro Caereinion, a ellir rhoi sicrwydd nad oes cynlluniau i gau ysgolion bwydo cynradd Cymraeg i gynyddu nifer y disgyblion 4-11 oed yn Ysgol Bro Caereinion?	Nid oes gan y Cyngor unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i wneud newidiadau i unrhyw un o ysgolion bwydo Ysgol Bro Caereinion, ond mae dyletswydd ar y Cyngor i adolygu ei seilwaith ysgolion yn rheolaidd. Pe bai unrhyw newidiadau'n cael eu cynnig, byddai angen i'r Cyngor ymgymryd â'r broses statudol er mwyn eu gweithredu, a fyddai'n rhoi cyfle i'r holl randdeiliaid roi gwybod i'r Cyngor beth yw eu barn.
3.12.7	Mae gan Gyngor Sir Powys gyfrifoldeb i sefydlu coleg chweched dosbarth ym Mhowys fel y gall myfyrwyr barhau â'u haddysg ym Mhowys yn hytrach na chroesi'r ffin i'r Amwythig.	Mae'r Cyngor yn cydnabod y pryderon hyn am ddarpariaeth ôl-16. Mae Strategaeth y Cyngor ar gyfer Trawsnewid Addysg ym Mhowys yn cynnwys nifer o fesurau i wella'r ddarpariaeth ôl-16, sy'n cael eu gweithredu ar hyn o bryd. Ar hyn o bryd does dim cynlluniau i sefydlu coleg chweched dosbarth ym Mhowys.
3.12.8	A fydd unrhyw newidiadau i addysg cyn-ysgol ym Mhowys? Ar hyn o bryd nid yw ysgolion Powys yn derbyn plant cyn-ysgol.	Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw gynlluniau i newid yr oed derbyn i ysgolion Powys.
3.12.9	Mae angen ffyrdd creadigol i gael staff sy'n siarad Cymraeg i Bowys er enghraifft tyfu ein staff ein hunain, bwrsariaethau	Nodwyd y sylw.

	ar gyfer disgyblion chweched dosbarth i'w cefnogi trwy'r brifysgol gyda chymal eu bod yn hyfforddi ac yn dychwelyd.	
3.12.10	A fyddai disgwyl i ddisgyblion siarad Cymraeg yn ystod amser egwyl ayb?	Anogir yr holl ddisgyblion sy'n cael mynediad i addysg Gymraeg i siarad Cymraeg y tu allan i'r dosbarth, yn cynnwys yn ystod amser egwyl ac wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol.
3.12.11	A fyddai gwisg ysgol newydd?	Mae'n anhebygol y byddai gwisg ysgol newydd, gan y byddai Ysgol Bro Caereinion yn parhau i weithredu fel Ysgol Bro Caereinion, fodd bynnag byddai unrhyw newidiadau i'r wisg ysgol yn fater i'r corff llywodraethol.